# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 12/03/2013

Cynnwys Contents

Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Canfod Twyll a Gorfodi) (Cymru)
Council Tax Reduction Schemes (Detection of Fraud and Enforcement) (Wales) Regulations

Datganiad: Adroddiad Guilford ar y Trefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2014-2020
Statement: The Guilford Report on the Arrangements for Implementation of the European Programmes 2014-2020

Datganiad: Rhagor o Brentisiaethau yng Nghymru
Statement: More Apprenticeships in Wales

Datganiad: Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd i Gymru
Statement: Vibrant and Viable Places: A New Regeneration Framework for Wales

Datganiad: Adroddiad Diweddaru ar Hwyluso'r Drefn—Ehangu Busnes y Fferm
Statement: The Working Smarter Update Report—Growing the Farm Business

Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013
Official Statistics (Wales) Order 2013

Ansawdd yn GIG Cymru—Sicrhau Dysgu o Adroddiad Francis
Quality in NHS Wales—Ensuring Learning from the Francis Report

Cynfod Pleidleisio
Voting time

Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013
Official Statistics (Wales) Order 2013

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The National Assembly for Wales is now in session.

Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

# Datganiad gan y Llywydd

# Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Before we move to questions to the First Minister, Members may be aware that yesterday was Commonwealth Day. The theme of Her Majesty the Queen's address to the Commonwealth this year is 'Opportunity through Enterprise'. As is our convention, Her Majesty's address will be published as part of today's Record of Proceedings.

Cyn i ni symud at gwestiynau i'r Prif Weinidog, efallai y bydd yr Aelodau'n ymwybodol mai ddoe oedd Diwrnod y Gymanwlad. Thema anerchiad Ei Mawrhydi'r Frenhines i'r Gymanwlad eleni yw 'Cyfle trwy Fenter'. Yn ôl ein harfer, bydd anerchiad Ei Mawrhydi yn cael ei gyhoeddi fel rhan o Gofnod y Trafodion heddiw.

*Gellir gweld neges y Frenhines drwy ddilyn y linc hon:*

*The Queen's message can be accessed by following this link:*

Neges Ei Mawrhydi Y Frenhines ar Ddiwrnod y Gymanwlad.

Her Majesty The Queen's Commonwealth Day message.

# Cwestiynau i'r Prif Weinidog

# Questions to the First Minister

### Cleifion Canser

### Cancer Patients

13:30 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*1. Pa gynnydd a wnaed yn ddiweddar o ran trin cleifion canser yng Nghymru. OAQ(4)0962(FM)*

*1. What recent progress has been made in the treatment of cancer patients in Wales. OAQ(4)0962(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The first all-Wales annual report for cancer, which was published last December, sets out the good progress that we have made towards achieving the objectives of the cancer delivery plan.

Mae adroddiad blynyddol cyntaf Cymru gyfan ar ganser, a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf, yn nodi'r cynnydd da yr ydym wedi'i wneud tuag at gyflawni amcanion y cynllun cyflawni canser.

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the First Minister for that response. As well as your Government's welcome announcement yesterday about the £4.6 million that is going to Velindre hospital in my constituency to develop stereotactic radiotherapy, which is a wonderful step forward, there is also a need for cancer patients to have help and support to guide them through the treatment that they have to receive. Therefore, could the First Minister tell us what progress has been made to ensure that every cancer patient in Wales has a key worker?

Diolch i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. Yn ogystal â chyhoeddiad eich Llywodraeth ddoe am y £4.6 miliwn sy'n mynd i Ysbyty Felindre yn fy etholaeth i ar gyfer datblygu radiotherapi stereotactig, sy'n gam gwych ymlaen, mae hefyd angen i gleifion canser i gael cymorth a chefnogaeth i'w tywys drwy'r driniaeth y mae'n rhaid iddyn nhw ei chael. Felly, a allai'r Prif Weinidog ddweud wrthym am y cynnydd sydd wedi ei wneud i sicrhau bod gan bob claf canser yng Nghymru weithiwr allweddol?

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This year, we will be conducting the first all-Wales cancer patient experience survey. That survey will include specific questions on patients' experiences of key workers. Furthermore, that survey will be used to drive improvements in cancer services, ensuring that the individual is at the centre of cancer service delivery. The cancer implementation group will also use this work, and it will be working with the Minister for Health and Social Services to progress the issue of key workers.

Byddwn yn cynnal yr arolwg profiad cleifion canser Cymru gyfan cyntaf eleni. Bydd yr arolwg hwnnw'n cynnwys cwestiynau penodol am brofiadau cleifion o weithwyr allweddol. Hefyd, bydd yr arolwg hwnnw'n cael ei ddefnyddio i sbarduno gwelliannau i wasanaethau canser, gan sicrhau bod yr unigolyn yn ganolog i'r ddarpariaeth o wasanaethau canser. Bydd y grŵp gweithredu ar ganser yn defnyddio'r gwaith hwn hefyd, a bydd yn gweithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fwrw ymlaen â'r mater o weithwyr allweddol.

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

I, too, want to welcome yesterday's announcement regarding the stereotactic radiotherapy machine at Velindre hospital. That is good news. However, what will you do to ensure that people in north Wales also have access to similar treatment? Furthermore, is it a matter of regret to you, First Minister, that there are still 20-odd drugs that are more available over the border in England than in Wales, because of access to, and availability of, a cancer drugs fund?

Rwyf innau hefyd yn awyddus i groesawu cyhoeddiad ddoe am y peiriant radiotherapi stereotactig yn ysbyty Felindre. Mae hynny'n newyddion da. Fodd bynnag, beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod gan bobl yng ngogledd Cymru fynediad at driniaeth debyg hefyd? Hefyd, a yw'n fater o edifeirwch i chi, Brif Weinidog, bod tua 20 o gyffuriau sy'n parhau i fod ar gael yn rhwyddach dros y ffin yn Lloegr nag yng Nghymru, oherwydd mynediad at y gronfa cyffuriau canser a'r ffaith ei bod ar gael?

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I do not accept that. As many of the drugs to which he refers are of limited efficacy, if we had a cancer drugs fund in Wales, the money would not be there for this stereotactic radiation facility, which will be of great use to many people. We want to ensure, of course, that people have access to the appropriate services in all parts of Wales; that will mean that people in some parts of north Wales will access services in England, and that, for others, the service will be available in Cardiff.

Nid wyf yn derbyn hynny. Gan fod effeithiolrwydd llawer o'r cyffuriau y mae'n cyfeirio atynt yn gyfyngedig, pe bai gennym gronfa cyffuriau canser yng Nghymru, ni fyddai'r arian ar gael ar gyfer y cyfleuster ymbelydredd stereotactig hwn, a fydd o ddefnydd pwysig i lawer o bobl. Rydym eisiau sicrhau, wrth gwrs, bod gan bobl fynediad at y gwasanaethau priodol ym mhob rhan o Gymru; bydd hynny'n golygu y bydd pobl mewn rhai rhannau o ogledd Cymru yn defnyddio gwasanaethau yn Lloegr ac, i eraill, y bydd y gwasanaeth ar gael yng Nghaerdydd.

Senedd.tv Fideo Video

**Mwg Ail-law** | **Second-hand Smoke**

13:33 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf ar gynnydd cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiogelu plant rhag y risg o fwg ail-law. OAQ(4)0955(FM)*

*2. Will the First Minister provide an update on the progress of Welsh Government initiatives to protect children from the risk of second-hand smoke. OAQ(4)0955(FM)*

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Fresh Start Wales campaign is raising awareness of the associated dangers of smoking in cars. Furthermore, local authorities across Wales are introducing smoke-free playgrounds, under the guidance that has been provided by the tobacco control delivery plan.

Mae ymgyrch Cychwyn Iach Cymru yn codi ymwybyddiaeth o beryglon sy'n gysylltiedig ag ysmygu mewn ceir. Hefyd, mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn cyflwyno meysydd chwarae di-fwg, yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd gan y cynllun cyflawni ar reoli tybaco.

13:33 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Wales can be proud of its lead in banning smoking from public places. However, as we all know, the uptake of smoking among young people, as well as childhood exposure to second-hand smoke, particularly in cars, is still very much a worry. The Fresh Start Wales campaign aims to raise awareness. However, First Minister, how are we monitoring its effectiveness, and will we still be able to look upon legislation as an option if not enough results from it?

Diolch yn fawr. Gall Cymru fod yn falch o'i harweiniad o ran gwahardd ysmygu o fannau cyhoeddus. Fodd bynnag, fel y mae pob un ohonom yn gwybod, mae'r nifer sy'n ysmygu ymhlith pobl ifanc, yn ogystal â dod i gysylltiad â mwg ail-law yn ystod plentyndod, yn enwedig mewn ceir, yn dal i beri pryder mawr. Nod ymgyrch Cychwyn Iach Cymru yw codi ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, Brif Weinidog, sut ydym ni'n monitro ei effeithiolrwydd, ac a fyddwn yn dal i allu ystyried deddfwriaeth fel opsiwn os nad oes digon yn digwydd o ganlyniad iddo?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, we will. The 2010 health behaviour in school-aged children report provided us with information at that stage. That survey will be repeated in the autumn of 2013, when a sample of 9,000 pupils, from 80 secondary schools, will be asked to complete a self-reporting questionnaire. That data will be reported in the summer of 2014. We have also commissioned questions in the Beaufort Research omnibus survey, which will be conducted on the basis of face-to-face interviews, and this evidence will inform us as to whether there will be a need to introduce legislation.

Byddwn wir. Rhoddodd adroddiad ymddygiad iechyd mewn plant oedran ysgol 2010 wybodaeth i ni ar yr adeg honno. Bydd yr arolwg hwnnw'n cael ei ail-gynnal yn ystod hydref 2013, pan ofynnir i sampl o 9,000 o ddisgyblion, o 80 o ysgolion uwchradd, gwblhau holiadur hunan-adrodd. Bydd y data yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2014. Rydym hefyd wedi comisiynu cwestiynau yn arolwg omnibws Beaufort Research, a fydd yn cael ei gynnal ar sail cyfweliadau wyneb yn wyneb, a bydd y dystiolaeth hon yn rhoi gwybod i ni a fydd angen cyflwyno deddfwriaeth.

13:34 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The SmokeBugs! scheme, which raises awareness about smoking among eight to 11-year-olds in Wales, has been earmarked for disinvestment as part of the Public Health Wales health improvement review. First Minister, what do you intend to put in place of this in order to target this crucial age group on the dangers of tobacco and to reduce the risk of young people becoming addicted to smoking?

Mae cynllun BygiauBaco!, sy'n codi ymwybyddiaeth o ysmygu ymhlith plant wyth i 11 oed yng Nghymru, wedi cael ei glustnodi ar gyfer dadfuddsoddiad yn rhan o adolygiad gwella iechyd y cyhoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Brif Weinidog, beth ydych chi'n bwriadu ei roi ar waith yn ei le, i dargedu'r grŵp oedran hollbwysig hwn o ran peryglon tybaco ac i leihau'r perygl y bydd pobl ifanc yn mynd yn gaeth i ysmygu?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We will be using the tobacco control delivery plan to reinforce the message to young children. One of the ways of doing that is to ensure that we see more smoke-free playgrounds where young children are to be found.

Byddwn yn defnyddio'r cynllun cyflawni ar reoli tybaco i atgyfnerthu'r neges i blant ifanc. Un o'r ffyrdd o wneud hynny yw sicrhau ein bod yn gweld mwy o feysydd chwarae di-fwg lle mae plant ifanc yn treulio'u hamser.

13:35 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You said recently that if there is no significant reduction in smoking in cars with children present, you would consider a legislative ban. Will you explain to us how you are currently measuring the level of smoking in cars with young children present?

Nodwyd gennych yn ddiweddar os na fydd gostyngiad sylweddol i ysmygu mewn ceir pan fo plant yn bresennol, y byddech yn ystyried gwaharddiad deddfwriaethol. A wnewch chi esbonio i ni sut yr ydych yn mesur y lefel o ysmygu mewn ceir pan fo plant ifanc yn bresennol ar hyn o bryd?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As I said in my earlier answer, we are using the health behaviour in school-aged children survey. That survey will be repeated in the autumn of 2013. As part of that survey, we will be able to examine the levels of exposure to second-hand smoke in cars, and that information will help us to make a final decision as to whether or not legislation is needed.

Fel y dywedais yn fy ateb cynharach, rydym yn defnyddio'r arolwg ymddygiad iechyd mewn plant oedran ysgol. Bydd yr arolwg hwnnw'n cael ei ail-gynnal yn ystod hydref 2013. Yn rhan o'r arolwg hwnnw, byddwn yn gallu archwilio lefelau dod i gysylltiad â mwg ail-law mewn ceir, a bydd y wybodaeth honno'n ein helpu i wneud penderfyniad terfynol o ran a oes angen deddfwriaeth ai peidio.

13:35 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You have referred to smoke-free playgrounds, which is so important in sending out the right message to children that smoking is not an acceptable thing to take up and that it puts their health at risk. Will you join me in congratulating those councils that have already taken this forward and encourage other councils to do so as well?

Rydych wedi cyfeirio at feysydd chwarae di-fwg, sydd mor bwysig i anfon y neges gywir i blant nad yw ysmygu yn rhywbeth derbyniol i ddechrau ei wneud a'i fod yn peryglu eu hiechyd. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y cynghorau hynny sydd wedi mynd i'r afael â hyn eisoes ac annog cynghorau eraill i wneud hynny hefyd?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes I will, of course. It is exceptionally important that this good example is rolled out across Wales, and I congratulate those councils who have already taken steps to introduce smoke-free public playgrounds.

Gwnaf, wrth gwrs. Mae'n eithriadol o bwysig bod yr enghraifft dda hon yn cael ei chyflwyno ledled Cymru, ac rwy'n llongyfarch y cynghorau hynny sydd eisoes wedi cymryd camau i gyflwyno meysydd chwarae cyhoeddus di-fwg.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:36 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. At Christmas time, the Government shambolically brought forward the council tax benefit proposals that it laid before us. Can the First Minister tell us how his Government has engaged with local government to inform council tax payers how those regulations will affect them?

Diolch i chi, Lywydd. Ar adeg y Nadolig, daeth y Llywodraeth â chynigion budd-dal y dreth gyngor a gyflwynwyd ganddi ger ein bron, mewn ffordd hynod anhrefnus. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym sut mae ei Lywodraeth wedi ymgysylltu â llywodraeth leol i hysbysu talwyr y dreth gyngor sut y bydd y rheoliadau hynny'n effeithio arnynt?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is a matter for councils to inform their own council tax payers, but, as a result of the delay that was experienced in Whitehall, we had to bring forward regulations at a time not of our choosing. What is important, however, is that when it comes to council tax benefit, people in Wales will be protected.

Mater i gynghorau yw hysbysu eu talwyr y dreth gyngor eu hunain, ond, o ganlyniad i'r oedi yn Whitehall, bu'n rhaid i ni gyflwyno rheoliadau ar adeg na ddewiswyd gennym ni. Yr hyn sy'n bwysig, fodd bynnag, yw y bydd pobl yng Nghymru yn cael eu diogelu pan ddaw hi'n fater o ystyried budd-dal y dreth gyngor.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Only after considerable pressure from these benches did the Government agree to protect council tax payers in Wales. [Laughter.] We have found—[Interruption.]

Dim ond ar ôl pwysau sylweddol o'r meinciau hyn y cytunodd y Llywodraeth i ddiogelu talwyr y dreth gyngor yng Nghymru. [Chwerthin.] Rydym wedi darganfod—[Torri ar draws.]

13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have found that in excess of 100,000 households were written to by local authorities across the whole of Wales, informing them that because you could not get the regulations right in the first place, they would be liable for council tax. No subsequent notices have gone out informing those 100,000 households in Wales of your change of heart after the considerable pressure that was put on your Government. Do you think that is acceptable? In your own council area for example, 15,000 households are still under the impression that they will be paying council tax. Is that acceptable?

Rydym wedi darganfod yr ysgrifennwyd at dros 100,000 o aelwydydd gan awdurdodau lleol ledled Cymru gyfan, yn eu hysbysu y byddent yn atebol am y dreth gyngor gan na allwch chi gael y rheoliadau'n gywir yn y lle cyntaf. Ni anfonwyd unrhyw hysbysiadau dilynol i hysbysu'r 100,000 o gartrefi hynny eich bod wedi newid eich meddwl ar ôl y pwysau sylweddol a roddwyd ar eich Llywodraeth. A ydych chi'n credu bod hynny'n dderbyniol? Yn ardal eich cyngor eich hun, er enghraifft, mae 15,000 o aelwydydd yn dal i fod dan yr argraff y byddant yn talu'r dreth gyngor. A yw hynny'n dderbyniol?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Where does he get that 15,000 from? That is what I would like to know. It is not often that a question here causes heckling from a number of benches, and I welcome it for now. The suggestion that this is somehow a Tory plan will find many of us laughing considerably. We know that what has happened in England is complete chaos. Each local authority is being left to its own devices, and we know that, under his party in England, we will see council tax benefits being slashed for many people. It will not happen in Wales.

O ble mae e'n cael y 15,000 yna? Dyna beth yr hoffwn i ei wybod. Nid yn aml y mae cwestiwn yma'n arwain at heclo o nifer o feinciau, ac rwy'n ei groesawu am y tro. Bydd yr awgrym bod hwn rywsut yn gynllun Toriaidd yn achosi i lawer ohonom ni chwerthin yn uchel. Rydym ni'n gwybod bod yr hyn sydd wedi digwydd yn Lloegr yn anhrefn llwyr. Mae pob awdurdod lleol yn cael ei adael i'w ben a'i bastwn ei hun, ac rydym yn gwybod y byddwn yn gweld budd-daliadau'r dreth gyngor yn cael eu torri i lawer o bobl o dan ei blaid ef yn Lloegr. Ni fydd hyn yn digwydd yng Nghymru.

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can tell you exactly where I get the figure from, First Minister, because we submitted freedom of information requests to every council in Wales. In your own area, which you obviously do not realise, 15,800 households were written to by your local authority. In Cardiff, 37,790 households were written to. Across the whole of Wales, huge expenditure was incurred by local authorities—north, south, east and west—because your Minister for local government could not get it right. Is it not a sad indictment of the lack of delivery on behalf of your Government that rate payers have had to pick up this bill? Will you make sure that your Minister for local government works with his colleagues in local government to make sure that the information is presented to council tax payers so that they are not under any false pretence? It is only by the pressure that we brought to bear that you were dragged kicking and screaming. [Laughter.]

Gallaf ddweud wrthych yn union o ble rwy'n cael y ffigur, Brif Weinidog, gan ein bod wedi gwneud ceisiadau rhyddid gwybodaeth i bob cyngor yng Nghymru. Yn eich ardal eich hun, ac mae'n amlwg nad ydych yn sylweddoli hyn, ysgrifennodd eich awdurdod lleol at 15,800 o aelwydydd. Yng Nghaerdydd, ysgrifennwyd at 37,790 o aelwydydd. Ledled Cymru gyfan, gwariwyd symiau enfawr gan awdurdodau lleol—yn y gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin—gan na allai eich Gweinidog llywodraeth wneud pethau'n iawn. Onid yw'n adlewyrchiad trist o ddiffyg cyflawniad eich Llywodraeth fod talwyr ardrethi wedi gorfod talu'r bil hwn? A wnewch chi sicrhau bod eich Gweinidog llywodraeth leol yn gweithio gyda'i gydweithwyr mewn llywodraeth leol i wneud yn siŵr y cyflwynir y wybodaeth i dalwyr y dreth gyngor fel nad ydynt yn cael eu camarwain? Dim ond oherwydd y pwysau i ni ei roi arnoch y cawsoch eich llusgo er eiich gwaethaf. [Chwerthin.]

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There speaks the great defender of benefits. It is unbelievable, is it not, to listen to what he said? I wonder sometimes whether he is living in the contemporary world. He used the phrase 'rate payers' for a start—that phrase has not been used for many years. The council tax has been in place now for many years; I can inform him of that. I wonder sometimes whether his party does nothing else other than submit FOI requests. There does not seem to be much other work being done as far he is concerned. The reality of the situation is that it is no thanks to him or his party, but thanks to a Welsh Labour Government that people in Wales will receive the council tax benefits that they deserve. That was done, I acknowledge, with the support of others, despite the opposition in reality of his party.

Dyna lais amddiffynnwr mawr budd-daliadau. Onid yw'n anghredadwy i wrando ar yr hyn a ddywedodd? Tybiaf weithiau a yw'n byw yn y byd cyfoes. Defnyddiodd yr ymadrodd 'talwyr ardrethi' i gychwyn— ni ddefnyddiwyd yr ymadrodd yna ers blynyddoedd lawer. Mae'r dreth gyngor wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer bellach; gallaf ei hysbysu am hynny. Rwy'n meddwl weithiau a yw ei blaid yn gwneud unrhyw beth ar wahân i gyflwyno ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Nid yw'n ymddangos bod llawer o waith arall yn cael ei wneud cyn belled ag y mae ef yn y cwestiwn. Gwirionedd y sefyllfa yw nad nid iddo ef na'i blaid y mae'r diolch am y ffaith y bydd pobl yng Nghymru yn derbyn budd-daliadau'r dreth gyngor y maent yn ei haeddu, ond i Lywodraeth Lafur Cymru. Gwnaethpwyd hynny, rwy'n cydnabod, gyda chefnogaeth pobl eraill, er gwaethaf gwrthwynebiad ei blaid mewn gwirionedd.

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Galwaf ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

That is the same Labour Government that was defending a cut to the council tax benefit before Christmas, of course. First Minister, Labour shadow Cabinet member, Helen Goodman MP, yesterday, told Newsnet Scotland that the bedroom tax should apply only if people have been offered a smaller place to live in and turned it down. Ms Goodman was housing benefits Minister in the last Labour Westminster Government. Does this mean that the next Labour Westminster Government would keep the bedroom tax or at least some form of it?

Hon yw'r un Llywodraeth Lafur a oedd yn amddiffyn toriad i fudd-dal y dreth gyngor cyn y Nadolig, wrth gwrs. Brif Weinidog, dywedodd yr aelod o Gabinet yr wrthblaid Lafur, Helen Goodman AS, wrth Newsnet Scotland ddoe y dylai'r dreth ystafell wely fod yn berthnasol dim ond os yw pobl wedi cael cynnig lle llai i fyw ynddo ac wedi ei wrthod. Ms Goodman oedd y Gweinidog dros fudd-daliadau tai yn Llywodraeth Lafur ddiwethaf San Steffan. A yw hyn yn golygu y byddai Llywodraeth Lafur nesaf San Steffan yn cadw'r dreth ystafell wely neu ryw ffurf arni o leiaf?

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am not responsible for what happens at Westminster. That is a question that is wholly irrelevant to the Welsh Government.

Nid wyf i'n gyfrifol am yr hyn sy'n digwydd yn San Steffan. Mae hwn yn gwestiwn sy'n gwbl amherthnasol i Lywodraeth Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

No. Your problem is that you are not responsible for what happens at Westminster or for what a future Labour Government will do there. Many of us will remember, for example, that it was the last Labour Government that introduced the despised work capability assessments that are now run by Atos. First Minister, the universal credit pilot scheme in Torfaen has shown a sevenfold increase in arrears during the seven-month pilot scheme, which means that the universal credit will, undoubtedly, lead to increased poverty and growing homelessness. The Scottish Government has announced a £5.4 million fund to assist citizens advice bureaux and a £2.5 million fund to help social landlords mitigate the effects of social security reform. First Minister, what are you doing?

Na. Eich problem chi yw mai nad chi sy'n gyfrifol am yr hyn sy'n digwydd yn San Steffan nac am yr hyn y bydd Llywodraeth Lafur yn ei wneud yno yn y dyfodol. Bydd llawer ohonom yn cofio, er enghraifft, mai'r Llywodraeth Lafur ddiwethaf gyflwynodd yr asesiadau gallu i weithio dirmygus sy'n cael eu rhedeg gan Atos bellach. Brif Weinidog, mae'r cynllun peilot credyd cynhwysol yn Nhorfaen wedi dangos cynnydd seithplyg i ôl-ddyledion yn ystod y cynllun peilot saith mis, sy'n golygu y bydd y credyd cynhwysol, yn ddiamau, yn arwain at fwy o dlodi a digartrefedd cynyddol. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi cronfa o £5.4 miliwn i gynorthwyo canolfannau cyngor ar bopeth a chronfa o £ 2.5 miliwn i helpu landlordiaid cymdeithasol i liniaru effeithiau diwygio nawdd cymdeithasol. Brif Weinidog, beth ydych chi'n ei wneud?

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are assisting the citizens advice bureaux. We also assisted councils financially, for example, by providing advice to people who might lose out on council tax benefits. These are things that we see as important. She is right to point out that there has been a sevenfold increase in rent arrears in Torfaen. That shows, of course, that the current proposals do not work. She and I are very much on the same page in that regard.

Rydym yn cynorthwyo'r canolfannau cyngor ar bopeth. Rydym hefyd wedi cynorthwyo'r cynghorau yn ariannol trwy, er enghraifft, ddarparu cyngor i bobl a allai golli budd-daliadau'r dreth gyngor. Mae'r rhain yn bethau sy'n bwysig yn ein barn ni. Mae hi'n iawn i nodi y bu cynnydd seithplyg i ôl-ddyledion rhent yn Nhorfaen. Mae hynny'n dangos, wrth gwrs, nad yw'r cynigion presennol yn gweithio. Mae hi a minnau'n sicr o'r un farn yn hynny o beth.

Senedd.tv Fideo Video

13:42 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Yes, First Minister, those things that you have just outlined are important, but they are nowhere near enough. One of the reasons why the bedroom tax is so unfair is because there are so few suitable one-bedroomed and two-bedroomed houses for people to be able to downsize to. Yet, at the same time, more than £70 million a year is paid by council house tenants, and that goes to the Treasury as part of the housing revenue account subsidy scheme. If that money could be ring-fenced and spent on social housing, then we would have more homes and more energy-efficient homes, and we would be creating and safeguarding jobs in the Welsh construction industry. First Minister, what progress has been made on persuading the Treasury that this money should be retained in Wales?

Ydy, Brif Weinidog, mae'r pethau yr ydych chi newydd eu hamlinellu yn bwysig, ond nid ydynt yn agos at fod yn ddigon. Un o'r rhesymau pam mae'r dreth ystafell wely mor annheg yw bod cyn lleied o dai un ystafell wely a dwy ystafell wely i bobl allu symud iddynt. Ac eto, ar yr un pryd, telir mwy na £70 miliwn y flwyddyn gan denantiaid tai cyngor, ac mae hynny'n mynd i'r Trysorlys yn rhan o gynllun cymhorthdal y cyfrif refeniw tai. Pe gellid neilltuo'r arian hwnnw a'i wario ar dai cymdeithasol, yna byddai gennym fwy o gartrefi a mwy o gartrefi ynni-effeithlon, a byddem yn creu a diogelu swyddi yn niwydiant adeiladu Cymru. Brif Weinidog, pa gynnydd sydd wedi ei wneud o ran darbwyllo'r Trysorlys y dylid cadw'r arian hwn yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There is a flaw in that argument, is there not? Many people are concerned about the bedroom tax because they do not want to move from where they are. What the leader of Plaid Cymru is suggesting is that as long as there are smaller houses available for them, they should be moving into them. That is what she is saying, regardless of what they believe and think. It is a pretty inhuman way to treat people. Our position is simply this: the bedroom tax does not work. We do not believe that people should be forced out of accommodation that they have lived in for many years, unlike, it seems, the leader of Plaid Cymru.

Mae diffyg yn y ddadl honno, onid oes? Mae llawer o bobl yn pryderu am y dreth ystafell wely gan nad ydynt yn dymuno symud o ble maen nhw'n byw. Yr hyn y mae arweinydd Plaid Cymru yn ei awgrymu yw cyn belled ag y bo tai llai ar gael iddynt, y dylent fod yn symud i mewn iddyn nhw. Dyna beth mae hi'n ei ddweud, waeth beth maen nhw'n ei gredu ac yn ei feddwl. Mae'n ffordd eithaf annynol i drin pobl. Dyma'n safbwynt ni, yn syml: nid yw'r dreth ystafell wely yn gweithio. Nid ydym yn credu y dylai pobl gael eu gorfodi i adael llety y maen nhw wedi byw ynddo ers blynyddoedd lawer, yn wahanol, mae'n ymddangos, i arweinydd Plaid Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Galwaf ar arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, how many schoolchildren in Wales are being taught in a local education authority that has been put into special measures?

Brif Weinidog, faint o blant ysgol yng Nghymru sy'n cael eu haddysgu mewn awdurdod addysg lleol sy'n destun mesurau arbennig?

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

At the last count, there were six.

Roedd chwech ar y cyfrif diwethaf.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, there are not six children being taught in schools that have been put into special measures, First Minister. [Laughter.] The figure is more like 60,000, just to help you out a bit. There are 60,000 children being taught within failing education authorities. Since the last election, Estyn has inspected 16 authorities. Five of those have been put into special measures, and a further tranche is judged as 'barely adequate' by the inspectors. What actions are you taking to address the current failings and to prevent even more local education authorities being classed as 'in need of special measures'?

Na, nid chwech o blant sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion sy'n destun mesurau arbennig, Brif Weinidog. [Chwerthin.] Mae'r ffigur yn debycach i 60,000, i roi ychydig o help llaw i chi. Mae 60,000 o blant yn cael eu haddysgu mewn awdurdodau addysg sy'n methu. Mae Estyn wedi arolygu 16 o awdurdodau ers yr etholiad diwethaf. Mae pump o'r rheini yn destun mesurau arbennig, ac mae'r arolygwr o'r farn bod cyfran bellach 'prin yn ddigonol'. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r methiannau cyfredol ac i atal hyd yn oed mwy o awdurdodau addysg lleol rhag cael eu rhoi yn y categori 'angen mesurau arbennig'?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I must ask the leader of the Liberal Democrats to forgive me; I thought she meant the number of local authorities, not the number of children. Clearly, there are not six children. There are, to my understanding, six local authorities that are in that category. The Minister for education has been clear on this. He wants to make sure that any problems are identified. Once they are identified, local authorities are assisted to improve, and that is exactly what we have been doing as a Government.

Mae'n rhaid i mi ofyn i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol i faddau i mi; roeddwn i'n meddwl ei bod yn golygu nifer yr awdurdodau lleol, nid nifer y plant. Nid chwech o blant sydd yna, yn amlwg. Mae yna, yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, chwe awdurdod lleol sydd yn y categori hwnnw. Mae'r Gweinidog addysg wedi bod yn eglur am hyn. Mae'n awyddus i wneud yn siŵr bod unrhyw broblemau'n cael eu nodi. Ar ôl iddynt gael eu nodi, cynorthwyir awdurdodau lleol i wella, a dyna'n union yr hyn yr ydym ni wedi bod yn ei wneud fel Llywodraeth.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is interesting, First Minister. You are handing control of Merthyr Tydfil County Borough Council schools to Rhondda Cynon Taf County Borough Council. Given that 12 out of 19 Rhondda Cynon Taf secondary schools are still in bands 4 or 5, are you confident that that education authority has the track record of success that will help schools in Merthyr to improve and succeed?

Mae hynny'n ddiddorol, Brif Weinidog. Rydych chi'n trosglwyddo rheolaeth dros ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. O ystyried bod 12 o 19 ysgol uwchradd Rhondda Cynon Taf yn dal i fod ym mandiau 4 neu 5, a ydych chi'n hyderus bod gan yr awdurdod addysg yr hanes o lwyddiant a fydd yn helpu ysgolion ym Merthyr i wella a llwyddo?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, we are, and we believe that the new structure will enable the new arrangements to get the critical mass that they need, and for there to be enough experience to ensure that there is improvement in performance across both those local authorities, particularly in Merthyr.

Ydym wir, ac rydym yn credu y bydd y strwythur newydd yn galluogi'r trefniadau newydd i ddatblygu'r màs critigol sydd ei angen arnynt, ac i wneud yn siwr bod digon o brofiad i sicrhau y ceir gwelliant i berfformiad ar draws y ddau awdurdod lleol hynny, yn enwedig ym Merthyr.

## Mwy o Fenthyca

## Increased Lending

13:45 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i annog mwy o fenthyca i roi hwb i weithgarwch economaidd. OAQ(4)0961(FM)*

*3. What is the Welsh Government doing to encourage increased lending to boost economic activity. OAQ(4)0961(FM)*

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are working with the banks to ensure that the business funding offered by the Welsh Government and Finance Wales is used to bridge the gap between what the banks are willing to lend and the funding needs of viable, growing Welsh small and medium-sized enterprises.

Rydym yn gweithio gyda'r banciau i sicrhau bod y cyllid busnes a gynigir gan Lywodraeth Cymru a Chyllid Cymru yn cael ei ddefnyddio i bontio'r bwlch rhwng yr hyn y mae'r banciau yn barod i'w fenthyca ac anghenion ariannu mentrau bach a chanolig eu maint hyfyw sy'n tyfu yng Nghymru.

13:45 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Unfortunately, the banks are not lending, particularly to small businesses, which are the engine of economic activity. The proportion of small businesses in Wales is higher than in any other region of the UK, yet nearly half of all business loan applications were refused. Given that neither quantitative easing nor the Funding for Lending scheme are having the impact needed to expand the economy, what more can the Government do to influence the upcoming budget to kick start the economy?

Yn anffodus, nid yw'r banciau'n benthyca, yn enwedig i fusnesau bach, sef calon gweithgarwch economaidd. Mae cyfran y busnesau bach yng Nghymru yn uwch nag yn unrhyw ran arall o'r DU, ac eto gwrthodwyd bron i hanner yr holl geisiadau am fenthyciad busnes. O ystyried nad yw lleddfu meintiol na'r cynllun Cyllid ar gyfer Benthyca yn cael yr effaith angenrheidiol i ehangu'r economi, beth arall all y Llywodraeth ei wneud i ddylanwadu ar y gyllideb er mwyn rhoi hwb i'r economi?

Senedd.tv
Fideo Video

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Minister for Finance has joined the other devolved Ministers for finance in writing the Treasury, on 8 March, calling on the UK Government to adopt an economic strategy that focuses on growth. The letter urges the UK Government to use the forthcoming budget and spending round to bring forward a major programme of infrastructure projects that will stimulate the economy. The Minister for Finance is meeting the Chief Secretary to the Treasury later this week.

Mae'r Gweinidog Cyllid wedi ymuno â'r Gweinidogion cyllid datganoledig eraill i ysgrifennu at y Trysorlys, ar 8 Mawrth, yn galw ar Lywodraeth y DU i fabwysiadu strategaeth economaidd sy'n canolbwyntio ar dwf. Mae'r llythyr yn annog Llywodraeth y DU i ddefnyddio'r gyllideb a'r rownd wario sydd ar fin digwydd i gyflwyno rhaglen helaeth o brosiectau seilwaith a fydd yn ysgogi'r economi. Mae'r Gweinidog Cyllid yn cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Senedd.tv
Fideo Video

13:46 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

First Minister, I appreciate that banks are not devolved and that, therefore, there is a limit to what you can do in that area. However, your Welsh Government has control over certain avenues of funding, such as the JEREMIE fund. Were you concerned that a recent report commissioned by the Federation of Small Businesses, 'Small Businesses in Priority Sectors', identified a lack of awareness among many small businesses in Wales of the avenues of funding open to them? What do you propose to do to better brand initiatives such as JEREMIE and the other schemes that your Government seems to be pushing at the moment, of which the business community has no knowledge? What are you doing to make sure that businesses know what funding is open to them?

Brif Weinidog, rwy'n gwerthfawrogi nad yw banciau wedi'u datganoli ac, felly, mae'r hyn y gallwch ei wneud yn y maes hwnnw wedi'i gyfyngu. Fodd bynnag, mae gan eich Llywodraeth Cymru reolaeth dros rai llwybrau cyllid, fel cronfa JEREMIE. A oeddech chi'n pryderu bod adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach, 'Small Businesses in Priority Sectors', yn nodi diffyg ymwybyddiaeth ymhlith llawer o fusnesau bach yng Nghymru o'r llwybrau cyllid sydd ar gael iddynt? Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud i frandio yn well mentrau fel JEREMIE a'r cynlluniau eraill y mae'n ymddangos bod eich Llywodraeth yn eu hyrwyddo ar hyn o bryd, ac nad yw'r gymuned fusnes yn gwybod unrhyw beth amdanynt? Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod busnesau yn gwybod pa gyllid sydd ar gael iddynt?

Senedd.tv
Fideo Video

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Plenty of schemes are being taken up by businesses—there is no shortage of interest. It is always important to ensure that businesses know what is happening, and we are ensuring that that happens. The FSB has a role as well to make sure that its members are aware of the support that is available from Welsh Government. It is important that it is also able to communicate the message.

Mae busnesau'n manteisio ar ddigonedd o gynlluniau—nid oes unrhyw ddiffyg diddordeb. Mae bob amser yn bwysig sicrhau bod busnesau yn gwybod beth sy'n digwydd, ac rydym ni'n sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae gan y Ffederasiwn Busnesau Bach swyddogaeth hefyd i wneud yn siŵr bod ei aelodau'n ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig ei fod yn gallu cyfleu'r neges hefyd.

Senedd.tv
Fideo Video

13:48 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, turning to personal lending, I will tell you about a text that I had on Sunday. It told me that I had been preapproved for up to £1,000 cash, and that I was to apply through paddypaydayloans.com to receive cash within 15 minutes. That type of unsolicited text message is being sent throughout our communities. The Office of Fair Trading has said that there is no way that payday loan companies can assess the borrower's ability to pay back when they receive those types of texts, and it wants to crack down on it. I know that you will condemn that practice, First Minister, but what further steps can your Government take to stamp out this practice, which is ripping off our poorest communities?

Brif Weinidog, i droi at fenthyciadau personol, hoffwn ddweud wrthych am neges destun i mi ei derbyn ddydd Sul. Dywedodd wrthyf fy mod wedi cael fy nghymeradwyo ymlaen llaw i dderbyn hyd at £1,000 o arian parod, ac y dylwn i wneud cais trwy paddypaydayloans.com i dderbyn arian parod o fewn 15 munud. Mae'r math yna o neges destun na ofynnwyd amdani yn cael ei hanfon ledled ein cymunedau. Mae'r Swyddfa Masnachu Teg wedi dweud nad oes unrhyw ffordd y gall cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog asesu gallu'r benthyciwr i ad-dalu pan fyddant yn derbyn y mathau hynny o negeseuon testun, ac mae'n dymuno rhoi terfyn arnynt. Rwy'n gwybod y byddwch yn condemnio'r arfer yna, Brif Weinidog, ond pa gamau pellach all eich Llywodraeth eu cymryd i roi terfyn ar yr arfer hwn, sy'n cymryd mantais ar ein cymunedau tlotaf?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have had the same kind of message, as I am sure have other Members. We continue to make representations to the UK Government about this. It has to be done at a UK level—as it is a mobile network, that is inevitable. It is shameful that people are still being targeted in this way, at a time when many people are so vulnerable. We do our bit in helping credit unions to provide an alternative, which I am sure all would welcome, but it is important that the UK Government takes steps to deal with what is an extremely unfair practice targeted at those who are most vulnerable.

Rwyf innau wedi derbyn yr un math o neges, fel rwy'n siŵr y mae Aelodau eraill. Rydym yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynglŷn â hyn. Mae'n rhaid iddo gael ei wneud ar lefel y DU—mae hynny'n anochel gan ei fod yn rhwydwaith symudol. Mae'n gywilyddus bod pobl yn dal i gael eu targedu fel hyn, ar adeg pan fo llawer o bobl mor agored i niwed. Rydym yn chwarae ein rhan o ran helpu undebau credyd i gynnig dewis amgen, ac rwy'n siŵr y byddai pawb yn croesawu hynny, ond mae'n bwysig bod Llywodraeth y DU yn cymryd camau i ymdrin ag arfer sy'n hynod o annheg ac sydd wedi'i dargedu at y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

13:49 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Finance Wales is a very important potential source of funding for businesses, but I am sure that you would agree that there is a balance to be struck between making sure that smaller businesses are effectively supported and effectively targeting the resources available to Finance Wales to get the most impact for the Welsh taxpayer. What criteria does Finance Wales use to decide where resources will be focused?

Brif Weinidog, mae'n bosibl y gallai Cyllid Cymru fod yn ffynhonnell gyllid bwysig iawn i fusnesau, ond rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng gwneud yn siŵr bod busnesau llai yn cael eu cefnogi'n effeithiol a thargedu'r adnoddau sydd ar gael i Gyllid Cymru yn effeithiol i sicrhau'r effaith fwyaf i drethdalwyr Cymru. Pa feini prawf y mae Cyllid Cymru'n eu defnyddio i benderfynu lle bydd adnoddau'n cael eu canolbwyntio?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Finance Wales uses a number of criteria. It is important that Finance Wales is not seen as an organisation that funds the riskiest ventures; no financial institution could possibly do that. Finance Wales will assess any applications for funding against set criteria and against risk.

Mae Cyllid Cymru'n defnyddio nifer o feini prawf. Mae'n bwysig nad yw Cyllid Cymru yn cael ei ystyried yn sefydliad sy'n ariannu'r mentrau mwyaf peryglus; ni fyddai'n bosibl i unrhyw sefydliad ariannol wneud hynny. Bydd Cyllid Cymru yn asesu unrhyw geisiadau am gyllid yn erbyn meini prawf a bennwyd ac yn erbyn risg.

### Ffermydd

### Farms

13:49 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella lefelau incwm ffermydd yng Nghymru. OAQ(4)0968(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on improving the income levels of farms in Wales. OAQ(4)0968(FM)*

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru a byddwn yn parhau i'w gefnogi i sicrhau bod busnesau ffermio yn gynaliadwy.

The Welsh Government is committed to the agriculture industry in Wales and will continue to support it to ensure that we have sustainable farm businesses.

13:50 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am eich ateb. Rhyw wythnos neu ddwy yn ôl, cyhoeddodd y Llywodraeth amcangyfrif o incymau fferm net ar gyfer 2012-13. Ymhlith yr ystadegau hynny, daliodd un fy llygad, sef bod incwm ffermydd gwartheg a defaid mewn ardaloedd o anfantais mawr wedi disgyn 60%. Beth yn benodol mae eich Llywodraeth yn ei wneud i gynorthwyo ffermwyr yn yr ardaloedd llai ffafriol hynny?

Thank you for your answer. A week or two ago, the Government issued an estimate of net farm incomes for 2012-13. Of those statistics, one caught my eye, namely that incomes for cattle and sheep farms in severely disadvantaged areas had fallen by 60%. What specific steps is your Government taking to assist farmers in those less favoured areas?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn defnyddio sawl peth—er enghraifft, Cyswllt Ffermio, sydd wedi helpu cymaint o ffermydd i arallgyfeirio a chael incwm ychwanegol, a sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud cyn gynted ag y bo modd: mae gan y Llywodraeth record dda am wneud hynny. Hefyd, mae'n rhaid inni sicrhau bod mwy o farchnadoedd ar gael i gynnyrch o Gymru; rydym wedi bod yn arwain ar hynny dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n wir bod lefelau incwm wedi mynd i lawr yn ddiweddar, oherwydd pris cig oen, yn arbennig, ond mae arwydd bod y prisiau'n dechrau codi unwaith eto.

We are using a number of things—for example, Farming Connect, which has helped so many farmers to diversify and find alternative incomes, and ensuring that payments are made as quickly as possible: the Government has a good record in that respect. We must also secure more markets for Welsh produce; we have taken a lead on that over recent years. It is true that income levels have fallen recently, mainly because of the price of lamb, but there are signs that prices are staring to rise again.

13:51 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the recent farm income statistics paint a bleak picture for the agriculture industry, particularly in the uplands, where incomes have dropped by an average of 37%. Given that the costs of production across the industry are rising so fast and are greatest in upland Wales, are you now prepared to re-examine the case for dedicated support for farmers in less favoured areas, using the likely underspend in Glastir? If not, can you explain how much pain you believe that the industry should bear before you do so?

Brif Weinidog, mae'r ystadegau incwm ffermydd diweddar yn cyflwyno darlun llwm o'r diwydiant amaethyddiaeth, yn enwedig ar yr ucheldir, lle mae incwm wedi gostwng o gyfartaledd o 37%. O gofio bod costau cynhyrchu yn codi mor gyflym ar draws y diwydiant a'u bod uchaf yn ucheldir Cymru, a ydych chi'n barod nawr i ail-ystyried yr achos dros gymorth penodol i ffermwyr mewn ardaloedd llai ffafriol, gan ddefnyddio'r tanwariant tebygol yn Glastir? Os nad ydych, a allwch chi egluro faint o boen rydych chi'n credu y dylai'r diwydiant ei ddioddef cyn i chi wneud hynny?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are constrained, of course, by the rules that govern the rural development plan and the movement of money within and between pillars. I find it very odd that this is coming from a party that is trying to cut common agricultural policy payments in pillar 1. This is—[Interruption.] It is not their concern and not their policy, I understand. There we are. I can tell her that the attitude of the UK Government has been not to support farming in the same way as the Welsh Government. I am sorry, but I cannot accept that the party opposite—a party that wants to cut agricultural subsidies—is suddenly saying that agricultural subsidies in Wales should be increased. They should talk to their own colleagues in Westminster and listen to what they have been saying.

Rydym wedi'n cyfyngu, wrth gwrs, gan y rheolau sy'n llywodraethu'r cynllun datblygu gwledig a'r symud arian o fewn a rhwng colofnau. Rwy'n ei chael hi'n rhyfedd iawn bod hyn yn dod gan blaid sy'n ceisio gostwng taliadau polisi amaethyddol cyffredin yng ngholofn 1. Mae hyn yn—[Torri ar draws.] Nid yw'n fater iddyn nhw ac nid dyma eu polisi, rwy'n deall. Dyna ni. Gallaf ddweud wrthi mai agwedd Llywodraeth y DU fu peidio â chefnogi ffermio yn yr un modd â Llywodraeth Cymru. Mae'n ddrwg gennyf, ond ni allaf dderbyn bod y blaid gyferbyn—plaid sydd am leihau cymorthdaliadau amaethyddol—yn dweud yn ddisymwth y dylai cymorthdaliadau amaethyddol yng Nghymru gael eu cynyddu. Dylent siarad â'u cydweithwyr eu hunain yn San Steffan a gwrando ar yr hyn maen nhw wedi bod yn ei ddweud.

13:52 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, last week I had the pleasure of sponsoring a solar energy event here in the Senedd, which highlighted the potential for farmers to diversify into renewables while retaining valuable grazing land. Given what we have just heard again, emphasising the projected fall of 37% in LFA farm business income for the 2012-13 financial year, will you outline what steps your Government is taking to assist farmers in developing renewables of that type and what role you see natural resources Wales having in that important endeavour?

Brif Weinidog, cefais y pleser yr wythnos diwethaf o noddi digwyddiad ynni solar yma yn y Senedd, a dynnodd sylw at y potensial i ffermwyr arallgyfeirio i ynni adnewyddadwy gan gadw tir pori gwerthfawr. O ystyried yr hyn rydym newydd ei glywed unwaith eto, yn pwysleisio'r gostyngiad rhagweledig o 37% i incwm busnes fferm ALFf ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13, a wnewch chi amlinellu pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i gynorthwyo ffermwyr i ddatblygu ynni adnewyddadwy o'r math hwnnw a pha swyddogaeth yr ydych chi'n ei gredu y bydd cyfoeth naturiol Cymru yn ei chyflawni yn rhan o'r ymdrech bwysig honno?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Clearly, the rural development plan has a role, but so does Farming Connect, which has a long track record, going back nearly 13 years, of helping farmers to diversify. We will continue to provide that support to farmers who are looking to increase their incomes by providing alternative or complementary sources of income.

Yn amlwg, mae gan y cynllun datblygu gwledig swyddogaeth i'w chyflawni, ond mae hynny hefyd yn wir am Gyswllt Ffermio, sydd â hanes hir, yn mynd yn ôl bron i 13 mlynedd, o helpu ffermwyr i arallgyfeirio. Byddwn yn parhau i ddarparu'r cymorth hwnnw i ffermwyr sy'n dymuno cynyddu eu hincwm trwy ddarparu ffynonellau incwm amgen neu ategol.

## Economi Gogledd-ddwyrain Cymru

## North-east Wales Economy

13:53 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Sut y mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi economi gogledd ddwyrain Cymru. OAQ(4)0966(FM)*

*5. How is the Welsh Government supporting the north east Wales economy. OAQ(4)0966(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That can be found in the programme for government and we are doing all that we can to encourage jobs and growth in Wales.

Gellir dod o hyd i hynny yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu ac rydym ni'n gwneud popeth y gallwn i annog swyddi a thwf yng Nghymru.

13:53 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thanks for that response, First Minister. As you know, the Welsh Government city regions task and finish group was due to report on its further work in north-east Wales to the Welsh Government by the end of February. How do you respond to the statement by the Mersey Dee Alliance, at the end of February, that it believes very strongly that formal recognition as a city region will be a critical factor in helping it to achieve the full potential of this nationally important economic area?

Diolch am yr ymateb yna, Brif Weinidog. Fel y gwyddoch, disgwyliwyd i grŵp gorchwyl a gorffen dinas-ranbarthau Llywodraeth Cymru adrodd ar ei waith pellach yng ngogledd-ddwyrain Cymru i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Chwefror. Sut ydych chi'n ymateb i'r datganiad gan Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, ddiwedd mis Chwefror, ei fod yn credu'n gryf iawn y bydd cydnabyddiaeth ffurfiol fel dinas-ranbarth yn ffactor allweddol i'w helpu i wireddu potensial llawn yr ardal economaidd hon sy'n bwysig yn genedlaethol?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is right. The city regions report recommended strengthening the Mersey Dee Alliance and Dr Elizabeth Haywood has been discussing the issue with the alliance during the course of her work.

Mae'n iawn. Argymhellodd yr adroddiad dinas-ranbarthau gryfhau Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy ac mae Dr Elizabeth Haywood wedi bod yn trafod y mater gyda'r gynghrair wrth wneud ei gwaith.

The Minister received Dr Haywood's report a few days ago and is now considering the findings. She will publish a response in due course.

Derbyniodd y Gweinidog adroddiad Dr Haywood ychydig ddiwrnodau yn ôl ac mae'n ystyried y canfyddiadau bellach. Bydd yn cyhoeddi ymateb maes o law.

13:54 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gan ein bod yn sôn am y rhanbarthau dinesig, a chan bod y Llywodraeth hefyd yn awyddus i hyrwyddo'r agenda datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys ffactorau cymdeithasol, i ba raddau y byddwch yn rhoi pwys ar ffactorau cymdeithasol wrth edrych ar y model hwnnw yn y gogledd-ddwyrain? Byddwch yn ymwybodol o rai gofidiau ynglŷn ag impact hynny ar yr 'identity' Cymreig a'r iaith Gymraeg?

Given that you are talking about city regions and that the Government is keen to promote the sustainable development agenda, which includes social factors, what weight will you give to social factors in considering that model in north-east Wales? You will be aware of some concerns regarding the impact of that on the Welsh identity and language.

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae cynaliadwyedd yn bwysig dros ben, ac mae cynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn bwysig. Nod Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yw sicrhau bod yr economi yn cael ei chryfhau ar ddwy ochr y ffin, sy'n helpu i sicrhau bod cynaliadwyedd cymdeithasol yn rhan Gymreig y gynghrair.

Sustainability is very important, and social, environmental and economic sustainability are important. The aim of the Mersey Dee Alliance is to ensure that the economy is strengthened on both sides of the border, which helps to secure social sustainability in the Welsh part of the alliance.

## Gofal Iechyd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed

## Healthcare in Brecon and Radnorshire

13:55 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella gofal iechyd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. OAQ(4)0954(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on improving healthcare in Brecon and Radnorshire. OAQ(4)0954(FM)*

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Our plans and priorities for improving healthcare for the whole of Wales can be found in our programme for government and 'Together for Health'.

Mae ein cynlluniau a'n blaenoriaethau ar gyfer gwella gofal iechyd ar gyfer Cymru gyfan i'w gweld yn ein rhaglen ar gyfer llywodraethu a 'Law yn Llaw at Iechyd'.

13:55 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in recent weeks, I have highlighted concerns raised by my constituents about the care that they have received at Nevill Hall Hospital. You accused me of grandstanding and demanded that I provide some proof. I subsequently wrote to you and asked, if you were not willing to believe my accounts, whether you would meet with those constituents, so that they could tell you face to face and that you could hear from them at first hand, without any political connotations, about those concerns. You subsequently wrote to me saying that you would not meet my constituents. Will you think again? Will you say that you are willing to listen to my constituents about the concerns that they have about the levels of healthcare services delivered to them?

Brif Weinidog, yn ystod yr wythnosau diwethaf, rwyf wedi tynnu sylw at bryderon a godwyd gan fy etholwyr am y gofal maen nhw wedi ei dderbyn yn Ysbyty Nevill Hall. Fe'm cyhuddwyd gennych o ddangos fy hun gan fynnu y dylwn ddarparu tystiolaeth. Ysgrifennais atoch wedi hynny gan ofyn, os nad oeddech chi'n barod i gredu fy sylwadau, a fyddech chi'n fodlon cwrdd â'r etholwyr hynny, fel y gallent ddweud wrthych wyneb yn wyneb ac y gallech chi glywed ganddynt yn uniongyrchol, heb unrhyw arwyddocâd gwleidyddol, am y pryderon hynny. Fe wnaethoch chi ysgrifennu ataf wedi hynny gan ddweud na fyddech yn fodlon cwrdd â'm hetholwyr. A wnewch chi ail-ystyried? A wnewch chi ddweud eich bod yn fodlon gwrando ar fy etholwyr am y pryderon sydd ganddynt am lefelau'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir iddynt?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have said to the Member that if she writes to me with the evidence, as I have asked now on more than one occasion, I will gladly consider it. She has done it before, so I do not understand her reluctance in doing it this time. If her constituents have concerns, as with the constituents of other Members here, those concerns are taken up in constituency surgeries, and Members of all parties write to Ministers with those concerns. I do not understand why she will not do it.

Rwyf wedi dweud wrth yr Aelod os bydd yn ysgrifennu ataf gyda'r dystiolaeth, fel rwyf wedi gofyn ar fwy nag un achlysur bellach, y byddaf yn falch o'i hystyried. Mae hi wedi gwneud hynny o'r blaen, felly nid wyf yn deall ei hamharodrwydd i wneud hynny'r tro hwn. Os oes gan ei hetholwyr bryderon, caiff y pryderon hynny eu trafod mewn cymorthfeydd etholaethol, fel gydag etholwyr yr Aelodau eraill yma, ac mae Aelodau o bob plaid yn ysgrifennu at Weinidogion i'w hysbysu am y pryderon hynny. Nid wyf yn deall pam nad yw'n fodlon gwneud hynny.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

First Minister, patients suffering from cystic fibrosis who live in Brecon and Radnorshire and, indeed, across the whole of Wales, deserve access to the very best modern treatment. However, the Cystic Fibrosis Trust is concerned that the appraisal of the transformational drug kalydeco is taking far too long in Wales. You will be aware that it is already available to patients in Scotland and England, but that, in Wales, a decision is not due to be made until 8 May. Do you think that it is acceptable that cystic fibrosis patients in Wales should have to wait five months longer than their counterparts in England and Scotland?

Brif Weinidog, mae cleifion sy'n dioddef o ffibrosis systig sy'n byw ym Mrycheiniog a Maesyfed ac, yn wir, ledled Cymru gyfan, yn haeddu mynediad at y driniaeth fodern orau. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig yn pryderu bod y gwerthusiad o'r cyffur trawsnewidiol kalydeco yn cymryd llawer gormod o amser yng Nghymru. Byddwch yn ymwybodol ei fod eisoes ar gael i gleifion yn yr Alban ac yn Lloegr, ond, yng Nghymru, ni ddisgwylir i benderfyniad gael ei wneud tan 8 Mai. A ydych chi'n credu ei bod yn dderbyniol bod yn rhaid i gleifion ffibrosis systig yng Nghymru aros pum mis yn hwy na'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban?

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course, we want to be in a position to take decisions as quickly as possible. It is known that a decision will be taken by 8 May, which will provide cystic fibrosis sufferers with certainty as regards the future.

Wrth gwrs, ein dymuniad yw bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau mor gyflym â phosibl. Mae'n hysbys y bydd penderfyniad yn cael ei wneud erbyn 8 Mai, a fydd yn rhoi sicrwydd ar gyfer y dyfodol i'r rhai sy'n dioddef o ffibrosis systig.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, beth yw cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer yr henoed ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? Mae'r bobl sy'n byw ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yn gwybod, dros y ffin yn Lloegr, fod y cynlluniau sy'n dilyn Dilnot wedi rhoi cap ar y cyfraniad y maent yn gorfod ei wneud i dalu am ofal henoed, ond maent yn ansicr ynghylch cynlluniau eich Llywodraeth chi ar gyfer Brycheiniog a Sir Faesyfed a gweddill Cymru. Beth, felly, yw eich egwyddorion, a beth fyddwch chi'n ei wneud i'r bobl hynny yn ystod y blynyddoedd nesaf?

First Minister, what are the Government's plans for the elderly in Brecon and Radnorshire? People living in Brecon and Radnorshire know that, over the border in England, following Dilnot, there are plans to cap their contribution to care for the elderly, but they are unsure of your Government's plans for Brecon and Radnorshire and the rest of Wales. What principles, therefore, will you follow, and what will you do for those people over the coming years?

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae sawl peth yr ydym yn eu hystyried. Yr ystyriaeth gyntaf yw faint o arian fydd ar gael ar gyfer y cynlluniau yn Lloegr. Yr ail ystyriaeth yw bod yn rhaid inni gadw llygad ar yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr. Ni fyddai o les i ni pe bai gennym system hollol wahanol yng Nghymru. Rydym yn ystyried y sefyllfa o ran datblygiadau yn Lloegr er mwyn inni allu deall y ffordd orau ymlaen yng Nghymru.

We are considering a number of things. The first consideration is how much money is available for the plans in England. The second consideration is that we must keep an eye on what happens in England. It would not be beneficial for us to have a completely different system in Wales. We are looking at the situation with regard to changes in England so that we are able to understand the best way forward in Wales.

Senedd.tv Fideo Video

### Gwasanaeth Cynghori

### Counselling

13:58 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Faint o blant, pobl ifanc ac oedolion sy'n aros am wasanaethau cynghori yn dilyn datgeliadau diweddar am gam-drin plant yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0967(FM)*

*7. Following the recent north Wales child abuse disclosures, how many children, young people and adults are currently waiting for counselling. OAQ(4)0967(FM)*

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r nifer gennyf, ond nid wyf yn credu ei fod yn gall imi ddweud beth yw'r nifer ar hyn o bryd gan fod ymchwiliad heddlu ac ymchwiliad Macur yn cael eu cynnal. Rhoddais ateb ar 26 Chwefror. Mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bobl sydd wedi cael eu cam-drin.

I have the number, but I do not believe that it would be wise for me to share that information at the moment, given that police and Macur reviews are ongoing. I gave a reply on 26 February. Local authorities are ensuring that support is available for those who have suffered abuse.

13:59 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Derbyniodd Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc lythyr yn ddiweddar gan eich Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud bod trefniadau digonol ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau cynghori. Mae'r gwasanaethau hynny ar hyn o bryd yn ddibynnol ar arian oddi wrth y chwe awdurdod lleol, yr NSPCC a Chymorth i Ddioddefwyr. Ni fydd arian ar gael ar ôl diwedd y mis hwn. A fydd eich Llywodraeth chi, felly, ynghyd â Llywodraeth Prydain, yn sicrhau bod y gwasanaethau ar gael o fis Ebrill ymlaen, wrth ystyried, fel y dywedoch, y bydd rhan helaeth o'r gwasanaethau hyn yn ofynnol ar ôl i'r ymchwiliad troseddol gael ei gwblhau?

The Chair of the Children and Young People Committee received a letter from your Minister for Health and Social Services saying that the current arrangements for counselling are adequate. Those services are currently dependent on funding from the six local authorities, the NSPCC and Victim Support. There will be no more money after the end of this month. Therefore, will your Government, along with the British Government, ensure that the services are available after April, given, as you said, that these services will mainly be needed following completion of the criminal inquiry?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r cyfrifoldeb i sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael yn gorwedd gydag awdurdodau lleol, gan weithio gyda'r heddlu ac elusennau. Gwnawn ni weithio gyda nhw er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau perthnasol ar gael yn y dyfodol.

The responsibility for ensuring that these services are available lies with local authorities, working with the police and charities. We will also work with them to ensure that the relevant services are available in the future.

14:00 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you stated recently that you were satisfied that appropriate arrangements have been put in place with counselling services in Wales since the north Wales child abuse scandal was reinvestigated. We know that, by December 2012, operation Pallial was investigating a great number of these. Wales is also topping the leader board in antidepressant prescriptions, with 3.8 million dispensed in one year, and recent child and adolescent mental health service figures show that 2,124 children were waiting over 16 weeks for a first out-patient appointment for alternative psychotherapy services. In light of the actual reality of these figures, will you look into this matter as an immediate priority in order to genuinely support the many children, young people and adults who are currently waiting for this vital support?

Brif Weinidog, nodwyd gennych yn ddiweddar eich bod yn fodlon bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu gyda gwasanaethau cynghori yng Nghymru ers ail-ymchwilio i sgandal cam-drin plant gogledd Cymru. Gwyddom fod ymgyrch Pallial, erbyn mis Rhagfyr 2012, yn ymchwilio i nifer fawr o'r rhain. Mae Cymru hefyd ar frig yr ystadegau o ran presgripsiynau gwrth-iselder wrth i 3.8 miliwn gael eu dosbarthu mewn un flwyddyn, ac mae ffigurau gwasanaethau iechyd meddwl y glasoed diweddar yn dangos y bu 2,124 o blant yn aros dros 16 wythnos am apwyntiad cyntaf fel claf allanol mewn gwasanaethau seicotherapi amgen. Yng ngoleuni gwir realiti'r ffigurau hyn, a wnewch chi ymchwilio i'r mater hwn fel blaenoriaeth ar unwaith er mwyn rhoi cefnogaeth wirioneddol i'r plant, pobl ifanc ac oedolion lu sy'n aros am y cymorth hanfodol hwn ar hyn o bryd?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I have to repeat that I am assured that local authorities are ensuring that the necessary support is available to the victims of abuse.

Rhaid i mi ailadrodd fy mod yn siŵr bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod y cymorth angenrheidiol ar gael i'r rhai sydd wedi cael eu cam-drin.

## Polisi Ynni

## Energy Policy

14:01 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd o ran cyflwyno polisi ynni Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0965(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on the progress in delivery of the Welsh Government's energy policy. OAQ(4)0965(FM)*

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As set out in 'Energy Wales', we are committed to the transition to a low-carbon energy system. The significant progress that we are making includes reform of the planning system, the establishment of natural resources Wales and our work towards maximising economic and community benefits from energy projects.

Fel y nodir yn 'Ynni Cymru', rydym wedi ymrwymo i newid i system ynni carbon isel. Mae'r cynnydd sylweddol rydym ni'n ei wneud yn cynnwys diwygio'r system gynllunio, sefydlu cyfoeth naturiol Cymru, a'n gwaith i sicrhau'r buddion economaidd a chymunedol gorau posibl o brosiectau ynni.

14:01 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister, particularly in reference to the progress on low-carbon energy. Last week, the Environment and Sustainability Committee took evidence on developing unconventional gas, which includes underground coal gasification and fracking or accessing shale gas. While the UK Government appears to be going ahead full throttle with greater development of gas generation, including access to shale gas, other countries and regions of Europe have placed a moratorium on fracking until further evidence on safety has been evaluated. Has the Welsh Government had discussions, either internally or with the UK Government, on the possibility of establishing such a moratorium for Wales? Will the new planning Bill include stronger guidance and powers for local planning authorities when they consider applications for unconventional gas developments?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, yn enwedig am y cyfeiriad at y cynnydd o ran ynni carbon isel. Yr wythnos diwethaf, derbyniodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd dystiolaeth ar ddatblygu nwy anghonfensiynol, sy'n cynnwys nwyeiddio glo tanddaearol a ffracio neu gael gafael ar nwy siâl. Er ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth y DU yn mynd tân dani i ddatblygu mwy o gynhyrchu nwy, gan gynnwys mynediad at nwy siâl, mae gwledydd a rhanbarthau eraill yn Ewrop wedi gohirio gwaith ffracio tan i dystiolaeth bellach ar ddiogelwch gael ei gwerthuso. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael trafodaethau, yn fewnol neu gyda Llywodraeth y DU, ar y posibilrwydd o sefydlu gohiriad o'r fath yng Nghymru? A fydd y Bil cynllunio newydd yn cynnwys canllawiau a phwerau cryfach i awdurdodau cynllunio lleol pan fyddant yn ystyried ceisiadau ar gyfer datblygiadau nwy anghonfensiynol?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

When it comes to planning applications, the local authority is already the decision maker and local planning authorities have control over whether to grant or refuse planning permission for an application for shale gas development, whether it is for initial exploration or full-scale extraction. In terms of the guidance that we give, our policy and approach are already precautionary, so we do not consider a moratorium necessary at the moment, but it is for each developer to demonstrate, in accordance with that precautionary stance, that its proposed development will not have an adverse impact on the environment, society or the economy. Therefore, the burden of proof, as it were, is on developers.

Wrth ystyried ceisiadau cynllunio, yr awdurdod lleol sydd eisoes yn gwneud y penderfyniadau ac awdurdodau cynllunio lleol sy'n rheoli pa un a ddylid rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio i gais ar gyfer datblygiad nwy siâl, pa un a yw hynny ar gyfer archwiliad cychwynnol neu gloddio ar raddfa lawn. O ran y canllawiau rydym ni'n eu cyflwyno, mae ein polisi a'n dull yn rhagofalus eisoes, felly nid ydym yn ystyried bod angen gohiriad ar hyn o bryd, ond mae'n fater i bob datblygwr ddangos, yn unol â'r safiad rhagofalus hwnnw, na fydd ei ddatblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd, y gymdeithas na'r economi. Felly, mae'r baich y profi, fel petai, ar ddatblygwyr.

14:03 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, if further consents on energy powers are devolved, how will you ensure that local decision making is taken into account? Are you prepared to delegate further consent powers directly to local planning authorities?

Brif Weinidog, os caiff cydsyniadau pellach ar bwerau ynni eu datganoli, sut wnewch chi sicrhau yr ystyrir y broses o wneud penderfyniadau yn lleol? A ydych chi'n barod i ddirprwyo pwerau cydsynio pellach yn uniongyrchol i awdurdodau cynllunio lleol?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is an interesting idea, and we would need to look at it carefully. However, it is an academic issue, given the fact that we know the stance of the UK Government on further devolution. There is a suggestion in the documents submitted by the UK Government to the Silk commission that, somehow, the balance should go the other way on energy consents, thus the Welsh Government should have fewer powers in terms of energy consents. Until those consents are devolved, it is difficult to give a definitive answer as to how there can be better local engagement.

Mae'n syniad diddorol, a byddai angen i ni ei ystyried yn ofalus. Fodd bynnag, mae'n fater academaidd, o ystyried y ffaith ein bod yn ymwybodol o safiad Llywodraeth y DU ar ddatganoli pellach. Ceir awgrym yn y dogfennau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i gomisiwn Silk y dylai'r cydbwysedd, rywsut, fynd y ffordd arall o ran cydsyniadau ynni, ac felly y dylai Llywodraeth Cymru fod â llai o bwerau o ran cydsyniadau ynni. Tan y caiff y cydsyniadau hynny eu datganoli, mae'n anodd rhoi ateb pendant o ran sut y gellir sicrhau gwell ymgysylltu lleol.

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Rydych newydd gyfeirio at safbwynt y glymblaid yn Llundain a'i bod yn ymddangos ei bod yn gwbl yn erbyn datganoli rhagor o bwerau ynglŷn ag ynni i Gymru. Yn wyneb y ffaith na chytunodd y Llywodraeth Lafur ddiwethaf i ddatganoli ychwaith, a bod y Llywodraeth hon o blaid hynny, beth yn union yw safbwynt y Blaid Lafur erbyn hyn gan y gallai fod yn ffurfio Llywodraeth yn San Steffan y tro nesaf?

You have just made reference to the stance of the coalition in London and that it appears that it is entirely opposed to the devolution of further powers on energy to Wales. In light of the fact that the previous Labour Government did not agree to that devolution either, and that this Government is in favour of it, what exactly is the view of the Labour Party now, given that it could be forming a Government in Westminster next time?

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r sefyllfa ar y record. Mae Aelodau Seneddol Llafur wedi bod o blaid datganoli mwy o bwerau i'r Cynulliad hwn a'r Llywodraeth hon. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir ynglŷn â datganoli ynglŷn ag ynni.

The situation is on the record. Labour Members of Parliament have been in favour of the devolution of more powers to this Assembly and to this Government. The position of the Welsh Government is clear regarding the devolution of energy.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

First Minister, I recently saw a useful and interesting presentation on a proposal for a tidal lagoon in Swansea bay. What is the Welsh Government doing to try to encourage this development and are you working with the UK Government to try to make sure that this goes ahead?

Brif Weinidog, gwelais gyflwyniad defnyddiol a diddorol yn ddiweddar ar gynnig ar gyfer morlyn llanw ym mae Abertawe. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i geisio annog y datblygiad hwn ac a ydych chi'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i geisio sicrhau y bydd hyn yn digwydd?

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are working with the UK Government, of course, to develop energy sources that are of benefit to Wales, and also in terms of the benefit to jobs, bearing in mind that the planning powers out to sea are below 1 MW, so they are not particularly strong. We have no control over the renewables obligation certificates, which means that Scotland is able to offer far more generous subsidies than we can for areas of the sea that are less promising in terms of tidal and wave energy than is the case in Wales, particularly in the Bristol channel. However, we will work with any developer in order to maximise the economic potential for Wales.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, wrth gwrs, i ddatblygu ffynonellau ynni sydd o fudd i Gymru, a hefyd o ran y budd i swyddi, o gofio bod y pwerau cynllunio allan i'r môr yn is nag 1 MW, ac felly nid ydynt yn arbennig o gryf. Nid oes gennym unrhyw reolaeth dros y tystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy, sy'n golygu y gall yr Alban gynnig cymorthdaliadau llawer mwy hael nag y gallwn ni ar gyfer rhannau o'r môr sy'n llai addawol o ran ynni'r llanw a'r tonnau nag yw'r achos yng Nghymru, yn enwedig ym Môr Hafren. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gydag unrhyw ddatblygwr i sicrhau'r potensial economaidd gorau posibl i Gymru.

Senedd.tv Fideo Video

### Adfywio Economaidd

### Economic Regeneration

14:05 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adfywio economaidd yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0951(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on economic regeneration in north Wales. OAQ(4)0951(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Our north Wales coast regeneration programme continues to make a real difference. The Member will be aware of the investment that is taking place in Colwyn Bay, with the investment in Eirias Park and the investment in the theatre and the new Porth Eirias water sports centre, which I have visited on more than one occasion. So, there has been a substantial amount of investment in the north, particularly in his own constituency.

Mae ein rhaglen adfywio arfordir gogledd Cymru yn parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud ym Mae Colwyn, trwy'r buddsoddiad ym Mharc Eirias a'r buddsoddiad yn y theatr a chanolfan chwaraeon dŵr newydd Porth Eirias, yr wyf i wedi ymweld â hwy ar fwy nag un achlysur. Felly, bu buddsoddiad sylweddol yn y gogledd, yn enwedig yn ei etholaeth ef ei hun.

14:05 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response, First Minister. That investment is something that I have welcomed very much. You will remember that I called for the establishment of a seaside towns initiative in the past, and I was very pleased when Leighton Andrews, as Minister, announced the establishment of the north Wales coast regeneration area. However, we now have a new regeneration framework, which was announced yesterday by your Minister for Housing, Regeneration and Heritage. Can you assure the people of Colwyn Bay and the people in the north Wales coast strategic regeneration area that they will not be overlooked in terms of future investment for regeneration in that town?

Diolch am yr ymateb yna, Brif Weinidog. Mae'r buddsoddiad yna'n rhywbeth rwyf wedi ei groesawu'n fawr iawn. Byddwch yn cofio fy mod wedi galw am sefydlu menter trefi glan môr yn y gorffennol, ac roeddwn i'n falch iawn pan gyhoeddodd Leighton Andrews, fel y Gweinidog, sefydliad ardal adfywio arfordir gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae gennym fframwaith adfywio newydd bellach, a gyhoeddwyd ddoe gan eich Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth. A allwch chi sicrhau pobl Bae Colwyn a'r bobl yn ardal adfywio strategol arfordir gogledd Cymru na fyddant yn cael eu hanwybyddu o ran buddsoddiad ar gyfer adfywio yn y dref honno yn y dyfodol?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I can give you an assurance that they will not be overlooked, and they have not been overlooked in the past. I welcomed what the Member said about the investment, not just in Colwyn Bay, but it is of immediate interest to him, of course, as a constituency Member there. We look, of course, at the work that is being carried out in Rhyl, in particular, and the investment that has been made there, and we also look at the investment further west in terms of Môn a Menai and the Pontio project in Bangor.

Gallaf eich sicrhau na fyddant yn cael eu hanwybyddu, ac nad ydynt wedi cael eu hanwybyddu yn y gorffennol. Rwy'n croesawu'r hyn a ddywedodd yr Aelod am y buddsoddiad, nid yn unig ym Mae Colwyn, ond mae o ddiddordeb uniongyrchol iddo ef, wrth gwrs, fel Aelod etholaeth yno. Rydym yn edrych, wrth gwrs, ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y Rhyl, yn arbennig, a'r buddsoddiad a wnaed yno, ac rydym hefyd yn edrych ar y buddsoddiad ymhellach i'r gorllewin o ran Môn a Menai a'r prosiect Pontio ym Mangor.

14:07 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae pawb yn cydnabod bod gan gaffael rôl amlwg iawn i'w chwarae mewn adfywio economi. Yn ddiweddar, mae bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wedi gosod cytundeb tirfesur ar draws y gogledd i gwmni rhyngwladol o'r tu allan i Gymru, unwaith eto. Pa gyfarwyddyd y mae'r Llywodraeth yn ei roi i gyrff cyhoeddus o'r fath ynglŷn â gwario arian cyhoeddus mewn ffordd sydd o fudd i'r economi lleol, ac nid er mwyn troi elw mewn cwmnïau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r ardal?

Everyone acknowledges that procurement has a very prominent role to play in economic regeneration. Recently, the Betsi Cadwaladr health board has let a surveying contract across north Wales, which has, once again, gone to an international company outwith Wales. What guidance does the Government give to such public bodies regarding the expenditure of public funds in a way that benefits the local economy, rather than in a way that generates profits for companies that have no links with the area?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn erfyn bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio cwmnïau lleol lle mae hynny'n bosibl ac yn sicrhau bod swyddi ac arian yn dod i mewn i'r economi lleol. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym wedi ei bwysleisio dros y blynyddoedd er mwyn sicrhau bod mwy o arian yn aros yn lleol mewn gwahanol rannau o Gymru.

We expect public bodies to use local companies where possible and also to ensure that jobs and money come into the local economy. That is something that we have emphasised over the years in order to ensure that more funds remain in the local economy in various different parts of Wales.

### Diwrnod Cofio Gweithwyr

### Workers' Memorial Day

14:08 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*10. Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i nodi Diwrnod Cofio Gweithwyr ar 28 Ebrill 2013. OAQ(4)0958(FM)*

*10. What plans does the First Minister have to commemorate Workers' Memorial Day on the 28 April 2013. OAQ(4)0958(FM)*

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I will be attending the Wales Trades Union Congress Workers' Memorial Day ceremony at the Unite regional office in Cardiff, as I have done for some years.

Byddaf yn mynychu seremoni Diwrnod Cofio'r Gweithwyr Cyngres Undebau Llafur Cymru yn swyddfa ranbarthol Unite yng Nghaerdydd, fel yr wyf wedi gwneud ers rhai blynyddoedd.

14:08 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Some 200 workers die each year in workplace accidents, another 800 or so die in work-related accidents, and several thousand die each year from work-related diseases. Will the Government give consideration to the fact that perhaps there should be an annual marking of this particular event within Wales? Is that something that you would give consideration to, as this is an internationally marked day?

Mae tua 200 o weithwyr yn marw mewn damweiniau yn y gweithle bob blwyddyn, mae tua 800 arall yn marw mewn damweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith, ac mae sawl mil yn marw o glefydau sy'n gysylltiedig â gwaith bob blwyddyn. A wnaiff y Llywodraeth roi ystyriaeth i'r ffaith efallai y dylid nodi'r digwyddiad penodol hwn yng Nghymru bob blwyddyn? A yw hynny'n rhywbeth y byddech yn ei ystyried, gan fod hwn yn ddiwrnod a nodir yn rhyngwladol?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I would. It is not the Government's event; so, I would not want to tread on any toes. However, I would be more than happy to discuss with the organisers of the event whether there is anything that they feel might be done in order to raise the awareness of it.

Byddwn, mi fyddwn. Nid digwyddiad y Llywodraeth yw hwn, ac felly ni fyddwn i eisiau sathru traed unrhyw un. Fodd bynnag, byddwn yn fwy na hapus i drafod gyda threfnwyr y digwyddiad a oes unrhyw beth y maen nhw'n teimlo y gellid ei wneud er mwyn codi ymwybyddiaeth ohono.

14:09 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Workers' Memorial Day is important to promote improvements in workplace safety. In view of the forthcoming European Union review of health and safety law, what representation does his Government intend to make to ensure that measures are proportionate, risk-based and necessary to protect workers in the workplace in Wales?

Brif Weinidog, mae Diwrnod Cofio'r Gweithwyr yn bwysig i hyrwyddo gwelliannau i ddiogelwch yn y gweithle. O ystyried yr adolygiad o gyfraith iechyd a diogelwch sydd ar fin cael ei gynnal gan yr Undeb Ewropeaidd, pa sylwadau mae ei Lywodraeth yn bwriadu eu gwneud i sicrhau bod mesurau'n gymesur, yn seiliedig ar risg ac yn angenrheidiol i ddiogelu gweithwyr yn y gweithle yng Nghymru?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

'Proportionate' is the word that we have to look at. Usually, it means cutting the level of health and safety. A total of 173 people died last year in the UK in work. To me, that is evidence that the last thing that we need to do is to cut health and safety law, or to cut inspections. When the day comes when no-one is injured or killed in work, that might be the time to review the situation. The reality is that, despite the fact that we have robust health and safety legislation, workers are still being killed in unacceptable numbers, and if there is any attempt to cut the amount of legislation, or to cut the enforcement of that legislation, the numbers will rise.

'Cymesur' yw'r gair y mae'n rhaid i ni ei ystyried. Fel rheol, mae'n golygu gostwng lefel iechyd a diogelwch. Bu cyfanswm o 173 o bobl farw yn y gwaith yn y DU y llynedd. I mi, mae hynny'n dystiolaeth mai'r peth olaf y mae angen i ni ei wneud yw lleihau'r deddfau iechyd a diogelwch, neu leihau arolygiadau. Pan ddaw'r diwrnod pan na fydd unrhyw un yn cael ei anafu neu ei ladd yn y gwaith, efallai mai dyna fydd yr adeg i adolygu'r sefyllfa. Y gwir amdani, er gwaethaf y ffaith bod gennym ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gadarn, yw bod niferoedd annerbyniol o weithwyr yn dal i gael eu lladd, ac os bydd unrhyw ymgais i gyfyngu ar y ddeddfwriaeth, neu i leihau'r broses o orfodi'r ddeddfwriaeth honno, bydd y niferoedd yn cynyddu.

14:10 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, a 2010 poster for Workers' Memorial Day features a quote from the union organiser Mary Harris Jones. It says:

Brif Weinidog, mae poster o 2010 ar gyfer Diwrnod Cofio'r Gweithwyr yn cynnwys dyfyniad gan y trefnydd undeb, Mary Harris Jones. Mae'n dweud:

'Pray for the dead and fight like hell for the living'.

GweddÏwch dros y meirw ac ymladd fel diawl dros y byw.

Tomorrow marks the fourth anniversary of the battle to get their full pensions retrieved by the former Visteon workers—700 of whom live in my region. As well as a rally in London tomorrow, we are holding an inaugural meeting of the cross-party group for the support of Visteon pensioners on 16 April, and I would urge as many Assembly Members as possible to attend that meeting. First Minister, I would like to hear your reassurances today that you as a Government fully support those Visteon workers.

Bydd yn bedair blynedd yfory ers brwydr cyn-weithwyr Visteon—y mae 700 ohonynt yn byw yn fy rhanbarth i—i gael eu pensiynau llawn yn ôl. Yn ogystal â rali yn Llundain yfory, rydym yn cynnal cyfarfod cyntaf y grŵp trawsbleidiol i gefnogi pensiynwyr Visteon ar 16 Ebrill, ac rwyf yn annog cymaint o Aelodau'r Cynulliad â phosibl i fynychu'r cyfarfod hwnnw. Brif Weinidog, hoffwn eich clywed yn sicrhau heddiw eich bod chi fel Llywodraeth yn cefnogi'r gweithwyr Visteon hynny'n llawn.

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course we support workers who are entitled to pension rights and who then find that they do not get those pensions. We have done it with the former Allied Steel and Wire workers, and we offer the same support to any workers anywhere in Wales who have built up pension rights, only to find that when they seek to claim those rights, they are denied them.

Wrth gwrs ein bod yn cefnogi gweithwyr sydd â hawl i bensiwn ac sy'n canfod wedyn nad ydynt yn derbyn y pensiynau hynny. Rydym wedi gwneud hyn gyda chyn-weithwyr Allied Steel and Wire, ac rydym yn cynnig yr un gefnogaeth i unrhyw weithwyr yn unrhyw le yng Nghymru sydd wedi cronni hawliau pensiwn, dim ond i ddarganfod bod yr hawliau hynny'n cael eu gwrthod iddynt pan fyddant yn ceisio eu hawlio.

14:11 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, agriculture has one of the worst records for fatal accidents and occupational ill-health of any major employment sector. What is the Welsh Government doing to help to tackle this?

Brif Weinidog, amaethyddiaeth sydd ag un o'r hanesion gwaethaf o ddamweiniau angheuol a salwch galwedigaethol o unrhyw un o'r prif sectorau cyflogaeth. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael â hyn?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In the January of last year, the Minister launched the 'On-Farm Health & Safety Charter for Wales'. It is a joint initiative between several organisations, including the farming unions, and the organisations involved in the charter have agreed to work collaboratively to enable farmers to think before taking unnecessary risks and to promote the importance of good health and safety on-farm.

Ym mis Ionawr y llynedd, lansiodd y Gweinidog 'Siarter Cymru ar gyfer Iechyd a Diogelwch ar y Fferm'. Mae'n fenter ar y cyd rhwng sawl sefydliad, gan gynnwys yr undebau ffermio, ac mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r siarter wedi cytuno i gydweithio er mwyn galluogi ffermwyr i feddwl cyn cymryd risgiau diangen ac i hyrwyddo pwysigrwydd iechyd a diogelwch da ar y fferm.

## Prosiect Ymchwil Troseddau Casineb Cymru Gyfan

## All Wales Hate Crime Research Project

14:11 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. Beth fu canlyniad y gwaith a wnaed hyd yma gan brosiect ymchwil Troseddau Casineb Cymru Gyfan. OAQ(4)0956(FM)*

*11. What has been the outcome so far from the work carried out by the All Wales Hate Crime research project. OAQ(4)0956(FM)*

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The research project is being used as an evidence base for the Government's hate crime framework for action, which will be published for consultation in July.

Mae'r prosiect ymchwil yn cael ei ddefnyddio fel sail tystiolaeth ar gyfer fframwaith gweithredu'r Llywodraeth ar droseddau casineb, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Gorffennaf.

14:11 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that reply, First Minister. We received a statement from the Minister responsible for equalities, Jane Hutt, this morning, at 11.15 a.m.. I was very interested to read in that statement that some work is being undertaken by Cardiff University into far-right extreme groups. I think that this is the first work of its kind in any country in Britain. What action do you plan for the Welsh Government to take against such groups?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Cawsom ddatganiad gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb, Jane Hutt, y bore yma, am 11.15 a.m.. Roedd o ddiddordeb mawr i mi ddarllen yn y datganiad hwnnw fod rhywfaint o waith yn cael ei wneud gan Brifysgol Caerdydd ar grwpiau asgell dde eithafol. Rwy'n credu mai dyma'r gwaith cyntaf o'i fath yn unrhyw wlad ym Mhrydain. Pa gamau ydych chi'n bwriadu i Lywodraeth Cymru eu cymryd yn erbyn grwpiau o'r fath?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are two approaches to the far right: first of all, there is the involvement of the police in terms of monitoring their activities; and the second, of course, is ensuring that they are fully taken account of as we develop our framework for action on hate crime. As the Member will know, they are particular perpetrators of hate crime, and they will be brought within the purview of the framework when it is published for consultation in July.

Ceir dau ddull o ymdrin â'r asgell dde eithafol: yn gyntaf oll, ceir cyfranogiad yr heddlu o ran monitro eu gweithgareddau; a'r ail, wrth gwrs, yw sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn llawn wrth i ni ddatblygu ein fframwaith gweithredu ar droseddau casineb. Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, maen nhw'n cyflawni troseddau casineb yn benodol, a byddant yn rhan o gwmpas y fframwaith pan gaiff ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Gorffennaf.

14:12 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, Lindsay Whittle raises a very important point here, I think. Hate crime is a particularly vicious crime, and it makes victims feel frightened and isolated. Have you considered continuing the body to assist the ongoing monitoring and education programmes against hate crime?

Brif Weinidog, mae Lindsay Whittle yn codi pwynt pwysig iawn yma, rwy'n meddwl. Mae troseddau casineb yn droseddau arbennig o ddieflig, ac mae'n gwneud i'r rhai sy'n eu dioddef deimlo'n ofnus ac ar wahân. A ydych chi wedi ystyried parhau â'r corff i gefnogi'r rhaglenni monitro ac addysg parhaus yn erbyn troseddau casineb?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We are moving on, now, towards the hate crime framework for action. That framework will explore how we monitor hate crime across Wales, wherever it is done and whomsoever it is committed against. It is a key priority in the programme for government and, indeed, in the strategic equality plan. On that basis, not only will we put in place our own framework, but we will be working with the UK Government on the non-devolved issues in the framework, particularly around criminal justice and policing.

Rydym yn symud ymlaen nawr, tuag at y fframwaith gweithredu ar droseddau casineb. Bydd y fframwaith hwnnw'n archwilio sut rydym yn monitro troseddau casineb ledled Cymru, lle bynnag y mae'n digwydd a phwy bynnag y'i cyflawnir yn ei erbyn. Mae'n flaenoriaeth allweddol yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu ac, yn wir, yn y cynllun cydraddoldeb strategol. Ar y sail honno, byddwn yn sefydlu ein fframwaith ein hunain yn ogystal â gweithio gyda Llywodraeth y DU ar y materion yn y fframwaith nad ydynt wedi'u datganoli, ac yn enwedig y rhai'n ymwneud â chyfiawnder troseddol a phlismona.

**Blaenoriaethau** | **Priorities**

14:13 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gogledd Cymru dros y deuddeng mis nesaf. OAQ(4)0963(FM)*

*12. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's economic priorities for north Wales in the next twelve months. OAQ(4)0963(FM)*

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Our priority is to continue to do all that we can to encourage economic development and to support businesses across Wales in these difficult economic conditions.

Ein blaenoriaeth yw parhau i wneud popeth y gallwn ni i annog datblygiad economaidd ac i gefnogi busnesau ledled Cymru dan yr amodau economaidd anodd sydd ohoni.

14:13 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, the economy of the Mersey Dee area, which includes north-east Wales, was estimated to be valued at £17 billion in 2011, with forecasts indicating that the area could create 50,000 new highly skilled jobs in the next two decades. What work is the Welsh Government doing to capitalise on the potential of this area and to ensure that north-east Wales takes its advantage, which is unique in the UK economy?

Brif Weinidog, amcangyfrifwyd bod economi ardal Mersi Dyfrdwy, sy'n cynnwys gogledd-ddwyrain Cymru, werth £17 biliwn yn 2011, ac roedd y rhagolygon yn dangos y gallai'r ardal greu 50,000 o swyddi hynod fedrus newydd yn ystod y ddau ddegawd nesaf. Pa waith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fanteisio ar botensial yr ardal hon ac i sicrhau bod gogledd-ddwyrain Cymru yn defnyddio ei fantais, sy'n unigryw yn economi'r DU?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I refer the Member to the answer that I gave earlier. I can also add that we continue to support Mersey Dee Alliance activities, such as the MDA innovation network, which consistently receives positive feedback from businesses. Also, he will know, as I mentioned it earlier, that the findings of the city regions task and finish group are now being considered by the Minister.

Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais yn gynharach. Gallaf ychwanegu hefyd ein bod yn parhau i gefnogi gweithgareddau Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, fel rhwydwaith arloesi'r gynghrair, sy'n derbyn adborth cadarnhaol gan fusnesau yn gyson. Hefyd, bydd yn gwybod, gan fy mod wedi ei grybwyll yn gynharach, bod canfyddiadau grŵp gorchwyl a gorffen y dinas-ranbarthau yn cael eu hystyried gan y Gweinidog bellach.

14:14 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I welcome the fact that many of the proposals put forward by the Welsh Conservatives have been endorsed by your new regeneration framework. Given that this framework recognises the barriers to economic regeneration in rural areas, but does not contain any specific proposals to overcome them, what assurances can you provide that your Government is not ignoring the need to regenerate rural towns and villages in north Wales and elsewhere?

Brif Weinidog, rwy'n croesawu'r ffaith bod llawer o'r cynigion a gyflwynwyd gan Geidwadwyr Cymru wedi eu cymeradwyo gan eich fframwaith adfywio newydd. O gofio bod y fframwaith hwn yn cydnabod y rhwystrau i adfywio economaidd mewn ardaloedd gwledig, ond nad yw'n cynnwys unrhyw gynigion penodol i'w goresgyn, pa sicrwydd allwch chi ei roi nad yw eich Llywodraeth yn anwybyddu'r angen i adfywio trefi a phentrefi gwledig yng ngogledd Cymru ac mewn mannau eraill?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

That is what the rural development plan is for, of course, in terms of playing its part, and that is what Farming Connect is for. We know that, by increasing farmers' income, we increase the overall income of rural areas. So, there are other ways to assist rural areas along the lines that I have just mentioned.

Dyna yw diben y cynllun datblygu gwledig, wrth gwrs, o ran chwarae ei ran, a dyna beth yw diben Cyswllt Ffermio. Rydym yn gwybod, trwy gynyddu incwm ffermwyr, ein bod yn cynyddu incwm cyffredinol ardaloedd gwledig. Felly, mae ffyrdd eraill ar gael i ni i gynorthwyo ardaloedd gwledig yn y modd rwyf newydd ei grybwyll.

14:15 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Un o'r sectorau sydd â photensial economaidd sylweddol iawn yng Ngogledd Cymru yw'r sector ynni hydro. Yn anffodus, rydym yn ymwybodol o nifer o elfennau cynllunio sy'n llesteirio twf y sector hwnnw ar hyn o bryd. Wrth ichi gymharu y sefyllfa yma â'r twf yn yr Alban, credaf fod hynny'n adlewyrchu'n ddrwg ar y ffaith nid ydym wedi llwyddo i gyflawni'r potensial hwnnw yng Nghymru. Pa ystyriaeth y byddwch yn ei roi, felly, efallai drwy'r Bil cynllunio, er mwyn creu hinsawdd a fydd yn caniatáu inni wireddu potensial y sector hwnnw'n llawn?

One sector with very substantial economic potential in north Wales is the hydro energy sector. Unfortunately, we are aware of a number of planning aspects that restrict the growth of that sector at present. When you compare the situation here with the growth in Scotland, I think that reflects badly on the fact that we have not succeeded in achieving that potential in Wales. What consideration will you give, therefore, perhaps through the planning Bill, to creating an environment that will allow us to realise the potential of that sector fully?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym yn edrych i gefnogi pob math o ynni adnewyddadwy ac mae'n rhaid inni ystyried y ffaith bod mwy o arian ar gael yn yr Alban oherwydd y rheolaeth sydd gan yr Alban dros y tystysgrifau ymrwymo i ynni adnewyddadwy. Yr hyn yr ydym yn gofyn amdano yw nid rhywbeth sy'n well, ond cyfartaledd ar draws y Deyrnas Unedig, ac, ar hyn o bryd, nid yw hynny yno.

We are looking to support all kinds of renewable energy, and we must bear in mind that more funding is available in Scotland because of the control it has over renewable obligation certificates. What we are asking for is not something better, but equality across the United Kingdom and, at the moment, that does not exist.

Senedd.tv Fideo Video

14:16

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Leader of the House, Jane Hutt, and first, Andrew R.T. Davies.

Galwaf ar Arweinydd y Tŷ, Jane Hutt, ac yn gyntaf, Andrew R.T. Davies.

14:16 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you, Presiding Officer.

Diolch i chi, Lywydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

May I just—

A gaf fi—

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I beg your pardon. I was so keen to get to Andrew R.T. Davies.

Mae'n ddrwg gennyf. Roeddwn i mor awyddus i ddod at Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I have only a very minor change to report to this week's business. The debate on the Council Tax Reduction Schemes (Detection of Fraud and Enforcement) (Wales) Regulations will take place immediately after this business statement.

Dim ond un newid bach iawn sydd gen i i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Bydd y drafodaeth ar Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Canfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) yn cael ei chynnal yn syth ar ôl y datganiad busnes hwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

I seek a statement from the Minister for Health and Social Services in relation to the comments from the Chief Medical Officer for England yesterday about antibiotic resistance, a threat to the population at large that she perceived as being as great as terrorism. What role will the Welsh Government and the Chief Medical Officer for Wales have in working with colleagues in Westminster and in the other devolved nations to tackle this threat and to support the research to bring forward new antibiotics? Some of the points highlighted yesterday were that no new antibiotics have been brought forward since 1987, which was a bit of an eye-opener for many people. Surely the devolved administrations, and, in particular, the Welsh Government, have a key role to play in taking this forward, so if we could have a statement from the Minister, that would be gratefully received.

Gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y sylwadau gan y Prif Swyddog Meddygol yn Lloegr ddoe am ymwrthedd i wrthfiotigau, bygythiad i'r boblogaeth yn gyffredinol sydd mor fawr â therfysgaeth yn ei thyb hi. Pa swyddogaeth fydd Llywodraeth Cymru a Phrif Swyddog Meddygol Cymru yn ei chyflawni wrth weithio gyda chydweithwyr yn San Steffan ac yn y gwledydd datganoledig eraill i fynd i'r afael â'r bygythiad hwn, ac i gefnogi gwaith ymchwil i gyflwyno gwrthfiotigau newydd? Un o'r pwyntiau a amlygwyd ddoe oedd nad oes unrhyw wrthfiotigau newydd wedi eu cyflwyno ers 1987, a oedd yn dipyn o agoriad llygad i lawer o bobl. Siawns bod gan y gweinyddiaethau datganoledig, a Llywodraeth Cymru yn benodol, swyddogaeth allweddol i'w chyflawni o ran datblygu hyn, felly pe gallem ni gael datganiad gan y Gweinidog, byddai'n cael ei dderbyn yn ddiolchgar.

Senedd.tv Fideo Video

Also, if I could crave your indulgence, Presiding Officer, I would just like to draw Members' attention to the rugby match that will be played on Saturday. The National Assembly for Wales has a rugby team and we are playing the House of Commons. We are defending the shield. Sadly, at the moment I am the only Assembly Member who plays, but, if anyone else wants to join in, it would be great to see as many as possible here in Cardiff. [Interruption.] I see the Deputy Minister is indicating he would like to come; it would be great to see plenty of support there on Saturday defending the shield.

Hefyd, os gallaf ofyn am eich goddefgarwch, Lywydd, hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at y gêm rygbi a fydd yn cael ei chwarae ddydd Sadwrn. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dîm rygbi ac rydym yn chwarae yn erbyn Tŷ'r Cyffredin. Rydym yn amddiffyn y darian. Yn anffodus, fi yw'r unig Aelod o'r Cynulliad sy'n chwarae ar hyn o bryd, ond, os hoffai unrhyw un arall ymuno, byddai'n wych gweld cymaint â phosibl yma yng Nghaerdydd. [Torri ar draws.] Gwelaf fod y Dirprwy Weinidog yn nodi y byddai'n hoffi dod; byddai'n wych gweld digonedd o gefnogaeth yno ddydd Sadwrn pan fyddwn yn amddiffyn y darian.

14:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You do not have to comment on the rugby, Minister. Answer the first point, please.

Nid oes rhaid i chi roi sylwadau ar y rygbi, Weinidog. Atebwch y pwynt cyntaf, os gwelwch yn dda.

14:18

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is a very serious point that Andrew R.T. Davies has made in response to the statement by the Chief Medical Officer for England yesterday. That concern is of course shared by our chief medical officer and the Minister. We also have concerns about the dangers of growing resistance to antibiotics, and we recognise the need to restrict their use to situations where there is evidence of significant clinical benefit. I know that the Minister will want to respond more formally, as well as to draw attention to the series of prescribing indicators for 2013-14, which have been published by the all-Wales medicine strategy group and which are very relevant to this point.

Mae'n bwynt difrifol iawn y mae Andrew R.T. Davies wedi ei wneud gan ymateb i'r datganiad gan Brif Swyddog Meddygol Lloegr ddoe. Rhennir y pryder hwnnw, wrth gwrs, gan ein prif swyddog meddygol ni a'r Gweinidog. Mae gennym ninnau bryderon hefyd am beryglon ymwrthedd cynyddol i wrthfiotigau, ac rydym yn cydnabod yr angen i gyfyngu eu defnydd i sefyllfaoedd lle ceir tystiolaeth o fudd clinigol sylweddol. Gwn y bydd y Gweinidog yn awyddus i ymateb yn fwy ffurfiol, yn ogystal ag i dynnu sylw at y gyfres o ddangosyddion rhagnodi ar gyfer 2013-14, sydd wedi eu cyhoeddi gan grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan ac sy'n berthnasol iawn i'r pwynt hwn.

14:19

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the leadership that the Welsh Government has shown in terms of delivering a living wage. A living wage can promote productivity and morale at work, have benefits in terms of health and wellbeing, and offer a degree of protection for low-wage workers, who are living in in-work poverty and experiencing the brunt of the UK Government's attack on low-wage workers. Could we have a statement updating us on the work of the advisory group that you set up to explore how a living wage for Wales could help you to deliver the Welsh Government's policy ambitions on fairness?

Rwy'n croesawu'r arweinyddiaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddangos o ran darparu cyflog byw. Gall cyflog byw hybu cynhyrchiant ac ysbryd yn y gwaith, sicrhau manteision o ran iechyd a lles, a chynnig rhywfaint o amddiffyniad i weithwyr cyflog isel, sy'n byw mewn tlodi mewn gwaith ac yn dioddef effeithiau gwaethaf ymosodiad Llywodraeth y DU ar weithwyr cyflog isel. A allem ni gael datganiad yn ein diweddaru ar waith y grŵp cynghori a sefydlwyd gennych i archwilio sut y gallai cyflog byw i Gymru eich helpu chi i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru ar degwch?

14:19

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the Member knows, the Minister issued a written statement on 8 November last year. I am grateful that she has raised the subject of the living wage today. That statement was made during Living Wage Week, and outlined our aspirations and the commitment of the Welsh Government to look further at how we could deliver the living wage and the advisory group is helping us with this task. So, we are giving further consideration to how the agenda can be taken forward.

Fel y mae'r Aelod yn gwybod, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig ar 8 Tachwedd y llynedd. Rwy'n ddiolchgar ei bod wedi codi pwnc y cyflog byw heddiw. Gwnaed y datganiad hwnnw yn ystod yr Wythnos Cyflog Byw, ac roedd yn amlinellu ein dyheadau ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i edrych ymhellach ar sut y gallem gyflwyno'r cyflog byw ac mae'r grŵp cynghori yn ein helpu ni gyda'r dasg hon. Felly, rydym yn rhoi ystyriaeth bellach i sut y gellir datblygu'r agenda.

14:20 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gwnaethoch ddatganiad ysgrifenedig heddiw ar sefydlu gwasanaeth caffael cenedlaethol. Mae'n ddatganiad pellgyrhaeddol gan ei fod o bosibl yn golygu canoli gwario £2 neu £3 o bob £10 sy'n cael ei wario yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hynny'n codi nifer o gwestiynau ynglŷn â chanoli grym. Hefyd, os ydych yn sôn am arbedion o £25 miliwn, a yw hynny'n golygu y bydd y cytundebau hyn yn cael eu gosod y tu allan i Gymru? Mae nifer o gwestiynau, felly rwy'n gofyn am ddatganiad llafar neu ddadl ar lawr y Cynulliad ar y mater hwn, sy'n amlwg ag oblygiadau pellgyrhaeddol i gwmnïau yng Nghymru ac i'r economi.

You have issued a written statement today on the establishment of a national procurement service. It is a far-reaching statement because it could mean centralising the expenditure of £2 or £3 of every £10 that is spent in the public sector in Wales. That raises a number of questions in relation to the centralisation of power. Also, if you are talking of savings of £25 million, does that mean that these contracts would be given outside Wales? There are a number of questions, so I am asking for an oral statement or a debate on the floor of the Chamber on this matter, which will clearly have far-reaching implications for companies in Wales and for the economy.

14:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for that response to the written statement I issued this morning. That is very much in partnership with my colleague Carl Sargeant, the Minister for Local Government and Communities. As you know, I promoted a debate earlier in the session, giving an update on how we are progressing with the national procurement service. I would be happy to come back with an oral statement on this in the next session.

Rwy'n ddiolchgar am yr ymateb yna i'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddais y bore yma. Mae hynny'n sicr mewn partneriaeth â'm cydweithiwr Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Fel y gwyddoch, hyrwyddais drafodaeth yn gynharach yn y sesiwn, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd o ran y gwasanaeth caffael cenedlaethol. Byddwn yn hapus i ddychwelyd gyda datganiad llafar ar hyn yn y sesiwn nesaf.

14:21 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week I had the opportunity to lead a short debate on the future of rural banking. There were a number of really useful and insightful contributions from across the Chamber on that occasion—including an unwelcome invitation from my friend opposite. The Minister gave a full and engaged response, and, in that context, I think it would be helpful, given her belief that the matter merits a greater depth of analysis than was possible in the framework of the short debate, to allocate Government time this side of the summer recess to discussing the matter further and taking forward some of the issues that were raised.

Weinidog, cefais y cyfle yr wythnos diwethaf i arwain trafodaeth fer ar ddyfodol bancio gwledig. Cafwyd nifer o gyfraniadau defnyddiol a chraff iawn o bob rhan o'r Siambr ar yr achlysur hwnnw—gan gynnwys gwahoddiad annerbyniol gan fy ffrind gyferbyn. Rhoddodd y Gweinidog ymateb llawn a diddorol, ac, yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol, o ystyried ei barn bod y mater yn haeddu dadansoddiad mwy dwys na'r hyn a oedd yn bosibl o fewn fframwaith y drafodaeth fer, i neilltuo amser y Llywodraeth cyn toriad yr haf i drafod y mater ymhellach a bwrw ymlaen â rhai o'r materion a godwyd.

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science is answering questions tomorrow afternoon, so that will offer an opportunity to raise that directly with her. I know that this is an issue that she is very engaged in and we will be reporting on developments.

Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn ateb cwestiynau brynhawn yfory, felly bydd hynny'n cynnig cyfle i godi hynny'n uniongyrchol gyda hi. Gwn fod hwn yn fater y mae wedi ymgysylltu'n fawr ag ef a byddwn yn adrodd ar ddatblygiadau.

14:22 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

I would like to request a debate on the current suspension of the regeneration investment fund for Wales and the ongoing Wales Audit Office investigation. It is worth noting that the Minister responsible released a written statement suspending the investment fund on Thursday 7 February at 5 p.m., on the eve of recess. We have not had an opportunity to debate this. I believe that a debate is urgently needed, as highlighted by the statement on 'Vibrant and Viable Places' this afternoon. When the consultation on that document began, the regeneration investment fund for Wales was key in making available loans and investment capital under the European Commission's JESSICA initiative. This has fundamentally failed. The initiative, as outlined in your consultation document, was to help regenerate the Welsh economy and lever in private sector support. In fact, the only scheme it has supported is a public-sector led scheme in Neath Port Talbot. This is not subject to the sub judice rule. We need a debate and we need it now. We need to take this seriously, as the Welsh Government should have learned the lessons of transparency and integrity having had its fingers burned with the All Wales Ethnic Minority Association scandal.

Hoffwn wneud cais am drafodaeth ar yr ataliad dros dro presennol o gronfa buddsoddi Cymru mewn Adfywio ac ymchwiliad parhaus Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n werth nodi bod y Gweinidog sy'n gyfrifol wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn atal y gronfa fuddsoddi ddydd Iau 7 Chwefror am 5 p.m., ar noswyl y toriad. Nid ydym wedi cael cyfle i drafod hyn. Credaf fod angen cynnal y drafodaeth hon ar frys, fel yr amlygir gan y datganiad ar 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' y prynhawn yma. Pan ddechreuodd yr ymgynghoriad ar y ddogfen honno, roedd cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio yn allweddol o ran sicrhau bod benthyciadau a buddsoddiad cyfalaf ar gael dan fenter JESSICA y Comisiwn Ewropeaidd. Mae hyn wedi methu yn ei hanfod. Nod y fenter, fel yr amlinellwyd yn eich dogfen ymgynghori, oedd helpu i adfywio economi Cymru a denu cefnogaeth sector preifat. Mewn gwirionedd, yr unig gynllun y mae wedi ei gefnogi yw cynllun a arweiniwyd gan y sector cyhoeddus yng Nghastell-nedd Port Talbot. Nid yw hyn yn ddarostyngedig i'r rheol is-farnwrol. Mae angen trafodaeth arnom, ac mae ei hangen arnom nawr. Mae angen i ni gymryd hyn o ddifrif, gan y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi dysgu gwersi o dryloywder a gonestrwydd ar ôl cael ei llosgi gan sgandal Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Clearly, a full written statement was issued by the Minister, and opportunities to question the Minister on that statement are available.

Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig llawn gan y Gweinidog, yn amlwg, ac mae cyfleoedd ar gael i holi'r Gweinidog am y datganiad hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

As the Minister knows, today, the cross-party group on Gypsies and Travellers held a meeting in the Pierhead. There were about 20 young Gypsies and Travellers there who spoke very powerfully about the stigma they experience in their daily lives. Can the Minister arrange for a statement to be made to say what has been achieved for young Gypsies and Travellers in that situation during the period of this Assembly?

Fel y mae'r Gweinidog yn gwybod, cynhaliodd y grŵp trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr gyfarfod yng Nglanfa'r Cynulliad heddiw. Roedd tua 20 o Sipsiwn a Theithwyr ifanc yno a siaradodd yn rymus iawn am y stigma sy'n gysylltiedig â nhw yn eu bywydau beunyddiol. A all y Gweinidog drefnu i ddatganiad gael ei wneud i ddweud beth sydd wedi ei gyflawni ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn y sefyllfa honno yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I was glad to join the cross-party group, which Julie Morgan, the Member for Cardiff North, chairs, today and to meet the young people from the national forum and to see the film they had produced with the support of Save the Children. I would very much like to bring a statement to the Assembly to take stock and give an update on the delivery of our strategy, 'Travelling to a Better Future'.

Roeddwn yn falch o ymuno â'r grŵp trawsbleidiol, y mae Julie Morgan, yr Aelod dros Ogledd Caerdydd, yn ei gadeirio, heddiw ac i gyfarfod â'r bobl ifanc o'r fforwm cenedlaethol ac i weld y ffilm a gynhyrchwyd ganddynt gyda chefnogaeth Achub y Plant. Hoffwn yn fawr gyhoeddi datganiad i'r Cynulliad i bwyso a mesur a chynnig diweddariad ar ddarpariaeth ein strategaeth, 'Teithio at Ddyfodol Gwell'.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, last week, the Minister for Local Government and Communities issued a statement immediately responding to the Wales Audit Office report on the problems at Caerphilly County Borough Council. We are still waiting for a similar statement from your Government regarding the report on AWEMA from the Wales Audit Office. When are we going to receive more information and statements from your Government on that particular issue?

Weinidog, yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad yn ymateb yn uniongyrchol i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y problemau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Rydym yn dal i aros am ddatganiad tebyg gan eich Llywodraeth o ran yr adroddiad ar AWEMA gan Swyddfa Archwilio Cymru. Pa bryd yr ydym ni'n mynd i dderbyn rhagor o wybodaeth a datganiadau gan eich Llywodraeth ar y mater penodol hwnnw?

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

We await the report from the Public Accounts Committee on the grants management scheme. I am aware that AWEMA is a case study in that report and, of course, we will be responding to that report.

Rydym yn aros am yr adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y cynllun rheoli grantiau. Rwy'n ymwybodol mai astudiaeth achos yn yr adroddiad hwnnw yw AWEMA ac, wrth gwrs, byddwn yn ymateb i'r adroddiad hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

I call for two statements from the Minister for Health and Social Services. One is in respect of the timetable for decision making on national health service reorganisation in north Wales and west Wales. The Minister will be aware that referrals have been made by community health councils in those parts of the country, and I think that it is important that there is urgency in terms of the decision-making process in order to put uncertainty to bed.

Galwaf am ddau ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae un yn ymwneud â'r amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau am ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd gwladol yng ngogledd Cymru a gorllewin Cymru. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod atgyfeiriadau wedi eu gwneud gan gynghorau iechyd cymuned yn y rhannau hynny o'r wlad, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod yna frys o ran y broses o wneud penderfyniadau er mwyn rhoi terfyn ar yr ansicrwydd.

Secondly, I ask for a statement on cross-border health services. The Minister may be aware that concerns have been raised by Members of Parliament representing border constituencies in England regarding the treatment of patients from England who are registered with general practitioners in Wales who do not, for whatever reason, have access to services in English hospitals in the same way as they would if registered with GPs in England. Of course, this situation could work in reverse, with Welsh residents who are registered with GPs in England accessing services differently. We need clarity on this issue to ensure that Welsh patients are treated properly and that English patients are treated under an English system.

Yn ail, gofynnaf am ddatganiad ar wasanaethau iechyd traws-ffiniol. Efallai y bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod pryderon wedi eu codi gan Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli etholaethau ar y ffin yn Lloegr ynghylch triniaeth cleifion o Loegr sydd wedi'u cofrestru gyda meddygon teulu yng Nghymru nad oes ganddynt, am ba bynnag reswm, fynediad at wasanaethau mewn ysbytai yn Lloegr yn yr un ffordd ag y byddai ganddynt pe baent wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu yn Lloegr. Wrth gwrs, gallai'r sefyllfa hon weithio'r ffordd groes, wrth i drigolion Cymru sydd wedi eu cofrestru gyda meddygon teulu yn Lloegr ddefnyddio gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Mae angen i ni gael eglurder ar y mater hwn er mwyn sicrhau bod cleifion Cymru yn cael eu trin yn briodol a bod cleifion Lloegr yn cael eu trin dan system Lloegr.

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

On your first request, the Minister for Health and Social Services will be reporting back, and, following the letter from Betsi Cadwaladr Community Health Council in terms of the consultation, she will be giving consideration now to the proposals for that area and for the Hywel Dda Local Health Board area.

O ran eich cais cyntaf, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd yn ôl, ac, yn dilyn y llythyr gan Gyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr ar yr ymgynghoriad, bydd bellach yn rhoi ystyriaeth i'r cynigion ar gyfer yr ardal honno ac ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda.

In response to your second request, one might consider that Mark Harper is trying to take eyes off the fact that in England the Tory Government is privatising the NHS. That particular Member of Parliament, who raises these issues about cross-border health, is poking his nose into Wales's business, I believe. We have very robust engagement—[Interruption.]

Gan ymateb i'ch ail gais, gallai rhywun feddwl bod Mark Harper yn ceisio tynnu sylw oddi wrth y ffaith bod y Llywodraeth Doriaidd yn preifateiddio'r GIG yn Lloegr. Mae'r Aelod Seneddol penodol hwnnw, sy'n codi'r materion hyn am iechyd traws-ffiniol, yn ymyrryd ym musnes Cymru, yn fy marn i. Mae gennym ymgysylltiad cadarn iawn—[Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. The Minister is trying to respond and there are Members chatting away.

Trefn. Mae'r Gweinidog yn ceisio ymateb ac mae Aelodau'n sgwrsio'n ddi-baid.

Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

We have very robust engagement at cross-border level between our health boards and between the Welsh Government and the UK Government.

Mae gennym ymgysylltiad cadarn iawn ar lefel draws-ffiniol rhwng ein byrddau iechyd a rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Senedd.tv Fideo Video

14:28 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can we have a debate on how to encourage grass-roots sport in Cardiff? The Labour-controlled Cardiff Council has decided to introduce swingeing increases in its fees for pitch and changing-room facilities. As a result, football teams will pay £55 per game instead of £38 and rugby teams will pay £75 instead of £38. The cost of hiring a cricket pitch—cricket is a sport that I love very much—will increase from £20.50 to £55 per match. There are 15 teams of Asian boys in Cardiff. Each team plays 20 matches per season, so this is probably going to cost them an extra £10,350 per year, which is totally unacceptable if we want to promote the sports in Wales. Can we have a debate on how we can offset the detrimental effect that these swingeing increases will have on grass-roots sport in Cardiff and, if this is happening elsewhere, in Wales as a whole?

Weinidog, a gawn ni drafodaeth ar sut i annog chwaraeon llawr gwlad yng Nghaerdydd? Mae Cyngor Caerdydd, a reolir gan y Blaid Lafur, wedi penderfynu cyflwyno cynnydd enfawr i'w ffioedd ar gyfer caeau a chyfleusterau ystafell newid. O ganlyniad, bydd timau pêl-droed yn talu £55 y gêm yn hytrach na £38 a bydd timau rygbi yn talu £75 yn hytrach na £38. Mae'r gost o logi cae criced—ac mae criced yn gêm yr wyf yn hoff iawn ohoni—yn cynyddu o £20.50 i £55 y gêm. Ceir 15 o dimau o fechgyn Asiaidd yng Nghaerdydd. Mae pob tîm yn chwarae 20 gêm y tymor, felly mae'n debyg y bydd hyn yn costio £10,350 y flwyddyn yn ychwanegol iddynt, sy'n gwbl annerbyniol os ydym ni'n dymuno hyrwyddo chwaraeon yng Nghymru. A allwn ni gael trafodaeth ar sut y gallwn wneud iawn am yr effaith andwyol y bydd y cynnydd enfawr yn ei chael ar chwaraeon llawr gwlad yng Nghaerdydd ac, os yw hyn yn digwydd mewn mannau eraill, yng Nghymru yn ei chyfanrwydd?

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is a matter for Cardiff Council. It is seeking to manage its finances against the backdrop of a £1.3 billion cut by the UK Government to funding to the Welsh Government. We are trying to protect local authorities accordingly. I know that Cardiff Council will be undertaking equality impact assessments of its decisions.

Mater i Gyngor Caerdydd yw hwn. Mae'n ceisio rheoli ei gyllid ar sail gostyngiad o £1.3 biliwn gan Lywodraeth y DU i gyllid i Lywodraeth Cymru. Rydym yn ceisio amddiffyn awdurdodau lleol yn unol â hynny. Gwn y bydd Cyngor Caerdydd yn cynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar gyfer ei benderfyniadau.

## Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Canfod Twyll a Gorfodi) (Cymru)

Cynnig NDM5184 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Chwefror 2013.

## Council Tax Reduction Schemes (Detection of Fraud and Enforcement) (Wales) Regulations

Motion NDM5184 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Approves that the draft The Council Tax Reduction Schemes (Detection of Fraud and Enforcement) (Wales) Regulations 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 19 February 2013.

14:29 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau / The Minister for Local Government and Communities*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am grateful to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for considering these regulations, and I am pleased to note that there no issues are identified in its report. These regulations are required to ensure that local authorities are able to effectively operate their council tax reduction scheme, by allowing them to protect their scheme from attempted fraud, and to deter those who may be considering making a false claim.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ystyried y rheoliadau hyn, ac rwy'n falch o weld nad oes unrhyw broblemau wedi'u nodi yn ei adroddiad. Mae angen y rheoliadau hyn i sicrhau y gall awdurdodau lleol weithredu eu cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yn effeithiol, trwy eu galluogi i ddiogelu eu cynllun rhag twyll, ac i atal y rhai hynny a allai fod yn ystyried gwneud hawliad ffug.

14:30 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolchaf i'r Gweinidog am ddwyn y rheoliadau hyn gerbron. Maent yn rheoliadau gweddol syml ac uniongyrchol. Derbyniwn gynnwys y rheoliadau, sef pwysigrwydd ein bod yn parhau â threfniadau presennol llywodraeth leol i fynd i'r afael ag unrhyw fath o dwyll. Gall y twyll hwn gyrraedd hyd at £3 miliwn yng Nghymru, yn ôl y memorandwm esboniadol.

I thank the Minister for bringing these regulations forward. They are relatively simple and direct regulations. We accept what is contained within these regulations, namely the importance of continuing with the arrangements that local authorities have at present to tackle any sort of fraud. This fraud can cost as much as £3 million in Wales, according to the explanatory memorandum.

Ceir cyfeiriad hefyd at y lwfansau treth cyngor. Rwy'n siŵr nad yw'r Gweinidog am glywed am hyn, ond fe atgoffaf ef o'r hyn ddigwyddodd ychydig cyn y Nadolig o ran y dreth hon, a'r trafferthion a gawsom yng Nghymru o ran mynd i'r afael â'r broblem hon—problem a grëwyd gan y glymblaid yn San Steffan, drwy ddatganoli y lwfans treth gyngor hwn gyda 10% o ddiffyg yn y cyllid. Derbyniaf mai o'r fan honno y mae'r broblem wedi deillio. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, rydym wedi cael cryn drafferth yng Nghymru wrth fynd i'r afael â'r broblem. Rydym wedi cyrraedd sefyllfa yn awr lle y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud iawn am y diffyg hwnnw. Fodd bynnag, mae cost fawr yn gysylltiedig â hynny. Yn Lloegr, y mae awdurdodau lleol wedi ceisio mynd i'r afael â'r sefyllfa honno, ac maent yn mynd i wynebu trafferthion mawr. Rhybuddiais y Gweinidog ynghylch beth fyddai'n digwydd yng Nghymru pe na baem yn gwneud iawn am y diffyg hwn, ac rwy'n rhagweld y bydd awdurdodau lleol yn Lloegr yn gorfod mynd â phobl i'r llysoedd i geisio adfer symiau cymharol fach o arian, a fydd yn costio llawer mwy iddynt mewn costau cyfreithiol nag y byddant yn ei dderbyn yn ôl. Bydd pobl nad oeddynt yn disgwyl cael y dreth gyngor hon yn canfod eu hunain yn y llys oherwydd nad oes ganddynt unrhyw fodd i'w dalu. Felly, yn hyn o beth, rwy'n falch fod y Llywodraeth wedi cael ei gorfodi, hyd y gwelaf, i wynebu'r sefyllfa hon.

There is also reference to council tax allowances. I am sure that the Minister does not want to hear this, but I will remind him of what happened a little before Christmas on this tax, and the difficulties that we had in Wales in getting to grips with this problem—a problem created by the coalition in Westminster, by devolving the council tax benefit with a 10% deficit in the funding. I accept that that is where the problem stemmed from. However, having said that, we have had some difficulty in Wales in getting to grips with this problem. We have now reached a situation where the Welsh Government is to make up that deficit. However, there is a major cost attached to that. In England, local authorities have tried to tackle that situation, and they are going to face huge difficulties. I warned the Minister what would happen in Wales if we were not to make up this deficit, and I anticipate that local authorities in England will have to pursue people through the courts to try to claw back relatively small sums of money, which will cost them more in legal fees to do than the funds that they would recoup. There will be people who do not expect to be paying this council tax who will find themselves before the court because they are unable to pay. Therefore, in this regard, I am pleased that the Government has been forced, as far as I can see, to face up to this situation.

Fodd bynnag, beth fydd yn digwydd yn y dyfodol, Weinidog? Dywedwch yn y memorandwm esboniadol y bydd yn rhaid dychwelyd at hyn, oherwydd na wyddoch beth fydd y sefyllfa yn y dyfodol o ran ariannu lwfansau treth cyngor. A ydych yn mynd i edrych ar yr hyn sy'n digwydd o ran y cynghorau yn Lloegr i weld a oes unrhyw wersi i'w dysgu o'r fan honno, ac i weld lle y gellid codi arian i wneud iawn am y diffyg hwn? Fel arall, a ydych am sicrhau bod digon o arian yn eich cyllideb yn y dyfodol i wynebu'r sefyllfa hon, neu a ydym yn mynd i ganfod ein hunain y flwyddyn nesaf yn yr un sefyllfa ag yr oeddem ynddi ychydig cyn y Nadolig, lle nad oedd gennym unrhyw ateb, ac yn wynebu argyfwng gwirioneddol? Gobeithio, Weinidog, bod modd inni ddefnyddio'r cyfnod hwn—sef y flwyddyn sydd wedi cael ei neilltuo—i ddarparu ar gyfer y dyfodol. Er eich bod yn dweud bod yn rhaid inni fynd yn ôl at y sefyllfa hon, nid ydych yn dweud beth yw'ch bwriadau o ran trefnu ar gyfer y dyfodol o ran lwfansau treth cyngor.

However, what will happen in the future, Minister? You sate in the explanatory memorandum that we will have to return to this issue, because you do not know what the situation will be in the future in terms of funding council tax allowances. Will you look at what is happening to councils in England to see whether there are any lessons to be learned there, and to see where funds could be raised to make up this deficit? Alternatively, will you ensure that within your own budget there is adequate money available for the future to face up to this problem, or are we going to find ourselves next year in the same situation that we found ourselves in a little before Christmas of having no solution, and facing a very real crisis? I hope, Minister, that there is a means for us to use this period of time—the 12 months that we have—in order to make preparations for the future. Although you say that we must return to this issue, you do not tell us what your intentions are in terms of making arrangements for the future of council tax allowances.

14:33 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau / The Minister for Local Government and Communities*

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the Member's contribution and for his party's support in this process. He is right to raise the issue of the future funding for this scheme. I am unaware as of yet of my financial settlement to take forward to understand what the settlement would or could be for local authorities in the future, or indeed for this scheme. However, I am committed to working with local authorities, and with Members of this institution, on this issue, to ensure that we can provide the greatest benefit for the people who need these regulations in place.

Rwy'n ddiolchgar am gyfraniad yr Aelod ac am gefnogaeth ei blaid yn y broses hon. Mae'n iawn i godi'r mater o gyllid ar gyfer y cynllun hwn yn y dyfodol. Nid wyf yn ymwybodol eto o'm setliad ariannol er mwyn symud ymlaen i ddeall beth fyddai neu y gallai'r setliad fod ar gyfer awdurdodau lleol yn y dyfodol, neu ar gyfer y cynllun hwn mewn gwirionedd. Fodd bynnag, rwyf wedi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau lleol, a chydag Aelodau o'r sefydliad hwn, ar y mater hwn, er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu'r budd mwyaf i'r bobl sydd angen i'r rheoliadau hyn fod ar waith.

Furthermore, following today's debate—and should this motion be subject to a positive vote—I intend to lay a further set of regulations. Those regulations relate to data sharing and will ensure that local authorities are able to access data from HM Revenue and Customs for council tax purposes through the negative resolution.

Hefyd, yn dilyn trafodaeth heddiw—a phe byddai'r cynnig hwn yn destun pleidlais gadarnhaol— rwy'n bwriadu cyflwyno cyfres arall o reoliadau. Mae'r rheoliadau hynny'n ymwneud â rhannu data a byddant yn sicrhau y gall awdurdodau lleol gael mynediad at ddata— gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi at ddibenion y dreth gyngor trwy'r penderfyniad negyddol.

14:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Cynigir y dylid cymeradwyo'r cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

14:35

## Datganiad: Adroddiad Guilford ar y Trefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2014-2020

## Statement: The Guilford Report on the Arrangements for Implementation of the European Programmes 2014-2020

Senedd.tv Fideo Video

**Alun Davies** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd / The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes*

In my oral statement on 3 July last year, I informed Members that I had asked Dr Grahame Guilford to undertake an independent review of arrangements for the implementation of the prospective European structural funds programmes in 2014–20. I am pleased to advise Members today that I have received and published a copy of Dr Guilford's report. I believe that this report provides a strong evidence base from which we can learn and support continuous improvement. It also dispels some of the myths that surround structural funds.

Yn fy natganiad llafar ar 3 Gorffennaf y llynedd, fe hysbysais yr Aelodau fy mod wedi gofyn i Dr Grahame Guilford gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau i weithredu'r rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd arfaethedig yn 2014–20. Rwyf yn falch o hysbysu'r Aelodau heddiw fy mod wedi cael copi o adroddiad Dr Guilford ac wedi ei gyhoeddi. Credaf fod yr adroddiad hwn yn rhoi sail tystiolaeth gref y gallwn ddysgu ohoni a'i defnyddio i gefnogi gwelliant parhaus. Mae hefyd yn chwalu rhai o'r straeon sy'n gysylltiedig â chronfeydd strwythurol.

I welcome Dr Guilford's report and will now consider his detailed conclusions and recommendations with my officials. It comes at an important time in the development of our future programmes, with a full public consultation currently under way and negotiations continuing with the United Kingdom Government on securing a fair allocation of future structural funds for Wales, so that we can continue our work in transforming the economy of our country.

Rwyf yn croesawu adroddiad Dr Guilford a byddaf bellach yn ystyried ei gasgliadau manwl a'i argymhellion gyda fy swyddogion. Mae'n dod ar adeg bwysig yn natblygiad ein rhaglenni ar gyfer y dyfodol, gydag ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a thrafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar sicrhau dyraniad teg o gronfeydd strwythurol yn y dyfodol i Gymru, fel y gallwn barhau â'n gwaith o drawsnewid economi ein gwlad.

Dr Guilford's review began last August and over the course of just over six months he has interviewed and engaged with a wide range of stakeholders across Wales to help inform his research into the delivery of the current and previous structural funds programmes. As part of this, he has also conducted two open-discussion exercises to seek written views from all interested parties on specific implementation issues.

Dechreuodd adolygiad Dr Guilford fis Awst diwethaf ac mewn ychydig dros chwe mis mae wedi cyfweld ac ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ledled Cymru i helpu i lywio ei ymchwil i gyflenwi'r rhaglenni cronfeydd strwythurol presennol a blaenorol. Yn rhan o hyn, mae hefyd wedi cynnal dau ymarfer trafodaeth agored i geisio barn ysgrifenedig gan bawb sydd â diddordeb am faterion gweithredu penodol.

At this point, I would like to extend my thanks to Dr Guilford for the hard and extensive work that he has undertaken over the past months and I would like to thank everyone who has contributed their time and expertise to this very important piece of work.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Dr Guilford am y gwaith caled a helaeth y mae wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu o'u hamser a'u harbenigedd i'r darn pwysig iawn hwn o waith.

As for the report itself, it is clear from the evidence presented that we already have in place strong foundations and valuable experience from which we are able to maximise the delivery of the future structural funds programmes in Wales. Indeed, I have often reported to Members that we are highly regarded by the European Commission for the way in which we lead, manage and deliver our programmes—often being held up as an exemplar to other EU regions. It is also important to recognise the critical role the structural funds have played during very difficult economic times. EU-funded programmes have already helped 46,600 people into work and 125,400 people to gain qualifications. They have helped create 17,600 jobs and some 5,200 enterprises. These figures will increase, of course, as projects continue to deliver until the end of 2015.

O ran yr adroddiad ei hun, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd fod gennym eisoes sylfeini cryf a phrofiad gwerthfawr y gallwn eu defnyddio i wneud y gorau o gyflenwi'r rhaglenni cronfeydd strwythurol yn y dyfodol yng Nghymru. Yn wir, rwyf wedi adrodd yn aml wrth Aelodau fod gan y Comisiwn Ewropeaidd feddwl mawr ohonom am y ffordd yr ydym yn arwain, yn rheoli ac yn cyflwyno ein rhaglenni—cawn yn aml ein nodi fel esiampl i ranbarthau eraill yr UE. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y rhan hanfodol y mae cronfeydd strwythurol wedi'i chwarae yn ystod cyfnod economaidd anodd iawn. Mae rhaglenni a ariennir gan yr UE eisoes wedi helpu 46,600 o bobl i gael gwaith a 125,400 o bobl i ennill cymwysterau. Maent wedi helpu i greu 17,600 o swyddi a thua 5,200 o fentrau. Bydd y ffigurau hyn yn cynyddu, wrth gwrs, wrth i brosiectau barhau i gyflenwi hyd at ddiwedd 2015.

Dr Guilford's report makes 14 recommendations in total, set out under three main headings linked through a hierarchical dependency: a strategic recommendation referring to the development of an economic prioritisation framework; operational recommendations covering the use of this framework as a means of planning and directing project selection; and environmental and organisational recommendations designed to improve the overall efficiency of the entire structural funds partnership. Dr Guilford acknowledges that the decision to move to a more strategic delivery model in the current programmes—one which aimed to focus investment more on key areas of the economy and looked to achieve greater synergy with overall Welsh Government development strategy—was fundamentally the right approach.

Mae adroddiad Dr Guilford yn gwneud 14 o argymhellion i gyd, a nodir dan dri phrif bennawd sydd wedi'u cysylltu drwy ddibyniaeth hierarchaidd: argymhelliad strategol yn cyfeirio at ddatblygu fframwaith blaenoriaethu economaidd; argymhellion gweithredol am ddefnyddio'r fframwaith hwn fel ffordd o gynllunio a chyfarwyddo prosesau dethol prosiect; ac argymhellion amgylcheddol a sefydliadol a gynlluniwyd i wella effeithlonrwydd cyffredinol y bartneriaeth cronfeydd strwythurol gyfan. Mae Dr Guilford yn cydnabod bod y penderfyniad i symud tuag at fodel cyflenwi mwy strategol gyda'r rhaglenni presennol—gyda'r bwriad o wneud mwy i ganolbwyntio buddsoddiad ar feysydd allweddol yr economi a cheisio sicrhau mwy o synergedd gyda strategaeth datblygu gyffredinol Llywodraeth Cymru—yn ddull sylfaenol gywir.

Dr Guilford also notes that the experience and knowledge gained operationally in moving to this more strategic approach provides us with a secure base on which we can build for future programme delivery. This will also ensure that we hit the ground running in early 2014. Indeed, our future investment proposals, which are currently subject to consultation, have already been prepared in full consultation with stakeholders and are closely aligned with the Welsh Government's strategic objectives for growth and jobs, as set out in our programme for Government.

Mae Dr Guilford hefyd yn nodi bod y profiad a'r wybodaeth a enillwyd yn weithredol wrth symud at yr ymagwedd fwy strategol hon yn rhoi sylfaen gadarn y gallwn adeiladu arni i gyflenwi rhaglenni yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn sicrhau ein bod yn cael dechrau da i 2014. Yn wir, mae ein cynigion buddsoddi yn y dyfodol, sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghori, eisoes wedi cael eu paratoi mewn ymgynghoriad llawn â rhanddeiliaid ac yn cyd-fynd yn agos ag amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer twf a swyddi, fel y nodir yn ein rhaglen ar gyfer llywodraethu.

Dr Guilford's report also reflects some of the findings of the Finance Committee's report, 'The Effectiveness of European Structural Funds in Wales', which was published last December. For example, the need for simplification and streamlining, within the parameters of European Commission regulations, of our appraisal and assessment processes, so that it is easier for organisations and businesses to benefit from EU funds. I have also stressed the importance of better integration of the future structural, rural and fisheries funds to help generate more sustainable and greater impact from our investments, which forms another of Dr Guilford's recommendations. This approach will enable a greater complementarity in the delivery of activity at a local level and facilitate easier access to these funds.

Mae adroddiad Dr Guilford hefyd yn adlewyrchu rhai o ganfyddiadau adroddiad y Pwyllgor Cyllid, 'Effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru', a gyhoeddwyd fis Rhagfyr diwethaf. Er enghraifft, yr angen i symleiddio ein prosesau gwerthuso ac asesu, o fewn paramedrau rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd, fel ei bod yn haws i sefydliadau a busnesau elwa o gronfeydd yr UE. Rwyf hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd integreiddio cronfeydd strwythurol, gwledig a physgodfeydd yn well yn y dyfodol i helpu i gynhyrchu effaith fwy cynaliadwy a mwy sylweddol o'n buddsoddiadau, sy'n un arall o argymhellion Dr Guilford. Bydd hyn yn galluogi mwy o gyfatebolrwydd wrth gyflenwi gweithgareddau ar lefel leol ac yn hwyluso mynediad haws at y cronfeydd hyn.

I will now be considering all of the recommendations that are set down in Dr Guilford's report and I will respond to these over the coming weeks as part of the Welsh Government's response to the public consultation on our new programmes, which closes at the end of April. A number of recommendations fall beyond the scope of my European programmes portfolio and will therefore require consideration with ministerial colleagues, while others will require discussion with the European Commission before determining our approach. I will continue to keep Members and partners updated on developments, including the progress of our funding negotiations with the UK Government, and the measures that I will be taking to ensure that the future programmes will be even more successful in helping our businesses to grow and our communities to flourish. We will continue to provide people with the right skills and opportunities to compete successfully in a globally competitive economy.

Byddaf nawr yn ystyried yr holl argymhellion a nodir yn adroddiad Dr Guilford a byddaf yn ymateb i'r rhain yn ystod yr wythnosau nesaf fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ein rhaglenni newydd, sy'n dod i ben ar ddiwedd mis Ebrill. Mae nifer o argymhellion y tu hwnt i gwmpas fy mhortffolio rhaglenni Ewropeaidd ac felly bydd angen eu hystyried gyda chydweithwyr gweinidogol, tra y bydd angen trafod eraill gyda'r Comisiwn Ewropeaidd cyn penderfynu ar ein dull gweithredu. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau a phartneriaid am ddatblygiadau, gan gynnwys cynnydd ein trafodaethau ariannu gyda Llywodraeth y DU, a'r mesurau y byddaf yn eu cymryd i sicrhau y bydd rhaglenni'r dyfodol hyd yn oed yn fwy llwyddiannus o ran helpu ein busnesau i dyfu a'n cymunedau i ffynnu. Byddwn yn parhau i ddarparu'r sgiliau a'r cyfleoedd priodol i bobl i gystadlu'n llwyddiannus mewn economi fyd-eang gystadleuol.

14:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have a long list of speakers, so succinct questions and answers would be helpful if we are to get through it all. I call Byron Davies.

Mae gennyf restr hir o siaradwyr, felly byddai cwestiynau ac atebion cryno o gymorth er mwyn inni gael eu clywed i gyd. Galwaf ar Byron Davies.

14:41

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, thank you for your statement and the embargoed copy of the report. It is an important and weighty document, but only having had the report for two hours means that any meaningful contribution will be quite difficult. It is my understanding, Deputy Minister, that the initial intention was to publish an interim report late in 2012, with the final report in spring 2013. Can you clarify why that was changed?

Ddirprwy Weinidog, diolch am eich datganiad a'r copi dan waharddiad o'r adroddiad. Mae'n ddogfen bwysig a swmpus, ond mae'r ffaith mai dim ond ers dwy awr yr wyf wedi cael yr adroddiad yn golygu y bydd yn anodd gwneud unrhyw gyfraniad ystyrlon. Rwyf ar ddeall, Ddirprwy Weinidog, mai'r bwriad gwreiddiol oedd cyhoeddi adroddiad dros dro ar ddiwedd 2012, a'r adroddiad terfynol yng ngwanwyn 2013. A allwch chi egluro pam y newidiwyd hynny?

We welcomed your announcement in July of last year to launch an independent review into the management and implementation arrangements for structural fund programmes in Wales. I will go directly to the points.

Croesawyd eich cyhoeddiad gennym ym mis Gorffennaf y llynedd y byddech yn lansio adolygiad annibynnol i drefniadau rheoli a gweithredu rhaglenni'r cronfeydd strwythurol yng Nghymru. Af yn uniongyrchol at y pwyntiau.

14:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you; that would be helpful.

Diolch; byddai hynny o gymorth.

14:42 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

What are your views, Deputy Minister, of the momentum and maturity of the delivery mechanism? The phrase 'operationally compliant delivery mechanism' that is used in the report is a bit of a damning endorsement. It might follow the rules religiously, but investment is being sacrificed—unnecessarily in my opinion—because of it.

Beth yw eich barn, Ddirprwy Weinidog, am fomentwm ac aeddfedrwydd y mecanwaith cyflenwi? 'Mecanwaith cyflenwi sy'n cydymffurfio'n weithredol' yw'r ymadrodd sy'n cael ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn—mae hynny'n ddamniol braidd. Efallai ei fod yn dilyn y rheolau'n selog, ond mae buddsoddi'n cael ei aberthu—yn ddiangen yn fy marn i—o'i herwydd.

Moving on to the recommendations, recommendation 1 seems to echo what the Welsh Conservatives have been saying in the Chamber for some time, which is that you have enterprise zones across Wales and you must now ensure that the infrastructure and the investment follows. Will you, therefore, commit the economic prioritisation framework to follow the enterprise zones closely? I would appreciate your commitment in this area or a comment on the relationship between your Government's enterprise zones and the EPF.

I symud ymlaen at yr argymhellion, mae'n ymddangos bod argymhelliad 1 yn adleisio'r hyn y mae Ceidwadwyr Cymru wedi bod yn ei ddweud yn y Siambr ers cryn amser, sef bod gennych barthau menter ar draws Cymru a bod rhaid i chi bellach sicrhau bod y seilwaith a'r buddsoddiad yn dilyn. A wnewch chi, felly, ymrwymo'r fframwaith blaenoriaethu economaidd i ddilyn y parthau menter yn agos? Byddwn yn gwerthfawrogi eich ymrwymiad yn y maes hwn neu sylw am y berthynas rhwng parthau menter eich Llywodraeth a'r fframwaith blaenoriaethu economaidd.

Recommendation 6 is extremely welcome, and I particularly want to draw the Deputy Minister on the development of a real-time monitoring process and seek his assurances that this will happen. Recommendation 12 is interesting. I would like to tease out of the Deputy Minister his reaction to the location of Welsh European Funding Office within the Welsh Government and how he intends to consider this recommendation.

Mae croeso mawr iawn i argymhelliad 6, ac rwyf yn arbennig o awyddus i dynnu sylw'r Dirprwy Weinidog at y gwaith o ddatblygu proses fonitro amser real a gofyn am ei sicrwydd y bydd hyn yn digwydd. Mae argymhelliad 12 yn ddiddorol. Hoffwn dynnu ymateb oddi wrth y Dirprwy Weinidog i leoliad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o fewn Llywodraeth Cymru a sut y mae'n bwriadu ystyried yr argymhelliad hwn.

In concluding, I would like to note that this is now the third report into the use of structural funds. We have had reports from the Enterprise and Business Committee and the Finance Committee and now we have the Guilford report. Will the Deputy Minister outline how he intends to take forward these reports together and streamline the next round of structural funds to ensure that they deliver?

I gloi, hoffwn nodi mai hwn yn awr yw'r trydydd adroddiad am ddefnyddio cronfeydd strwythurol. Rydym wedi cael adroddiadau gan y Pwyllgor Menter a Busnes a'r Pwyllgor Cyllid ac nawr mae gennym adroddiad Guilford. A wnaiff y Dirprwy Weinidog amlinellu sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r adroddiadau hyn gyda'i gilydd a symleiddio'r rownd nesaf o gronfeydd strwythurol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r addewid?

14:44 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would like to thank the Conservatives' spokesperson for that largely positive response to the report. He will be aware that we agreed when the report was commissioned some time ago that it was important to have an independent review of how we deliver structural funds. I know that the Welsh Conservatives' spokesperson and others in his party welcomed this independent review. I indicated to Members that an interim report would be provided to me in December 2012 and that I would then seek to publish a final report in the spring of 2013. There was no intention to publish that interim report at that time. I regarded that very much as work in progress and information for me in preparing the consultation that I launched in January, which will conclude in April. I apologise to the Member if he felt that the intention was to publish that report. That was not the intention at the time or subsequently. I was simply outlining the process that I was following.

Hoffwn ddiolch i lefarydd y Ceidwadwyr am yr ymateb cyffredinol gadarnhaol yna i'r adroddiad. Bydd yn ymwybodol ein bod wedi cytuno pan gomisiynwyd yr adroddiad gryn amser yn ôl ei bod yn bwysig cael adolygiad annibynnol o sut yr ydym yn cyflenwi cronfeydd strwythurol. Gwn fod llefarydd Ceidwadwyr Cymru ac eraill yn ei blaid wedi croesawu'r adolygiad annibynnol hwn. Dywedais wrth yr Aelodau y byddai adroddiad dros dro yn cael ei roi imi ym mis Rhagfyr 2012 ac y byddwn wedyn yn ceisio cyhoeddi adroddiad terfynol yng ngwanwyn 2013. Nid oedd unrhyw fwriad i gyhoeddi'r adroddiad dros dro hwnnw ar yr adeg honno. Gwaith ar y gweill oedd hwnnw i mi yn sicr, a gwybodaeth imi wrth baratoi'r ymgynghoriad a lansiais ym mis Ionawr, ac a fydd yn dod i ben ym mis Ebrill. Rwyf yn ymddiheuro i'r Aelod os oedd yn credu mai'r bwriad oedd cyhoeddi'r adroddiad hwnnw. Nid dyna oedd y bwriad ar y pryd nac wedi hynny. Dim ond amlinellu'r broses y byddwn yn ei dilyn oeddwn i.

On wider issues, clearly, recommendation 12 is a matter for ministerial colleagues and others. We will consider that. I say to the Member that he is a great optimist if he believes that this report is largely an endorsement of Conservative Party policy. It certainly does not feel like that, as a Minister who has listened to Conservatives week after week, month after month, year after year, run down the structural funds programme and attack it. This report does not endorse any of those criticisms made by Byron. I accept that you would wish to put a rather optimistic veneer on some of the findings of this report, and I do not criticise that at all. However, with regard to recommendation 1, on the economic prioritisation framework, Dr Guilford states quite clearly that he believes that this should drive forward project selection and the way in which we bring projects together in a more integrated form to deliver our objectives. This is what we have been saying we want to do since I made my initial announcement on future priorities last May. This is an endorsement of that approach in many ways. We will now need to take this forward and to ensure that we deliver that in a coherent form. I would like to continue the conversation with the Conservatives and others about how we deliver these programmes in a coherent and successful way.

Ar faterion ehangach, yn amlwg, mae argymhelliad 12 yn fater i gyd-Weinidogion ac eraill. Byddwn yn ystyried hynny. Dywedaf wrth yr Aelod ei fod yn optimist mawr os yw'n credu bod yr adroddiad hwn yn gyffredinol yn gymeradwyaeth i bolisi'r Blaid Geidwadol. Yn sicr nid yw'n teimlo felly, fel Gweinidog sydd wedi gwrando ar Geidwadwyr wythnos ar ôl wythnos, fis ar ôl mis, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn lladd ar y rhaglen cronfeydd strwythurol ac yn ymosod arni. Nid yw'r adroddiad hwn yn cymeradwyo unrhyw un o'r beirniadaethau a wnaeth Byron. Rwyf yn derbyn yr hoffech roi gwedd optimistaidd ar rai o ganfyddiadau'r adroddiad hwn, ac nid wyf yn beirniadu hynny o gwbl. Fodd bynnag, o ran argymhelliad 1, ar y fframwaith blaenoriaethu economaidd, mae Dr Guilford yn datgan yn eithaf clir ei fod yn credu y dylai hyn ysgogi dethol prosiect a'r ffordd yr ydym yn dod â phrosiectau at ei gilydd mewn ffurf fwy integredig i gyflenwi ein hamcanion. Dyma'r hyn yr ydym wedi bod yn ei ddweud yr hoffem ei wneud ers imi wneud fy nghyhoeddiad cyntaf am flaenoriaethau'r dyfodol fis Mai diwethaf. Mae hyn yn gymeradwyaeth i'r dull hwnnw mewn nifer o ffyrdd. Nawr, bydd angen inni symud ymlaen â hyn a sicrhau ein bod yn cyflenwi hynny mewn ffurf ystyrlon. Hoffwn barhau â'r sgwrs gyda'r Ceidwadwyr ac eraill am sut yr ydym yn cyflenwi'r rhaglenni hyn mewn ffordd ystyrlon a llwyddiannus.

14:47

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First, I welcome the statement and I also welcome the very speedy production of the report. I am very pleased to see an acceptance of the need for the simplification and streamlining of appraisal and assessment. I am sure that that will do a great deal of good for people who are bidding for money from the fund. I have one question: will additional support be provided for small and medium-sized enterprises and small voluntary organisations to help them to engage with European structural funds?

Yn gyntaf, rwyf yn croesawu'r datganiad ac rwyf hefyd yn croesawu pa mor gyflym y cynhyrchwyd yr adroddiad. Rwyf yn falch iawn o weld y derbynnir bod angen i symleiddio gwerthuso ac asesu. Rwyf yn siŵr y bydd hynny'n gwneud llawer iawn o les i bobl sy'n gwneud cais am arian o'r gronfa. Mae gennyf un cwestiwn: a gaiff cymorth ychwanegol ei ddarparu i fusnesau bach a chanolig a sefydliadau gwirfoddol bach i'w helpu i ymgysylltu â chronfeydd strwythurol Ewropeaidd?

14:47

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank my colleague for those positive remarks. In terms of the publication of this report, I was anxious for this report to be published as soon as possible. It was presented to me last week and I have published it today on the first sitting day since then. I was anxious for this report to be placed in the public domain as soon as possible in order to inform and to help the consultation process that is currently taking place. Of course, in publishing the report so quickly, I am less able to publish the Government's response to many of the recommendations within it. I seek Members' endorsement for this, in many ways. Had I waited to agree a formal Government response, the report would have been published much later. Therefore, I have tried to pull that forward as soon as possible, but I accept that that means that the Government's response is an interim response and not a full response.

Diolch i fy nghydweithiwr am y sylwadau cadarnhaol yna. O ran cyhoeddi'r adroddiad hwn, roeddwn yn awyddus i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl. Fe'i cyflwynwyd i mi yr wythnos diwethaf ac rwyf wedi ei gyhoeddi heddiw ar y diwrnod cyntaf inni eistedd ers hynny. Roeddwn yn awyddus i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i'r cyhoedd cyn gynted â phosibl er mwyn hysbysu a helpu'r broses ymgynghori sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd. Wrth gwrs, wrth gyhoeddi'r adroddiad mor gyflym, mae'n anos imi gyhoeddi ymateb y Llywodraeth i lawer o'r argymhellion sydd ynddo. Rwyf yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i hyn, mewn nifer o ffyrdd. Pe byddwn wedi aros i gytuno ar ymateb ffurfiol gan y Llywodraeth, byddai'r adroddiad wedi ei gyhoeddi'n ddiweddarach o lawer. Felly, rwyf wedi ceisio ei ddwyn ymlaen cyn gynted â phosibl, ond rwyf yn derbyn bod hynny'n golygu mai ymateb dros dro yw ymateb y Llywodraeth, ac nid ymateb llawn.

In terms of integration and additional support, the driver for policy has been the integration and simplification of all of our management and audit systems for European programmes. I have asked the Welsh European Funding Office to bring forward to me a paper outlining what this will mean in reality, and I hope to publish that later in the spring.

O ran integreiddio a chefnogaeth ychwanegol, sbardun y polisi fu integreiddio a symleiddio ein holl systemau o reoli ac archwilio rhaglenni Ewropeaidd. Rwyf wedi gofyn i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gyflwyno papur imi i amlinellu beth fydd hyn yn ei olygu mewn gwirionedd, ac rwyf yn gobeithio ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn y gwanwyn.

In terms of additional support, there will be support available for all of those people seeking to administer and manage European programmes in the future. I will also say that we are looking for bigger programmes and not smaller programmes. We wish to learn the lessons of the past and we want to ensure that the programmes that we will fund in the future are those that have a strategic and transformational impact on the communities and economy of Wales. Therefore, we will be providing additional support for that, but we will expect our partners to be able to manage and deliver substantial programmes of substantial value.

O ran cymorth ychwanegol, bydd cefnogaeth ar gael i'r holl bobl hynny sy'n ceisio gweinyddu a rheoli rhaglenni Ewropeaidd yn y dyfodol. Rwyf am ddweud hefyd ein bod yn chwilio am raglenni mwy, nid rhaglenni llai. Hoffem ddysgu gwersi o'r gorffennol, a hoffem sicrhau mai'r rhaglenni y byddwn yn eu hariannu yn y dyfodol yw'r rhai sy'n cael effaith strategol a thrawsnewidiol ar gymunedau ac economi Cymru. Felly, byddwn yn darparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer hynny, ond byddwn yn disgwyl i'n partneriaid allu rheoli a chyflenwi rhaglenni sylweddol o werth sylweddol.

14:49

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Hoffwn groesawu'n fawr iawn yr adroddiad hwn. Rydym wedi bod yn aros am adroddiad Guilford ac mae'n amlwg bod nifer o bwyntiau pwysig ynddo. Derbyniaf bwynt y Dirprwy Weinidog ei fod wedi dwyn hwn ger ein bron cyn gynted â phosibl a bod hynny'n golygu nad ydym wedi derbyn ymateb y Llywodraeth iddo. Felly, nid wyf lawer yn gallach ynglŷn â sut mae'r Dirprwy Weinidog yn bwriadu ymateb i'r adroddiad hwn. Ynglŷn â'r adroddiad, er ein bod ni wedi derbyn copi ohono ryw ddwy awr yn ôl, nid yw ar wefan Llywodraeth Cymru hyd y gwelaf. Pryd y mae'n bwriadu sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael oherwydd bydd gan lawer o bobl ddiddordeb mawr yn yr adroddiad? Os ydyw'n croesawu'r adroddiad i'r graddau y mae'n honni, pam nad ydyw wedi symud i'w weithredu yn syth? Mae'n rhaid inni aros am ymateb y Llywodraeth cyn bod unrhyw newidiadau yn digwydd, a byddwn yn symud yn weddol fuan i'r cyfnod nesaf o 2014-20.

I very much welcome this report. We have been waiting for the Guilford report and, obviously, it contains a number of important points. I accept the Deputy Minister's point that he has brought this before us as soon as possible and that that means that we have not had the Government's response to it. Therefore, I am not any the wiser as to how the Deputy Minister intends to respond to the report. As regards the report, although we received a copy of it some two hours ago, it is not, as far as I can see, on the Welsh Government website. When does he intend to ensure that this information is made available, because a great number of people will have a huge interest in the report? If he welcomes the report to the extent that he professes, why has he not moved to implement it immediately? We have to await the Government's response before any changes can take place, and we will be moving quite swiftly to the next phase of 2014-20.

Gyda llaw, nid wyf yn deall pwynt Byron Davies fod yr adroddiad yn cefnogi safbwynt Ceidwadwyr Cymru. Nid wyf yn gweld bod Dr Guilford yn dweud yn unrhyw le yn yr adroddiad ei fod yn cefnogi lleihau'r cronfeydd strwythurol o £400 miliwn yn y cyfnod nesaf. Dyna safbwynt Ceidwadwyr Cymru a'r glymblaid yn San Steffan, ond nid dyna safbwynt Dr Guilford. Mae ef yn gweld gwerth yn y cronfeydd strwythurol hyn, a'r peth pwysig yw ein bod yn macsimeiddio'r hyn sy'n dod oddi wrthynt.

By the way, I do not understand the point made by Byron Davies about the report supporting the view of the Welsh Conservatives. I cannot see that Dr Guilford says at any point in the report that he supports reducing the structural funds by £400 million over the next period. That is the view of the Welsh Conservatives and that of the Westminster coalition Government, but it is not a view shared by Dr Guilford. He sees value in the structural funds, and the important point is that we maximise what we receive from the funds.

Hoffwn droi at rai pwyntiau sy'n codi o'r adroddiad hwn. Mae hyn oll yn golygu y bydd newid, os ydwyf wedi deall y fframwaith strategol hwn yn iawn. Bydd newid yn y modd y mae'r cronfeydd yn cael eu defnyddio. Bu newid o gyfnod cyntaf Amcan 1 i'r cyfnod diweddaraf, pan oedd llai o gynlluniau. A ydym yn symud i sefyllfa lle bydd llai fyth o gynlluniau a'n bod yn dibynnu ar nifer cyfyngedig o gynlluniau mawr? Mae gan sefyllfa fel honno oblygiadau i ranbarthau ledled Cymru. Byddwn yn falch, felly, o gael eglurhad ynglŷn â hynny.

I now turn to some of the points arising from the report. It does mean that there will be change, if I have understood the strategic framework properly. There will be a change in the way in which the funds are used. There was change from the initial period of Objective 1 to the most recent period, during which there were fewer schemes. Are we now moving to a position where there will be even fewer schemes and where we will be dependent on a limited number of major schemes? That kind of situation would have implications for regions across Wales. Therefore, I would be pleased to have some kind of clarification on that.

Sut yn union fydd y Dirprwy Weinidog yn cyfathrebu'r newidiadau hyn a sicrhau bod partneriaid ledled Cymru'n ymwybodol y bydd newidiadau sylfaenol yn digwydd unwaith y cawn ymateb swyddogol y Llywodraeth i adroddiad Guilford? Mae'n cyfeirio at y ffaith bod llawer o'r pethau a ddywedir yn yr adroddiad yn cyd-fynd ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid, o dan gadeiryddiaeth Jocelyn Davies. Ni chredaf fod y pwyllgor hwnnw wedi cael ymateb swyddogol i'r argymhellion hynny, hyd yn hyn. Pryd ydych yn bwriadu ymateb i'r argymhellion? Sut y gwelwch eich ymateb i'r argymhellion yn cydweddu â'r hyn y mae Dr Guilford yn ei awgrymu yn yr adroddiad hwn?

How exactly will the Minister communicate these changes and ensure that partners throughout Wales area aware that fundamental changes will take place once we receive the Government's official response to the Guilford report. He has made reference to the fact that many of the points made in the report concur with the Finance Committee's report, under the chairmanship of Jocelyn Davies. I do not believe that that committee has to date received an official response to the recommendations. When do you intend to respond to those recommendations? How do you see your response fitting in with the proposals made by Dr Guilford in this report?

Un o'r problemau mawr a gafwyd o'r cychwyn cyntaf yn 2000 yw diffyg ymrwymiad y sector preifat a'n methiant i sicrhau bod y sector hwn yng Nghymru yn ymwneud â'r cynlluniau hyn. A ydych chi'n credu bod adroddiad Guilford yn mynd i'r afael â'r broblem honno ac y bydd yn creu sefyllfa lle bydd y sector preifat yn credu bod modd iddo fod yn bartner gwirioneddol yn y cyfnod tyngedfennol hwn o 2014-20? Rwyf yn y broses o gyflwyno adroddiad i Bwyllgor y Rhanbarthau sy'n ymwneud â phartneriaethau preifat-cyhoeddus a rôl Banc Buddsoddi Ewrop yn benodol. A ydych yn gweld bod hynny yn ffordd ymlaen o ran denu'r sector preifat i'r broses hon?

One of the big problems that we have had from the very beginning in 2000 has been the lack of commitment from the private sector in Wales and our failure to ensure that the sector engages with these schemes. Do you believe that the Guilford report tackles that problem and will create a situation where the private sector sees that it is possible for it to be a real and true partner in this crucial period of 2014-20? I am in the process of presenting a report to the Committee of the Regions on public-private partnerships and the role of the European Investment Bank in particular. Do you see that as a way forward as regards attracting the private sector to this process?

Yn olaf, un o'r materion sydd wedi codi yw'r modd yr ydym yn gwerthuso'r cynlluniau. O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi'u gwerthuso mewn ffordd sy'n ymwneud â chyfrif yr arian a sicrhau nad oes arian yn cael ei gamwario. Er hynny, nid ydym wedi gwerthuso'r cynlluniau hyn yng nghyd-destun y gwahaniaeth sylfaenol y maent yn ei wneud i gymunedau ledled Cymru. A ydych yn credu bod adroddiad Guilford yn eich cynorthwyo i greu proses lle rydym yn gwerthuso'r cynlluniau, y rhaglenni a'r prosiectau hyn ar lawr daear ac yn sicrhau eu bod yn gwneud gwahaniaeth sylfaenol i gymunedau ledled Cymru?

Finally, one of the questions posed relates to the way in which we evaluate schemes. From the very outset, we have evaluated them in the context of accounting and of ensuring that there has been no financial maladministration. However, we have not evaluated schemes by looking at the fundamental difference they have made to communities throughout Wales. Do you believe that the Guilford report will assist you in creating a process where we evaluate schemes, programmes and projects at a grass-roots level and ensure that they make a fundamental difference to communities throughout Wales?

Rwyf yn croesawu'r adroddiad hwn yn fawr. Nid wyf yn eich beirniadu am ei ddwyn ef ger ein bron mor fuan, ond y broblem yw nad ydym yn gwybod yn iawn ar hyn o bryd sut y byddwch yn ymateb iddo. A ydych yn bwriadu ei weithredu yn ei gyfanrwydd, neu a ydych yn bwriadu dod ag ymateb yn ddiweddarach atom? Pryd fydd hynny'n digwydd, ac a gawn ni ddadl neu gyhoeddiad pellach yn y lle hwn yn ymwneud â hynny?

I very much welcome the report. I am not criticising you for bringing it before us at such an early stage, but the problem is that we do not know at this point in time how you will respond to it. Do you intend to implement it in its entirety, or do you intend to issue a response later on? When will that be, and will we then have a debate or a further announcement on that in this place?

14:55

## Alun Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Bydd datganiad pellach ar sut y byddwn yn gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn. I ateb eich cwestiynau penodol, fe fu imi sicrhau bod Aelodau yn cael copi o'r adroddiad, ond mae'r adroddiad wedi ei gyhoeddi erbyn hyn ar wefan Llywodraeth Cymru. Gofynnais i swyddogion sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi wrth imi ddechrau fy natganiad yma heddiw; rwyf yn gweld eich bod yn gwirio'r wefan ar hyn o bryd, felly efallai y byddwch yn cael ateb cyn i mi orffen eich ateb, sydd ychydig yn rhyfedd, efallai.

There will be a further statement as to the implementation of the recommendations made in the report. To respond to your specific questions, I did ensure that Members here received a copy of the report, but it has now been published on the Welsh Government website. I asked officials to ensure that the report's publication coincided with my statement here today; I can see that you are checking the website, and perhaps you will get your answer before I finish answering your questions, which is perhaps somewhat strange.

O ran mynd â'r adroddiad ymlaen, ceisiais osod hyn allan yn fy natganiad gwreiddiol. Rwyf yn mynd i ystyried yr argymhellion sydd yn yr adroddiad fel rhan o'r broses ymgynghori sy'n digwydd ar hyn o bryd. Rydych wedi sôn am y math o drafodaethau sydd eu hangen cyn i ni fod mewn sefyllfa i weithredu rhaglenni gwahanol yn y dyfodol. Siaradais yn Llandrindod yr wythnos diwethaf, rwy'n siarad yn Nantgarw'r wythnos hon, ac rwyf wedi siarad yn Llanelli a Llandudno hefyd. Rwy'n cynnal cyfarfodydd a chynnal trafodaeth gyda phobl ar draws y wlad i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth o'r math o raglenni rydym yn gallu eu rhedeg yn ystod y blynyddoedd nesaf. Byddaf yn ystyried yr adroddiad yng nghyd-destun y broses ymgynghori hon. Byddaf yn ei ystyried gyda swyddogion a Gweinidogion eraill ac yn dod â'r adroddiad a datganiad llafar yn ôl atoch fel Cynulliad yn nes ymlaen yn y gwanwyn. Bydd y broses ymgynghori yn dod i ben ddiwedd mis nesaf, ar ôl i mi gael cyfle i ystyried beth rydym wedi ei glywed yn ystod y broses ymgynghori, fel rwyf wedi cael cyfle i ystyried adroddiad y Pwyllgor Cyllid; fe wnes i ymateb i'r Pwyllgor Cyllid gwpwl o wythnosau yn ôl, gyda llaw. Byddwn wedyn mewn sefyllfa i osod allan sut y byddwn yn ymateb yn llawn i'r her a wynebwn.

In terms of taking this report forward, I attempted to set that out in my initial statement. I will be considering the recommendations in the report as part of a consultation process that is currently ongoing. You have described the kind of negotiations that are required before we attempt to implement different programmes in the future. I spoke in Llandrindod last week, and I will be speaking in Nantgarw this week, and I have also spoken in Llanelli and Llandudno. I am having meetings and discussions with people across the country to ensure that we have an understanding of the kind of programmes that we can run over the next few years. I will be considering the report in the context of this consultation process. I will consider it along with officials and other Ministers and bring the report and an oral statement back to the Assembly later in the spring. This consultation process will conclude at the end of next month, once I have had an opportunity to consider the points made during that process, just as I have had an opportunity to consider the Finance Committee's report; by the way, I responded to the Finance Committee a few weeks ago. We will then be in a position to set out how we are going to respond fully to the challenge we face.

Felly, rydym wedi bod nid yn unig yn gwneud y gwaith o ymgynghori, ond yn cyfathrebu a chreu deialog gyda phobl ar draws y wlad. Rwy'n credu bod hynny yn rhywbeth y mae pobl wedi ei groesawu, ac mae lot fawr o bobl wedi mynychu'r cyfarfodydd ac wedi bod yn cyfathrebu gyda mi. Felly, rwy'n hyderus fod y broses honno yn un gref ac yn un sy'n mynd i barhau.

Therefore, we have not only carried out the consultation work, but we have been communicating and engaging in dialogue with people across the country. I think that that is something that people have welcomed, and many people have attended those meetings and have been communicating with me. Therefore, I am confident that that process is a robust process and one that will continue.

I gloi, hoffwn ddweud dau beth. Rydych yn hollol iawn yn yr hyn rydych wedi ei ddweud am werthuso. Mae'n hynod o bwysig deall ein bod eisiau newid ein cymunedau a'n economi, a bod y cronfeydd strwythurol yn ffordd o'n helpu i wneud hynny, ond nid dyna'r unig ffordd o wneud hynny, wrth gwrs. Rwy'n credu y bydd rheolau newydd y Comisiwn Ewropeaidd yn mynnu ein bod yn sicrhau bod gwerthuso yn digwydd ar lefel llawer uwch nag y mae ar hyn o bryd. Y rheswm y gofynnais i Dr Guilford wneud y gwaith hwn oedd oherwydd fy mod yn cytuno â'r pwynt a wnaethoch am y sector preifat—fe wnes i ei wahodd i wneud y gwaith oherwydd ei gefndir a'i waith yn y sector preifat gyda rhaglenni Ewropeaidd. Roeddwn yn meddwl mai ef fyddai'r person delfrydol i arwain y gwaith hwn, ac fel y dywedais yn fy natganiad, rwyf yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaeth yn fawr.

In conclusion, I would like to make two points. You are entirely right in what you said about evaluation. It is extremely important that we understand that we need to transform our communities and our economy, and that the structural funds are a means of assisting us in achieving that, but it is not the only approach, of course. I think that the European Commission's new rules will insist that we ensure that proper evaluation happens at a higher level than at which it happened in the past. The reason I asked Dr Guilford to carry out this work was because I agree with the point that you made about the private sector—I selected him to do this work because of his background in the private sector in relation to European programmes. I thought that he would be an ideal individual to lead this work and, as I said the statement, I very much appreciate the work that he has done.

14:59

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Deputy Minister for his statement and thanks Dr Guilford for his work on this report. I welcome the report and will study it carefully in due course. I note that the Deputy Minister said that he did not think that it was an endorsement of Conservative Party policy. I think that he would have to accept on closer reading that it is not an unalloyed endorsement of Government policy either, and I do not think that it would be very useful to you in driving improvements forward if it was. In your statement, you talk about the idea that the operational experience and knowledge gained will help you to build on a secure base, but the next sentence of the introduction, where that statement is taken from, says:

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad a diolch i Dr Guilford am ei waith ar yr adroddiad hwn. Rwyf yn croesawu'r adroddiad a byddaf yn ei astudio'n ofalus maes o law. Nodaf y dywedodd y Dirprwy Weinidog nad oedd yn credu ei fod yn gymeradwyaeth o bolisi'r Blaid Geidwadol. Credaf y byddai'n rhaid iddo dderbyn ar ôl ei ddarllen yn fwy gofalus nad yw'n ardystiad digymysg o bolisi'r Llywodraeth ychwaith, a phe bai, nid wyf yn credu y byddai'n ddefnyddiol iawn ichi o ran sbarduno gwelliannau. Yn eich datganiad, soniwch am y syniad y bydd y profiad gweithredol a'r wybodaeth a enillwyd yn eich helpu i adeiladu ar sylfaen gadarn, ond mae brawddeg nesaf y rhagymadrodd, lle mae'r datganiad hwnnw i'w gael, yn dweud:

‘This experience has revealed, however, that a number of imbalances still remain withinthe Structural Funds system which tend to inhibit the creation of economic critical mass’.

Mae’r profiad hwn wedi datgelu, fodd bynnag, bod llawer o anghydbwysedd yn dal i fodoli yn y system Cronfeydd Strwythurol sy’n tueddu i atal creu màs critigol economaidd.

What assessment have you made of those imbalances? Do you agree that they have inhibited the success of the current round?

Pa asesiad yr ydych chi wedi’i wneud o’r anghydbwysedd hwnnw? A ydych yn cytuno ei fod wedi atal llwyddiant y rownd gyfredol?

You also say in your statement that you see the report as acknowledging that the strategic approach that you have taken was, fundamentally, the right one with regard to the development of an economic prioritisation framework. Again, I will read from the report:

Rydych hefyd yn dweud yn eich datganiad eich bod yn credu bod yr adroddiad yn cydnabod mai’r dull strategol yr ydych wedi’i ddefnyddio, yn y bôn, oedd yr un cywir o ran datblygu fframwaith blaenoriaethu economaidd. Unwaith eto, darllenaf o’r adroddiad:

‘The key conclusion that emerges from the work I have described above, is that a prioritisation framework approach, as employed in the current round, remains valid, but that it should be expressed at a greater level of detail, be closely integrated with overall Welsh Government economic strategy and be sufficiently flexible to allow updating during the course of the programme in the light of changing circumstances.’

Y casgliad allweddol sy’n dod i’r amlwg o’r gwaith yr wyf wedi’i ddisgrifio uchod, yw bod dull fframwaith blaenoriaethu, fel yr un a ddefnyddiwyd yn y rownd gyfredol, yn dal i fod yn ddilys, ond y dylid ei fynegi’n fanylach, ei integreiddio’n agos â strategaeth economaidd gyffredinol Llywodraeth Cymru a sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu diweddaru yn ystod y rhaglen yng ngoleuni amgylchiadau sy’n newid.

It also says, therefore, that they believe that

Mae hefyd yn dweud, felly, eu bod yn credu bod

‘publishing an economic programme framework at a sufficient level of detail to identify the areas in which structural funds could have the most effective impact’

cyhoeddi fframwaith rhaglen economaidd digon manwl i nodi’r meysydd lle y gallai cronfeydd strwythurol gael yr effaith fwyaf

is very important. Do you agree with that statement and, if so, how quickly do you think that we could develop that more tiered approach? It seems to me that the suggestion is that we have very high-level information on a pan-Wales basis and we have very detailed information on individual programmes and projects, but what is missing on an operational basis is the kind of target at that intermediate level that would be useful to those involved with delivering these programmes, helping them to see whether or not they are meeting the staging posts on the way to success.

yn bwysig iawn. A ydych yn cytuno â’r datganiad hwnnw ac, os felly, pa mor gyflym yr ydych yn meddwl y gallem ddatblygu’r dull mwy haenog hwnnw? Mae’n ymddangos i mi mai’r awgrym yw bod gennym wybodaeth ar lefel uchel iawn ar sail Cymru gyfan a bod gennym wybodaeth fanwl iawn am raglenni a phrosiectau unigol, ond yr hyn sydd ar goll ar sail weithredol yw’r math o darged ar y lefel ganolraddol a fyddai’n ddefnyddiol i’r rhai sy’n ymwneud â chyflenwi’r rhaglenni hyn, gan eu helpu i weld a ydynt yn cyrraedd y meini prawf ar y ffordd at lwyddiant.

The issue of targets is the subject of plenty of insult tennis in this Chamber and others, but it is very important. The report talks about the data collection that you have, but also suggests that, unfortunately, it is not necessarily used to the best advantage at the moment. For example, it says that:

Mae’r mater targedau yn destun digon o gyfnewid sarhad yn y Siambr hon ac eraill, ond mae’n bwysig iawn. Mae’r adroddiad yn sôn am y casgliad data sydd gennych, ond mae hefyd yn awgrymu, yn anffodus, nad yw o reidrwydd yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae’n dweud:

‘The current reporting of structural funds impact tends to focus, at a high level on numerical targets at a pan Wales level, and at a lower level on very detailed regional and thematic indicators.’

Mae’r adroddiadau presennol am effaith cronfeydd strwythurol yn tueddu i ganolbwyntio, ar lefel uchel ar dargedau rhifiadol ar lefel Cymru gyfan, ac ar lefel is ar ddangosyddion rhanbarthol a thematig manwl iawn.

Both of these are important, but they exclude an intermediate reporting level, which I believe could help in providing the overall economic context and, more importantly, useful tools to assist in management. Would you accept that finding? What are your views on that?

Mae’r rhain ill dau’n bwysig, ond nid ydynt yn cynnwys lefel adrodd ganolraddol; credaf y gallai hynny helpu i osod cyd-destun economaidd cyffredinol ac, yn bwysicach, offer defnyddiol i helpu i reoli. A fyddech yn derbyn y canfyddiad hwnnw? Beth yw eich barn am hynny?

Finally, looking at the subject of portfolio management, which is also subject to one of the recommendations, I think that this is a very interesting area for us to consider. It is possible that this could lead us to a much more sophisticated and a much fairer way of viewing risk in terms of the structural funds. It is true that, at present, we know that there have been individual cases in which risks have not been identified, but we also hear, on the other hand, that the paperwork is burdensome and, sometimes, a deterrent to people from applying for structural funds. Do you agree with that, and do you think that there is an opportunity here that, by streamlining and refining those risk assessment processes, and working in a portfolio sense, rather than on an individual project basis, we can be a little more sophisticated on how we assess the success of these programmes?

Yn olaf, i edrych ar reoli portffolios, sydd hefyd yn destun un o'r argymhellion, credaf fod hwn yn faes diddorol iawn inni ei ystyried. Mae'n bosibl y gallai hyn ein harwain at ffordd lawer mwy soffistigedig a llawer tecach o edrych ar risg o ran y cronfeydd strwythurol. Mae'n wir ein bod, ar hyn o bryd, yn gwybod y bu achosion unigol lle na chafodd risgiau eu canfod, ond rydym hefyd yn clywed, ar y llaw arall, bod y gwaith papur yn feichus ac, weithiau, yn rhwystr i bobl rhag gwneud cais am arian cronfeydd strwythurol. A ydych yn cytuno â hynny, ac a ydych yn meddwl bod hwn yn gyfle inni, drwy symleiddio a mireinio'r prosesau asesu risg hynny, a gweithio ar sail portffolios yn hytrach nag ar sail prosiectau unigol, i fod ychydig yn fwy soffistigedig yn y ffordd yr ydym yn asesu llwyddiant y rhaglenni hyn?

15:03

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Liberal Democrat spokesperson on these matters has been a consistent critic of our structural funds programmes in Wales and she has also been consistently wrong, of course, in those criticisms. Perhaps her approach to this report demonstrates that consistent lack of grip and understanding of what we are seeking to achieve here.

Mae llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar y materion hyn wedi bod yn feirniad cyson o'n rhaglenni cronfeydd strwythurol yng Nghymru ac mae ei beirniadaethau hefyd wedi bod yn gyson anghywir, wrth gwrs. Efallai fod ei hymagwedd tuag at yr adroddiad hwn yn dangos diffyg crap a dealltwriaeth cyson o'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni yma.

If the Liberal Democrats wish to contribute positively to this debate, perhaps they will join me and support the Welsh Government in our efforts to rescue the disastrous negotiating position that the UK Government left us in: at least a £400 million cut in structural funds with absolutely no compensatory payments—[Interruption.] No, you do not understand it. I will give you a seminar, if you want one, Leanne.

Os hoffai'r Democratiaid Rhyddfrydol gyfrannu'n gadarnhaol at y ddadl hon, efallai y gwnânt ymuno â mi a chefnogi Llywodraeth Cymru yn ein hymdrechion i achub y sefyllfa negodi drychinebus y mae Llywodraeth y DU wedi ein gadael ynddi: toriad o £400 miliwn o leiaf mewn cronfeydd strwythurol heb ddim taliadau iawndal—[Torri ar draws.] Na, nid ydych yn deall. Rhof seminar ichi, os hoffech gael un, Leanne.

This was unlike any other European member state, which has meant that we are now seeking to negotiate a position whereby we are trying to rescue the financial underpinning of this programme.

Roedd hyn yn wahanol i unrhyw un arall o aelod-wladwriaethau Ewrop, sydd wedi golygu ein bod nawr yn ceisio negodi sefyllfa lle'r ydym yn ceisio achub sail ariannol y rhaglen hon.

In terms of our overall strategic approach, we have consistently said that we want to ensure that the next round of structural fund programmes is led by and operates within the Europe 2020 strategic framework. I set out our priorities and philosophical approach on this matter last May. The report that I am publishing today largely endorses that approach and seeks to ensure that how we deliver that is also done in a coherent and strategic way. The high-level numerical targets and data collection that were criticised in the Member's contribution are established by the European Commission's requirement to report. We have agreed—I am surprised that the Liberal Democrats are unaware of this—that there will be a far greater outcome-focused reporting mechanism for the next round of structural funds. This is something that has already been agreed within the legislation and on which I have already reported to the Chamber and different committees.

O ran ein dulliau strategol cyffredinol, rydym wedi dweud yn gyson bod arnom eisiau sicrhau y bydd y rownd nesaf o raglenni cronfeydd strwythurol yn cael ei harwain gan fframwaith strategol Ewrop 2020, ac yn gweithredu oddi mewn iddo. Nodais ein blaenoriaethau a'n hymagwedd athronyddol at y mater hwn fis Mai diwethaf. Mae'r adroddiad yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw i raddau helaeth yn cymeradwyo'r ymagwedd honno ac yn ceisio sicrhau ein bod yn cyflenwi hynny hefyd mewn ffordd ystyrlon a strategol. Mae'r targedau rhifiadol lefel uchel a'r casgliad data yr oedd cyfraniad yr Aelod yn eu beirniadu wedi'u sefydlu gan ofyniad y Comisiwn Ewropeaidd i adrodd amdanynt. Rydym wedi cytuno—rwyf yn synnu nad yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ymwybodol o hyn—y bydd mecanwaith adrodd y rownd nesaf o gronfeydd strwythurol yn canolbwyntio llawer mwy ar ganlyniadau. Mae hyn yn rhywbeth y cytunwyd arno eisoes o fewn y ddeddfwriaeth ac yn rhywbeth yr wyf eisoes wedi adrodd amdano i'r Siambr a'r gwahanol bwyllgorau.

To finish on a more positive note, the portfolio management proposals that Dr Guilford recommends in his report are a form of management, which I will be considering very closely. It would fundamentally change how WEFO operates and how we manage our structural fund programme at present. It is a recommendation that I will be closely examining and seeking to implement. It is something that we wish to adopt, so that we adopt a far more proactive approach to the selection of different programmes and projects than we have done in the past. I believe that that will help to build upon the strong foundations that we already have within our structural fund programme and it will be a good example of how we will be able to learn the lessons from a position of strength to improve further the way that we are able to manage and deliver structural funds for the people of Wales.

I orffen ar nodyn mwy cadarnhaol, mae'r cynigion rheoli portffolios y mae Dr Guilford yn eu hargymell yn ei adroddiad yn ffurf ar reolaeth, a byddaf yn eu hystyried yn fanwl iawn. Byddai'n newid yn sylfaenol sut y mae WEFO yn gweithredu a sut yr ydym yn rheoli ein rhaglen cronfeydd strwythurol ar hyn o bryd. Mae'n argymhelliad y byddaf yn ei archwilio'n fanwl ac yn ceisio ei weithredu. Mae'n rhywbeth yr ydym yn dymuno ei fabwysiadu, fel ein bod yn mabwysiadu dull llawer mwy rhagweithiol o ddewis gwahanol raglenni a phrosiectau nag yr ydym wedi ei ddefnyddio yn y gorffennol. Credaf y bydd hynny'n helpu i adeiladu ar y sylfaen gadarn sydd gennym eisoes yn ein rhaglen cronfeydd strwythurol a bydd yn enghraifft dda o sut y gallwn ddysgu gwersi o sefyllfa o gryfder i reoli a chyflenwi cronfeydd strwythurol yn well fyth i bobl Cymru.

15:06 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, the programme monitoring committee has been grateful for the opportunity to be kept informed of the developing thinking of the Guilford review. The report points to the possibility of an enhanced oversight role for the committee in the context of any new economic prioritisation framework. Is there anything further that you could add today about the proposed framework and any future role for the PMC within it?

Ddirprwy Weinidog, mae'r pwyllgor monitro rhaglenni wedi bod yn ddiolchgar am y cyfle i gael gwybod am ddatblygiadau meddwl yr adolygiad Guilford. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y posibilrwydd o well swyddogaeth oruchwylio i'r pwyllgor yng nghyd-destun unrhyw fframwaith blaenoriaethu economaidd newydd. A oes unrhyw beth arall y gallech ei ychwanegu heddiw am y fframwaith arfaethedig ac unrhyw swyddogaeth ynddo yn y dyfodol i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni?

15:07 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank my colleague Mark Drakeford for the work that he does in chairing the programme monitoring committee for structural funds, which we all recognise and for which we are grateful. The PMC plays an important role in monitoring the implementation of structural fund programmes and offers challenge and advice to the managing authority. It also has specific statutory functions, including the agreement of project selection criteria, programme modifications and annual reports to the European Commission. I hope that the PMC will have an early opportunity to consider Dr Guilford's report, including his observations on its role and functions. His recommendations for establishing an economic prioritisation framework and for improving management information are aimed at helping the PMC to discharge its functions more effectively. As part of this discussion, I also welcome the PMC's advice on the proposal to have a single monitoring committee covering the structural funds and the rural and fisheries programmes.

Hoffwn ddiolch i fy nghydweithiwr Mark Drakeford am y gwaith y mae'n ei wneud yn cadeirio'r pwyllgor monitro rhaglen cronfeydd strwythurol; rydym i gyd yn cydnabod ei waith ac yn ddiolchgar amdano. Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn chwarae rhan bwysig wrth fonitro gweithrediad rhaglenni'r cronfeydd strwythurol ac yn cynnig her a chyngor i'r awdurdod rheoli. Mae ganddo hefyd swyddogaethau statudol penodol, gan gynnwys cytuno ar feini prawf dethol prosiectau, addasiadau rhaglenni ac adroddiadau blynyddol i'r Comisiwn Ewropeaidd. Gobeithiaf y caiff y Pwyllgor Monitro Rhaglenni gyfle cynnar i ystyried adroddiad Dr Guilford, gan gynnwys ei sylwadau ar ei rôl a'i swyddogaethau. Nod ei argymhellion i sefydlu fframwaith blaenoriaethu economaidd a gwella gwybodaeth reoli yw helpu'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni i gyflawni ei swyddogaethau yn fwy effeithiol. Fel rhan o'r drafodaeth hon, rwyf hefyd yn croesawu cyngor y Pwyllgor Monitro Rhaglenni am y cynnig i gael un pwyllgor monitro sy'n cwmpasu'r cronfeydd strwythurol, y rhaglen wledig a'r rhaglen pysgodfeydd.

15:08 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae gennyf gwestiwn syml iawn. Mae argymhelliad 4.2.4 yn awgrymu y dylid symud gofal dros WEFO o'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i adran ganolog yn y Llywodraeth. Beth yw meddyliau'r Dirprwy Weinidog a'r Llywodraeth ar hynny?

I have a very simple question. Recommendation 4.2.4 suggests that responsibility for WEFO should be moved from the Department for Business, Enterprise, Technology and Science to a central department within Government. What are the Deputy Minister's and the Government's thoughts on this?

15:08 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dyna un o'r argymhellion sydd y tu allan i fy mhortffolio gweinidogol. Mae'n rhywbeth y byddaf yn gofyn i aelodau'r Llywodraeth ei ystyried yn ystod yr wythnosau nesaf. Byddwn yn dod yn ôl at y Cynulliad gyda datganiad os bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud i newid y sefyllfa bresennol.

That is one of the recommendations that is outwith my ministerial portfolio. It is something that I will ask members of the Government to consider over the coming weeks. We will come back to the Assembly with a statement if a decision is made to change the current arrangements.

15:09

## Datganiad: Rhagor o Brentisiaethau yng Nghymru

## Statement: More Apprenticeships in Wales

Senedd.tv Fideo Video

### Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau / The Deputy Minister for Skills*

I am particularly pleased that I have the chance to talk today about our apprenticeship programme in Wales. This week is National Apprenticeship Week. Through a number of engagements I have planned, I will have the opportunity to see the apprenticeship programme in action and be reminded of the benefits to learners and employers alike.

Rwy'n arbennig o falch o gael cyfle i siarad heddiw am ein rhaglen brentisiaethau yng Nghymru. Yr wythnos hon yw Wythnos Genedlaethol y Prentisiaethau. Drwy nifer o ymrwymiadau sydd ar y gweill gennyf, caf gyfle i weld y rhaglen brentisiaethau ar waith a chael fy atgoffa o'r manteision i ddysgwyr a chyflogwyr fel ei gilydd.

Apprenticeships have commanded a great deal of interest over the past year. In October, the report following the Enterprise and Business Committee's inquiry into apprenticeships was published, and concluded that, while we have a strong apprenticeship programme in Wales, the full potential and capacity of apprenticeships for supporting the Welsh economy remains unrealised.

Mae prentisiaethau wedi ennyn llawer o ddiddordeb dros y flwyddyn ddiwethaf. Ym mis Hydref, cyhoeddwyd yr adroddiad yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i brentisiaethau, a daeth i'r casgliad, er bod gennym raglen brentisiaethau gref yng Nghymru, nad yw potensial a gallu llawn prentisiaethau i gefnogi economi Cymru eto wedi'u gwireddu.

In November, as part of the draft budget agreement with Plaid Cymru, we agreed to allocate an additional £20 million to apprenticeships for the financial year 2013-14 and an indicative £20 million for the financial year 2014-15. As a result, negotiations have taken place with Plaid Cymru to consider potential activity that will enable us to satisfy the essence of the recommendations from the inquiry and to focus the additional funding in the most appropriate way. The associated costs of the proposed activity, which I will come on to talk about, are based on best estimates, but the ethos of our commitment remains the same.

Ym mis Tachwedd, fel rhan o'r cytundeb ar y gyllideb ddrafft â Phlaid Cymru, cytunasom i ddyrannu £20 miliwn ychwanegol i brentisiaethau ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14 ac £20 miliwn dangosol ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15. O ganlyniad, mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda Phlaid Cymru i ystyried gweithgarwch posibl a fydd yn ein galluogi i fodloni hanfod argymhellion yr ymchwiliad a chanolbwyntio'r cyllid ychwanegol yn y ffordd fwyaf priodol. Siaradaf yn nes ymlaen am gostau cysylltiedig y gweithgarwch arfaethedig, sy'n seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau, ond mae ethos ein hymrwymiad yn aros yr un fath.

First, over the next two years, we will allocate an additional £22 million to support approximately 5,650 additional apprenticeship places. The report from the apprenticeship inquiry called for investment in higher apprenticeships. We will ensure that we have sufficient and relevant higher apprenticeship frameworks available for delivery in Wales, and we will increase the number of higher apprenticeships being delivered. We will ensure that the right skills are being delivered to meet the needs of the Welsh economy. Therefore, we will make higher apprenticeships one of our top priorities on this programme. Out of the 5,650 additional apprenticeship places that we will make available, we aim to deliver 2,650 places at level 4 and above, thereby contributing towards an increase in the average level of qualification held by working-age apprentices in Wales. We will work with stakeholders such as employers, sector skills councils and the UK Commission for Employment and Skills to accelerate the increase in the number of higher apprenticeship frameworks available in Wales to meet employers' needs.

Yn gyntaf, dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn dyrannu £22 miliwn ychwanegol i gefnogi tua 5,650 o leoedd prentisiaeth ychwanegol. Galwodd adroddiad yr ymchwiliad i brentisiaethau am fuddsoddi mewn prentisiaethau uwch. Byddwn yn sicrhau bod gennym fframweithiau prentisiaethau uwch digonol a pherthnasol ar gael yng Nghymru, a byddwn yn cynyddu nifer y prentisiaethau uwch sy'n cael eu darparu. Byddwn yn sicrhau bod y sgiliau cywir yn cael eu darparu i fodloni anghenion economi Cymru. Felly, byddwn yn sicrhau bod prentisiaethau uwch yn un o'n prif flaenoriaethau ar y rhaglen hon. O'r 5,650 o leoedd prentisiaeth ychwanegol y byddwn yn eu darparu, ein nod yw darparu 2,650 o leoedd ar lefel 4 ac uwch, a chyfrannu felly at gynnydd yn lefel gyfartalog y cymwysterau sydd gan brentisiaid oed gweithio yng Nghymru. Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid megis cyflogwyr, cynghorau sgiliau sector a Chomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau i gyflymu'r cynnydd yn nifer y fframweithiau prentisiaethau uwch sydd ar gael yng Nghymru i ddiwallu anghenion cyflogwyr.

We will also continue to focus our support on the 16 to 24 age group. We will, of course, still retain an all-age apprenticeship programme in Wales—it has been one of our great success stories and is valued by businesses—but we must ensure that additional funding is targeted at maximising opportunities for 16 to 24-year-olds. In doing so, we will support 16 to 24-year-olds to remain engaged in education, employment or training, attempt to drive down the average age of apprentices, and support a demographic that has been one of those worst hit by the recession.

Byddwn hefyd yn parhau i ganolbwyntio ein cefnogaeth ar y grŵp oedran 16 i 24. Byddwn, wrth gwrs, yn dal i gadw rhaglen brentisiaethau i bob oedran yng Nghymru—mae wedi bod yn un o'n llwyddiannau mawr ac mae busnesau'n ei gwerthfawrogi—ond rhaid i ni sicrhau bod arian ychwanegol yn cael ei dargedu at roi'r cyfleoedd gorau posibl i'r rhai 16 i 24 mlwydd oed. Wrth wneud hynny, byddwn yn cefnogi'r rhai 16 i 24 mlwydd oed i barhau i ymgysylltu ym myd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, yn ceisio gostwng cyfartaledd oedran y prentisiaid, ac yn cefnogi demograffig sydd ymysg y rhai a ddioddefodd waethaf oherwydd y dirwasgiad.

Secondly, employer engagement was also a strong theme emerging from the recommendations of the inquiry. According to the 2012 employer perspectives survey, 12% of all establishments in Wales offer formal apprenticeships that lead to a nationally recognised qualification. It is our aim to increase this existing employer base, and particularly to engage with small and medium-sized businesses. In order to do so, we will increase our offer of support through our successful young recruits programme by offering an enhanced wage subsidy to employers taking on additional apprentices between the ages of 16 and 24. For eligible employers, we will pay £100 per week for the first 26 weeks, reducing it to £50 per week for the remainder of the 52-week period. Employers will, therefore, receive a maximum of £3,900 over 52 weeks for employing a young person between the ages of 16 and 24. This is an increase of £1,300 compared with the previous offer. We will also extend the YRP to include learners following higher apprenticeship frameworks, thereby not limiting it to those on levels 2 and 3, and, again, offering support to businesses to take on learners at a higher level.

Yn ail, roedd ymgysylltu â chyflogwyr hefyd yn thema gref a ddaeth i'r amlwg yn argymhellion yr ymchwiliad. Yn ôl arolwg safbwyntiau cyflogwyr 2012, mae 12% o holl sefydliadau Cymru'n cynnig prentisiaethau ffurfiol sy'n arwain at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Ein nod yw cynyddu'r sylfaen cyflogwyr bresennol, ac yn arbennig ymgysylltu â busnesau bach a chanolig. I wneud hynny, byddwn yn cynyddu ein cynnig o gymorth drwy ein rhaglen recriwtiaid ifanc lwyddiannus drwy gynnig cymhorthdal cyflog gwell i gyflogwyr i gymryd prentisiaid ychwanegol rhwng 16 a 24 mlwydd oed. I gyflogwyr sy'n gymwys, byddwn yn talu £100 yr wythnos am y 26 wythnos gyntaf, ac yna £50 yr wythnos am weddill y cyfnod o 52 wythnos. Bydd cyflogwyr, felly, yn derbyn uchafswm o £3,900 dros 52 wythnos i gyflogi person ifanc rhwng 16 a 24 mlwydd oed. Mae hyn yn £1,300 o gynnydd o'i gymharu â'r cynnig blaenorol. Byddwn hefyd yn ymestyn y rhaglen recriwtiaid ifanc i gynnwys dysgwyr sy'n dilyn fframweithiau prentisiaeth uwch, gan olygu na fydd wedi'i chyfyngu i'r rhai ar lefelau 2 a 3, ac, unwaith eto, y bydd yn cynnig cymorth i fusnesau i gymryd dysgwyr ar lefel uwch.

During the inquiry, the Federation of Small Businesses stated that the time and cost of recruiting an apprentice were significant barriers to small and micro businesses offering apprenticeships. Small and micro businesses can ill-afford the downtime associated with the recruitment of an apprentice, and, therefore, do not consider apprentices as a suitable option for their businesses. In response to this, we will offer small and micro businesses a one-off payment of £500 to assist with these costs, and we will work closely with stakeholders, such as the Federation of Small Businesses, to identify other barriers associated with the recruitment of apprentices in the expectation that we can support businesses to overcome these issues. To maximise these opportunities, we need to increase the number of businesses that offer apprenticeships. To do so, we will also focus efforts to enable the young employees to secure a sustainable position within the company and to gain qualifications.

Yn ystod yr ymchwiliad, dywedodd Ffederasiwn y Busnesau Bach fod amser a chost recriwtio prentisiaid yn rhwystrau sylweddol i fusnesau bach a micro sy'n cynnig prentisiaethau. Prin y gall busnesau bach a micro fforddio'r amser segur sy'n gysylltiedig â recriwtio prentis, ac felly, nid ydynt yn ystyried bod prentisiaid yn ddewis addas i'w busnesau. O ystyried hynny, byddwn yn cynnig taliad untro o £500 i fusnesau bach a micro i gynorthwyo gyda'r costau hyn, a byddwn yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid, megis Ffederasiwn y Busnesau Bach, i nodi rhwystrau eraill sy'n gysylltiedig â recriwtio prentisiaid yn y gobaith y gallwn gefnogi busnesau i oresgyn y materion hyn. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn, mae angen i ni gynyddu nifer y busnesau sy'n cynnig prentisiaethau. I wneud hynny, byddwn hefyd yn ymdrechu'n benodol i alluogi gweithwyr ifanc i sicrhau swydd gynaliadwy yn y cwmni ac i ennill cymwysterau.

We will direct approximately £3.4 million towards developing a more coherent system by which school or college leavers can access apprenticeships, and to strengthen relationships between employers, schools and work-based learning providers in order to promote apprenticeships as a valued option in their career path. As a part of this activity, we will develop action that engages young people with apprenticeships within the STEM sectors, as well as trying to promote higher skilled apprenticeships as valuable alternatives to college or degree courses. We will also look at gender imbalances across apprenticeship delivery and work with the necessary stakeholders to identify the imbalances, and to consider activity that will go some way towards redressing them.

Byddwn yn cyfeirio tua £3.4 miliwn at ddatblygu system fwy cydlynol i sicrhau bod prentisiaethau ar gael i bobl ifanc sy'n gadael ysgol neu goleg, ac i gryfhau'r berthynas rhwng cyflogwyr, ysgolion a darparwyr dysgu seiliedig ar waith er mwyn hyrwyddo prentisiaethau fel opsiwn gwerthfawr yn eu llwybr gyrfa. Yn rhan o'r gweithgarwch hwn, byddwn yn datblygu camau gweithredu sy'n ymgysylltu â phobl ifanc sydd â phrentisiaethau yn y sectorau STEM, yn ogystal â cheisio hyrwyddo prentisiaethau sgiliau uwch fel dewisiadau amgen gwerthfawr i gyrsiau coleg neu radd. Byddwn hefyd yn edrych ar anghydbwysedd rhwng y rhywiau o ran darparu prentisiaethau ac yn cydweithio â'r rhanddeiliaid angenrheidiol i nodi'r anghydbwysedd, ac i ystyried gweithgarwch a fydd yn mynd rywfaint o'r ffordd at ei unioni.

Finally, we will aim to increase the provision of Welsh-medium and bilingual apprenticeships. It is important to this Government that those who are first-language Welsh speakers, and those who have been through a Welsh-medium education, are able to continue with their education on a vocational path through the medium of Welsh. We will work proactively to maximise the opportunities in accordance with the levels of demand. We will begin very shortly by assessing what is already available for delivery through the medium of Welsh versus what is currently being delivered. Then, working with our network of work-based learning providers, we will undertake work specifically focusing on emerging demands relating to Welsh-medium apprenticeships.

Yn olaf, byddwn yn anelu at gynyddu darpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'n bwysig i'r Llywodraeth hon fod y rhai sydd yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, a'r rhai sydd wedi bod drwy addysg cyfrwng Cymraeg, yn gallu parhau â'u haddysg ar lwybr galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol i wneud y gorau o'r cyfleoedd yn unol â lefel y galw. Byddwn yn cychwyn yn fuan iawn drwy asesu'r hyn sydd eisoes ar gael o ran darparu drwy gyfrwng y Gymraeg o'i gymharu â'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Yna, gan gydweithio â'n rhwydwaith o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith, byddwn yn gwneud gwaith sy'n canolbwyntio'n benodol ar alw newydd am brentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

My chief desire is that apprenticeships, underpinned by high-quality qualifications and the wider curriculum, will become the gold standard for vocational competence in Wales, where the achievement of an apprenticeship certificate is recognised, valued and highly prized by all as an endorsement of the skills, professionalism and ambition of our country within the global economy. The year 2012 saw a great deal of development work in terms of apprenticeship policy, and I am confident that 2013 will mark the emergence of an even stronger apprenticeship programme in Wales.

Fy awydd pennaf yw y bydd prentisiaethau, yn seiliedig ar gymwysterau o ansawdd uchel a'r cwricwlwm ehangach, yn dod yn safon aur ar gyfer cymhwysedd galwedigaethol yng Nghymru, lle caiff ennill tystysgrif prentisiaeth ei gydnabod, ei drysori a'i werthfawrogi'n fawr gan bawb fel cymeradwyaeth o sgiliau, proffesiynoldeb ac uchelgais ein gwlad yn yr economi fyd-eang. Yn y flwyddyn 2012, gwelwyd cryn dipyn o waith datblygu o ran polisi prentisiaethau, ac rwy'n hyderus y bydd 2013 yn nodi dyfodiad rhaglen brentisiaethau gryfach fyth yng Nghymru.

15:17 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Deputy Minister for that thorough statement. I think that you covered most aspects there. If I may, I will join you, Deputy Minister, in talking up the benefits of apprenticeships, both to the individuals involved and also, importantly—which we often forget—to the companies themselves. Apprenticeships are also of great benefit to those companies that are training young people. As you say, the Enterprise and Business Committee has done a lot of work in this area. We found some interesting findings. We know that there is an interesting situation in Wales but, apparently, for a long time now, in Wales, we have had fewer apprenticeship opportunities than in some other parts of the UK. However, at the same time, and positively, we have had more people going to the natural end of the apprenticeship, but that has not always happened elsewhere. So, there is a good story to tell in that respect.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am y datganiad trylwyr hwnnw. Credaf eich bod wedi ymdrin â'r rhan fwyaf o agweddau. Os caf, ymunaf â chi, Ddirprwy Weinidog, i hyrwyddo manteision prentisiaethau, i'r unigolion dan sylw a hefyd, yn bwysig iawn—rydym yn aml yn anghofio hyn—i'r cwmnïau eu hunain. Mae prentisiaethau hefyd o fudd mawr i'r cwmnïau hynny sy'n hyfforddi pobl ifanc. Fel y dywedwch, mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi gwneud llawer o waith yn y maes hwn. Rydym wedi gweld rhai canfyddiadau diddorol. Rydym yn gwybod bod y sefyllfa yng Nghymru'n ddiddorol, ond, ers tro byd bellach yng Nghymru, mae'n debyg y bu llai o gyfleoedd o ran prentisiaethau nag mewn rhai rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, ar yr un pryd, ac yn gadarnhaol, rydym wedi gweld mwy o bobl yn cyrraedd diwedd naturiol y brentisiaeth, ac nid yw hynny bob amser wedi digwydd mewn mannau eraill. Felly, mae stori dda i'w hadrodd yn hynny o beth.

Specifically, as the Enterprise and Business Committee recommended, will you undertake to publish the figures relating to apprenticeships regarding each sector? I know that the sector approach of your Government to the economy, which has been spoken about a lot in this Chamber, is a cornerstone of the economic policy of the Welsh Government, but it would be interesting to see a little bit more in terms of the apprenticeships provided per sector. I do not think that we have seen that to date.

Yn benodol, fel yr argymhellodd y Pwyllgor Menter a Busnes, a wnewch chi ymrwymo i gyhoeddi ffigurau'r prentisiaethau ym mhob sector? Bu llawer o sôn yn y Siambr hon am y modd y mae eich Llywodraeth yn defnyddio sectorau wrth ymdrin â'r economi, a gwn fod hynny'n un o gonglfeini polisi economaidd Llywodraeth Cymru, ond byddai'n ddiddorol gweld ychydig mwy o ran y prentisiaethau a ddarperir ym mhob sector. Nid wyf yn credu ein bod wedi gweld hynny hyd yma.

As you say, there are some very well-established apprenticeship programmes, many of which are being run by larger and well-known companies in Wales. As you said in your statement, some other small and medium-sized enterprises are not so good at providing apprenticeships; so, how can we spread best practice? What are you doing to see that those larger companies are in a better position to mentor and to link up with some of the smaller SMEs and to help them in that way?

Fel y dywedwch, mae rhai rhaglenni prentisiaeth wedi hen ennill eu plwyf, a llawer ohonynt yn cael eu cynnal gan gwmnïau mawr ac adnabyddus yng Nghymru. Fel y dywedasoch yn eich datganiad, nid yw rhai busnesau bach a chanolig eraill cystal am ddarparu prentisiaethau, felly, sut allwn ni ledaenu arfer gorau? Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod y cwmnïau mawr mewn gwell sefyllfa i fentora rhai o'r busnesau bach a chanolig a chysylltu â hwy, a'u helpu fel yna?

I am sure that you would agree that we must make provision for the future economy—future needs in the growth areas of the next decade; a good example of which would be in relation to care for older people, where we know that the demand will increase massively. Clearly, we would like to see more apprenticeships in a growth area like that. So, how are you making sure that the foundations for the apprenticeships of five to 10 years' time are being laid now, so that, in the area of care for older people, there will be people who are skilled up to fill those jobs?

Rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod rhaid i ni ddarparu ar gyfer economi'r dyfodol—anghenion y dyfodol ym meysydd twf y degawd nesaf; enghraifft dda o hynny fyddai gofal i bobl hŷn, lle y gwyddom y bydd y galw'n cynyddu'n aruthrol. Yn amlwg, hoffem weld mwy o brentisiaethau mewn maes twf o'r fath. Felly, sut ydych chi'n sicrhau bod sylfeini'r prentisiaethau a fydd yn cael eu cynnig ymhen pump i 10 mlynedd yn cael eu gosod nawr, fel y bydd gennym, ym maes gofal i bobl hŷn, bobl â'r sgiliau i lenwi'r swyddi hynny?

You did not mention cross-border issues, so I will. Constituents may not have raised these issues with you, but as an Assembly Member from a border area, I have been contacted by employers in my constituency whose apprentices are finding it difficult to get funding, because they are studying with apprenticeship providers in England. Now, as I understand it, they are Welsh Government-approved apprenticeship providers, but because they are over the border, it seems to be more difficult for those young people in my area to access apprenticeship opportunities. As I said, we have not spoken about this to date, but I would like to hear from you whether you were aware of the problems and what you intend to do about the matter.

Ni soniasoch am faterion trawsffiniol, felly soniaf i amdanynt. Efallai nad yw etholwyr wedi codi'r materion hyn gyda chi, ond fel Aelod Cynulliad o ardal agos at y ffin, mae cyflogwyr yn fy etholaeth wedi cysylltu â mi i ddweud bod eu prentisiaid yn ei chael yn anodd cael cyllid, oherwydd eu bod yn astudio gyda darparwyr prentisiaethau yn Lloegr. Nawr, fel y deallaf, mae darparwyr y prentisiaethau hyn wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ond oherwydd eu bod dros y ffin, mae'n ymddangos ei bod yn anoddach i'r bobl ifanc hynny yn fy ardal i fanteisio ar gyfleoedd prentisiaeth. Fel y dywedais, nid ydym wedi siarad am hyn eto, ond hoffwn glywed gennych a oeddech yn ymwybodol o'r problemau a beth yr ydych yn bwriadu ei wneud ynglŷn â'r mater.

Finally, Deputy Minister, you mentioned the very worrying figure of, I think, 24% of 16 to 24-year-olds who are not in work. How will you make sure that these apprenticeship opportunities, which are great as far as they go, actually provide lasting, real, permanent jobs, perhaps not in the companies where the apprenticeships are served, but so that those people who receive that training are best placed and have the best opportunities to make the most of their apprenticeships, which we all want them to really benefit from?

Yn olaf, Ddirprwy Weinidog, soniasoch am y ffigur sy'n peri gofid mawr sef, credaf, 24% o bobl 16 i 24 mlwydd oed nad ydynt mewn gwaith. Sut y byddwch yn gwneud yn siŵr fod y cyfleoedd prentisiaeth, sy'n wych o'u math, yn darparu swyddi parhaol, go iawn mewn gwirionedd; nid o reidrwydd yn y cwmnïau lle caiff y prentisiaethau eu bwrw, ond er mwyn i'r bobl hynny sy'n derbyn yr hyfforddiant fod yn y sefyllfa orau a chael y cyfleoedd gorau i wneud y gorau o'r prentisiaethau hyn yr hoffem oll iddynt elwa ohonynt?

15:21

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for Monmouth and the Conservative spokesperson very much for his generally positive and supportive comments; I do appreciate that.

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod dros Fynwy a llefarydd y Ceidwadwyr am ei sylwadau cadarnhaol a chefnogol; rwyf yn gwerthfawrogi hynny.

You are right to talk up the benefits; we need more people to do that, quite frankly, because there is still a perception out there that apprenticeships are not as valuable, perhaps, as degree courses. While I am not in any sense belittling academic courses, there needs to be a greater understanding of the value of vocational provision. That is just as important for the employer, as you rightly point out, as it is for the apprentice.

Rydych yn llygad eich lle wrth sôn am y manteision; mae arnom angen mwy o bobl i wneud hynny, a dweud y gwir, oherwydd y teimlad o hyd yw nad yw prentisiaethau mor werthfawr, efallai, â chyrsiau gradd. Er nad wyf yn bychanu cyrsiau academaidd mewn unrhyw fodd, mae angen gwell dealltwriaeth o werth darpariaeth alwedigaethol. Mae hynny yr un mor bwysig i'r cyflogwr, fel y dywedwch yn hollol gywir, ag ydyw i'r prentis.

You are quite right to point out that there is a drop in the number actually taking apprenticeships, but that is because, whereas the completion rate was about only 50% just a few years ago, it is now over 80%. Obviously, it follows that young people are staying on longer in order to complete their apprenticeships, and that affects the number of places that may be available, although that, of course, is about to change, with this enlarged programme.

Rydych yn berffaith iawn i dynnu sylw at y gostyngiad yn y nifer sy'n cymryd prentisiaethau mewn gwirionedd, ond mae hynny oherwydd bod y gyfradd gwblhau wedi cynyddu i dros 80%, o'i chymharu â dim ond 50% rai blynyddoedd yn ôl. Yn amlwg, mae'n dilyn bod pobl ifanc yn aros yn hirach i gwblhau eu prentisiaethau, a bod hynny'n effeithio ar nifer y lleoedd sydd ar gael, er bod hynny, wrth gwrs, ar fin newid, gyda'r rhaglen fwy hon.

I am not aware of any reason why we cannot publish figures relating to sectors. I will speak to officials on that. I think that we do have information on that, but I will certainly write you on the matter, as I will on the cross-border issues. If you would care to write to me with particular instances where this has been an issue, I will certainly look into the matter, although I must stress, of course, that the Welsh Government's priority is apprenticeships that are delivered within Wales. So, we do have to look at that very carefully, but if you write to me, I will certainly look into it.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw reswm pam na allwn gyhoeddi ffigurau sy'n ymwneud â sectorau. Siaradaf â swyddogion am hynny. Credaf fod gennym wybodaeth am hynny, ond byddaf yn sicr yn ysgrifennu atoch am y mater, fel y gwnaf am y materion trawsffiniol. Os ysgrifennwch ataf gydag enghreifftiau penodol lle bu hyn yn broblem, yn sicr edrychaf ar y mater, er bod rhaid i mi bwysleisio, wrth gwrs, mai blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw prentisiaethau sy'n cael eu darparu yng Nghymru. Felly, mae'n rhaid i ni edrych ar hynny'n ofalus iawn, ond os ysgrifennwch ataf, yn sicr fe edrychaf ar y mater.

You asked how we will ensure that apprenticeships of the future are relevant to the economy. That is why we set up our labour market intelligence unit. That unit will identify skills gaps and take information from the UK Commission for Employment and Skills. That will help to determine which occupational areas are going to be the priority for the future. You would not be surprised to hear that that will then clearly inform where we offer apprenticeships and seek to encourage young people to look for future employment.

Gofynasoch sut y byddwn yn sicrhau bod prentisiaethau'r dyfodol yn berthnasol i'r economi. Dyna pam y sefydlwyd ein huned gwybodaeth am y farchnad lafur. Bydd yr uned honno'n nodi bylchau o ran sgiliau ac yn cymryd gwybodaeth gan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau. Bydd hynny'n helpu i benderfynu pa feysydd galwedigaethol fydd yn flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol. Ni fyddwch yn synnu wrth glywed y bydd hynny wedyn yn sail i ble'r ydym yn cynnig prentisiaethau ac yn ceisio annog pobl ifanc i chwilio am gyflogaeth yn y dyfodol.

On your final point, yes, you are quite right that there are some very big companies that offer apprenticeships, and they do it very well indeed. However, they have very large supply chains, which are often SMEs. We are certainly looking to the anchor companies to work with their supply chains and to cascade good practice. Again, by working with organisations like the FSB, we will look to involve more organisations—one area, of course, being our shared apprenticeship scheme, in which small employers can share, as the title suggests, an apprentice between them.

Ar eich pwynt olaf, ydych, rydych yn llygad eich lle fod rhai cwmnïau mawr iawn yn cynnig prentisiaethau, a'u bod yn gwneud hynny'n dda iawn wir. Fodd bynnag, mae ganddynt gadwyni cyflenwi mawr iawn, sydd yn aml yn fusnesau bach a chanolig. Rydym yn sicr yn gobeithio y bydd y cwmnïau angor yn gweithio gyda'u cadwyni cyflenwi ac yn rhaeadru arfer da. Unwaith eto, drwy gydweithio â sefydliadau fel Ffederasiwn y Busnesau Bach, byddwn yn ceisio cynnwys mwy o sefydliadau—un maes, wrth gwrs, yw ein cynllun rhannu prentisiaeth, lle gall cyflogwyr bach, fel yr awgryma'r teitl, rannu prentis rhyngddynt.

15:24 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Deputy Minister for his statement today.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad heddiw.

Deputy Minister, you outlined the importance of apprenticeships to young Welsh people and to the Welsh economy, but I think that there are still some issues of perception that we must make every effort to tackle. The Chartered Institute of Personnel and Development, for example, found that fewer than 20% of the people it surveyed gave apprenticeships parity with university education. I would like to have your thoughts on how we can change that. The same survey found that only 15% of parents reported that they or their children had received information on alternatives to higher education from teachers. So, it is about embedding this cultural change within our schools. What work is being done to make sure that teachers are aware of the benefits and opportunities that apprenticeships can offer, for example, through placements in industry? I am concerned about this because, over the years, the number of teachers going into industry on a placement has gone down.

Ddirprwy Weinidog, soniasoch am bwysigrwydd prentisiaethau i bobl ifanc Cymru, ac i economi Cymru, ond credaf fod yn rhaid i ni wneud pob ymdrech i unioni rhai materion sy'n ymwneud â dirnadaeth. Canfu'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, er enghraifft, fod llai nag 20% o'r bobl a atebodd eu harolwg yn trin prentisiaethau'n gyfartal ag addysg prifysgol. Hoffwn gael eich barn am sut y gallwn newid hynny. Canfu'r un arolwg mai dim ond 15% o rieni a ddywedodd eu bod hwy neu eu plant wedi cael gwybodaeth am ddewisiadau amgen i addysg uwch gan athrawon. Felly, mae'n fater o wreiddio'r newid diwylliannol hwn yn ein hysgolion. Pa waith sy'n cael ei wneud i wneud yn siŵr fod athrawon yn ymwybodol o'r manteision a'r cyfleoedd y gall prentisiaethau eu cynnig, er enghraifft, trwy leoliadau mewn diwydiant? Rwyf yn pryderu am hyn oherwydd, dros y blynyddoedd, mae nifer yr athrawon sy'n mynd i fyd diwydiant ar leoliad wedi gostwng.

I welcome your commitment to look at the very real gender imbalances that exist within apprenticeship numbers as a whole. It is not good that just one out of 10 IT apprentices, but nine out of 10 health and social care apprentices, are women. The numbers are very imbalanced. The situation has changed very little over the years, and I just wondered whether you had any information on any new approaches that we could make to address this imbalance.

Croesawaf eich ymrwymiad i edrych ar yr anghydbwysedd real iawn rhwng y rhywiau sy'n bodoli o fewn niferoedd prentisiaethau yn eu cyfanrwydd. Nid yw'n beth da mai dim ond un o bob 10 o brentisiaid TG sy'n fenywod, ond bod naw o bob 10 o brentisiaid iechyd a gofal cymdeithasol yn fenywod. Mae'r niferoedd yn anghytbwys iawn. Ychydig iawn y mae'r sefyllfa wedi newid dros y blynyddoedd, a meddwl yr oeddwn tybed a ydych wedi cael unrhyw wybodaeth am unrhyw ddulliau newydd y gallem eu defnyddio i ymdrin â'r anghydbwysedd hwn.

Finally, it is welcome to hear that there is financial support to allow small and microbusinesses to take on apprentices. That is very welcome. We know that these are the mainstay of the Welsh economy. What support is available to these tiers to help them to manage the mechanics of taking on an apprentice?

Yn olaf, mae'n bleser clywed bod cefnogaeth ariannol ar gael i ganiatáu busnesau bach a micro i gymryd prentisiaid. Mae hynny i'w groesawu'n fawr. Rydym yn gwybod mai'r rhain yw conglfaen economi Cymru. Pa gymorth sydd ar gael i'r haenau hyn i'w helpu i reoli mecaneg cymryd prentis?

15:26

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Cynon Valley very much for those comments. I agree that perception is a key issue here. I am familiar with the statements of the CIPD, and indeed I have instructed my officials to set up a meeting with the Wales region in order to discuss this further. My reading of the CIPD article and comments is that it is bemoaning the fact that the value of apprenticeships is not as well understood as it might be, so I would certainly like to explore ways of working with CIPD in order to improve that perception out there. That is the key. Certainly employers have a big role to play in that, and so of course does the careers service, and we will be looking to the reorganised careers service to work very closely with schools, colleges, learning providers and pupils and their parents to ensure that the value of apprenticeships is properly understood. That is why I announced that we were earmarking roughly £3.5 million for that very purpose: to help to promote apprenticeships.

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod dros Gwm Cynon am y sylwadau hynny. Rwy'n cytuno bod dirnadaeth yn fater allweddol yma. Rwy'n gyfarwydd â datganiadau'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, ac yn wir rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i drefnu cyfarfod gyda rhanbarth Cymru i drafod hyn ymhellach. Fy nealltwriaeth o erthygl y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu a'r sylwadau yw ei bod yn cwyno am y ffaith nad oes cystal dealltwriaeth ag y gellid bod o werth prentisiaethau, felly byddwn yn sicr yn hoffi archwilio ffyrdd o gydweithio â'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu i wella'r ddirnadaeth honno. Dyna sy'n allweddol. Yn sicr mae gan gyflogwyr ran fawr i'w chwarae yn hynny, a'r gwasanaeth gyrfaoedd, wrth gwrs, a byddwn yn disgwyl i'r gwasanaeth gyrfaoedd a ad-drefnwyd gydweithio'n agos iawn ag ysgolion, colegau, darparwyr dysgu a disgyblion a'u rhieni i sicrhau bod gwerth prentisiaethau'n cael ei ddeall yn iawn. Dyna pam y cyhoeddais ein bod yn clustnodi tua £3.5 miliwn at yr union ddiben hwnnw: i helpu i hyrwyddo prentisiaethau.

There are excellent examples of companies—they tend to be the bigger ones, such as Airbus, for example—that have brought in careers teachers, and other teachers involved in helping to advise on careers, into the work site to explain what an engineering apprenticeship could offer to their pupils. As I understand it, it worked very well indeed. Those are the sorts of initiatives that we want to see, with more and more employers stepping up to the mark and engaging with educationists to make sure that the message comes across.

Ceir enghreifftiau gwych o gwmnïau—maent yn tueddu i fod yn rhai mawr, megis Airbus, er enghraifft—sydd wedi dod ag athrawon gyrfaoedd, ac athrawon eraill sy'n ymwneud â helpu i roi cyngor am yrfaoedd, i mewn i'r safle gwaith i egluro'r hyn y gallai prentisiaeth beirianneg ei gynnig i'w disgyblion. Rwyf ar ddeall bod hynny wedi gweithio'n dda iawn wir. Dyna'r math o fentrau yr hoffem eu gweld, gyda mwy a mwy o gyflogwyr yn camu ymlaen ac yn ymgysylltu ag addysgwyr i wneud yn siŵr fod y neges yn cael ei chyfleu.

You rightly raise gender issues and that is why I referred to those in the speech. It is particularly an issue in the STEM subjects. We want more girls and young women to get involved in those subjects. I mentioned in response to Lindsay Whittle last week—he is not here at the moment—that I recently attended the Engineering Employers Federation apprenticeship awards, and more than half of those receiving apprenticeship awards were young women. I used the term 'young ladies' last time, and it provoked some amusement, but I think you know what I mean. The key issue is that, where that message is understood, there is absolutely no reason why young women cannot do at least as well as young men, and in many cases, far better.

Rydych yn iawn i godi materion yn ymwneud â'r rhywiau a dyna pam y cyfeiriais atynt yn yr araith. Mae'n broblem yn neilltuol yn y pynciau STEM. Rydym am i fwy o ferched a menywod ifanc ymwneud â'r pynciau hynny. Soniais yn fy ymateb i Lindsay Whittle yr wythnos diwethaf—nid yw ef yma ar hyn o bryd—fy mod yn ddiweddar yn bresennol yng ngwobrau prentisiaethau Ffederasiwn y Cyflogwyr Peirianyddol, ac mai menywod ifanc oedd dros hanner y rhai a gafodd wobrau prentisiaeth. Defnyddiais y term 'young ladies' y tro diwethaf, ac ysgogodd hynny rywfaint o ddifyrrwch, ond credaf eich bod yn gwybod beth yr wyf yn ei olygu. Y mater allweddol, lle y caiff y neges honno ei deall, yw nad oes dim rheswm pam na all menywod ifanc wneud o leiaf cystal â dynion ifanc, ac mewn llawer o achosion, yn llawer gwell.

The final point that I would mention is that, in terms of helping to support very small companies to go through the recruitment process, we are making a one-off grant of £500, where they qualify for that, in order to ease that process.

Y pwynt olaf yr wyf am ei grybwyll, o ran helpu i gefnogi cwmnïau bach iawn i fynd drwy'r broses recriwtio, yw ein bod yn rhoi grant untro o £500, i'r rhai sy'n gymwys i'w gael, er mwyn hwyluso'r broses honno.

15:29

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The additional money for these apprenticeships, £20 million in this year and £20 million for next year, was included in the budget after Plaid Cymru agreed a deal with the Welsh Government last autumn. We are very pleased that this money will be going towards apprenticeships in three vital areas. It will assist with small businesses and microbusinesses, it will help to develop a higher skills base, which will impact on the economy, and it will help to provide training places through the medium of Welsh. These are all relatively new areas for apprenticeships in this high number.

Cafodd yr arian ychwanegol ar gyfer y prentisiaethau hyn, £20 miliwn eleni ac £20 miliwn y flwyddyn nesaf, ei gynnwys yn y gyllideb ar ôl cytundeb rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yr hydref diwethaf. Rydym yn falch iawn y bydd yr arian hwn yn mynd tuag at brentisiaethau mewn tri maes hanfodol. Bydd yn cynorthwyo gyda busnesau bach a micro, bydd yn helpu i ddatblygu sylfaen sgiliau uwch, a fydd yn effeithio ar yr economi, a bydd yn helpu i ddarparu lleoedd hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain i gyd yn feysydd cymharol newydd ar gyfer y nifer uchel hwn o brentisiaethau.

I would be grateful if the Deputy Minister could confirm that the Government will do all that it can to ensure that microbusinesses and small businesses take up these opportunities. Can the Deputy Minister also confirm that our colleges are in a position to provide the courses that are needed to go with them? Plaid Cymru intended that this money be used to provide the apprenticeships and the skills that our workforce, our economy and our companies require, now and into the future. Therefore, can the Deputy Minister please confirm that the funds will be used to that end, and also that all efforts will be made to simplify the process to make it as easy as possible for employers to apply?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Dirprwy Weinidog gadarnhau y bydd y Llywodraeth yn gwneud popeth a all i sicrhau bod microfusnesau a busnesau bach yn manteisio ar y cyfleoedd hyn. A all y Dirprwy Weinidog hefyd gadarnhau bod ein colegau mewn sefyllfa i ddarparu'r cyrsiau sydd eu hangen i gyd-fynd â hwy? Bwriad Plaid Cymru oedd y byddai'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r prentisiaethau a'r sgiliau sydd eu hangen ar ein gweithlu, ein heconomi a'n cwmnïau, nawr ac yn y dyfodol. Felly, a fyddai'r Dirprwy Weinidog cystal â chadarnhau y caiff yr arian ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw, a hefyd y gwneir pob ymdrech i symleiddio'r broses i'w gwneud mor hawdd â phosibl i gyflogwyr wneud cais?

15:31 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the leader of Plaid Cymru for those comments. I acknowledge the support of her colleagues in terms of developing this agreement—Simon Thomas and Ieuan Wyn Jones in particular. We are absolutely serious that the proposals that we are putting forward today will be seen through. I, certainly, will commit myself to working hard with officials to ensure that they become a reality. We will work very closely with our network of work-based learning providers, through the National Training Federation for Wales, and with the further education colleges, to ensure that the provisions are viable and that they are geared up to offering these opportunities, particularly with the higher-level apprenticeships and the new Welsh-medium apprenticeships. I do not belittle the implications, particularly of increasing the number of Welsh-medium apprenticeships. There are some at present, but it is a very small number. It means that all materials will need to be in Welsh and all assessors will need to be occupationally competent—that means not just fluent in Welsh, but fluent in the technical language of the particular occupational area. Nevertheless, we are determined to make a significant improvement in that regard.

Diolch i arweinydd Plaid Cymru am y sylwadau hynny. Rwy’n cydnabod cefnogaeth ei chydweithwyr o ran datblygu’r cytundeb hwn—Simon Thomas ac Ieuan Wyn Jones yn arbennig. Rydym yn gwbl o ddifrif wrth ddweud y byddwn yn gweithredu ar y cynigion yr ydym yn eu cyflwyno heddiw. Byddaf fi, yn sicr, yn ymrwymo i weithio’n galed gyda swyddogion i sicrhau eu bod yn cael eu gwireddu. Byddwn yn cydweithio’n agos iawn â’n rhwydwaith o ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith, drwy Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, ac â’r colegau addysg bellach, i sicrhau bod y darpariaethau yn hyfyw a’u bod yn barod i gynnig y cyfleoedd hyn, yn enwedig gyda’r prentisiaethau lefel uwch a’r prentisiaethau newydd cyfrwng Cymraeg. Nid wyf yn bychanu’r goblygiadau, yn arbennig goblygiadau cynyddu nifer y prentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Mae rhai ar hyn o bryd, ond mae’n nifer bach iawn. Mae’n golygu y bydd angen i’r holl ddeunyddiau fod yn Gymraeg ac y bydd angen i’r holl aseswyr fod yn gymwys yn alwedigaethol—nid dim ond yn rhugl yn y Gymraeg, ond yn rhugl yn iaith dechnegol y maes galwedigaethol dan sylw. Serch hynny, rydym yn benderfynol o sicrhau gwelliant sylweddol yn hynny o beth.

I quite agree that we will also want to ensure that the process is as simple as it can be, while ensuring that we maintain good value for money in terms of the public funds that we will invest in this process.

Rwyf yn cytuno y byddwn hefyd am sicrhau bod y broses mor syml ag y gall fod, gan sicrhau ein bod yn cynnal gwerth da am arian o ran yr arian cyhoeddus y byddwn yn ei fuddsoddi yn y broses hon.

15:32 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for your statement. I, too, welcome this expansion of opportunities for young people. As we have heard many times in the Chamber, apprenticeships offer a fantastic doorway into exciting, valuable careers, and provide a different kind of challenge for young people who are perhaps turned off by the academic route. Apprenticeships are an opportunity that is still very much undervalued in our society.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Rwyf finnau hefyd yn croesawu’r cynnig hwn i ehangu cyfleoedd i bobl ifanc. Fel yr ydym wedi clywed lawer gwaith yn y Siambr, mae prentisiaethau’n cynnig porth gwych at yrfaoedd cyffrous, gwerthfawr, ac yn darparu math gwahanol o her i bobl ifanc nad yw’r llwybr academaidd efallai’n apelio atynt. Mae prentisiaethau’n gyfle sy’n dal i fod wedi’i danbrisio’n fawr iawn yn ein cymdeithas.

I note that, in your statement, you recognise that there is a challenge to do with marketing apprenticeships to young people, and that you are looking at investing £3.4 million into developing better relationships between schools, potential employers and further education providers. However, there is still a significant task in overcoming this perceived lack of esteem. I am not entirely clear from your statement how you think that this new development relationship will help practically in overcoming that.

Sylwaf eich bod yn cydnabod, yn eich datganiad, fod her o ran marchnata prentisiaethau i bobl ifanc, a’ch bod yn bwriadu buddsoddi £3.4 miliwn i ddatblygu gwell perthynas rhwng ysgolion, darpar gyflogwyr a darparwyr addysg bellach. Fodd bynnag, mae goresgyn y diffyg parch ymddangosiadol hwn yn dal i fod yn dasg sylweddol. Nid wyf yn hollol glir o’ch datganiad sut y credwch y bydd y berthynas ddatblygu newydd hon yn helpu’n ymarferol i oresgyn hynny.

I also think that there may be a concern that changes to the careers service, which you mentioned earlier, might have an impact on how quickly and how effectively that can be delivered. I would therefore welcome your comments on that. On relationship building, we all hope that it will help to improve the flow of information. Could you give us an update on the uptake of information from your newly revised website for accessing apprenticeships?

Rwyf hefyd yn credu y gallai fod pryder y bydd newidiadau i’r gwasanaeth gyrfaoedd, y soniasoch amdanynt yn gynharach, yn effeithio ar ba mor gyflym a pha mor effeithiol y gellir cyflawni hyn. Byddwn felly yn croesawu eich sylwadau am hynny. O ran adeiladu perthynas, rydym i gyd yn gobeithio y bydd yn helpu i wella llif gwybodaeth. A allech roi’r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ddefnyddio gwybodaeth o’ch gwefan ddiwygiedig newydd ar gyfer cael gafael ar brentisiaethau?

I would like to turn for a moment to the subject of rural Wales. There is mention in the statement of inequality between genders, but there is also inequality between different areas of Wales in terms of the availability of and access to the very highest quality apprenticeship opportunities. In some places, there is a lack of local employers of the kind of scale that can provide the highest level of opportunity. We are also seeing the centralisation of further education. Those two issues conspire to raise barriers in the way of young people—particularly if they lack their own transport—getting to providers of apprenticeships. What assessment have you made of those barriers in rural Wales and will any of your planned investments go towards overcoming some of those barriers?

Hoffwn droi am funud at bwnc Cymru wledig. Mae'r datganiad yn sôn am anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, ond mae anghydraddoldeb hefyd rhwng gwahanol ardaloedd yng Nghymru o ran y cyfleoedd prentisiaeth o'r safon uchaf sydd ar gael a mynediad iddynt. Mewn rhai mannau, mae diffyg cyflogwyr lleol o'r maint a all ddarparu cyfleoedd ar y lefel uchaf. Rydym hefyd yn gweld canoli addysg bellach. Mae'r ddau fater hyn gyda'i gilydd yn codi rhwystrau i bobl ifanc—yn enwedig os nad oes ganddynt eu cludiant eu hunain—sy'n ceisio cyrraedd darparwyr prentisiaethau. Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o'r rhwystrau hynny yng Nghymru wledig, ac a fydd unrhyw un o'r buddsoddiadau sydd ar y gweill yn mynd tuag at oresgyn rhai o'r rhwystrau hynny?

I would like to ask you about some of the maths in your statement, Deputy Minister. The investment is £20 million this year and £20 million next year, which is £40 million over two years. You say that over two years you will invest £22 million into the new apprenticeships and £3.4 million into improving access. That means there is £14.6 million left over. [Interruption.] Yes—no flies on me. How much of that will go to the young recruits wage subsidy and how much will support microbusinesses in terms of the recruitment process for apprenticeships? Are there any other things that are being included in that money?

Hoffwn ofyn i chi am rywfaint o'r fathemateg yn eich datganiad, Ddirprwy Weinidog. Mae'r buddsoddiad yn £20 miliwn eleni ac £20 miliwn y flwyddyn nesaf, sy'n £40 miliwn dros ddwy flynedd. Rydych yn dweud y byddwch, dros ddwy flynedd, yn buddsoddi £22 miliwn yn y prentisiaethau newydd a £3.4 miliwn mewn gwella mynediad. Mae hynny'n golygu bod £14.6 miliwn dros ben. [Torri ar draws.] Na—ddaliwch chi mohonof fi. Faint o hynny a aiff tuag at y cymhorthdal cyflog i recriwtiaid ifanc a faint fydd yn cefnogi microfusnesau o ran proses recriwtio prentisiaethau? A oes unrhyw bethau eraill wedi eu cynnwys yn yr arian hwnnw?

Finally, if I can be provocative—[Interruption.] 'Who, me?'—Exactly. I wonder, Deputy Minister, whether you think that we are being ambitious enough and setting our sights high enough when we compare ourselves to other regions of the UK. I have some statistics here—it is Apprenticeship Week and some statistics about other regions have been published. There are counties in England that, in the last two years, have managed to develop more new apprenticeships than you are planning with this investment. Lancashire, Essex and Kent all got more than 6,000 new apprenticeships over the last two years. Do you think there is an opportunity to expand this even further?

Yn olaf, os gallaf fod yn bryfoclyd—[Torri ar draws.] 'Pwy, fi?'—Yn union. Tybed, Ddirprwy Weinidog, a ydych yn meddwl ein bod yn ddigon uchelgeisiol ac yn gosod ein golygon yn ddigon uchel pan fyddwn yn cymharu ein hunain â rhanbarthau eraill y DU. Mae gennyf rai ystadegau yma—mae'n Wythnos y Prentisiaethau ac mae rhai ystadegau am ranbarthau eraill wedi eu cyhoeddi. Mae siroedd yn Lloegr sydd, yn y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi llwyddo i ddatblygu mwy o brentisiaethau newydd nag yr ydych yn eu cynllunio gyda'r buddsoddiad hwn. Cafodd Swydd Gaerhirfryn, Essex a Chaint i gyd dros 6,000 o brentisiaethau newydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. A ydych yn meddwl bod cyfle i ehangu hyn ymhellach fyth?

15:36

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you; I do not think that you are being provocative at all. I appreciate your support for the principles of what we are trying to do. Obviously, if we had more money, I would be very happy indeed, but we have to work within a fixed budget. There is no reason at all why we cannot look to some employers to develop apprenticeship schemes as well, as long as they meet the requirements of the framework, but we are utilising all the moneys that we have in the best way. As I said, some of the figures are best estimates. We cannot say precisely how many higher-level apprenticeships we will end up with, for example. We know what we are aiming for; we also know that they tend to be more expensive than the foundation and the normal full apprenticeships because of the greater need for equipment, expertise, et cetera, so those are figures that we will have to look at very carefully.

Diolch; nid wyf yn credu eich bod yn bryfoclyd o gwbl. Rwyf yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth i egwyddorion yr hyn yr ydym yn ceisio'i wneud. Yn amlwg, pe bai gennym fwy o arian, byddwn yn hapus iawn wir, ond rhaid i ni weithio o fewn cyllideb benodedig. Nid oes rheswm o gwbl pam na allwn obeithio y bydd rhai cyflogwyr yn datblygu cynlluniau prentisiaeth hefyd, cyhyd â'u bod yn bodloni gofynion y fframwaith, ond rydym yn defnyddio'r holl arian sydd gennym yn y ffordd orau. Fel y dywedais, amcangyfrifon gorau yw rhai o'r ffigurau hyn. Ni allwn ddweud yn union faint o brentisiaethau lefel uwch a gawn yn y pen draw, er enghraifft. Rydym yn gwybod beth yr ydym yn anelu ato; rydym hefyd yn gwybod eu bod yn tueddu i fod yn fwy costus na'r prentisiaethau sylfaen a'r prentisiaethau llawn arferol oherwydd bod angen mwy o offer, arbenigedd, ac ati, felly bydd rhaid i ni edrych yn ofalus iawn ar y ffigurau hynny.

We also need to keep an eye on the economy as it changes, because labour market intelligence, as I mentioned in response to an earlier question, will determine our direction of travel, and we want to make sure that what we are offering, in all parts of Wales, is relevant to the economy and is reasonably likely to lead towards sustainable employment. That certainly applies in the case of rural Wales. Take the case of land-based industries, for example; we will be looking towards Lantra, as the sector skills council for land-based industries, to advise us in terms of apprenticeship delivery and provision. I will not repeat the points I have made already about small and micro-industries.

Mae angen i ni hefyd gadw llygad ar yr economi wrth iddi newid, oherwydd gwybodaeth am y farchnad lafur, fel y soniais wrth ateb cwestiwn cynharach, fydd yn pennu ein cyfeiriad, ac rydym am wneud yn siŵr fod yr hyn yr ydym yn ei gynnig, ym mhob rhan o Gymru, yn berthnasol i'r economi ac yn rhesymol debygol o arwain at gyflogaeth gynaliadwy. Mae hynny'n sicr yn berthnasol yn achos Cymru wledig. Cymerwch achos diwydiannau'r tir, er enghraifft; byddwn yn gobeithio y bydd Lantra, fel cyngor sgiliau sector diwydiannau'r tir, yn ein cynghori am gyflenwi prentisiaethau a'r ddarpariaeth. Nid wyf am ailadrodd y pwyntiau yr wyf eisoes wedi'u gwneud am ddiwydiannau bach a micro.

You are quite right with your maths. The rest of that money is indeed for support for the young recruits programme and the one-off £500 payment to small businesses. That will all add up to more than £40 million. If the programme runs fully, it will be about £46 million and we will find those moneys from existing budgets if all our plans come into full fruition.

Mae eich mathemateg yn hollol gywir. Mae gweddill yr arian hwnnw, yn wir, ar gyfer cymorth i'r rhaglen recriwtiaid ifanc a'r taliad untro o £500 i fusnesau bach. Bydd hynny i gyd yn fwy na £40 miliwn. Os cynhelir y rhaglen yn llawn, bydd yn tua £46 miliwn a byddwn yn dod o hyd i'r arian hwnnw o gyllidebau presennol os bydd ein holl gynlluniau'n dwyn ffrwyth yn llawn.

15:39

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yesterday, Deputy Minister, I was very pleased to visit Mold as part of Apprenticeship Week, where I was able to meet two joinery apprentices and hear about the skills that they are developing with the support of Anwyl Construction. The project is in partnership with Wales and the West Housing Association and for extra care housing, along with other innovative ideas, which will provide purpose-built homes for people with dementia, for example. My visit was organised by the North and Mid Wales Construction Industry Training Board—ConstructionSkills, which recognises apprenticeships as the lifeblood of the construction industry. I was enormously proud to see all this happening in my constituency, and even more so because it puts at the centre the priorities of the Welsh Government of encouraging young people into jobs, stimulating the economy through construction, working with the skills council, and, on top of this, caring well in the community for the most vulnerable people in our society. I hope you agree with me that this illustrates how well joint working operates. Can we see more of it in the future?

Ddoe, Ddirprwy Weinidog, cefais bleser mawr o ymweld â'r Wyddgrug fel rhan o Wythnos y Prentisiaethau, lle cefais gyfle i gwrdd â dau brentis saer a chlywed am y sgiliau y maent yn eu datblygu gyda chefnogaeth Anwyl Construction. Cynhelir y prosiect mewn partneriaeth â Chymdeithas Dai Wales and West ar gyfer tai gofal ychwanegol, ynghyd â syniadau arloesol eraill, a fydd yn darparu cartrefi pwrpasol i bobl â dementia, er enghraifft. Trefnwyd fy ymweliad gan Fwrdd Hyfforddiant Diwydiant Adeiladu'r Gogledd a'r Canolbarth—SgiliauAdeiladu, sy'n cydnabod mai prentisiaethau yw calon y diwydiant adeiladu. Roeddwn yn falch iawn o weld hyn i gyd yn digwydd yn fy etholaeth, ac yn fwy balch fyth oherwydd ei fod yn rhoi lle canolog i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran annog pobl ifanc i gael swyddi, hybu'r economi drwy adeiladu, gweithio gyda'r cyngor sgiliau, ac, ar ben hyn, gofalu'n dda yn y gymuned am y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Rwy'n gobeithio y cytunwch â mi fod hyn yn dangos pa mor dda y gall cydweithio fod. A gawn weld mwy ohono yn y dyfodol?

15:40

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Sandy Mewies for that. I certainly do agree with her that joint working is the key to this. Last week, on my way to Llandudno to speak at the Real Conversation event about apprenticeships with employers and young people, I was pleased to stop off at a clothing firm in Ken Skates's constituency. Ken Skates and I met the owners of the firm and its apprentices, who are following a business administration apprenticeship route. There is absolutely no doubt about the enthusiasm that this can generate and that this brings enormous benefits to all concerned.

Diolch i Sandy Mewies am hynny. Rwy'n sicr yn cytuno â hi bod cydweithio'n allweddol i hyn. Yr wythnos diwethaf, ar fy ffordd i Landudno i siarad yn nigwyddiad y Sgwrs Go Iawn am brentisiaethau â chyflogwyr a phobl ifanc, cefais bleser o ymweld â chwmni dillad yn etholaeth Ken Skates. Cyfarfu Ken Skates a minnau â pherchnogion y cwmni a'u prentisiaid, sy'n dilyn llwybr prentisiaeth gweinyddu busnes. Nid oes amheuaeth o gwbl am y brwdfrydedd y gall hyn ei ennyn a bod hyn yn dod â manteision enfawr i bawb dan sylw.

15:40

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am y datganiad heddiw a hefyd am y trafodaethau sydd wedi bod rhwng ni yn Plaid Cymru a chi a'ch swyddogion. Mae'r trafodaethau wedi bod yn fuddiol ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn y datganiad heddiw, sydd wedi cael croeso o bob rhan o'r Siambr.

Thank you, Deputy Minister, for today's statement and also for the negotiations that have taken place between us in Plaid Cymru and you and your officials. The negotiations have been beneficial and the outcomes can be seen in today's statement, which has been welcomed in all parts of the Chamber.

Mae gennyf ddau gwestiwn i chi, Ddirprwy Weinidog. Yn gyntaf, rydych yn cydnabod yn eich datganiad pa mor bwysig yw dod dros y rhwystredigaethau mae rhai cwmnïau bach yn teimlo wrth drio delio â phrentisiaethau, yn enwedig o gwmpas gweithio gyda'r FSB. A oes modd cael mwy o eglurhad, wrth i ni ddatblygu'r cynlluniau, am sut i ddal llaw cwmnïau bach drwy'r broses? Mae lot o gwmnïau bach yn gweld y broses yn un astrus ac anodd ei dilyn o ran sut i gael prentis a sut i gydweithio gyda'r gwahanol gyrff sy'n darparu dysgu yn y gweithle.

I have two questions for you, Deputy Minister. First, you acknowledge in your statement how important it is to overcome the frustrations that some small companies feel in trying to deal with apprenticeships, particularly around working with the FSB. Could we have more clarity, as we develop the plans, in terms of holding the hands of small companies throughout the process? Many small companies see the process as complex and difficult to follow in terms of how to get an apprentice and how to collaborate with the various bodies that provide work-based learning.

Mae fy ail gwestiwn yn ymwneud â phrentisiaethau ar y cyd, y sonioch amdanynt. Credaf fod rhain yn rhan o'r ateb i hybu prentisiaethau ymysg cwmnïau bach iawn. Ni chlywais unrhyw beth yn y datganiad heddiw i atal y rhai sy'n defnyddio prentisiaethau ar y cyd rhag hefyd fanteisio ar rai o'r mentrau a amlinellwyd yn eich datganiad heddiw, fel y gefnogaeth am y chwe mis cyntaf ac ati i'w helpu mewn i'r broses. Hoffwn i chi edrych ar sut y gallai'r ddau yna weithio law yn llaw, achos mae'n hynod o berthnasol i ddatblygiadau yng nghefn gwlad.

My second question is on joint apprenticeships, which you mentioned. I believe that they are part of the solution to promote apprenticeships among very small companies. I did not hear anything in today's statement that would prevent those using joint apprenticeships from also taking advantage of some of the initiatives outlined in your statement today, such as support for the first six months and so on to help them into the process. I would like you to look at how those two things can go hand in hand, because it is very relevant to developments in rural areas.

Prime Minister—if only. Deputy Minister, rather. [Interruption.]—That is the one thing Plaid Cymru cannot agree with you on.

Brif Weinidog—o na baech. Ddirprwy Weinidog, yn hytrach. [Torri ar draws.]—Dyna'r un peth na all Plaid Cymru gytuno â chi amdano.

Deputy Minister, we welcome the statement today. We have made it clear that jobs and the economy are our No. 1 priority. Youth unemployment in Wales is very high, higher than in the rest of the UK, so this is an important part of the budget deal. It is important that we have a similar vision and similar values as you do, Deputy Minister, on this. We want to see apprenticeships increased, because we think they are a valid way of training our young people and giving a real career option to many young people in Wales. I think that you will find that this will work well for the people of Wales and we look forward to making an even better deal as we roll out this new scheme.

Ddirprwy Weinidog, rydym yn croesawu'r datganiad heddiw. Rydym wedi ei gwneud yn glir mai swyddi a'r economi yw ein prif flaenoriaeth. Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn uchel iawn, yn uwch nag yng ngweddill y DU, felly mae hyn yn rhan bwysig o gytundeb y gyllideb. Mae'n bwysig fod gennym weledigaeth debyg a gwerthoedd tebyg i'ch rhai chi, Ddirprwy Weinidog, yn hyn o beth. Hoffem weld mwy o brentisiaethau, oherwydd credwn eu bod yn ffordd ddilys o hyfforddi ein pobl ifanc a rhoi dewis gyrfa go iawn i lawer o bobl ifanc yng Nghymru. Credaf y gwelwch y bydd hyn yn gweithio'n dda i bobl Cymru ac rydym yn edrych ymlaen at daro bargen well fyth wrth i ni gyflwyno'r cynllun newydd hwn.

15:43

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Simon Thomas very much for those comments and repeat my appreciation for the positive way in which he and Ieuan Wyn Jones have engaged in this process. I think that we have a successful outcome. We will monitor the situation as it develops over the two years, because we will, in any case, need to tweak the programmes here and there in the light of changes in the economy and other unforeseen incidents, let us say.

Diolch yn fawr i Simon Thomas am y sylwadau hynny a hoffwn ailadrodd fy ngwerthfawrogiad am y ffordd gadarnhaol y mae ef ac Ieuan Wyn Jones wedi cymryd rhan yn y broses hon. Credaf fod gennym ganlyniad llwyddiannus. Byddwn yn monitro'r sefyllfa wrth iddi ddatblygu dros y ddwy flynedd, oherwydd bydd angen i ni, fodd bynnag, fireinio'r rhaglenni yma ac acw yn sgil newidiadau yn yr economi a digwyddiadau annisgwyl eraill, gadewch i ni ddweud.

You are right that we need to make sure that far more SMEs and microbusinesses are engaging and understanding the value of apprentices. We will be looking to our partners in the National Training Federation for Wales, the work-based learning providers and the further education colleges, to do much of the groundwork here, which is, after all, what they are paid for in terms of their contracts, with a focus on improving the percentage of employers that take on board apprentices. We will also be looking more for the large anchor companies to seek to influence their supply chain in terms of good practice. Also, as I have already alluded to, we are setting aside financial incentives to encourage those employers to work with us.

Rydych yn gywir fod angen i ni wneud yn siŵr fod llawer mwy o fusnesau bach a chanolig a microfusnesau yn ymgysylltu ac yn deall gwerth prentisiaid. Gobeithiwn y bydd ein partneriaid yn Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, y darparwyr dysgu seiliedig ar waith a'r colegau addysg bellach yn gwneud llawer o'r gwaith sylfaen yma—wedi'r cyfan, dyna y mae eu contractau'n eu talu i'w wneud—gyda ffocws ar wella canran y cyflogwyr sy'n cymryd prentisiaid. Byddwn yn gobeithio hefyd y bydd y cwmnïau angor mawr yn ceisio dylanwadu ar eu cadwyni cyflenwi o ran arfer da. Rydym hefyd, fel yr wyf wedi'i grybwyll eisoes, yn neilltuo cymhellion ariannol i annog y cyflogwyr hynny i gydweithio â ni.

The translation service said 'joint apprenticeships', but I think that 'shared apprenticeships' is what was being alluded to. That is a successful scheme and we are certainly looking to enhance that and to explain to smaller employers which, for perfectly obvious reasons, may not feel able to offer the full framework of opportunities within their small organisations. However, by working together with others in the same geographical areas—and certainly the same occupational areas—the full framework can be achieved.

Dywedodd y gwasanaeth cyfieithu 'prentisiaethau ar y cyd', ond rwyf yn meddwl mai cyfeirio'r oeddent at 'rannu prentisiaethau'. Mae hwnnw'n gynllun llwyddiannus ac rydym yn sicr yn gobeithio ei wella ac esbonio i gyflogwyr llai nad ydynt efallai, am resymau cwbl amlwg, yn teimlo y gallant gynnig y fframwaith llawn o gyfleoedd o fewn eu sefydliadau bach. Fodd bynnag, drwy gydweithio ag eraill yn yr un ardaloedd daearyddol—ac yn sicr yn yr un meysydd galwedigaethol—gellir cyflawni'r fframwaith llawn.

I am going to look very carefully at the ability to access the young recruits programme subsidies, for example. My understanding is that the young person employed on a shared apprenticeship basis is technically employed by one person or one firm, but that an arrangement is then made. I am going to double-check that, because I would not want micro-organisations to be excluded from the support of the young recruits programme, simply because the apprenticeship was on a shared basis. I will look at that, and I will write to you with further information.

Rwy'n bwriadu edrych yn ofalus iawn ar y gallu i gael mynediad i gymorthdaliadau'r rhaglen recriwtiaid ifanc, er enghraifft. Rwyf ar ddeall bod y person ifanc a gyflogir ar sail rhannu prentisiaeth yn cael ei gyflogi'n dechnegol gan un person neu un cwmni, ond bod trefniant yn cael ei wneud wedyn. Rwyf yn mynd i holi eto am hynny, oherwydd ni fyddwn am i sefydliadau micro gael eu heithrio o gefnogaeth y rhaglen recriwtiaid ifanc, dim ond oherwydd bod y brentisiaeth yn cael ei rhannu. Byddaf yn edrych ar hynny, a byddaf yn ysgrifennu atoch gyda rhagor o wybodaeth.

Finally, dealing with youth unemployment is a major issue for the Welsh Government. We cannot control the economy, but if we can seek to influence it, in terms of good practice, and to minimise the impact, we will do so.

Yn olaf, mae ymdrin â diweithdra ieuenctid yn fater pwysig i Lywodraeth Cymru. Ni allwn reoli'r economi, ond os gallwn geisio dylanwadu arni, o ran arfer da, a lleihau'r effaith, fe wnawn hynny.

15:46

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We are seeing a marked cultural shift in attitude towards vocational training at the moment. The Welsh Government, with the apprenticeship unit, is now ahead of the curve, and that is good, Deputy Minister. However, cultural attitudes are stubborn. Very often, by the time that a person might look back and wish that they had made a different choice, it is too difficult to change direction. How will you engage with young people earlier, particularly at key stage 3, to ensure that they are fully informed of their options?

Rydym yn gweld newid diwylliannol amlwg mewn agweddau tuag at hyfforddiant galwedigaethol ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru, a'i huned brentisiaethau, bellach ar flaen y gad, ac mae hynny'n beth da, Ddirprwy Weinidog. Fodd bynnag, mae agweddau diwylliannol yn ystyfnig. Yn aml iawn, erbyn i rywun edrych yn ôl a dymuno y byddai wedi gwneud dewis gwahanol, mae'n rhy anodd newid cyfeiriad. Sut y byddwch yn ymgysylltu â phobl ifanc yn gynharach, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3, i sicrhau eu bod yn cael gwybod yn llawn am eu dewisiadau?

I am a member of the Enterprise and Business Committee, which last year looked at the whole system of apprenticeships. The central question that we asked was how we can close the gap between the growing appetite for apprenticeships and the overall fall in their availability. In that light, Deputy Minister, will you look at the shared apprenticeship model that was hugely successful in Carmarthenshire as a model of best practice? Will you also look at the benefits that could be arrived at by both employer and apprentice if that model was rolled out further?

Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes, a edrychodd y llynedd ar holl system y prentisiaethau. Y cwestiwn canolog a ofynnwyd gennym oedd sut y gallwn gau'r bwlch rhwng yr awydd cynyddol am brentisiaethau a'r gostyngiad cyffredinol yn y nifer sydd ar gael. Yng ngoleuni hynny, Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi edrych ar y model rhannu prentisiaeth a oedd yn hynod lwyddiannus yn Sir Gaerfyrddin fel model arfer gorau? A wnewch chi hefyd edrych ar y manteision y gallai'r cyflogwr a'r prentis eu cael pe câi'r model hwnnw ei gyflwyno ymhellach?

15:47

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Joyce Watson very much for her contribution. I look forward to Thursday afternoon, when I will attend a round-table discussion that she has arranged at Pembrokeshire College. We will be talking about a number of these issues with local companies, and I think that it is an excellent initiative.

Diolch yn fawr i Joyce Watson am ei chyfraniad. Edrychaf ymlaen at brynhawn dydd Iau, pan fyddaf yn mynychu trafodaeth bord gron y mae hi wedi'i threfnu yng Ngholeg Sir Benfro. Byddwn yn trafod nifer o'r materion hyn gyda chwmnïau lleol, ac rwy'n credu ei bod yn fenter ardderchog.

You are quite right, Joyce—vocational training is on the up, I think. There are still issues of perception for us to deal with, and it is very important that from about the age of 14 onwards, young people are made more aware of the types of offers that could be there and the value of vocational training, if it is right for them. We also need to do more to promote the apprenticeship matching service—a web-based service that enables young people to go online to see what apprenticeships are available in their area in a profession that interests them. Likewise, it enables employers to have a look at those young people who have registered their interest so that there can be a matching of their priorities.

Rydych yn llygad eich lle, Joyce—credaf fod hyfforddiant galwedigaethol ar gynnydd. Mae angen i ni ymdrin â rhai materion yn ymwneud â dirnadaeth o hyd, ac mae'n bwysig iawn sicrhau bod pobl ifanc, o tua 14 mlwydd oed ymlaen, yn fwy ymwybodol o'r mathau o gynigion a all fod ar gael iddynt ac o werth hyfforddiant galwedigaethol, os yw'n iawn iddynt hwy. Mae angen i ni hefyd wneud mwy i hyrwyddo'r gwasanaeth paru prentisiaethau—gwasanaeth ar y we sy'n galluogi pobl ifanc i fynd ar-lein i weld pa brentisiaethau sydd ar gael yn eu hardal mewn proffesiwn sydd o ddiddordeb iddynt. Yn yr un modd, mae'n galluogi cyflogwyr i gael golwg ar y bobl ifanc hynny sydd wedi cofrestru eu diddordeb fel y gellir paru eu blaenoriaethau.

Finally, you mentioned the fall in the number of places. As I have already said, the problem—if it is a problem—is that far more young people are staying on until the end to complete the full apprenticeship programme, so, naturally, fewer places are available. All of that is about to change from the beginning of the next financial year.

Yn olaf, soniasoch am y gostyngiad yn nifer y lleoedd. Fel yr wyf wedi'i ddweud eisoes, y broblem—os yw'n broblem—yw fod llawer mwy o bobl ifanc yn aros tan y diwedd i gwblhau'r rhaglen brentisiaeth lawn, felly, yn naturiol, mae llai o leoedd ar gael. Mae hynny i gyd ar fin newid o ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf ymlaen.

15:48

## Datganiad: Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd i Gymru

## Statement: Vibrant and Viable Places: A New Regeneration Framework for Wales

Senedd.tv
Fideo Video

### Huw Lewis Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth / The Minister for Housing, Regeneration and Heritage*

I am grateful for the opportunity to draw Members' attention to the publication of the Welsh Government's new regeneration framework. I launched 'Vibrant and Viable Places' yesterday, upstairs in the Oriel. I hope that those of you who joined us will agree that it was a successful event. I was joined by speakers from the private and third sectors and local government. I thought that the audience was brimming with enthusiasm, ideas and a willingness to join in the regeneration effort under this new framework.

Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i dynnu sylw'r Aelodau at gyhoeddi fframwaith adfywio newydd Llywodraeth Cymru. Lansiwyd 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' gennyf ddoe, i fyny'r grisiau yn yr Oriel. Rwyf yn gobeithio y bydd y rhai ohonoch a ymunodd â ni yn cytuno ei fod yn ddigwyddiad llwyddiannus. Ymunwyd â mi gan siaradwyr o'r sector preifat a'r trydydd sector a llywodraeth leol. Roeddwn i'n meddwl bod y gynulleidfa yn llawn brwdfrydedd, syniadau a pharodrwydd i ymuno yn yr ymdrech adfywio o dan y fframwaith newydd hwn.

Yesterday's launch follows the consultation that I undertook on our policy proposals between October and January. We received 144 formal responses to the consultation, from all sectors and all parts of the country. The 'Vibrant and Viable Places' framework will change the way that we invest in regeneration for the rest of this decade and, possibly, beyond.

Daw lansiad ddoe yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliais ynglŷn â'n cynigion polisi rhwng mis Hydref a mis Ionawr. Derbyniwyd 144 ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, o bob sector a phob rhan o'r wlad. Bydd y fframwaith 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn newid y ffordd yr ydym yn buddsoddi mewn adfywio ar gyfer gweddill y degawd hwn ac, o bosibl, y tu hwnt.

Too often, places undergoing economic change become stigmatised and associated with decline rather than renewal. I see regeneration as part of the natural life-cycle of places. In many places, the private sector will underpin regeneration, but we cannot rely on this everywhere. Some places need help from Government to cope with change. There are examples all across Wales. Members will, I am sure, want to draw attention to challenges people face in their own constituencies. Government needs to respond swiftly, before communities reach the bottom of the downward spiral into which they can too easily become entrenched.

Yn rhy aml, mae lleoedd sy'n profi newid economaidd yn dioddef stigma ac yn cael eu cysylltu â dirywiad yn hytrach nag adfywiad. Rwy'n gweld adfywio fel rhan naturiol o gylch bywyd lleoedd. Bydd y sector preifat yn rhoi sail i'r adfywiad mewn llawer o leoedd, ond ni allwn ddibynnu ar hyn ym mhob man. Mae ar rai lleoedd angen cymorth gan y Llywodraeth i ymdopi â newid. Ceir enghreifftiau ledled Cymru. Bydd Aelodau, rwyf yn sicr, am dynnu sylw at heriau y mae pobl yn eu hwynebu yn eu hetholaethau eu hunain. Mae angen i'r Llywodraeth ymateb yn gyflym, cyn i gymunedau gyrraedd gwaelod y llethr y gallant yn rhy hawdd fethu â dianc oddi arni.

Government intervention that renews communities does not have to be badged as regeneration. In fact, most regeneration by the public sector is delivered through mainstream investment. At the heart of our new framework is the commitment to ensure that we make the most of all this investment from across Government and beyond. Geographically targeted programmes need to be joined up. We are working to do just that in terms of Communities First as well as enterprise zones and city regions, for example. However, for me, joining up begins with my portfolio, and in the framework we recognise the importance of housing and heritage as drivers and enablers of regeneration.

Nid oes raid i ymyriad gan y llywodraeth i adnewyddu cymunedau gael ei alw'n weithgaredd adfywio. Yn wir, caiff y rhan fwyaf o'r gweithgareddau adfywio gan y sector cyhoeddus eu darparu trwy fuddsoddiad prif ffrwd. Wrth wraidd ein fframwaith newydd y mae'r ymrwymiad i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr holl fuddsoddiad hwn ar draws y Llywodraeth a thu hwnt. Mae angen i raglenni sydd wedi'u targedu ar sail ardaloedd daearyddol penodol gael eu cydgysylltu. Rydym yn gweithio i wneud hynny o safbwynt Cymunedau yn Gyntaf yn ogystal â pharthau menter a dinas-ranbarthau, er enghraifft. Fodd bynnag, i mi, mae'r cydgysylltu yn dechrau gyda'm portffolio i, ac yn y fframwaith rydym yn cydnabod pwysigrwydd tai a threftadaeth fel ffactorau sy'n sbarduno ac yn galluogi adfywiad.

The principles in the framework are the same as those that we consulted on. They had broad support from respondents, but we have amended elements, provided more detail and clarified our thinking where necessary. We have strengthened our vision in the light of the feedback that we received. It is

Mae'r egwyddorion yn y fframwaith yr un fath â'r rhai yr ymgynghorwyd yn eu cylch. Cafwyd cefnogaeth eang iddynt gan ymatebwyr, ond rydym wedi diwygio elfennau, gan ddarparu mwy o fanylion ac egluro ein ffordd o feddwl lle bo angen. Rydym wedi cryfhau ein gweledigaeth yng ngoleuni'r adborth a gawsom, sef

'that everybody in Wales should live in well-connected vibrant, viable and sustainable communities with a strong local economy and good quality of life.'

'Dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy, llawn addewid, sydd â chysylltiadau da, economi leol gref ac ansawdd bywyd da.'

We have also made stronger links with the Government's broader priorities: tackling poverty and securing jobs and growth. This includes supporting people into work and levering in private sector funding. In the future, regeneration will be overseen by a ministerial advisory group, supported by a steering group of senior Welsh Government officials from across departments. As I have said, joining up mainstream spend is a priority. It is essential if we are to deliver for our communities, and it is the Cabinet's priority under this framework.

Rydym hefyd wedi sefydlu cysylltiadau cryfach â blaenoriaethau ehangach y Llywodraeth: mynd i'r afael â thlodi a sicrhau swyddi a thwf. Mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl i gael gwaith a denu cyllid sector preifat. Yn y dyfodol, bydd adfywio yn cael ei oruchwylio gan grŵp cynghori'r Gweinidog, a gefnogir gan grŵp llywio o uwch swyddogion Llywodraeth Cymru o wahanol adrannau. Fel y dywedais, mae cydgysylltu gwariant prif ffrwd yn flaenoriaeth. Mae'n hanfodol os ydym am gyflawni ar gyfer ein cymunedau, a dyma yw blaenoriaeth y Cabinet o dan y fframwaith hwn.

Of particular interest to many of you will be how I intend to invest my regeneration budget. This is only a small piece of the bigger jigsaw, but I will still provide targeted funding to add value and secure better outcomes from other, larger investment streams. I am today setting out a more targeted approach to successful place-making. I expect to invest in fewer places at any one time, and to use resources more intensively and holistically in those places to maximise impact.

Bydd o ddiddordeb arbennig i lawer ohonoch sut rwyf yn bwriadu buddsoddi fy nghyllideb adfywio. Dim ond darn bach o'r jig-so mwy yw hynny, ond byddaf yn dal i ddarparu cyllid wedi'i dargedu i ychwanegu gwerth a sicrhau gwell canlyniadau o ffrydiau buddsoddi eraill, mwy o faint. Heddiw, rwyf yn nodi dull wedi'i dargedu'n well o adfywio lleoedd yn llwyddiannus. Rwyf yn disgwyl buddsoddi mewn llai o leoedd ar unrhyw un adeg, a defnyddio adnoddau'n fwy dwys a chyfannol yn y lleoedd hynny i gael yr effaith fwyaf bosibl.

I have three priorities for targeting investment. The first is town centres. We need to make sure that our high streets are fit for the twenty-first century. Retail will continue to play an important role in some towns, but will need to respond to changing shopping habits. Increasingly, we will need more diverse town centres, with more housing and key public services.

Mae gennyf dair blaenoriaeth ar gyfer targedu buddsoddiad. Y gyntaf yw canol trefi. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein stryd fawr yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Bydd manwerthu yn parhau i chwarae rhan bwysig mewn rhai trefi, ond bydd angen ymateb i'r ffaith bod arferion siopa'n newid. Yn gynyddol, bydd angen canol trefi mwy amrywiol, gyda mwy o dai a gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

The second priority is coastal communities. We made a commitment in our manifesto to seaside towns. These are no longer mass destination bucket-and-spade resorts, and the miners’ fortnight is, unfortunately, no longer with us, but they still have plenty to offer, both to those who live there and those who visit. So too do other coastal settlements. Our whole coastline offers huge opportunities that we want to help our communities exploit.

Yr ail flaenoriaeth yw cymunedau arfordirol. Rydym wedi gwneud ymrwymiad yn ein maniffesto i drefi glan môr. Nid yw’r rhain bellach yn gyrchfannau bwced a rhaw i’r torfeydd, ac yn anffodus rhywbeth o’r gorffennol yw pythefnos y glowyr , ond mae ganddynt ddigon i’w gynnig o hyd i’r rhai sy’n byw yno a’r rhai sy’n ymweld. Mae’r un peth yn wir am aneddiadau arfordirol eraill. Mae ein harfordir cyfan yn cynnig cyfleoedd mawr ac rydym yn awyddus i helpu ein cymunedau i fanteisio arnynt.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i’r Gadair am 3.53 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.53 p.m.*

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

The third priority is Communities First clusters. I am working closely with Carl Sargeant to ensure that our investments are complementary. Regeneration investment can add real value to the work of the new clusters and I am sure that combined efforts across our two departments will really invigorate those communities. The role of the third sector is vital across all three priorities. Housing associations and other organisations in the sector are already contributing hugely to the regeneration effort.

Y drydedd flaenoriaeth yw clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Rwyf yn gweithio’n agos gyda Carl Sargeant i sicrhau bod ein buddsoddiadau yn ategu ei gilydd. Gall buddsoddiad ym maes adfywio ychwanegu gwerth go iawn at waith y clystyrau newydd, ac rwy’n siŵr y bydd ymdrechion cyfunol ar draws ein dwy adran yn bywiogi’r cymunedau hynny o ddifrif. Mae swyddogaeth y trydydd sector yn hollbwysig yn y tair blaenoriaeth. Mae cymdeithasau tai a sefydliadau eraill yn y sector eisoes yn gwneud cyfraniad enfawr at yr ymdrech adfywio.

Therefore, those are the priorities. To access investment, local partnerships, led by local authorities, will need to submit bids to me. These bids will need to be based on robust business cases and evidence. They will also need to demonstrate real outputs and outcomes for communities. Instead of our selecting particular areas, all of Wales will be able to take part in this process, although, as I said earlier, only a small number of places will receive investment at any given time.

Felly, dyna’r blaenoriaethau. I fanteisio ar fuddsoddiad, bydd angen i bartneriaethau lleol, dan arweiniad awdurdodau lleol, gyflwyno ceisiadau i mi. Bydd angen i’r cynigion hyn fod yn seiliedig ar achosion busnes cadarn a thystiolaeth. Bydd angen iddynt hefyd ddangos allbynnau a chanlyniadau gwirioneddol ar gyfer cymunedau. Yn hytrach na’n bod ni’n dewis ardaloedd penodol, bydd Cymru gyfan yn gallu cymryd rhan yn y broses hon, er mai dim ond nifer fach o leoedd fydd yn derbyn buddsoddiad ar unrhyw adeg benodol, fel y dywedais yn gynharach.

Regional collaboration remains vital for effective regeneration. However, in the light of the consultation feedback, I am not going to set up new regional boards to achieve this. Instead, the bidding process for investment that I am setting out recognises the primacy of local delivery and accountability in the regeneration process. I will issue further detailed guidance on this next month.

Mae cydweithrediad rhanbarthol dal yn hanfodol ar gyfer proses adfywio effeithiol. Fodd bynnag, yng ngoleuni’r ymateb i’r ymgynghoriad, nid wyf yn mynd i sefydlu byrddau rhanbarthol newydd i gyflawni hyn. Yn hytrach, mae’r broses yr wyf yn ei sefydlu i wneud cais am fuddsoddiad yn cydnabod mai atebolrwydd a threfniadau darparu lleol sydd bwysicaf yn y broses adfywio. Byddaf yn cyhoeddi rhagor o ganllawiau manwl ar hyn y mis nesaf.

I expect, according to current budget projections, to be able to invest up to £30 million per year in the targeted regeneration schemes from my budget. We will use that funding to secure additional investment from the private, public and third sectors.

Yn ôl y rhagamcanion presennol, rwyf yn disgwyl gallu buddsoddi hyd at £30 miliwn y flwyddyn o’m cyllideb yn y cynlluniau adfywio wedi’u targedu. Byddwn yn defnyddio’r cyllid hwnnw i sicrhau buddsoddiad ychwanegol gan y sectorau preifat a chyhoeddus a’r trydydd sector.

In addition to this investment, I want to make sure that we can continue to support smaller-scale local approaches. In particular, I want to support the kind of innovation and creativity that can secure significant funding in the future. My support includes the next round of the coastal communities fund, which has been launched today. It also includes the community innovation grant, which will re-open for applications later in the spring. I am already working with the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science to encourage more business improvement districts across Wales. We have set aside £200,000 to help establish new BIDs. Furthermore, I will be launching a national campaign to support Welsh high streets later in the year.

Yn ychwanegol at y buddsoddiad hwn, rwyf am wneud yn siŵr y gallwn barhau i gefnogi dulliau gwaith lleol, ar raddfa lai. Yn benodol, rwyf am gefnogi’r math o arloesedd a chreadigrwydd sy’n gallu sicrhau cyllid sylweddol yn y dyfodol. Mae fy nghefnogaeth yn cynnwys rownd nesaf cronfa cymunedau’r arfordir, a gafodd ei lansio heddiw. Mae hefyd yn cynnwys y grant arloesi cymunedol, a fydd yn ailagor i geisiadau yn ddiweddarach yn y gwanwyn. Rwyf eisoes yn gweithio gyda’r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i annog mwy o ardaloedd gwella busnes ar draws Cymru. Rydym wedi neilltuo £200,000 i helpu i sefydlu ardaloedd gwella busnes newydd. Yn ogystal, byddaf yn lansio ymgyrch genedlaethol i gefnogi’r stryd fawr mewn trefi ledled Cymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

We have set out the framework, and we have made clear how we intend to invest. Now we need to work across Government and with partners to deliver sustainable regeneration. I would welcome the help and support of all Members in ensuring that local partners participate fully in this process. They need to respond to this opportunity to make a real difference. However, it is important that they work with us to bring forward schemes that are collaborative, compelling and comprehensive. At stake are the futures of some of our most vulnerable communities. I want to ensure that they can take back control of their own futures.

Rydym wedi gosod y fframwaith, ac rydym wedi nodi'n glir sut rydym yn bwriadu buddsoddi. Nawr mae angen i ni weithio ar draws y Llywodraeth a chyda phartneriaid i gyflawni adfywiad cynaliadwy. Byddwn yn croesawu cymorth a chefnogaeth yr holl Aelodau i sicrhau bod partneriaid lleol yn cymryd rhan lawn yn y broses hon. Mae angen iddynt ymateb i'r cyfle hwn i wneud gwahaniaeth go iawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig eu bod yn gweithio gyda ni i gyflwyno cynlluniau sy'n gydweithredol, yn rymus ac yn gynhwysfawr. Mae dyfodol rhai o'n cymunedau mwyaf agored i niwed yn y fantol. Rwyf am sicrhau y gallant adennill rheolaeth dros eu dyfodol eu hunain.

15:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have a lot of speakers who would like to take part, so brevity really would be brilliant.

Mae llawer o siaradwyr a fyddai'n hoffi cymryd rhan, felly byddai'n wych pe gallech fod yn gryno.

15:57

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Many thanks, Minister, for your statement today. I am delighted that you have allocated time to unveil this framework in the Chamber, following its disappointing outing in the media earlier in the week. We on this side of the Chamber are also delighted that the document takes so many of the Welsh Conservative policies from both our charter for the high street and 'A Vision for the Welsh High Street: Ambition, Action, Achievement'. These documents have found themselves incorporated into a Government document. I could not find the appropriate reference, but, as the old adage goes, there is no finer flattery than a bit of plagiarism.

Diolch yn fawr, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Rwyf wrth fy modd eich bod wedi neilltuo amser i ddadorchuddio'r fframwaith hwn yn y Siambr, yn dilyn ei ymddangosiad siomedig yn y cyfryngau yn gynharach yn yr wythnos. Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn falch hefyd bod y ddogfen yn cymryd cymaint o bolisïau'r Ceidwadwyr Cymreig, o'n siarter ar gyfer y stryd fawr ac 'A Vision for the Welsh High Street: Ambition, Action, Achievement'. Mae'r dogfennau hyn wedi cael eu cynnwys mewn dogfen gan y Llywodraeth. Nid oeddwn yn gallu dod o hyd i'r cyfeiriad priodol, ond, fel y dywed yr hen air, ychydig o lên-ladrad yw'r weniaith orau.

We launched our policies last October, so my first question, Minister, is: why is the process taking so long? Businesses are dying at the moment and are in urgent need of assistance. You talk about the downward spiral of the communities; can you explain why the process is taking so long and give an indication, perhaps, of the timescales, please?

Gwnaethom lansio ein polisïau fis Hydref diwethaf, felly fy nghwestiwn cyntaf, Weinidog, yw: pam fod y broses wedi cymryd cymaint o amser? Mae busnesau yn marw ar hyn o bryd ac angen cymorth ar frys. Rydych chi'n sôn am y llethr ar i lawr y mae cymunedau arni; a allwch chi esbonio pam y mae'r broses yn cymryd gymaint o amser, a rhoi syniad, efallai, o'r amserlen, os gwelwch yn dda?

On a positive note, again, I welcome, from this side of the Chamber, the decision not to implement the regional boards and streamline to a ministerial advisory group. This will mean that we have clear accountability and we can hold to account with regard to regeneration in Wales over the coming months and years. Therefore, Minister, would you go a little more deeply into the advisory group, provide a bit more detail, please, and outline your vision for the make-up of the group?

Ar nodyn cadarnhaol, eto, rwyf yn croesawu, o'r ochr hon i'r Siambr, y penderfyniad i beidio â gweithredu'r byrddau rhanbarthol a symleiddio'r drefn gan greu grŵp cynghori'r Gweinidog. Bydd hyn yn golygu bod gennym atebolrwydd clir ac y gallwn ddwyn y bobl briodol i gyfrif o ran adfywio yng Nghymru dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Felly, Weinidog, a fyddech chi'n sôn ymhellach am y grŵp cynghori, gan roi ychydig mwy o fanylion, os gwelwch yn dda, ac amlinellu eich gweledigaeth ar gyfer cyfansoddiad y grŵp?

On a much more worrying note, I want to concentrate for a second on the investment and funding opportunities. At the start of the consultation for this document, the regeneration investment fund for Wales was integral to levering in private sector funding in partnership with EU funding through the JESSICA fund. There were clear terms of reference for RIFW to lever in private sector moneys. This has failed. It invested in only one project, in fact, which was a town centre regeneration scheme within a public sector project. Therefore, I am concerned that your regeneration strategy has been reviewed to fit the RIFW spend, rather than the strategy setting the spending. I would welcome comment on that, please. Last but not least, I would like to ask you, Minister, if you would outline what will now happen to the moneys caught up in the suspended RIFW and how we will now access the JESSICA funding?

Ar nodyn sy'n peri llawer mwy o bryder, rwyf am ganolbwyntio am eiliad ar y cyfleoedd ar gyfer buddsoddi ac ariannu. Ar ddechrau'r ymgynghoriad ar gyfer y ddogfen hon, roedd cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio yn rhan annatod o'r broses o ddenu arian sector preifat mewn partneriaeth â chyllid yr UE trwy gronfa JESSICA. Roedd gan gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio gylch gorchwyl clir ar gyfer denu arian sector preifat. Mae hyn wedi methu. Buddsoddwyd mewn un prosiect yn unig, yn wir, sef cynllun adfywio canol y dref o fewn prosiect gan y sector cyhoeddus. Felly, rwyf yn pryderu bod eich strategaeth adfywio wedi cael ei hadolygu i gyd-fynd â gwariant y gronfa, yn hytrach na bod y strategaeth yn pennu lefel y gwariant. Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar hynny, os gwelwch yn dda. Yn olaf, hoffwn ofyn i chi, Weinidog, amlinellu beth fydd yn digwydd nawr i'r arian sydd ynghlwm wrth gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio wedi iddi gael ei hatal dros dro, a sut y byddwn yn manteisio nawr ar gyllid JESSICA?

16:00

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Byron Davies for those comments. He is not the first Conservative spokesperson to have claimed credit for the content of this document. Without exactly explaining how they came to that conclusion, I am a little bewildered by it myself. I am happy that they are happy. Perhaps, we can move on on that basis.

Diolch i Byron Davies am y sylwadau hynny. Nid ef yw llefarydd cyntaf y Ceidwadwyr i hawlio'r clod am gynnwys y ddogfen hon. Heb iddynt esbonio'n union sut y daethant i'r casgliad hwnnw, rwyf ychydig yn ddryslyd fy hun. Rwyf yn hapus eu bod nhw'n hapus. Efallai, y gallwn symud ymlaen ar y sail honno.

In terms of timescales, they are clear. Byron Davies asked why this has taken so long. I am bewildered by that question because, of course, our existing pattern of regeneration work across Wales through our seven regeneration areas, almost universally, comes to a natural conclusion, in terms of the commitments made to those areas, at the turn of the financial year in April 2014. It was timely and proper that I looked at whether those regeneration areas, as they were constituted up to a decade or more ago, were still viable in terms of what should happen after April 2014. I rapidly came to the conclusion that they were not. Therefore, in a timely fashion, we have consulted upon and published a new strategy. We have now launched the outline—the higher level description—of how that strategy will work. I am inviting people, in good time and before the final commitments to our existing regeneration areas are fulfilled, to submit bids for successor activity. Therefore, there is not a problem with timescales. To my mind, this has all been done in a proper and above-board fashion.

O ran amserlenni, maent yn glir. Gofynnodd Byron Davies pam fod hyn wedi cymryd cyhyd. Mae'r cwestiwn hwnnw'n fy rhoi mewn penbleth oherwydd, wrth gwrs, bod patrwm presennol ein gwaith adfywio ar draws Cymru drwy ein saith ardal adfywio bron yn ddieithriad, yn dod i ddiweddglo naturiol, o ran yr ymrwymiadau a wnaed i'r ardaloedd hynny, ar droad y flwyddyn ariannol ym mis Ebrill 2014. Roedd yn amserol ac yn briodol imi edrych a oedd yr ardaloedd adfywio a grëwyd hyd at ddegawd neu fwy yn ôl dal yn hyfyw, o ran yr hyn a ddylai ddigwydd ar ôl mis Ebrill 2014. Deuthum i'r casgliad yn gyflym nad oeddent. Felly, mewn modd amserol, rydym wedi ymgynghori ar strategaeth newydd a'i chyhoeddi. Rydym bellach wedi lansio'r amlinelliad—y disgrifiad lefel uwch—o sut y bydd y strategaeth yn gweithio. Rwyf yn gwahodd pobl, mewn da bryd a chyn i'r ymrwymiadau terfynol i'n hardaloedd adfywio presennol gael eu cyflawni, i gyflwyno ceisiadau ar gyfer gweithgarwch i olynu hynny. Felly, nid oes problem o ran amserlenni. I'm meddwl i, gwnaed hyn i gyd mewn modd priodol ac agored.

With regard to the make-up and role of ministerial advisory group, it is all described in detail in the document. Therefore, I would refer Byron Davies to that. RIFW has been suspended; it has not been done away with. I think that comments from me regarding RIFW are best confined to public statements in the Chamber. RIFW is currently suspended.

Disgrifir cyfansoddiad a swyddogaeth grŵp cynghori'r Gweinidog i gyd yn fanwl yn y ddogfen. Felly, byddwn yn cyfeirio Byron Davies at hynny. Wedi ei hatal dros dro y mae cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio, nid ei diddymu. Credaf mai'r peth gorau fyddai i mi gyfyngu sylwadau ynglŷn â'r gronfa i ddatganiadau cyhoeddus yn y Siambr. Mae'r gronfa wedi ei hatal dros dro ar hyn o bryd.

16:02 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr am y datganiad a'r wybodaeth ynglŷn â'r cyfeiriad cyffredinol y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei gymryd gydag adfywio i'r dyfodol. Mae hon yn ddogfen gyffredinol, fel yr oedd y Gweinidog yn awgrymu. Rydym yn edrych ymlaen at weld rhagor o fanylion yn nes ymlaen. Petaem yn edrych yn ôl dros 12 mlynedd ac ar y rhaglen adfywio, rwy'n credu, tra gallech chi gyfeirio at nifer o brosiectau ac ambell adeilad yma a thraw, y byddai'n anodd gwerthuso llwyddiant neu fel arall y gwaith o weithredu hynny am nad oes gennym fesuryddion clir ynglŷn â beth yw llwyddiant. Credaf mai un o'r heriau a fydd yn wynebu'r Gweinidog yw ceisio mesur beth yn union yw llwyddiant y rhaglenni hyn pan fyddant yn weithredol. Efallai fyddai'r Gweinidog yn gallu awgrymu beth y mae ef yn ei weld fel mesur llwyddiant yn y cyfeiriad hwn yn y dyfodol.

Thank you very much for the statement and the information about the general direction that the Government is planning to take on regeneration for the future. This is a general document, as the Minister has suggested. We look forward to seeing more details in due course. If we look back over the last 12 years and at the regeneration programme, I think that, whereas you could refer to a number of projects and a building here and there, it would be difficult to evaluate the success or otherwise of that activity because we do not have any clear ways of measuring what the success is. I think that one of the challenges that will face the Minister is trying to measure what exactly the success of these programmes is when they are in place. Perhaps the Minister could suggest what he sees as a measure of success in this direction for the future.

Mae cyfeiriad hefyd at gydweithio ar draws y Llywodraeth. Mae hynny i'w groesawu'n fawr. Mae gan y Gweinidog gyfle yn ei bortffolio ei hun, fel yr oedd yn cyfeirio ato yn ei ddatganiad, i blethu datblygiadau ym maes tai, treftadaeth, chwaraeon a'r celfyddydau, a'u gweld fel elfennau pwysig wrth geisio adfywio ardaloedd penodol.

There is also a reference to collaboration across the Government. That is to be welcomed very much. The Minister has an opportunity within his own portfolio, as he mentioned in his statement, to intertwine these developments in the field of housing, heritage, sport and the arts, and to see these as important elements in trying to regenerate specific areas.

Nid oes neb wedi eich beirniadu, Weinidog, am ganolbwyntio ar dair ardal yn hytrach na'r saith presennol. Gan dderbyn bod gennych lai o arian ar gyfer y gwaith hwn, bydd pawb yn reit hapus hyd nes y byddwch yn enwi'r tair ardal ac wedyn bydd pawb yn cwyno os nad ydynt wedi cael eu cynnwys. Credaf fod cwestiwn yn codi o hynny wedyn, sef hyn: beth yw'r fframwaith ar gyfer penderfynu pa ardaloedd fydd yn cael blaenoriaeth? Rydych yn dweud y bydd ardaloedd ar draws Cymru yn gallu bidio, gyda'r cynghorau yn arwain, ond rwy'n credu y byddai'r cynghorau eu hunain eisiau gwybod beth yn union rydych yn chwilio amdano, oherwydd y peth olaf maent am ei wneud yw gwastraffu llawer o arian ac amser yn rhoi bid at ei gilydd na fydd yn cael ei dderbyn. Felly, mae'n ofynnol eich bod chi, yn ystod y misoedd a'r flwyddyn nesaf, yn glir am y math o gynllun rydych yn chwilio amdano a'r math o broblemau rydych yn gweld eich rhaglen yn eu hateb.

No-one has criticised you, Minister, for concentrating on three areas rather than the current seven. Accepting that you have less money available to you to undertake this work, everyone will be pleased until you name those three areas and then everyone will start to complain that they have not been included. I think that a question arises as a result of that, which is this: what is the framework for deciding which areas will be prioritised? You say that areas across Wales will be able to make bids, with councils leading on them, but I believe that the councils themselves would like to know what exactly you are looking for, because the last thing that they want to do is to waste a lot of time and money putting a bid together that will not be accepted. Therefore, over the next few months and year, you need to be clear as to the type of scheme that you are looking for and the type of problems that you see your programme dealing with.

Felly, mae gennyf groeso cyffredinol i'r datganiad heddiw, ond rwy'n credu bod cwestiynau eithaf caled i chi eu hateb o safbwynt mapio'r cyfeiriad i'r dyfodol.

Therefore, I generally welcome this statement today, but there are some difficult questions for you to answer in terms of mapping out the direction for the future.

16:05 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Alun Ffred Jones asked some very pertinent questions and he makes very sensible points. In terms of how a local authority is to know how the Welsh Government intends to prioritise which areas get to the front of the queue, that is a very sensible question. My intention, initially at least, is to issue a guidance document by the end of April that will give local authorities much more detail as to what might be demanded from them in order to steward the putting together of a successful bid. When I say that they have a role of stewardship, I really do mean that, because this is not just about local authorities putting forward pet projects. As the current document states, they will have to ensure that there is a genuine local partnership built up between the public, private and voluntary sectors. They will have to be mindful of the overarching priorities of town centres, coastal communities and Communities First clusters, but we will go into more detail in the guidance document to be published very soon. As you say, it would be unfair and a waste of everyone's time and investment of hope if we were to encourage local authorities to go on wild-goose chases.

Gofynnodd Alun Ffred Jones rai cwestiynau perthnasol iawn ac mae'n gwneud pwyntiau synhwyrol iawn. Mae'n gwestiwn synhwyrol iawn sut y mae awdurdod lleol yn gwybod sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu blaenoriaethu ardaloedd a phenderfynu pa rai i'w rhoi ar frig y rhestr. Fy mwriad, i ddechrau o leiaf, yw cyhoeddi dogfen gyfarwyddyd erbyn diwedd mis Ebrill a fydd yn rhoi i awdurdodau lleol lawer mwy o fanylion ynglŷn â'r hyn a allai fod yn ofynnol ganddynt er mwyn stiwardio'r broses o roi cais llwyddiannus at ei gilydd. Wrth ddweud bod ganddynt rôl stiwardio, rwyf o ddifrif, oherwydd nad yw hyn yn fater o awdurdodau lleol yn cyflwyno'u hoff brosiectau. Fel y dywed y ddogfen bresennol, bydd yn rhaid iddynt sicrhau bod partneriaeth leol wirioneddol yn cael ei chreu rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Bydd yn rhaid iddynt gadw'r blaenoriaethau cyffredinol ynglŷn â chanol trefi, cymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf mewn cof, ond byddwn yn rhoi mwy o fanylion yn y ddogfen gyfarwyddyd y bwriedir ei chyhoeddi'n fuan. Fel y dywedwch, byddai'n annheg ac yn wastraff ar amser pawb a'r gobaith y byddant yn ei fuddsoddi pe baem yn annog awdurdodau lleol i fynd ar siwrnai seithug.

There will be an emphasis on need; deprivation does matter, hence the stated link with Communities First clusters. The definition of 'regeneration' within 'Vibrant and Viable Places' makes clear that we are talking about places that are, to some extent, suffering from market failure, so the private sector alone could not be expected to lift the prospects of those places. The number of places that can contend for this funding will get narrower and narrower and will get more and more specific.

Bydd pwyslais ar angen; mae amddifadedd yn fater o bwys, a dyna'r rheswm dros y cyswllt a nodir â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r diffiniad o 'adfywio' o fewn 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn nodi'n glir ein bod yn sôn am leoedd sydd, i ryw raddau, yn dioddef o fethiant y farchnad. Felly ni ellid disgwyl i'r sector preifat wella rhagolygon y lleoedd hynny ar ei ben ei hun. Bydd nifer y lleoedd sy'n gallu ymgeisio am yr arian hwn yn mynd yn gulach ac yn gulach ac yn fwy a mwy penodol.

In terms of evaluation and monitoring, the intention is that that will be built in from day one. I would like to think that the document describes the most robust intent thus far in the lifespan of devolution as regards how evaluation, monitoring and reporting back should work.

O ran gwerthuso a monitro, y bwriad yw cynnwys hynny o'r diwrnod cyntaf. Byddwn yn hoffi meddwl bod y ddogfen yn disgrifio'r bwriad mwyaf cadarn hyd yma ers datganoli o ran sut y dylai'r broses o werthuso, monitro a chyflwyno adroddiadau weithio.

I thank Alun Ffred Jones for his recognition of the emphasis on collaboration. Across my portfolio, housing, regeneration and heritage would be expected as three headings to come together as one to serve the needs of the named regeneration areas when we get to that point. In my mind, there should be no distinction between any part of my portfolio, but this should go across Government too. You will notice the knitting together, for the first time, of Communities First with our regeneration effort to show our commitment to a bottom-up view of regeneration locally being respected, catered for and financed, so that there would be joint working between Communities First and mainstream regeneration for the very first time.

Diolch i Alun Ffred Jones am gydnabod y pwyslais ar gydweithio. Ar draws fy mhortffolio i, byddai disgwyl i dri phennawd tai, adfywio a threftadaeth ddod at ei gilydd fel un i wasanaethu anghenion yr ardaloedd adfywio a enwir ar ôl i ni gyrraedd y pwynt hwnnw. Yn fy meddwl i, ni ddylai fod gwahaniaeth rhwng unrhyw ran o'm portffolio, ond dylai hyn fod yn wir ar draws y Llywodraeth hefyd. Byddwch yn sylwi bod Cymunedau yn Gyntaf wedi'u hasio â'n hymdrech adfywio, am y tro cyntaf, i ddangos ein hymrwymiad i barchu, darparu ac ariannu dull adfywio sy'n gweithio o'r gwaelod i fyny yn lleol, er mwyn sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf a gweithgarwch adfywio prif ffrwd yn gweithio ar y cyd am y tro cyntaf.

Alun Ffred Jones is quite right to say that there is less money; there is no secret about that—anyone who looks at the Welsh Government's budget will know that there is less money across the board and that the regeneration budget has not been spared in that regard. However, I would like to think that by taking this tactical approach, we can say to those places that make it to the shortlist that, in comparison with regeneration efforts that have gone before, we can promise them a more intensive effort than has previously been the case. By narrowing down our field of operations from large regeneration areas to specific communities, those communities that become part of the regeneration effort will experience a more intensive spend, a more intensive effort and a more holistic approach than has ever been the case. The intention is to deliver a generational step-change in the prospects of those areas—a once-in-a-generation intervention.

Mae Alun Ffred Jones yn llygad ei le i ddweud bod llai o arian; nid yw hynny'n gyfrinach—bydd unrhyw un sy'n edrych ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn gwybod bod llai o arian ar gael yn gyffredinol ac nid yw'r gyllideb adfywio yn eithriad yn hynny o beth. Fodd bynnag, hoffwn feddwl y gallwn ddweud wrth y lleoedd hynny sy'n cyrraedd y rhestr fer, trwy fabwysiadu'r agwedd dactegol hon, y gallwn addo ymdrech fwy dwys iddynt nag a welwyd yn y gorffennol. Trwy weithredu mewn maes culach, a symud o ardaloedd adfywio mawr i gymunedau penodol, bydd y cymunedau hynny sy'n dod yn rhan o'r ymdrech adfywio yn profi gwariant mwy dwys, ymdrech fwy dwys a dull gwaith mwy cyfannol nag erioed o'r blaen. Y bwriad yw cyflwyno newid sylweddol yn rhagolygon yr ardaloedd hynny—ymyriad unwaith mewn cenhedlaeth.

16:10

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I broadly support your new policy, particularly its people-focus and its focus on places that are at the heart of communities. I want to pick up on one thing in the report that you launched yesterday. You say that consumer patterns of behaviour are permanently changing in favour of out-of-town and internet shopping. I would agree that internet shopping is a permanent feature for the foreseeable future, but I take issue with the inevitability of out-of-town shopping developments, because it goes against all the messages around climate change, environmental impact and the rise and rise of petrol; because at least half of my constituents do not have a car, so out-of-town developments discriminate against them; and while out-of-town developments have some benefits for local communities in terms of the jobs that they create and the wages that are likely to be spent locally, the profit from these so-called out-of-town 'retail parks', as they cosily like to call themselves, rarely, if ever, get recycled locally and are repatriated almost immediately to London or further beyond.

Rwyf yn cefnogi eich polisi newydd yn fras, yn enwedig ei bwyslais ar bobl ac ar leoedd sydd wrth galon cymunedau. Rwyf am sôn am un peth yn yr adroddiad a lansiwyd gennych ddoe. Rydych yn dweud bod patrymau ymddygiad defnyddwyr yn newid yn barhaol o blaid canolfannau siopa y tu allan i'r dref a siopa ar y rhyngrwyd. Byddwn yn cytuno bod siopa ar y rhyngrwyd yn nodwedd barhaol ar gyfer y dyfodol yn ôl yr hyn y gallwn ei ragweld, ond rwyf yn anghytuno â'r ffaith fod datblygiadau siopa y tu allan i'r dref yn anochel. Maent yn mynd yn groes i'r holl negeseuon ynglŷn â newid yn yr hinsawdd, effaith ar yr amgylchedd a'r cynnydd ym mhris petrol. Nid oes gan o leiaf hanner fy etholwyr i gar, felly mae datblygiadau y tu allan i'r dref yn gwahaniaethu yn eu herbyn, ac er bod datblygiadau y tu allan i'r dref yn dod â rhai manteision i gymunedau lleol o ran creu swyddi a chynhyrchu cyflogau sy'n debygol o gael eu gwario'n lleol, yn anaml y mae elw'r 'parciau manwerthu' hyn, fel y maent yn hoff o'u galw eu hunain, yn cael ei ailgylchu'n lleol. Caiff ei anfon yn ôl ar unwaith bron i Lundain neu ymhellach fyth.

Therefore, I was hoping that we could use the planning processes to be firmly in favour of developing town centres, not out-of-town developments. I would welcome your comments on that. I also strongly welcome your support for developing people. In terms of Communities First, I hope that that means developing social enterprise as well as private enterprise, in those areas of need.

Felly, roeddwn yn gobeithio y gallem ddefnyddio'r prosesau cynllunio i fod yn gadarn o blaid datblygu canol trefi, yn hytrach nag o blaid datblygiadau y tu allan i drefi. Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar hynny. Rwyf hefyd yn croesawu'n fawr eich cefnogaeth i ddatblygu pobl. O ran Cymunedau yn Gyntaf, rwyf yn gobeithio bod hynny'n golygu datblygu menter gymdeithasol yn ogystal â menter breifat, yn yr ardaloedd hynny o angen.

16:12

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Jenny Rathbone for those points. Anyone who has taken the time to sit down and read the document will understand that people and place are given equal emphasis in the document: the one cannot prosper without the other. In terms of monitoring and evaluation, coming back to Alun Ffred's point, there will be a heavy emphasis on jobs and skills and the prospects of local people benefitting from the interventions that are made.

Diolch i Jenny Rathbone am y pwyntiau hynny. Bydd unrhyw un sydd wedi cymryd yr amser i eistedd a darllen y ddogfen yn deall bod pobl a lle yn cael pwyslais cyfartal yn y ddogfen: ni all yr un ffynnu heb y llall. O ran monitro a gwerthuso, gan ddod yn ôl at bwynt Alun Ffred, rhoddir pwyslais pendant ar swyddi a sgiliau a'r rhagolygon y gall pobl leol elwa o'r ymyriadau sy'n cael eu gwneud.

Social enterprises, of course, will be as valid as any other proposals in terms of qualifying for support and kick-starts and so on. So, yes; absolutely.

Bydd mentrau cymdeithasol, wrth gwrs, yr un mor ddilys ag unrhyw gynigion eraill a'r un mor gymwys i dderbyn cymorth ac arian cychwynnol ac yn y blaen. Felly, yn bendant.

In terms of out-of-town shopping and patterns of consumer behaviour, anyone looking at any high street these days would accept that there has been a fundamental shift. The way that my grandmother shopped—I remember it well, because she dragged me along at the time—was that she would buy fish at the fishmongers, meat at the butchers and vegetables at the greengrocers. She would go down Merthyr high street and call into eight, nine or more shops to put together her weekly shop. No-one does that anymore. I do not do that and, frankly, I would not, even if it was on offer. So, there has been a shift.

O ran canolfannau siopa y tu allan i drefi a phatrymau ymddygiad defnyddwyr, byddai unrhyw un sy'n edrych ar unrhyw stryd fawr y dyddiau hyn yn derbyn y bu newid sylfaenol. Y ffordd yr arferai fy nain siopa—fe'i cofiaf yn dda, gan ei bod yn fy llusgo fi gyda hi ar y pryd—oedd y byddai'n prynu pysgod yn siop y gwerthwr pysgod, cig yn siop y cigydd a'r llysiau yn y siop ffrwythau a llysiau. Byddai'n mynd i lawr stryd fawr Merthyr ac yn galw i mewn i wyth, naw neu fwy o siopau i gael popeth yr oedd arni eu hangen. Nid oes neb yn gwneud hynny erbyn hyn. Nid wyf i'n gwneud hynny, ac ni fyddwn i ychwaith a dweud y gwir, hyd yn oed pe byddai ar gael. Felly, mae newid wedi bod.

It is important that we retain our cynicism about out-of-town shopping developments; they can be intensely damaging. It is important that although we see the shift in the way that shopping behaviour has changed, we are not transfixed by that shift and become subordinate to it. There will be places where counteracting the pull of out-of-town retail is a sensible way forward for that place. We might want to get involved with reinvigorating the retail offer in some towns and places and, perhaps, encouraging independent retailers to get involved in things such as a web presence to make sure that they can sell alongside the big guys when it comes to a proper web presence and so on. I also believe that there will have to be a different and tailored approach to each particular community that we are talking about. No two towns have exactly the same set of problems or potential strengths, and addressing this is a complex mix that we will need to overcome. It is important to recognise that there has been a change in how people do things, particularly in how they do retail. It is also important not to be paralysed by that and assume that that means that other places are locked in a downward spiral. There are also other reasons why people want to visit, linger and spend time and money in a town centre that are not necessarily connected to retail, and we need to thoroughly examine the prospects of encouraging that sort of development as part of this regeneration process.

Mae'n bwysig ein bod yn cadw ein sinigiaeth ynglŷn â datblygiadau siopa y tu allan i drefi; gallant fod yn hynod niweidiol. Er ein bod yn gweld y newid yn y ffordd y mae ymddygiad siopa wedi newid, mae'n bwysig nad ydym yn cael ein swyno gan y newid a dod yn gaeth i hynny. Bydd yn synhwyrol mewn rhai mannau i weithio yn erbyn atyniad y canolfannau manwerth y tu allan i'r dref. Efallai y byddwn yn awyddus i gymryd rhan y dasg o adfywio'r cynnig manwerthu mewn rhai trefi a lleoedd ac, efallai, annog manwerthwyr annibynnol i ymwneud â chamau fel sefydlu presenoldeb ar y we i wneud yn siŵr eu bod yn gallu gwerthu ochr yn ochr â'r sefydliadau mawr trwy gael presenoldeb priodol ar y we ac yn y blaen. Rwyf hefyd yn credu y bydd yn rhaid cael dull gwahanol wedi'i deilwra i bob cymuned benodol yr ydym yn sôn amdani. Nid oes gan yr un dwy dref yn union yr un problemau neu gryfderau posibl, ac mae angen cymysgedd gymhleth o fesurau i fynd i'r afael â hyn. Mae'n bwysig cydnabod y bu newid yn y ffordd y mae pobl yn gwneud pethau, yn enwedig yn y modd y maent yn ymwneud â manwerthu. Mae hefyd yn bwysig peidio â chael ein parlysu gan hynny a chymryd yn ganiataol fod hynny'n golygu bod mannau eraill ar lethr ar i lawr. Mae rhesymau eraill hefyd pam y mae pobl am ymweld â chanol tref, a threulio amser a gwario arian yno. Nid yw'r rhesymau hyn yn gysylltiedig o reidrwydd â manwerthu, ac mae angen i ni archwilio'n drylwyr y rhagolygon ar gyfer annog y math hwnnw o ddatblygiad fel rhan o'r broses adfywio.

16:16 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for his statement. Having looked through the document and listened to the statement, I am still not entirely clear as to why we are moving from what is a fairly clear and well-understood framework for regeneration to this new framework. I am sure that the Minister will be able to help me with that. There are some questions about where we are with the current framework and how that will be segued into the new framework. Perhaps the Minister could tell us what will happen to the existing regeneration areas. Will they have a status within this new framework? Will there be transitional arrangements to ensure that there is some proper movement away from the investment taking place in the regeneration areas towards the new framework, which appears to be more free for all with regard to how the Minister is allocating the resources?

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Ar ôl edrych trwy'r ddogfen a gwrando ar y datganiad, nid wyf yn gwbl glir fy meddwl o hyd pam ein bod yn symud oddi wrth fframwaith adfywio eithaf eglur y mae pawb yn ei ddeall, i'r fframwaith newydd hwn. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn gallu fy helpu yn hynny o beth. Mae rhai cwestiynau'n codi ynglŷn â sefyllfa'r fframwaith presennol a sut bydd y fframwaith newydd yn dilyn ohono. Efallai y gallai'r Gweinidog ddweud wrthym beth fydd yn digwydd i'r ardaloedd adfywio presennol. A fydd ganddynt statws o fewn y fframwaith newydd hwn? A fydd trefniadau pontio'n cael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod rhywfaint o symud priodol oddi wrth y buddsoddiad yn yr ardaloedd adfywio tuag at y fframwaith newydd, sy'n ymddangos fel pe bai'n fwy agored o ran sut y mae'r Gweinidog yn dyrannu'r adnoddau?

The Minister talked about a generational step change. That, of course, was the rallying call for Communities First all those years ago when it was first set up. I am pleased that the Minister is talking about more joined-up thinking, and there is a very impressive emphasis on drawing it up with the Communities First clusters and all the other efforts going on by the Government on regeneration.

Soniodd y Gweinidog am newid sylweddol unwaith mewn cenhedlaeth. Dyna, wrth gwrs, oedd arwyddair Cymunedau yn Gyntaf yr holl flynyddoedd yn ôl pan gafodd ei sefydlu gyntaf. Rwyf yn falch bod y Gweinidog yn sôn am ddull gweithio mwy cydgysylltiedig, a cheir pwyslais trawiadol iawn ar gydlynu gyda chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf a holl ymdrechion eraill y Llywodraeth ym maes adfywio.

However, I am disappointed that the Minister seems to have missed two key elements of this. The first element is how local government will interact with the new framework. I would have been happier if local councils had a greater say with regard to regeneration in their areas as part of this process. After all, in any one area, the biggest element of public spending comes from the local council, and it is able to direct that spending to assist with regeneration in its area and within communities in its area, which would tie in very well with the investment that the Minister has talked about here. Empowering those local councils, and ensuring that the schemes that they are putting in place are sustainable in tandem with the scheme that the Minister is putting in place, would have been a good innovation and a way forward. The second element is about innovation. I am disappointed that we are talking about regeneration but that there is no reference to the sort of innovative approaches that are taking place in England, such as tax increment financing, which is a way of levering in additional money by a public sector body to try to focus on a particular area with regard to regeneration. Will the Minister say whether he has considered that or had discussions with the Minister for Finance about that particular aspect of the regeneration process? How will he try to pull together all those other disparate elements to make sure that this new framework is successful and will deliver the generational step change that he is talking about?

Fodd bynnag, rwyf yn siomedig fod y Gweinidog fel petai wedi colli dwy elfen allweddol o hyn. Yr elfen gyntaf yw sut y bydd llywodraeth leol yn rhyngweithio â'r fframwaith newydd. Byddwn i wedi bod yn hapusach pe byddai gan y cynghorau lleol fwy o lais o ran adfywio yn eu hardaloedd fel rhan o'r broses hon. Wedi'r cyfan, gan y cyngor lleol y daw cyfran fwyaf y gwariant cyhoeddus mewn unrhyw ardal, ac mae'n gallu llywio'r gwariant hwnnw er mwyn cynorthwyo'r broses adfywio yn ei ardal ac o fewn cymunedau yn ei ardal. Byddai hynny'n cyd-fynd yn dda iawn â'r buddsoddiad y mae'r Gweinidog wedi siarad amdano yma. Byddai wedi bod yn gam arloesol da ac yn ffordd dda ymlaen i rymuso'r cynghorau lleol hynny, a sicrhau bod y cynlluniau y maent yn eu sefydlu yn gynaliadwy ar y cyd â'r cynllun y mae'r Gweinidog yn ei roi ar waith. Mae'r ail elfen yn ymwneud ag arloesi. Rwyf yn siomedig ein bod yn sôn am adfywio ond nad oes unrhyw gyfeiriad at y math o ddulliau arloesol a ddefnyddir yn Lloegr, megis ariannu trwy gynyddrannau treth, sy'n ffordd o ddenu arian ychwanegol gan gorff sector cyhoeddus i geisio canolbwyntio ar ardal benodol o ran adfywio. A wnaiff y Gweinidog ddweud a yw wedi ystyried hynny neu wedi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog Cyllid am yr agwedd benodol honno ar y broses adfywio? Sut bydd yn ceisio dwyn ynghyd yr holl elfennau amrywiol eraill hynny, i wneud yn siŵr bod y fframwaith newydd yn llwyddiannus ac y bydd yn darparu'r newid sylweddol y mae'n sôn amdano?

16:19

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Peter Black asked the reasonable question about why we are moving from one form of regeneration activity to another. It is quite a radical change, and he is absolutely right to see it as such. Those points were put to all of our partners across Wales in a consultation document. We had 144 responses to that consultation, and not one of them, as I recall, suggested that we keep things exactly as they were. One reason for this lies with Peter Black's colleagues at the other end of the M4. Our budgets are under pressure and staying with the current regeneration areas would, of necessity, mean that, although we could continue to do worthwhile things, we would be in a situation of diminishing returns for those regeneration areas year on year. You rapidly come to the conclusion that if the Welsh Government is to make a viable and visible difference to the prospects of communities, rather than simply being engaged in papering over the cracks, we have to rethink the way that we engage with those communities.

Gofynnodd Peter Black y cwestiwn rhesymol pam yr ydym yn symud o un math o weithgaredd adfywio at un arall. Mae'n newid eithaf radical, ac mae yn llygad ei le i'w ystyried felly. Cyflwynwyd y pwyntiau hynny i bob un o'n partneriaid ledled Cymru mewn dogfen ymgynghori. Cawsom 144 ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw, ac nid oedd yr un ohonynt, yn ôl yr hyn a gofiaf, yn awgrymu y dylem gadw pethau yn union fel yr oeddent. Mae un rheswm dros hyn yn nwylo cydweithwyr Peter Black ym mhen arall yr M4. Mae ein cyllidebau o dan bwysau, a thrwy gadw'r ardaloedd adfywio presennol, byddem o reidrwydd yn gallu sicrhau llai o ganlyniadau flwyddyn ar ôl blwyddyn yn yr ardaloedd adfywio hynny, er y gallem barhau i wneud pethau gwerth chweil. Byddwch yn dod i'r casgliad yn gyflym bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ailfeddwl ein dull o ymgysylltu â chymunedau, os ydym am wneud gwahaniaeth ymarferol a gweladwy i'w rhagolygon, yn hytrach na dim ond papuro dros y craciau.

On Peter's substantial point on what happens to the old regeneration areas and so on, as I mentioned, all commitments to current regeneration area activities were due to come to a close at the turn of the financial year in 2014. Therefore, all the current regeneration areas were aware of it—some of them have already had their lives extended by two or three years beyond the original commitment. However, I will also give the personal undertaking that no worthwhile project that is currently under way in an existing regeneration area will be left hanging in the air, unfinished. In other words, there will be no loose ends left in the current regeneration areas. I give that commitment, and I have made it clear during my travels around Wales, speaking to current regeneration partnerships, that that will be the case. That is my undertaking.

O ran pwynt sylweddol Peter ar yr hyn a fydd yn digwydd i'r hen ardaloedd adfywio ac yn y blaen, fel y soniais, roedd yr holl ymrwymiadau i weithgareddau presennol mewn ardaloedd adfywio yn dod i ben ar droad y flwyddyn ariannol yn 2014. Felly, roedd yr holl ardaloedd adfywio presennol yn ymwybodol o hynny—mae bywydau rhai ohonynt eisoes wedi cael eu hymestyn ddwy neu dair blynedd y tu hwnt i'r ymrwymiad gwreiddiol. Fodd bynnag, byddaf hefyd yn rhoi addewid personol, na fydd unrhyw brosiect gwerth chweil sydd ar y gweill ar hyn o bryd mewn ardal adfywio bresennol yn cael ei adael heb ei orffen. Mewn geiriau eraill, ni fydd dim yn cael ei adael yn anorffenedig yn yr ardaloedd adfywio presennol. Rhoddaf yr ymrwymiad hwnnw, ac rwyf wedi datgan yn glir mai dyna'r achos yn ystod fy nheithiau o gwmpas Cymru, yn siarad â phartneriaethau adfywio presennol. Dyna fy ymrwymiad.

I am glad that Peter is enthused by the Communities First linkage to regeneration. I, too, think that this is a powerful new development, and that it gives the prospect of true community grassroots control over some elements of what happens and gives the regeneration element over coming years real teeth. One of the great purposes of Communities First, which is not much talked about, is that it was not just an anti-poverty programme or an investment in communities, but an effort to allow communities to be organised—as a lobby and in terms of the voice that they speak with to other potential partners, including the Welsh Government. This commitment, as part of the regeneration efforts, to them is an acknowledgement of the way in which Communities First partnerships have organised some of our least well-off communities in order to be able to take on this kind of responsibility and work, which I fully appreciate.

Rwyf yn falch bod Peter yn frwdfrydig ynglŷn â'r cysylltiad rhwng Cymunedau yn Gyntaf ac adfywio. Rwyf innau hefyd yn credu bod hwn yn ddatblygiad newydd pwerus, a'i fod yn golygu bod posibilrwydd y gall cymunedau ar lawr gwlad gael gwir reolaeth dros rai elfennau o'r hyn sy'n digwydd. Bydd hefyd yn rhoi grym go iawn i'r elfen adfywio dros y blynyddoedd nesaf. Un o ddibenion mawr Cymunedau yn Gyntaf, nad oes llawer o sôn amdano, yw nad dim ond rhaglen gwrth-dlodi neu fuddsoddiad mewn cymunedau ydoedd. Roedd yn ymdrech i alluogi cymunedau i'w trefnu eu hunain—er mwyn gallu lobïo a chael llais i siarad â phartneriaid posibl eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae'r ymrwymiad hwn iddynt, fel rhan o'r ymdrechion adfywio, yn gydnabyddiaeth o'r modd y mae partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wedi trefnu rhai o'n cymunedau lleiaf cefnog er mwyn iddynt allu ysgwyddo'r math hwn o gyfrifoldeb a gwaith, ac rwyf yn gwerthfawrogi hynny'n llawn.

I am puzzled, however, by Peter's comments as regards local government. The most crucial role of all now is handed over to local government, in terms of the launch of this new policy. It is absolutely critical that local government leads in putting together sensible bids that we can engage with over the coming months, especially when we start to put shovels in the ground on regeneration projects in April 2014. In terms of local government having more say, I am a little unclear as to what Peter Black was referring to: is it Welsh Liberal Democrat policy to hand over the regeneration budget entirely to local government and devolve it down to local government? I would pull back from that. He was right to say that local government spending is the most important thing in most communities, and matching that with regenerative effort will be critical to making sure that we have a multiplier effect in terms of public money being spent for the best regenerative outcome in the communities that we are talking about. However, that is an option. You could hand over £30 million between 22 local authorities and see what happened, but that would negate the need for any kind of strategy on the part of the Welsh Government such as the one that I have published. If that is Welsh Liberal Democrat policy, that is fine, but it is not mine.

Nid wyf yn deall sylwadau Peter o ran llywodraeth leol, fodd bynnag. Mae'r swyddogaeth fwyaf hanfodol bellach yn cael ei throsglwyddo i lywodraeth leol, wrth lansio'r polisi newydd hwn. Mae'n gwbl hanfodol bod llywodraeth leol yn arwain y gwaith o lunio ceisiadau synhwyrol y gallwn ymgysylltu â nhw dros y misoedd nesaf, yn enwedig pan fyddwn yn dechrau rhoi'r rhaw yn y ddaear wrth gychwyn prosiectau adfywio ym mis Ebrill 2014. O ran rhoi mwy o lais i lywodraeth leol, nid wyf yn gwbl sicr at beth yr oedd Peter Black yn cyfeirio: ai polisi Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yw trosglwyddo'r gyllideb adfywio yn gyfan gwbl i lywodraeth leol a'i datganoli i lefel llywodraeth leol? Byddwn yn gyndyn o wneud hynny. Roedd yn iawn i ddweud mai gwariant llywodraeth leol yw'r peth pwysicaf yn y rhan fwyaf o gymunedau, a bydd yn hanfodol sicrhau ymdrech adfywio cyfatebol er mwyn gofalu ein bod yn cael effaith lluosydd gan wario arian cyhoeddus mewn modd sy'n darparu'r canlyniad adfywio gorau yn y cymunedau yr ydym yn sôn amdanynt. Fodd bynnag, mae hynny'n opsiwn. Gallech rannu dros £30 miliwn rhwng 22 awdurdod lleol a gweld beth fyddai'n digwydd, ond byddai hynny'n dileu'r angen am unrhyw fath o strategaeth gan Lywodraeth Cymru fel yr un yr wyf wedi'i chyhoeddi. Os mai dyna yw polisi Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, popeth yn iawn, ond nid dyna fy mholisi i.

To refer to Peter's last point, I do not want to belabour this point too much but I hope that I have described that the whole intention of the direction of this £30 million per year —which is a modest sum, as anyone involved in public life in Wales will realise; there is no point in parading this as some kind of massive financial intervention—and making a difference with this sum of money is to multiply its impact through using it as seed-corn money to instil confidence and draw in the investment of other partners—public, private and voluntary.

I gyfeirio at bwynt olaf Peter, nid wyf am orbwysleisio'r pwynt hwn, ond rwyf yn gobeithio fy mod wedi egluro mai'r holl fwriad, wrth benderfynu sut i ddefnyddio'r £30 miliwn hwn y flwyddyn—sy'n swm cymedrol, fel y bydd unrhyw un sy'n ymwneud â bywyd cyhoeddus yng Nghymru yn sylweddoli; nid oes diben ymffrostio bod hwn yn rhyw fath o ymyriad ariannol enfawr—a gwneud gwahaniaeth gyda'r swm hwn o arian yw lluosi ei effaith trwy ei ddefnyddio fel cyllid sbarduno i feithrin hyder a denu buddsoddiad gan bartneriaid eraill—cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

16:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We are way over time, but I really have not called many Members because the exchanges have taken so long. I will now allow one minute only per questioner. Minister, I would appreciate it if you could speed up the answers and keep them brief.

Rydym yn bell dros yr amser, ond nid wyf wedi galw rhyw lawer o Aelodau oherwydd bod y cyfraniadau wedi cymryd cyhyd. Byddaf yn awr yn caniatáu munud yn unig i bob holwr. Weinidog, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech gyflymu'r atebion a'u cadw'n fyr.

16:25

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First, I welcome the report and the document, particularly the understanding that undergoing economic change can be associated with growth and renewal. We only have to look at the former railway towns of Swindon and Eastleigh, or the port of Hamburg. I have two questions. How can you ensure that targeted funding is not only concentrated on one geographical location? Secondly, is the decision to support more business improvement districts due to the success of the business improvement district in Swansea?

Yn gyntaf, rwyf yn croesawu'r adroddiad a'r ddogfen, yn enwedig y ddealltwriaeth y gall fod cysylltiad rhwng newid economaidd a thwf ac adnewyddiad. Nid oes ond rhaid edrych ar hen drefi rheilffordd Swindon ac Eastleigh, neu borthladd Hamburg. Mae gennyf ddau gwestiwn. Sut y gallwch sicrhau nad yw arian wedi'i dargedu yn canolbwyntio ar un lleoliad daearyddol yn unig? Yn ail, a wnaed y penderfyniad i gefnogi mwy o ardaloedd gwella busnes oherwydd llwyddiant yr ardal gwella busnes yn Abertawe?

**I hope that the document describes our commitment to absolutely target this money pretty ruthlessly. This is about ensuring that there is a step change that is generational in its effect in those areas in which we are active. That will mean that there will be quite a small number of areas at any one given time. In terms of Swansea leading the way on business improvement districts, the answer is 'yes'. It was Swansea's success that inspired the further roll out of the scheme.**

**Gobeithio y bydd y ddogfen hon yn disgrifio ein hymrwymiad pendant i dargedu'r arian hwn yn eithaf llym. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau y ceir newid sylweddol unwaith mewn cenhedlaeth yn yr ardaloedd hynny lle'r ydym yn weithgar. Bydd hynny'n golygu gweithio mewn nifer eithaf bach o ardaloedd ar unrhyw un adeg. O ran Abertawe yn arwain y ffordd ar ardaloedd gwella busnes, yr ateb yw 'ie'. Llwyddiant Abertawe a oedd yr ysbrydoliaeth i gyflwyno'r cynllun yn ehangach.**

16:26 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, I welcome the statement. It is good to note some of the successes of previous regeneration programmes. I am thinking in particular of the regeneration work in Aberdare, which is about bringing health and learning opportunities. What discussions have you had to embed this approach across Government? We know that regeneration is more than just about making nice pavements. Also, Minister, Peter Black mentioned success. We know that success would require councils to collaborate with the local communities, but how would you work with councils to create the radical outlook and willingness to build the relationships that would be needed to take this forward? The private sector and skills bases may be weaker in some of our communities, and we must ensure fair distribution of funding and prevent the accumulation in areas where both are stronger. How could we achieve this, Minister, to generate sustainable private sector activity and increase long-term skills capacities?

Yn amlwg, rwyf yn croesawu'r datganiad. Mae'n dda nodi rhai o lwyddiannau rhaglenni adfywio blaenorol. Rwyf yn meddwl yn benodol am y gwaith adfywio yn Aberdâr, sy'n ymwneud â chyflwyno cyfleoedd iechyd a dysgu. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael er mwyn ymwreiddio'r dull gweithredu hwn ar draws y Llywodraeth? Rydym yn gwybod bod adfywio yn fwy na dim ond gwneud palmentydd hardd. Hefyd, Weinidog, soniodd Peter Black am lwyddiant. Rydym yn gwybod y byddai gofyn i gynghorau, er mwyn sicrhau llwyddiant, gydweithio â'r cymunedau lleol, ond sut y byddech chi'n gweithio gyda chynghorau i greu'r agwedd radical a'r parodrwydd i feithrin y cysylltiadau y byddai eu hangen i symud ymlaen â hyn? Efallai bod y sector preifat a'r sylfeini sgiliau yn wannach yn rhai o'n cymunedau, a rhaid inni sicrhau y caiff arian ei ddosbarthu'n deg a'i atal rhag cronni mewn ardaloedd lle mae'r ddau yn gryfach. Sut gallwn ni gyflawni hyn, Weinidog, er mwyn creu gweithgarwch cynaliadwy yn y sector preifat a chynyddu galluoedd a sgiliau yn y tymor hir?

16:27 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Chris Chapman for those points. I can assure Members that the embedding of this policy across Government is a commitment on the part of every single Welsh Government Minister. It is a stated intent and I can point, in particular, to the co-working that will roll out from this in terms of Communities First, for instance, and the mainstream regeneration effort. In terms of local authorities and their engagement, to some extent there is circularity in this argument. Unless local authorities commit to a focused, radical, intensive and, to some extent, exclusive concentration upon these particular areas of regeneration, those bids will not succeed. We are talking the language of priorities here. Those places that make it into the first round of regeneration activities will receive the very best of attention. Without local authorities' full and sincere engagement in that, the commitment would not be made to that place, initially in any case.

Diolch i Chris Chapman am y pwyntiau hynny. Gallaf sicrhau'r Aelodau bod pob un o Weinidogion Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymwreiddio'r polisi hwn ar draws y Llywodraeth. Mae'n fwriad sydd wedi'i ddatgan, a gallaf gyfeirio'n arbennig at y cydweithio a fydd yn deillio o hyn o ran Cymunedau yn Gyntaf, er enghraifft, a'r ymdrech adfywio prif ffrwd. O ran awdurdodau lleol a'u hymgysylltiad, mae'r ddadl hon yn un gylchol i ryw raddau. Oni bai bod awdurdodau lleol yn ymrwymo i ganolbwyntio'n benodol, yn radical, yn ddwys ac, i ryw raddau, yn unig ar yr ardaloedd adfywio penodol hyn, ni fydd y ceisiadau hynny'n llwyddo. Rydym yn siarad yn nhermau blaenoriaethau yma. Bydd y lleoedd hynny sy'n llwyddo i gyrraedd rownd gyntaf y gweithgareddau adfywio yn cael y sylw gorau un. Heb i awdurdodau lleol ymgysylltu'n llawn ac yn ddidwyll â hynny, ni fyddai'r ymrwymiad yn cael ei wneud i'r lle hwnnw, i ddechrau o leiaf.

16:29 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for your statement today, Minister. Briefly, one of the issues raised by the Communities, Equality and Local Government Committee in its report on the historic environment last week was the recommendation that the Welsh Government examine the possibility of establishing an umbrella group similar to English Heritage to help promote and bring together all heritage organisations across Wales. In my own constituency, I have seen the huge battle that groups around Brymbo have had in ensuring that the former steelworks are saved from decay and promoted, as they should be. Minister, will you give consideration to the establishment in Wales of a body such as English Heritage, so that we can have a more co-ordinated and effective driver of the economies in those areas?

Diolch i chi am eich datganiad heddiw, Weinidog. Yn fyr, un o'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ei adroddiad ar yr amgylchedd hanesyddol yr wythnos diwethaf oedd yr argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o sefydlu grŵp ymbarél tebyg i English Heritage i helpu i hyrwyddo'r holl sefydliadau treftadaeth ledled Cymru a'u dwyn ynghyd. Yn fy etholaeth fy hun, rwyf wedi gweld brwydr enfawr grwpiau o amgylch Brymbo er mwyn sicrhau bod y cyn waith dur yn cael ei gadw rhag dirywio, ac yn cael ei hyrwyddo, fel y dylai. Weinidog, a wnewch chi ystyried sefydlu corff fel English Heritage yng Nghymru, fel y gallwn sbarduno'r economïau yn yr ardaloedd hynny mewn modd mwy cydlynol ac effeithiol?

16:30 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Ken Skates for those points. He has been a tireless and effective advocate for the historic environment around Brymbo in particular. Our historic environment strategy does include a commitment for the Welsh Government to undertake an analysis of the capacity and structure of the third sector in Wales, and the strategy signals an intention to commission a review of options. The establishment of a membership-based heritage network to act as a focus across the third sector in Wales is on the table. This would be a similar organisation to the Heritage Alliance in England.

Diolch i Ken Skates am y pwyntiau hynny. Mae wedi bod yn eiriolwr diflino ac effeithiol ar ran yr amgylchedd hanesyddol o amgylch Brymbo yn benodol. Mae ein strategaeth ar yr amgylchedd hanesyddol yn cynnwys ymrwymiad i Lywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad o allu a strwythur y trydydd sector yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn nodi bwriad i gomisiynu adolygiad o'r opsiynau. Mae'r cynnig i sefydlu rhwydwaith treftadaeth sy'n seiliedig ar aelodaeth, i weithredu fel ffocws ar draws y trydydd sector yng Nghymru, ar y bwrdd. Byddai hwn yn sefydliad tebyg i'r Heritage Alliance yn Lloegr.

English Heritage is not an umbrella organisation in the same sense: English Heritage is a non-departmental public body; it is sort of the English equivalent of Cadw. However, the idea of a Welsh equivalent of the Heritage Alliance is on the table. The establishment of a Welsh heritage trust to co-ordinate the activities of buildings preservation trusts, to take on the ownership and management of buildings of historical character, and to give advice, is also on the table. So, that work is being taken forward and we will have an options appraisal through consultants who will be appointed shortly and I will consider the advice that I receive on that.

Nid yw English Heritage yn sefydliad ymbarél yn yr un ystyr: corff cyhoeddus anadrannol yw English Heritage, ac mae'n cyfateb i Cadw mewn ffordd. Fodd bynnag, mae'r syniad o gael sefydliad yng Nghymru a fyddai'n cyfateb i'r Heritage Alliance ar y bwrdd. Mae'r syniad o sefydlu ymddiriedolaeth treftadaeth i Gymru, i gydlynu gweithgareddau ymddiriedolaethau cadwraeth adeiladau, i fod yn berchen ar adeiladau hanesyddol a'u rheoli, ac i roi cyngor, hefyd ar y bwrdd. Felly, mae'r gwaith hwnnw'n cael ei ddatblygu a bydd ymgynghorwyr, a benodir cyn bo hir, yn cynnal arfarniad o opsiynau. Byddaf yn ystyried y cyngor a gaf yn sgil hynny.

16:31 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I thank you for your statement today. I am very pleased to see this coming forward and I like the focus in your document on coastal communities and town centre support. You will be aware that I have a big coastal community in my constituency in Colwyn Bay, which has been the beneficiary of funds under the north Wales strategic regeneration area status over the past few years, and you have been to see the tremendous difference that that has made to the town. It was great to see a photograph of Theatr Colwyn in your document that was published yesterday.

Weinidog, diolch ichi am eich datganiad heddiw. Rwyf yn falch iawn o weld hyn yn dod ymlaen ac rwy'n hoffi'r pwyslais yn eich dogfen ar gefnogaeth i gymunedau arfordirol a chanol trefi. Byddwch yn ymwybodol fod gennyf gymuned arfordirol fawr yn fy etholaeth, sef Bae Colwyn, sydd wedi derbyn arian dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil statws ardal adfywio strategol gogledd Cymru. Rydych wedi bod i weld y gwahaniaeth aruthrol y mae hynny wedi ei wneud i'r dref. Roedd yn wych gweld llun o Theatr Colwyn yn eich dogfen a gyhoeddwyd ddoe.

In terms of those areas that currently have status and which have projects in the pipeline, I listened very carefully to your response to Peter Black, and you seemed to suggest that where there were projects that were in train, you would allow some continued commitment to those. I would welcome some clarification on that. Secondly, I also like the link to housing renewal. What about unadopted roads; would they qualify? The huge Sandy Cove estate in Kinmel Bay, the largest single estate in Wales, has serious problems on this front.

O ran yr ardaloedd hynny sydd â statws ar hyn o bryd a lle y mae prosiectau ar y gweill, gwrandewais yn ofalus ar eich ymateb i Peter Black, ac mae'n ymddangos eich bod yn awgrymu y byddech yn caniatáu rhywfaint o ymrwymiad parhaus i brosiectau sydd eisoes ar waith. Byddwn yn croesawu rhywfaint o eglurhad ynglŷn â hynny. Yn ail, rwyf hefyd yn hoff o'r cyswllt ag adnewyddu tai. Beth am ffyrdd heb eu mabwysiadu; a fyddai'r rhain yn gymwys? Mae gan ystâd enfawr Sandy Cove ym Mae Cinmel, yr ystâd fwyaf yng Nghymru, broblemau difrifol yn y maes hwn.

16:32 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for those points. It is good to hear a Conservative Member of this Assembly trumpeting the successes of the north Wales coast regeneration area and the regeneration team there has been enormously successful. I have visited Theatr Colwyn, among other initiatives in Colwyn Bay, which are outstanding successes that that partnership can point to and be proud of. The shift to the new system does not mean that any particular place in Wales, because it has benefited from being in a regeneration area in the past, is somehow excluded in the future. Colwyn Bay, like every other settlement and community in Wales, has an equal chance of getting through to the shortlist for the new system for the next year. What matters very much is that a partnership grows up around Colwyn Bay, for example, to put forward a really solid case for that to happen.

Diolch i'r Aelod am y pwyntiau hynny. Mae'n dda clywed Aelod Ceidwadol o'r Cynulliad hwn yn canmol llwyddiannau ardal adfywio arfordir gogledd Cymru ac mae'r tîm adfywio yno wedi bod yn hynod lwyddiannus. Rwyf wedi ymweld â Theatr Colwyn, ymysg mentrau eraill ym Mae Colwyn. Dyma lwyddiannau rhagorol y gall y bartneriaeth honno gyfeirio atynt a bod yn falch ohonynt. Nid yw'r newid i'r system newydd yn golygu y bydd unrhyw le penodol yng Nghymru yn cael ei eithrio rhywsut yn y dyfodol, oherwydd ei fod wedi elwa o fod mewn ardal adfywio yn y gorffennol. Mae gan Fae Colwyn, fel pob anheddiad a chymuned arall yng Nghymru, gyfle cyfartal i gyrraedd rhestr fer y system newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yr hyn sy'n bwysig iawn yw bod partneriaeth yn datblygu o gwmpas Bae Colwyn, er enghraifft, i gyflwyno achos gwirioneddol gadarn.

I am also pleased that Darren Millar has recognised that housing renewal budgets will be rolled into our regeneration efforts so that wherever regeneration happens, we can be sure that the housing element of that regeneration is part of the deal and we do not ever leave that out. In terms of his constituents' specific problems as regards adopting roads, I think that we will leave that to correspondence.

Rwyf hefyd yn falch bod Darren Millar wedi cydnabod y bydd cyllidebau adnewyddu tai yn cael eu cyflwyno fel rhan o'n hymdrechion adfywio fel bod yr elfen sy'n ymwneud â thai yn rhan o unrhyw weithgarwch adfywio, lle bynnag y bo, ac nad ydym fyth yn hepgor hynny. O ran problemau penodol ei etholwyr ym maes mabwysiadu ffyrdd, rwyf yn meddwl y byddwn yn gadael hynny i ohebiaeth.

16:34

## Datganiad: Adroddiad Diweddaru ar Hwyluso'r Drefn—Ehangu Busnes y Fferm

## Statement: The Working Smarter Update Report—Growing the Farm Business

Senedd.tv
Fideo Video

**Alun Davies** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd / The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes*

The 'Working Smarter' report was a challenge to Government, to farmers and to all stakeholders in the farming industry in Wales to change the way we think, the way we behave and the way we operate. That change is now happening according to Gareth Williams's update report, which outlines the progress made on implementing the 74 recommendations to achieve better regulation. I asked Gareth to undertake this latest review to seek his independent opinion on progress and to ensure transparency in the ongoing developments to working smarter within the farming industry. If there was any doubt about the need for regulation, then recent weeks have proved that need. The ongoing horsemeat contamination investigation has reminded everyone of the importance of consumer confidence in the food chain, and the potential fragility of that confidence, which will only be maintained through appropriate regulation and controls.

Roedd adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' yn her i'r Llywodraeth, i ffermwyr ac i'r holl randdeiliaid yn y diwydiant ffermio yng Nghymru newid y ffordd yr ydym yn meddwl, y ffordd yr ydym yn ymddwyn a'r ffordd yr ydym yn gweithredu. Mae'r newid hwnnw bellach yn digwydd, yn ôl adroddiad diweddaru Gareth Williams, sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed ar weithredu'r 74 argymhelliad er mwyn gallu rheoleiddio'n well. Gofynnais i Gareth gynnal yr adolygiad diweddaraf er mwyn gofyn ei farn annibynnol ar gynnydd ac i sicrhau tryloywder yn y datblygiadau parhaus tuag at hwyluso'r drefn o fewn y diwydiant ffermio. Os bu unrhyw amheuaeth am yr angen i reoleiddio, yna mae'r wythnosau diwethaf wedi profi'r angen hwnnw. Mae'r ymchwiliad sy'n parhau i halogi â chig ceffyl wedi atgoffa pawb o bwysigrwydd ffydd defnyddwyr yn y gadwyn fwyd, a natur fregus bosibl y ffydd honno, na fydd modd ei gynnal ond drwy reoleiddio a dulliau rheoli priodol.

Gareth Williams set the Government a challenging target last year, which required all 74 recommendations to be delivered before the next Assembly elections, with 20 of them to be completed before July 2012. I would like to take this opportunity to congratulate officials and stakeholders alike, because 29 recommendations are already complete and almost all of the remainder are already being progressed. Gareth has now refined the timeline to include specific delivery deadlines for individual recommendations, so that farmers and others will understand what needs to change and by when.

Gosododd Gareth Williams darged heriol i'r Llywodraeth y llynedd, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r 74 argymhelliad gael eu cyflawni cyn etholiadau nesaf y Cynulliad, ac 20 i gael eu cwblhau cyn mis Gorffennaf 2012. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i longyfarch swyddogion a rhanddeiliaid fel ei gilydd, gan fod 29 o argymhellion eisoes wedi'u cyflawni ac mae bron y cyfan o'r gweddill eisoes yn mynd rhagddynt. Mae Gareth bellach wedi mireinio'r llinell amser i gynnwys terfynau amser penodol ar gyfer argymhellion unigol, fel y bydd ffermwyr ac eraill yn deall yr hyn y mae angen ei newid ac erbyn pryd.

Customer service has improved, and the farm liaison service has been expanded and refreshed. The farming unions now assist with the checking of standard single payment guidance and correspondence, and this has aided farmers' understanding of the policy and the rules. But there is still work to be done on the quality of the correspondence issuing from the Welsh Government to our farming customers. Gareth has annexed good and bad examples to his update report. 'Working Smarter' included a recommendation to form a task and finish group by 2015 to improve communications and customer service. I have now asked officials to bring this forward for immediate implementation.

Mae gwasanaeth i gwsmeriaid wedi gwella, ac mae'r gwasanaeth cysylltwyr fferm wedi ei ehangu a'i ddiwygio. Mae undebau'r ffermwyr bellach yn cynorthwyo â'r gwaith o wirio gohebiaeth a chanllawiau safonol ar y taliad sengl, ac mae hyn wedi bod o gymorth i ffermwyr ddeall y polisi a'r rheolau. Ond mae gwaith eto i'w wneud ar ansawdd yr ohebiaeth a anfonir gan Lywodraeth Cymru at ein cwsmeriaid sy'n ffermio. Mae Gareth wedi atodi enghreifftiau da a gwael at ei adroddiad diweddaru. Roedd 'Hwyluso'r Drefn' yn cynnwys argymhelliad i ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen erbyn 2015 i wella cyfathrebu a gwasanaeth i gwsmeriaid. Rwyf bellach wedi gofyn i swyddogion ddwyn hyn ymlaen i'w roi ar waith ar unwaith.

Policies can only deliver effective outcomes, and regulations will only be complied with fully, if there is effective communication. Common agricultural policy reform is complex and, for that reason, a communications specialist will be recruited to manage both CAP reform and Glastir communications. The CAP debate is protracted, but it is essential that the messages are communicated quickly and with clarity as the negotiations continue. I will always welcome the opportunity to speak to farmers and to put the right mechanisms in place for face-to-face dialogue with all interested parties on CAP, on the rural development plan and on structural funds, with events across Wales.

Dim ond drwy gyfathrebu'n effeithiol y gall polisïau gyflawni canlyniadau effeithiol, ac y gellir cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau. Mae diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin yn gymhleth ac felly bydd arbenigwr cyfathrebu'n cael ei recriwtio i reoli diwygio'r PAC a chyfathrebu ynghylch Glastir. Mae'r ddadl ynghylch y PAC yn hirfaith, ond mae'n hanfodol bod y negeseuon yn cael eu cyfleu yn gyflym ac yn glir wrth i'r trafodaethau barhau. Byddaf bob amser yn croesawu'r cyfle i siarad â ffermwyr ac i roi'r mecanweithiau iawn ar waith ar gyfer deialog wyneb-yn-wyneb â phawb sydd â diddordeb ynghylch y PAC, y cynllun datblygu gwledig a chronfeydd strwythurol, gyda digwyddiadau ar draws Cymru.

'Working Smarter' emphasised the importance of partnership working to simplify regulations and to collectively work with the farming industry to secure its future through a time of significant change. Changes to the subsidy lifeline, including the move from a historic to an area-based single payment, will affect all farm businesses, and each business will have to examine the impact on its individual business plan. All industry bodies will have to assist in the task of considering alternative farm business models to ensure the future viability of farming beyond the next seven years of CAP, when pillar 1 direct subsidies may reduce significantly, signifying an increase in the importance of pillar 2 support through excellent programmes such as Farming Connect.

Roedd 'Hwyluso'r Drefn' yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i symleiddio'r rheoliadau ac i weithio ar y cyd â'r diwydiant ffermio i sicrhau ei ddyfodol drwy gyfnod o newid sylweddol. Bydd newidiadau i linell fywyd y cymorthdaliadau, gan gynnwys symud o daliad sengl hanesyddol i daliad sengl yn seiliedig ar arwynebedd, yn effeithio ar bob busnes fferm, a bydd yn rhaid i bob busnes edrych ar yr effaith ar ei gynllun busnes unigol. Bydd yn rhaid i holl gyrff y diwydiant gynorthwyo i ystyried modelau busnes fferm amgen i sicrhau hyfywedd ffermio yn y dyfodol y tu hwnt i saith mlynedd nesaf y PAC, pan allai cymorthdaliadau uniongyrchol colofn 1 ostwng yn sylweddol, a fydd yn dynodi cynnydd ym mhwysigrwydd cymorth colofn 2 drwy raglenni rhagorol megis Cyswllt Ffermio.

Gareth's task and finish group model has been deployed across my portfolio. The online user group is a first-class example of where officials, IT specialists and farmers have been working closely to ensure that the online single application form will be fit for purpose. This is now being piloted, and online systems will improve accuracy and cut down on processing times and paperwork, and there will be a phased extension to other schemes.

Mae model grŵp gorchwyl a gorffen Gareth wedi ei ddefnyddio ar draws fy mhortffolio. Mae'r grŵp defnyddwyr ar-lein yn enghraifft o'r radd flaenaf lle mae swyddogion, arbenigwyr TG a ffermwyr wedi bod yn cydweithio'n agos i sicrhau y bydd ffurflen ar-lein y cais sengl yn addas at y diben. Mae hyn bellach yn cael ei dreialu, a bydd systemau ar-lein yn gwella cywirdeb ac yn lleihau amseroedd prosesu a gwaith papur, a bydd hynny'n cael ei estyn yn raddol i gynlluniau eraill.

Farming as an industry has advanced rapidly through technological innovations in the past 70 years, but the technology revolution in the farm office has hardly begun for many. The future will depend on modern information and communication technology, and farmers must avail themselves of the training that the Government and farming organisations are providing. The Superfast Cymru programme will extend next generation broadband across Wales to support farmers in adopting new technologies. I announced last March that we will develop EID Cymru—electronic identification—to replace the present paper trail that accompanies sheep movements. There will be a fast and efficient means to track sheep movements, which will improve our preparedness in the event of a major disease outbreak, and this should also minimise disruption to trade. EID will also assist farmers with managing their flocks and improve both flock and business performance.

Mae ffermio fel diwydiant wedi datblygu'n gyflym drwy arloesi technolegol yn y 70 mlynedd diwethaf, ond prin y mae'r chwyldro technoleg yn swyddfa'r fferm wedi dechrau i lawer. Bydd y dyfodol yn dibynnu ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fodern, a rhaid i ffermwyr fanteisio ar yr hyfforddiant y mae'r Llywodraeth a sefydliadau ffermio'n ei ddarparu. Bydd y rhaglen Cyflymu Cymru yn estyn band eang y genhedlaeth nesaf ar draws Cymru i gynorthwyo ffermwyr i fabwysiadu technolegau newydd. Cyhoeddais fis Mawrth diwethaf y byddwn yn datblygu EID Cymru—adnabod electronig—i ddisodli'r llwybr papur presennol sy'n mynd law yn llaw â symudiadau defaid. Bydd gennym ddull cyflym ac effeithlon o olrhain symudiadau defaid, a fydd yn golygu y byddwn yn fwy parod os daw achos o glefyd ar raddfa fawr, a dylai hyn hefyd beri bod llai o amharu ar fasnachu. Bydd EID hefyd yn cynorthwyo ffermwyr i reoli eu diadelloedd ac yn gwella perfformiad y ddiadell a'r busnes.

Animal health and welfare has been highlighted in the update report as a continuing priority. Quarantine facilities, as an alternative to the six-day standstill regulation, are being considered, as are changes to the management of the county parish holding system. This is not straightforward, as there are many interdependencies, as well as the dependency on EID Cymru. There are also IT development needs that may incur significant costs. An industry task and finish group is going to consider all the options and undertake an impact analysis before providing advice on its preferences.

Nodwyd yn yr adroddiad diweddaru fod iechyd a lles anifeiliaid yn fater o flaenoriaeth barhaus. Mae cyfleusterau cwarantîn, yn lle'r rheoliad chwe diwrnod ar wahardd symud, yn cael eu hystyried, yn ogystal â newidiadau i reolaeth system y daliad sirol. Nid yw hyn yn syml, gan fod llawer o gyd-ddibyniaeth, yn ogystal â'r ddibyniaeth ar EID Cymru. Mae anghenion datblygu TG hefyd a allai arwain at gostau sylweddol. Bydd grŵp gorchwyl a gorffen y diwydiant yn ystyried yr holl opsiynau ac yn gwneud dadansoddiad o'r effaith cyn rhoi cyngor ar ei ddewisiadau.

Developing earned recognition and targeting inspections to where they are needed is a recurrent theme in 'Working Smarter'. An industry group of farmers and regulators is working towards this objective and also to rationalise farm inspections. This will require a greater willingness on the part of regulators to readily share data and to use the information to reduce inspections and sometimes combine inspections. Each regulator has its own data management system and, unfortunately, systems do not always transfer data easily, which is likely to require more IT investment.

Mae datblygu cydnabyddiaeth a enillir a thargedu arolygiadau lle mae eu hangen yn thema sy'n digwydd dro ar ôl tro yn 'Hwyluso'r Drefn'. Mae grŵp o ffermwyr a rheoleiddwyr y diwydiant yn gweithio tuag at yr amcan hwn a hefyd tuag at symleiddio archwiliadau ar ffermydd. Er mwyn gwneud hynny, bydd yn rhaid i'r rheoleiddwyr fod yn fwy parod i rannu data'n rhwydd a defnyddio'r wybodaeth i leihau archwiliadau ac weithiau i gyfuno arolygiadau. Mae gan bob rheoleiddiwr ei system reoli data ei hun ac, yn anffodus, nid yw systemau bob amser yn trosglwyddo data'n rhwydd, ac mae'n debyg felly y bydd angen mwy o fuddsoddi o ran TG.

The first Welsh Government farming conference will take place on 23 May, where I will discuss flagship policies with farmers, agencies and the farming unions, and invite them to share their views and help to shape the future direction of farming policy. The First Minister will open the conference and outline his priorities for Wales and the farming sector. Gareth has given us a satisfactory report on the progress that we are making through 'Working Smarter' and it will be important now not to lose momentum. He has stated the importance of completing all recommendations within the lifespan of this Assembly. He has also added four new recommendations, including the need for robust business cases to support significant capital expenditure such as IT projects. While this is already the approach taken, Gareth has raised concerns that the process can be protracted and can delay important decisions being taken. The new recommendations in relation to the food chain, the direction of food policy and the future delivery of animal health and welfare services must be given careful consideration before any decisions can be made.

Bydd cynhadledd ffermio gyntaf Llywodraeth Cymru yn digwydd ar 23 Mai, lle byddaf yn trafod polisïau blaenllaw gyda ffermwyr, asiantaethau ac undebau'r ffermwyr, ac yn eu gwahodd i rannu eu barn a helpu i lywio cyfeiriad polisi ffermio yn y dyfodol. Bydd y Prif Weinidog yn agor y gynhadledd ac yn amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Cymru a'r sector ffermio. Mae Gareth wedi rhoi adroddiad boddhaol i ni ar y cynnydd yr ydym yn ei wneud drwy 'Hwyluso'r Drefn' a bydd yn bwysig nawr peidio â cholli momentwm. Mae wedi datgan pwysigrwydd cwblhau'r holl argymhellion o fewn cyfnod y Cynulliad hwn. Mae hefyd wedi ychwanegu pedwar argymhelliad newydd, gan gynnwys yr angen i sicrhau achosion busnes cadarn i gefnogi gwariant cyfalaf sylweddol megis prosiectau TG. Er mai dyma'r dull a ddefnyddir eisoes, mae Gareth wedi codi pryderon y gall y broses fod yn faith ac y gall hynny arafu penderfyniadau pwysig. Rhaid ystyried yn ofalus yr argymhellion newydd mewn perthynas â'r gadwyn fwyd, cyfeiriad polisi bwyd a darparu gwasanaethau iechyd a lles anifeiliaid yn y dyfodol cyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniadau.

Under 'Working Smarter', we could have taken the easy route—a route that is fairly limited in scope and ambition to specific regulatory changes. Alternatively, we could grasp the opportunity that 'Working Smarter' has gifted us and deliver beneficial, far-reaching changes; changes that will serve the farming industry very well indeed and long into the future.

O dan 'Hwyluso'r Drefn', gallem fod wedi cymryd y llwybr hawdd—a llwybr sy'n eithaf cyfyngedig o ran cwmpas ac uchelgais, i newidiadau rheoleiddio penodol. Neu gallem achub ar y cyfle y mae 'Hwyluso'r Drefn' wedi ei roi i ni a chyflwyno newidiadau buddiol, pellgyrhaeddol; newidiadau a fydd yn gwasanaethu'r diwydiant ffermio yn dda iawn ac ymhell i'r dyfodol.

16:42 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for your statement. The Welsh Conservatives welcome the Welsh Government's intention to reduce the volume of red tape and unnecessary regulation, which is unfortunately a daily fact of life for farmers across Wales. Over the years, Welsh Governments have often talked the talk about cutting farm red tape, but as Gareth Williams stated in his previous report, they have often failed to deliver the results, and have left the industry deeply disappointed.

Diolch i chi, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i leihau swmp y fiwrocratiaeth a'r rheoleiddio diangen, sydd yn anffodus yn un o ffeithiau bywyd o ddydd i ddydd i ffermwyr ar draws Cymru. Dros y blynyddoedd, mae Llywodraethau Cymru wedi siarad yn huawdl am dorri biwrocratiaeth i ffermydd, ond fel y nododd Gareth Williams yn ei adroddiad blaenorol, maent wedi methu yn aml â chyflawni'r canlyniadau, ac wedi gadael y diwydiant yn siomedig dros ben.

I will start by welcoming the examples of progress and good practice that the update highlights, for example, in communications with farmers and the willingness to work with farming unions on draft letters. I also welcome the fact that the well-respected farm liaison service has expanded, although, to put this into context, we are talking about an additional three members of staff being added to a team of four, and this to serve 38,000 farm businesses.

Rwyf am ddechrau drwy groesawu'r enghreifftiau o gynnydd ac arfer da y mae'r diweddariad yn tynnu sylw atynt, er enghraifft, o ran cyfathrebu â ffermwyr a pharodrwydd i weithio gydag undebau'r ffermwyr ar lythyrau drafft. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith fod y gwasanaeth cysylltwyr fferm uchel ei barch wedi ehangu, er ein bod yn sôn, a rhoi hyn yn ei gyd-destun, am dri aelod o staff ychwanegol i dîm o bedwar, a hynny i wasanaethu 38,000 o fusnesau fferm.

I would be grateful if you could answer a number of questions. First, on Glastir, the report is quite critical. On page 28, it states that,

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb nifer o gwestiynau. Yn gyntaf, ar Glastir, mae'r adroddiad yn eithaf beirniadol. Ar dudalen 28, mae'n nodi,

'CAP reform will inevitably lead to more and significant changes to Glastir which is unfortunate.'

'bydd diwygio'r PAC yn arwain at ragor o newidiadau sylweddol i Glastir, ac mae hynny'n anffodus.'

It goes on to say that,

Mae'n mynd ymlaen i ddweud,

'The Government should give serious consideration to redefining the Glastir scheme and the opportunity to rebrand should not be lost'.

'Dylai'r Llywodraeth roi ystyriaeth ddifrifol i ailddiffinio'r cynllun Glastir a dylid achub ar y cyfle i ail-frandio.'

Do you plan to accept this advice or do you have targets—for example, the amount of underspend in the budget or the participation rates of farmers—that would convince you to take this approach?

A ydych yn bwriadu derbyn y cyngor hwn, neu a oes gennych dargedau—er enghraifft, maint y tanwariant yn y gyllideb neu gyfraddau cyfranogiad ffermwyr—a fyddai'n eich argyhoeddi i weithredu yn y modd hwn?

Secondly, on the movement restrictions and reporting requirements, these are the regulations that I have the most correspondence on from my constituents, and which affect farmers the most. The report states that the county parish holding system is not fit for purpose, and the three-day reporting requirement is met by just 30% of farmers. Obviously, that is a real cause for concern. Given that the EU legislation allows for seven days, will you reconsider your approach to this? I appreciate that it is complex, and I know that you have highlighted that in your statement, but, as I say, these are the complaints that I receive the most in terms of gold-plating. Can you confirm how soon workable alternatives to the six-day movement span will be brought forward? I note Gareth Williams's concerns that the proposals from the Welsh Government may be tougher than those currently under consideration from DEFRA.

Yn ail, ynghylch y cyfyngiadau ar symud a'r gofynion adrodd, y rhain yw'r rheoliadau yr wyf yn cael y mwyaf o ohebiaeth yn eu cylch gan fy etholwyr, ac sy'n effeithio ar ffermwyr fwyaf. Mae'r adroddiad yn nodi nad oedd system y daliad sirol yn addas at y diben, a bod y gofyniad adrodd tri diwrnod yn cael ei fodloni gan ddim ond 30% o ffermwyr. Yn amlwg, mae hynny'n destun pryder gwirioneddol. O gofio bod deddfwriaeth yr UE yn caniatáu saith diwrnod, a wnewch chi ailystyried eich ymagwedd at hyn? Rwy'n sylweddoli ei fod yn gymhleth, a gwn eich bod wedi tynnu sylw at hynny yn eich datganiad, ond, fel y dywedais, rhain yw'r cwynion yr wyf yn eu derbyn fwyaf o ran eurblatio. A allwch chi gadarnhau pa mor fuan y bydd dewisiadau amgen ymarferol i'r rhychwant symud chwe diwrnod yn cael eu dwyn ymlaen? Nodaf bryderon Gareth Williams y gallai'r cynigion gan Lywodraeth Cymru fod yn fwy llym na'r rhai sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan DEFRA.

Finally, in respect of your own administration, Gareth Williams's report notes the high turnover of staff within the department, of as much as 15% in a year, as well as the barriers that stop managers from appointing the staff with the best skills and experience. Given the criticism in the original 'Working Smarter' report that Cardiff staff were often seen as remote and with little real understanding of farming, what steps will you take to ensure that your Government has the expertise and can retain it in the long term? Finally, can you confirm how much the new communications specialist will cost the Welsh taxpayer and expand on their role, as there will understandable concern that the Welsh Government is potentially appointing another spin doctor rather than getting to grips with the real problems around Glastir?

Yn olaf, o ran eich gweinyddiaeth eich hun, mae adroddiad Gareth Williams yn nodi trosiant uchel staff o fewn yr adran, cymaint â 15% mewn blwyddyn, yn ogystal â'r rhwystrau sy'n atal rheolwyr rhag penodi staff â'r sgiliau a'r profiad gorau. O ystyried y feirniadaeth yn adroddiad gwreiddiol 'Hwyluso'r Drefn' fod staff Caerdydd yn aml yn cael eu hystyried yn bell i ffwrdd a chanddynt fawr o ddealltwriaeth go iawn o ffermio, pa gamau ydych chi am eu cymryd i sicrhau bod gan eich Llywodraeth yr arbenigedd ac y gall ei gadw yn y tymor hir? Yn olaf, a allwch chi gadarnhau faint y bydd yr arbenigwr cyfathrebu newydd yn ei gostio i drethdalwyr Cymru ac ymhelaethu ar ei rôl, gan y bydd pryder dealladwy fod Llywodraeth Cymru o bosibl yn penodi dewin delwedd arall yn hytrach na mynd i'r afael â'r problemau gwirioneddol sy'n ymwneud â Glastir?

16:45

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Many of us across the Chamber have become used to the Conservative spokesperson on these matters grasping the wrong end of the stick and then waving it around enthusiastically, advertising her lack of understanding of what is being debated.

Mae llawer ohonom ar draws y Siambr wedi dod i arfer â gweld llefarydd y Ceidwadwyr ar y materion hyn yn camddeall y mater yn llwyr ac yna'n siarad amdano'n frwd, yn hysbysebu ei diffyg dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei drafod.

This is not a red-tape review. We made that very clear when we started the process 18 months ago. I am surprised that is still being referred to by the opposition. If anybody in this Chamber, or anyone else, doubted the value of regulation in underpinning the integrity of the food production industry, they needed only to have read a newspaper almost any week since Christmas. The whole issue about the contamination of food products has demonstrated the absolute importance of regulation to underpin the integrity of our ability to promote Welsh red meat, in this case, as a world-class product. It is essential for the wellbeing and future prosperity of the industry that consumer confidence is underpinned in the production of food, from the primary sector to processing through to the consumer.

Nid adolygiad o fiwrocratiaeth mo hwn. Gwnaethom hynny'n glir iawn pan ddechreuwyd y broses 18 mis yn ôl. Rwy'n synnu bod yr wrthblaid yn dal i gyfeirio at hynny. Os oes unrhyw un yn y Siambr hon, neu unrhyw un arall, yn amau gwerth rheoleiddio o ran ategu uniondeb y diwydiant cynhyrchu bwyd, nid oes ond angen iddynt fod wedi darllen papur newydd yn unrhyw wythnos bron ers y Nadolig. Mae'r holl fater ynghylch halogi cynhyrchion bwyd wedi dangos pwysigrwydd llwyr rheoleiddio i ategu uniondeb ein gallu i hyrwyddo cig coch o Gymru, yn yr achos hwn, fel cynnyrch o'r radd flaenaf. Mae'n hanfodol ar gyfer ffyniant a lles y diwydiant yn y dyfodol fod ffydd defnyddwyr yn cael ei ategu wrth gynhyrchu bwyd, o'r sector sylfaenol i brosesu hyd at y defnyddiwr.

I am staggered that anybody could simply dismiss that as red tape. It shows a fundamental lack of understanding of the importance of regulation to the future of this industry. Many people within the agricultural community and industry will understand exactly what we are seeking to do here and will appreciate the work that is being done. I know, from meetings and conversations with individual farming families and wider groups within the farming community, that people appreciate the work that this Government is doing and the process upon which this Government has embarked in order to not only support investment in individual businesses but shape the future of the industry as a whole.

Rwyf wedi fy syfrdanu y gallai unrhyw un ddiystyru hyn fel dim ond biwrocratiaeth. Mae'n dangos diffyg dealltwriaeth sylfaenol o bwysigrwydd rheoleiddio i ddyfodol y diwydiant hwn. Bydd llawer o bobl o fewn y gymuned a'r diwydiant amaethyddol yn deall beth yn union yr ydym yn ceisio'i wneud yma a byddant yn gwerthfawrogi'r gwaith sy'n cael ei wneud. Gwn, o gael cyfarfodydd a sgyrsiau gyda theuluoedd ffermio unigol a grwpiau ehangach o fewn y gymuned ffermio, fod pobl yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud a'r broses y mae'r Llywodraeth hon wedi dechrau arni nid yn unig er mwyn cefnogi buddsoddi mewn busnesau unigol, ond hefyd er mwyn llunio dyfodol y diwydiant cyfan.

That is why 'Working Smarter' is not a red-tape review and is not about simply criticising bureaucracy. It is about changing the culture within the industry and the culture of regulation to ensure that we are all able to work together—Government and stakeholders, industry and community alike—to achieve change across the industry. That is a fundamental part of what we are doing, a fundamental part of what we launched 18 months ago and a fundamental part of what Gareth has reported on. I am disappointed that the Conservatives do not understand or appreciate that.

Dyna pam nad adolygiad o fiwrocratiaeth mo 'Hwyluso'r Drefn' ac nad yw'n ymwneud â dim ond beirniadu biwrocratiaeth. Mae'n ymwneud â newid y diwylliant o fewn y diwydiant a'r diwylliant rheoleiddio i sicrhau ein bod i gyd yn gallu gweithio gyda'n gilydd—y Llywodraeth a rhanddeiliaid, y diwydiant a'r gymuned fel ei gilydd—i gyflawni newid ar draws y diwydiant. Mae hynny'n rhan hanfodol o'r hyn yr ydym yn ei wneud, yn rhan hanfodol o'r hyn a lansiwyd gennym 18 mis yn ôl ac yn rhan hanfodol o'r hyn y mae Gareth wedi adrodd arno. Rwy'n siomedig nad yw'r Ceidwadwyr yn deall nac yn gwerthfawrogi hynny.

Moving on to answer some of the individual questions that were asked, I have read, have recognised and have discussed with Gareth his comments on Glastir. It is not my intention to rebrand Glastir. I undertook a stocktake of Glastir last year and I made it very clear, as part of that stocktake, that we would be entrenching Glastir and reforming it to be the Government's pillar 2 agri-environment scheme from now through to 2020, the end of the next CAP period.

A symud ymlaen i ateb rhai o'r cwestiynau unigol a ofynnwyd, rwyf wedi darllen, wedi cydnabod ac wedi trafod â Gareth ei sylwadau ar Glastir. Nid yw'n fwriad gennyf ail-frandio Glastir. Euthum ati i bwyso a mesur Glastir y llynedd a nodais yn glir iawn, fel rhan o'r pwyso a mesur, y byddem yn sicrhau bod Glastir yn ymwreiddio ac y byddem yn ei ddiwygio i fod yn gynllun amaeth-amgylchedd colofn 2 y Llywodraeth o hyn hyd at 2020, sef diwedd cyfnod nesaf y PAC.

We do not yet fully know the consequences of the CAP reform for the scheme as it exists. I expect to make some changes to Glastir in order to make it compliant with new CAP structures, but I also believe that Glastir is already compliant with the majority of the demands of the new CAP structures. Clearly, that is something to which we will return when we are familiar with the architecture of the new CAP.

Nid ydym yn gwybod yn hollol eto beth fydd canlyniadau diwygiadau'r PAC ar gyfer y cynllun fel y mae'n bodoli. Rwy'n disgwyl gwneud rhai newidiadau i Glastir er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â strwythurau newydd y PAC, ond rwyf hefyd yn credu bod Glastir eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o ofynion strwythurau newydd y PAC. Wrth reswm, mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn dychwelyd ato pan fyddwn yn gyfarwydd â phensaernïaeth y PAC newydd.

On other matters to do with movement restrictions and reporting requirements, they are issues to which we will return. I have already discussed these issues with the relevant Minister, John Griffiths, and we have agreed to meet early to take these issues forward. However, the figure of 30% for farmers who are currently reporting within the required period is an unacceptably low figure. If you look at a seven-day reporting period, the figure only goes up to 45%, so it is not an issue of the timescale. It is not an issue of the technology available to people either; there is a multitude of different ways by which movements can be reported. I will say this: movements must be reported; it is what the regulations demand. That must be delivered by the community; if it is not delivered by the community, I will not look at alternatives to this until it is being delivered. We will ensure that these rules are complied with. It is not good enough to come here and say that this rule is not being complied with and that it should, therefore, be abandoned. That is not a realistic approach. It is not an approach that any other Government would accept, and it is not an approach that this Government will accept either.

Ar faterion eraill yn ymwneud â chyfyngiadau ar symud a gofynion adrodd, maent yn faterion y byddwn yn dychwelyd atynt. Rwyf eisoes wedi trafod y materion hyn â'r Gweinidog perthnasol, John Griffiths, ac rydym wedi cytuno i gyfarfod yn gynnar i fwrw ymlaen â'r materion hyn. Fodd bynnag, mae'r ffigur o 30% ar gyfer ffermwyr sydd ar hyn o bryd yn adrodd o fewn y cyfnod gofynnol yn ffigur annerbyniol o isel. Os edrychwch ar gyfnod adrodd saith diwrnod, nid yw'r ffigur ond yn codi i 45%, felly nid mater yn ymwneud â'r amserlen ydyw. Nid yw'n ymwneud â'r dechnoleg sydd ar gael i bobl chwaith; mae llu o wahanol ffyrdd y gellir adrodd am symudiadau. Dywedaf hyn: rhaid adrodd am symudiadau; mae'n rhywbeth y mae'r rheoliadau'n ei fynnu. Rhaid i hynny gael ei wneud gan y gymuned; os nad yw'n cael ei wneud gan y gymuned, ni fyddaf yn edrych ar ddewisiadau eraill yn lle hyn hyd nes y bydd yn cael ei wneud. Byddwn yn sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau hyn. Nid yw'n ddigon da dod yma a dweud nad oes cydymffurfiaeth â'r rheol ac y dylid, felly, gael gwared arni. Nid yw hynny'n ddull realistig. Nid yw'n ddull y byddai unrhyw Lywodraeth arall yn ei dderbyn, ac nid yw'n ddull y bydd y Llywodraeth hon yn ei dderbyn chwaith.

To conclude my response to the comments of the Conservative spokesperson, I will say that I have spoken to Gareth privately on numerous occasions about the work that he has been undertaking. He is very supportive of the work that officials are doing to improve the way in which we provide services to the farming community. He is very supportive of the work of the farm liaison teams and of the work that our divisional officers are doing in delivering excellence in terms of the service provided to farmers. We will be ensuring that communication is at the heart of what we do with regard to CAP and Glastir in future. It is not a spin-doctor approach—or whatever cliché from a decade ago the Conservative spokesperson may wish to use—it is to ensure that farmers understand the opportunities available to them from the new CAP or under Glastir. That is about ensuring high-quality customer service, and that is what we will be delivering for farmers up and down Wales.

I gloi fy ymateb i sylwadau llefarydd y Ceidwadwyr, dywedaf fy mod wedi siarad â Gareth yn breifat droeon am y gwaith y mae wedi bod yn ei wneud. Mae'n gefnogol iawn i'r gwaith y mae swyddogion yn ei wneud i wella'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i'r gymuned ffermio. Mae'n gefnogol iawn i waith y timau cysylltwyr fferm a'r gwaith y mae ein swyddogion adrannol yn ei wneud o ran cyflawni rhagoriaeth yn y gwasanaeth a ddarperir i ffermwyr. Byddwn yn sicrhau bod cyfathrebu wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud o ran PAC a Glastir yn y dyfodol. Nid yw'n ddull dewin delwedd—neu pa bynnag ystrydeb o ddegawd yn ôl y mae llefarydd y Ceidwadwyr yn dymuno ei defnyddio—mae'n golygu sicrhau bod ffermwyr yn deall y cyfleoedd sydd ar gael iddynt o dan y PAC newydd neu o dan Glastir. Mae hynny'n ymwneud â sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel i gwsmeriaid, a dyna'r hyn y byddwn yn ei gyflawni ar gyfer ffermwyr ar hyd a lled Cymru.

16:52 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Croesawais y broses hon o hwyluso'r drefn, a chroesawais waith Gareth Williams pan wnaethpwyd y darn cyntaf hwn o waith ganddo. Hefyd, croesawais y ffaith bod y Dirprwy Weinidog wedi bod yn ddigon dewr i wahodd Gareth Williams yn ôl i graffu ar y cynnydd ar yr argymhellion. Rwy'n siŵr, ac yn gobeithio, y bydd y tryloywder hwnnw yn parhau. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod elfennau wedi dangos cynnydd yn y gwaith hyd yn hyn, ac mae'n beth positif bod 29 o argymhellion wedi cael eu cwblhau. Nid wyf wedi edrych eto i weld a oedd pob un o'r 20 o argymhellion a oedd i fod wedi'u cwblhau erbyn mis Gorffennaf y llynedd ymhlith y 29 o argymhellion hynny—efallai ddim—ond byddwn yn cadw llygad ar hynny.

I welcomed this process of working smarter, and welcomed the work of Gareth Williams when he did his first piece of work. Also, I welcomed the fact that the Deputy Minister had been brave enough to invite Gareth Williams back to scrutinise the progress made on the recommendations. I am sure, and I hope, that that transparency will continue. I also welcome the fact that there has been progress in some elements of the work to date, and it is positive that 29 recommendations have been completed. I have not checked whether all of the 20 recommendations that were supposed to have been completed by last July were among those 29 recommendations—perhaps not—but we will keep an eye on that.

Mae llawer i'w groesawu, ond rwy'n teimlo bod ychydig o feysydd allweddol sydd yn dal i fod yn araf o ran cynnydd, ac mae llefarydd y Ceidwadwyr wedi cyfeirio at rhai ohonynt. Un ohonynt yw'r rheol ar wahardd symud o fewn chwe diwrnod. Nid yw'r mater hwn yn un syml, wrth gwrs—rydym i gyd yn cydnabod hynny. Fodd bynnag, ni fuaswn yn meddwl ei bod yn amhosibl dangos mwy o gynnydd erbyn hyn. Mae Gogledd Iwerddon a'r Alban â chyfleusterau gwahanu ac ynysu sy'n caniatáu iddynt weithredu yn fwy masnachol, a hynny'n fwy masnachol na'u cystadleuwyr yma yng Nghymru. Wrth gwrs, mae cyfleusterau eisoes ar gael yng Nghymru ar lefel llawer mwy cyfyngedig ar gyfer symud anifeiliaid sioe ac anifeiliaid bridio. Fodd bynnag, mae'n fwy na blwyddyn ers i'r grŵp llywio gwybodaeth am dda byw drafod hyn am y tro cyntaf. Y teimlad yr wyf yn ei gael yw bod y drafferth yn gorwedd yn adran yr amgylchedd o fewn Llywodraeth Cymru.

There is much to welcome, but I feel that there are some key areas that are still slow in showing any progress, and the Conservative spokesperson has referred to some of them. One of those is the six-day restriction on animal movement. It is not a simple matter, of course—we all acknowledge that. However, I would not think it impossible to show more progress by now. Northern Ireland and Scotland have facilities to separate and isolate stock that allow them to act more commercially and more commercially than their competitors here in Wales. Of course, there are facilities already available in Wales on a far more restricted level for moving show animals and breeding stock. However, it is more than a year since the livestock information steering group discussed this for the first time. The feeling that I have is that the difficulty lies in the department for the environment within the Welsh Government.

Rydych wedi rhoi pwyslais, yn berffaith iawn, ar yr angen i ffermydd ymddwyn fel busnesau mwy masnachol. Hoffwn ofyn i chi, felly, a ydych yn fodlon bod gennych ddigon o reolaeth dros yr holl faterion sy'n effeithio ar allu ffermwyr i weithredu'n fasnachol? Fel yr oeddwn yn ei ddweud, yr argraff yr wyf yn ei gael yw bod trafferth o fewn adran yr amgylchedd yn hynny o beth. A yw'r diffyg cynnydd ar y mater penodol hwn yn symptom o'r ffordd amhriodol y cafodd yr hen adran dros faterion gwledig ei rhannu i fyny gan y Llywodraeth bresennol? Rwy'n ategu eto'r angen i ddod â chyfrifoldeb dros iechyd anifeiliaid yn ôl o dan ofal y Gweinidog amaeth, oherwydd, fel y dywedodd Gareth Williams yn ei adroddiad gwreiddiol, mae'r gwahaniaethu hwn rhwng cyfrifoldebau yn her ychwanegol pan rydych yn edrych ar 'joined-up working', sef yr hyn yr ydym, gobeithio, yn symud tuag ato.

You have placed an emphasis, quite rightly, on the need for farmers to behave as commercial businesses. I would like to ask you, therefore, whether you are content that you have sufficient control over all of these issues that impact on farmers' ability to operate on a commercial basis? As I said, the impression I get is that there is difficulty within the department for the environment in this regard. Is the lack of progress on this particular matter a symptom of the inappropriate way that the former department for rural affairs was split up by the current Government? I highlight again the need to bring responsibility for animal health back under the care of the Minister for agriculture, because, as Gareth Williams said in his original report, this differentiation between responsibilities is an additional challenge when you are looking at joined-up working, which is what, hopefully, we are moving towards.

Rwyf innau hefyd yn mynd i gyfeirio at adrodd ar symudiadau gwartheg o fewn tri diwrnod. Wrth gwrs, rydych wedi cyfeirio—fel y mae nifer ohonom wedi cyfeirio—at lawer o'r sentiment gwrth-Ewropeaidd sydd wedi dod yn fwy blaenllaw dros y cyfnod diwethaf hwn. Yr eironi yw mai rheol sydd wedi cael ei chreu yn llawer nes at adref yw hon yn hytrach na rhywbeth y mae Brwsel yn ei fynnu. Gallwn ddadlau bod achos da dros ei chyflwno yn y lle cyntaf. Erbyn hyn, byddwn yn dadlau ei bod yn ormodol a'i bod yn anheg gofyn i ffermwyr gwrdd â thri diwrnod. Rwy'n deall y pwyntiau yr ydych wedi'u gwneud, ond mae'r ganran, fel yr ydych wedi'i ddweud eich hun, yn uwch pan ydych yn edrych ar faint sy'n ymateb o fewn saith niwrnod. Mae pwynt pwysig yma, sef byddai newid y rheol honno'n benodol i ganiatáu saith niwrnod i ymateb, yn anfon neges bwysig i'r gymuned amaethyddol yng Nghymru bod y Llywodraeth hon o ddifrif ynglŷn â newid y ffordd y mae'n gweithio, achos cymryd a rhoi yw hi mewn gwirionedd ac rwy'n meddwl y byddai honno'n neges bwysig iawn. Gofynnaf ichi felly i ystyried caniatáu rhoi saith niwrnod i ffermwyr Cymru adrodd ar symudiadau gwartheg.

I am also going to make reference to reporting on cattle movements within three days. Of course, you have referred—as have a number of us—to much of the anti-European sentiment that has become more prominent over this past period. The irony is that this is a rule that has been created far closer to home rather than something that is being imposed by Brussels. It could be argued that there was a strong case for introducing it in the first place. Now, I would argue that it is excessive and that it is unfair to ask farmers to meet that three-day requirement. I understand the points that you have made, but the percentage, as you have said yourself, is higher when you look at how many respond within seven days. There is an important point here, which is that a change in that particular rule to allow seven days in which to respond, would send an important message to the agricultural community in Wales that the Government here is serious about changing the way in which it works, because it is about give and take, really, and I think that would be a very important message. I therefore ask you to consider allowing seven days for Welsh farmers to report on cattle movements.

Rwyf hefyd eisiau sôn am ffermwr a gysylltodd â mi ond yr wythnos diwethaf yn mynegi rhwystredigaeth gwbl ddealladwy am iddo gael ei hysbysu am ymweliad i ddarllen tagiau ei wartheg—y 1,000 ohonynt sydd ganddo ar ei fferm—ond bod hynny wedi dod lai na thair wythnos ar ôl cynnal profion TB ar y gwartheg hynny, a oedd yn golygu bod y tagiau newydd gael eu darllen o leiaf ddwywaith. Dyna'n union yw'r math o beth yr wyf i'n meddwl y mae'r gwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Felly, a wnewch chi gadarnhau bod newidiadau yn y trefniadau hyn ar droed, yn enwedig o safbwynt y modd y mae hyn yn cael ei gynnwys yng nghytundebau'r milfeddygon sy'n dod allan i edrych ar hyn?

I also want to mention a farmer who contacted me just last week expressing very understandable frustration because he had been informed about a visit to read cattle tags—he has 1,000 cattle on his farm—and that came less than three weeks after TB tests on those cattle, which meant that the tags had already been read at least twice. That is exactly the sort of thing that I think this work is trying to get to grips with. Therefore, will you confirm that changes in these arrangements are in the pipeline, particularly with regard to how this is included in the contracts of the vets who come out to look at this?

Mae adran benodol yn yr adroddiad diweddaru ar gynllunio, sy'n rhywbeth sy'n cyfyngu ar nifer o fusnesau fferm. Hoffwn i chi, Ddirprwy Weinidog, ymhelaethu ar sut y byddwch chi'n bwydo'r materion hyn i mewn i ystyriaethau'r Gweindog amgylchedd ar y Bil cynllunio, oherwydd mae rôl bwysig i'w chwarae yno. Hefyd, mae tŷb nad oes modd glynu at reolau a rheoliadau amgylcheddol yn ogystal â darparu digon o fwyd, neu o leiaf bod y ddau beth yn gwrthdaro. Rydym ni'n gwybod bod modd gwneud y ddau os yw'r rheolau yn rhesymol, yn gymesur ac yn ddealladwy. Wrth gwrs, mae'r rôl honno yn awr yn mynd i gael ei chwarae gan gyfoeth naturiol Cymru wrth greu'r diwylliant newydd hwn y mae 'Hwyluso'r Drefn' am ei weithredu, a'r berthynas newydd hon o barch ac ymddiriedaeth rhwng ffermwyr a'r awdurdodau sy'n arolygu a rheoleiddio ac yn y blaen. Rwy'n meddwl bod y pwynt y mae Gareth Williams yn ei wneud am ddiffyg cynrychiolaeth o'r sector amaeth ar fwrdd cyfoeth naturiol Cymru yn un dilys. Mae'n dweud yn yr adroddiad diweddaru nid yw'n gyson annog asiantaethau a rhanddeiliaid ar y naill law i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn creu newid cadarnhaol yn y diwydiant, tra'n cau allan ar y llall gwybodaeth a sgiliau yr union gyrff sy'n mynd i helpu i wneud y newidiadau hynny.

There is a specific section in the update report on planning, which is something that limits a number of farm businesses. I would like you, Deputy Minister, to expand upon how you will feed these issues into the considerations of the Minister for environment on the planning Bill, because it has an important role to play. Also, there is a perception that it is not possible to stick to environmental rules and regulations and to provide enough food, or at least those things are perceived to be in conflict. We know that it is possible to do both if the rules are reasonable, proportionate and understood. Of course, that role will now be held by natural resources Wales in creating this new culture that 'Working Smarter' wants to see implemented and this new relationship of respect and trust between farmers and the authorities that inspect and regulate and so on. I think that the point that Gareth Williams makes about a lack of representation of the agricultural sector on the board of natural resources Wales is valid. He states in his update report that it is not consistent to encourage agencies and stakeholders on the one hand to work in partnership with the Welsh Government in order to create a positive change in the industry, while shutting out the knowledge and skills of the very bodies that are going to help to make those changes.

Rwy'n ymwybodol bod trefniadau ar droed gan gyfoeth naturiol Cymru o safbwynt ymwneud â gwahanol fudd-ddeiliaid, ond hoffwn wybod pa drafodaethau y byddwch chi'n eu cael â chyfoeth naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod llais y sector amaeth yn cael ei glywed yn glir yng ngwaith y corff newydd.

I am aware that arrangements are in hand by natural resources Wales in terms of its relationship with various stakeholders, but I would like to know what discussions you will have with natural resources Wales to ensure that the voice of the agricultural sector is heard clearly in the work of the new body.

16:58 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn ddiolch i Llyr am ei eiriau ac am y croeso y mae wedi'i estyn i'r adroddiad, yn ogystal â chydnabyddiaeth o'r gwaith y mae Gareth Williams wedi'i wneud. Gall pob un ohonom ar draws y Siambr heddiw werthfawrogi'r gwaith a'r amser y mae Gareth Williams wedi'u rhoi i'r prosiect hwn. Rwy'n gwybod ei fod wedi mwynhau'r gwaith, ond mae wedi treulio llawer o amser yn deall y materion ac wedyn yn meddwl yn drwm am sut yr ydym yn gweithredu'r argymhellion y mae'n eu gwneud. Rydych yn cydnabod bod y broses wedi bod yn un hir, ac rwy'n hapus iawn i gydnabod hefyd ein bod yn adeiladu ar waith fy rhagflaenydd, a'r gwaith a wnaeth hi gyda Peredur Hughes, sef y gwaith cychwynnol sydd wedi creu'r seilwaith i ni fynd â'r broses yn ei blaen. Rwy'n hapus i gydnabod gwaith pob un o'r bobl hyn.

I would like to thank Llyr for his words and for the welcome that he has given to the report, as well as the recognition of the work that Gareth Williams has undertaken. Every one of us across the Chamber today can appreciate the work and time that Gareth has invested in this project. I know that he has enjoyed the work, but he has spent a great amount of time getting to grips with these issues and then thinking deeply about how exactly we implement the recommendations that he has made. You recognise that the process has been a long one, and I am very happy to recognise that we are building on the work of my predecessor, and the work that she undertook with Peredur Hughes, which was the initial work that set up the basis for taking the process forward. I am happy to recognise the work of all those people.

O ran y cwestiynau penodol, rydych wedi dewis meysydd sydd y tu hwnt i fy mhortffolio i, a hynny ym mhob un o'ch cwestiynau, fel mae'n digwydd. Mae John Griffiths yn ei sedd yn y Siambr ac mae ef wedi gwrando ar eich cwestiynau. Mae llawer o waith wedi cael ei wneud ar sawl un o'ch cwestiynau ar symud anifeiliaid. Nid ydym eto wedi dod i gytundeb ar hynny. Bu ichi drafod y gwahanu ac ynysu sy'n digwydd mewn mannau eraill. Argymhellir y rhain ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, nid oedd pobl yn teimlo'n hyderus amdanynt ac roeddent yn meddwl eu bod yn fwy lletchwith na'r rheolau presennol, ac felly nid ydym wedi dod i gytundeb ar hynny. Ysgrifennodd John Griffiths ataf ddoe i esbonio sut y mae'n disgwyl symud ymlaen gyda'r gwaith hwn. Edrychaf ymlaen at gyfarfod â John yn fuan iawn i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei yrru ymlaen. Mae pob un o'r Gweinidogion yn awyddus i weld y gwaith hwn yn dod i ben ac rydym yn ymrwymo i wneud hynny eto y prynhawn yma.

On the specific questions that you asked, you have chosen fields that are beyond my portfolio, in each and every one of your questions, as it happens. John Griffiths is in his seat in the Chamber and he has been listening to your questions. A lot of work has been done on many of your questions on the movement of animals. We have not come to an agreement on that as yet. You discussed the separation and the isolation that happens in other areas. These are recommended for Wales. However, people did not feel confident enough about them and they felt that they were more awkward than the current rules, so we have not come to an agreement on those as yet. John Griffiths wrote to me yesterday explaining how he expects to push ahead with this work. I look forward to meeting with John very soon to ensure that this work is driven forward. Each and every one of us as Ministers is eager to see this work coming to an end and we commit to doing so this afternoon.

Gwnaethoch bwyntiau da iawn o ran y ffordd yr ydym yn arolygu ffermydd. Gwn fod rhywfaint o rwystredigaeth ar lawr gwlad o ran y ffordd y mae hynny'n digwydd. Rydym wedi dweud ein bod yn awyddus iawn i symud ymlaen i leihau'r math o adolygiadau y sonioch amdanynt yn eich cyfraniad. Rydym yn cydweithio gyda sawl un o'r sefydliadau gwahanol i sicrhau ein bod yn gwneud hynny.

You made very good points as regards how we review farms. I think that there is some frustration on the ground in terms of how that happens. We have said that we are very keen to move forward to reduce the types of inspections that you talked about in your contribution. We are working with several different bodies to ensure that we can do so.

O ran cynllunio, fel yr wyf wedi esbonio yn barod, rwyf fi, Edwina Hart a John Griffiths yn gweithio'n agos iawn gyda'n gilydd. Rydym wedi trafod nid yn unig y Bil cynllunio ond effaith cynllunio ar ffermydd Cymru ac economi cefn gwlad. Mae hwn yn rhywbeth rydym yn ei drafod yn rheolaidd. Trafodais hwn gyda John Griffiths—ac rwy'n edrych arno yn awr—ryw bythefnos yn ôl rwy'n credu, a gobeithiaf y gallwn symud ymlaen â hynny yn fuan iawn.

On planning, as I have already explained, Edwina Hart, John Griffiths and I are working closely together. We have discussed not just the planning Bill, but the impact that planning has on farms in Wales and the rural economy. This is something that we are discussing on a regular basis. I have discussed this with John Griffiths—and I am looking at him now—about a fortnight ago I think, and I hope that we can move forward in relation to that quite soon.

Rwy'n cyfarfod ag Emyr Roberts yfory, fel mae'n digwydd, i drafod sut y bydd cyfoeth naturiol Cymru yn gweithredu. Nid wyf am wneud sylw penodol ar strwythur a natur bwrdd cyfoeth naturiol Cymru, ond hoffwn wneud un sylw. Ambell waith, mae nifer o gyrff yn disgwyl cael cynrychiolydd ar bob un grŵp, bwrdd neu beth bynnag. Mae achos ambell waith i gael cyngor neu fwrdd o bobl sy'n cael eu dewis fel unigolion ac nid dim ond fel cynrychiolwyr ar ran pobl neu gyrff eraill. Mae hynny weithiau yn gallu creu ansicrwydd ymhlith rhai sefydliadau. Mae'n bwysig nad ydym bob tro yn penodi grwpiau neu fyrddau o bobl sy'n cynrychioli rhywun arall. Weithiau, mae achos i benodi unigolion oherwydd eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u harbenigedd personol. Y peth pwysig yw gwneud penderfyniadau sy'n cael eu gweld fel penderfyniadau teg a chael profiad ar draws meysydd gwahanol. Felly, rwy'n disgwyl i gyfoeth naturiol Cymru ddefnyddio sgiliau y bobl sydd ar y bwrdd. Mae nifer ohonom yn y Siambr yn adnabod Emyr ac yn ymwybodol o'i gefndir personol, ac rwy'n hyderus y bydd yn sicrhau bod y sector a'r gymuned amaethyddol yn cael eu cynrychioli ym mhob darn o waith a wneir gan y corff newydd.

I am meeting Emyr Roberts tomorrow, as it happens, to discuss how natural resources Wales will operate. I do not want to make a specific comment on the structure and the nature of natural resources Wales, but I would like to make one comment. Sometimes, several bodies expect to have a representative on every group, board or whatever. There is sometimes a case for having a council or board of people who are chosen as individuals rather than as representatives of other people or bodies. That can sometimes create uncertainty among some organisations. It is important that we do not always appoint groups or boards of people who represent others. Sometimes, there is a case for having individuals who have been appointed because of their skills, their knowledge and expertise. The important thing is to make decisions that are seen to be fair and to have experience across all different fields to undertake the work. Therefore, I expect natural resources Wales to use the skills of the people on the board. A lot of us in the Chamber know Emyr and know his personal background, and I am confident that he will ensure that the sector and the agriculture community will be represented in every element of the work of the new body.

17:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Before I call the final speaker, it is nearly half an hour into this item and we have managed to get through the statement and just two other questioners. I really think that the Assembly needs to reflect on this, and all of the official spokespeople—although the Conservative one did not take long, on this occasion—and the Ministers need to speed things up and concentrate their efforts on more specific questions.

Cyn i mi alw ar y siaradwr olaf, mae bron hanner awr ers i ni ddechrau'r eitem hon ac rydym wedi llwyddo i fynd drwy'r datganiad a chwestiynau gan ddim ond dau holwr arall. Rwy'n credu bod angen i'r Cynulliad feddwl am hyn, a phob un o'r llefarwyr swyddogol—er na chymerodd un y Ceidwadwyr lawer o amser, ar yr achlysur hwn—ac mae angen i'r Gweinidogion gyflymu pethau a chanolbwyntio eu hymdrechion ar gwestiynau mwy penodol.

17:04

## William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I would like to thank the Deputy Minister very much for making this important statement today and for updating us on Gareth Williams's work. It is fair to say that this updated report is a very workman-like piece of work and has much to commend it.

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog yn fawr iawn am wneud y datganiad pwysig hwn heddiw ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar waith Gareth Williams. Mae'n deg dweud bod yr adroddiad hwn wedi'i ddiweddaru'n ddarn hynod grefftus o waith ac mae llawer i'w ganmol ynddo.

In the time that has passed since the report was first produced, it is fair to say that our farming industry has had one of the toughest times on record. Aside from the weather, which was so difficult for the harvest this year, we have had the uncertainties around the common agricultural policy, the trauma that much of the farming sector is in with regard to our future within the European Union—which has been thrown up by discussions elsewhere—a severe drop in land prices and, of course, as the Deputy Minister has referred to already, the horsemeat scandal. Taking all of these together, it is no surprise that we are facing difficult times, and the Welsh Government's projections were referred to earlier in questions to the First Minister. With these issues in mind, the 'Working Smarter' recommendations are all the more essential. I am pleased about the level of progress that we have had on the quick wins and that a total of 29 recommendations are already complete, with the remainder in progress.

Yn yr amser a aeth heibio ers i'r adroddiad gael ei gynhyrchu gyntaf, mae'n deg dweud bod ein diwydiant ffermio wedi cael un o'r adegau mwyaf anodd ar gofnod. Ar wahân i'r tywydd, a oedd mor anodd ar gyfer y cynhaeaf eleni, cafwyd yr ansicrwydd ynghylch y polisi amaethyddol cyffredin, y trawma y mae llawer o'r sector ffermio ynddo o ran ein dyfodol o fewn yr Undeb Ewropeaidd—a grybwyllwyd mewn trafodaethau mewn mannau eraill—a gostyngiad difrifol ym mhrisiau tir ac, wrth gwrs, fel y mae'r Dirprwy Weinidog wedi cyfeirio ato eisoes, y sgandal cig ceffyl. Ac ystyried pob un o'r rhain gyda'i gilydd, nid yw'n syndod ein bod yn wynebu cyfnod anodd, a chyfeiriwyd yn gynharach at amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog. O ystyried hyn oll, mae argymhellion 'Hwyluso'r Drefn' hyd yn oed yn fwy hanfodol. Rwy'n falch ynghylch lefel y cynnydd a gafwyd o ran y llwyddiannau cyflym, a bod cyfanswm o 29 o argymhellion eisoes wedi'u cyflawni, gyda'r gweddill yn mynd rhagddynt.

On the subject of progress, I would like to return to EID and internet coverage across Wales. Deputy Minister, you dwelt significantly in your statement on the further information technology investment that is needed to allow effective data transfer management to take place. Given this need for further investment, will you please expand on how confident you are that the Superfast Cymru programme will extend broadband services sufficiently for farmers to take full advantage of EID Cymru? What markers of success are being put in place to monitor that roll-out? What alternatives exist for those who are not in a position to take advantage of internet services or do not have the relevant information and technology skills?

O ran cynnydd, hoffwn ddychwelyd at EID a signal y rhyngrwyd ar draws Cymru. Ddirprwy Weinidog, soniasoch gryn dipyn yn eich datganiad ar y buddsoddiad ychwanegol sydd ei angen o ran technoleg gwybodaeth er mwyn gallu rheoli trosglwyddo data'n effeithiol. O ystyried yr angen hwn am fuddsoddi pellach, a wnewch chi ymhelaethu ar ba mor hyderus yr ydych chi y bydd y rhaglen Cyflymu Cymru yn estyn gwasanaethau band eang yn ddigonol i ffermwyr allu manteisio i'r eithaf ar EID Cymru? Pa farcwyr llwyddiant sy'n cael eu rhoi ar waith i fonitro'r gwaith cyflwyno hwnnw? Pa ddewisiadau eraill sydd i'r rhai nad ydynt mewn sefyllfa i fanteisio ar wasanaethau rhyngrwyd, neu nad oes ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau technolegol perthnasol?

I would like to return to the original report. Last year, I raised with you suggestions that were offered by Gareth Williams as to what we can learn and apply from the Scottish model with regard to passport stickers in the animal health and welfare regulations. Could you expand on progress within this area given recent issues, particularly around animal passports, and what work has been done during the course of the past year?

Hoffwn ddychwelyd at yr adroddiad gwreiddiol. Y llynedd, codais gyda chi awgrymiadau a gynigiwyd gan Gareth Williams o ran yr hyn y gallwn ei ddysgu a'i ddefnyddio o fodel yr Alban o ran sticeri pasbort yn y rheoliadau iechyd a lles anifeiliaid. A wnewch chi ymhelaethu ar gynnydd yn y maes hwn o ystyried materion diweddar, yn enwedig ynghylch pasbortau anifeiliaid, a'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

There is, as ever, the issue of less favoured areas support. While it is clear that the EU rules prevents its inclusion in Glastir, there is, as Commissioner Cioloş has made evident, nothing that prevents the Welsh Government from taking additional steps to address a projected fall in upland incomes of more than 15%. What analysis have you undertaken as to the effect that Glastir will have on these incomes, given the recent events?

Rhaid ystyried, fel arfer, fater cymorth ardaloedd llai ffafriol. Er ei bod yn amlwg fod rheolau'r UE yn golygu nad oes modd ei gynnwys yn Glastir, nid oes dim, fel y mae'r Comisiynydd Cioloş wedi ei amlygu, sy'n atal Llywodraeth Cymru rhag cymryd camau ychwanegol i fynd i'r afael â gostyngiad a ragwelir o fwy na 15% mewn incwm ucheldir. Pa ddadansoddiad a wnaed gennych ynglŷn â'r effaith y bydd Glastir yn ei chael ar yr incwm hwn, o ystyried digwyddiadau diweddar?

Finally, I would like to commend something that I have noticed in the template letters in the report's annexe, namely that there is a significant improvement in the appropriateness of the tone and the courtesy shown by public servants to farmers the length and breadth of Wales. I would encourage the Deputy Minister to further encourage his officials to take that improvement forward.

Yn olaf, hoffwn ganmol rhywbeth yr wyf wedi sylwi arno yn y llythyrau templed yn atodiad yr adroddiad, sef bod gwelliant sylweddol o ran priodoldeb y dôn a'r cwrteisi a ddangosir gan weision cyhoeddus tuag at ffermwyr ar hyd a lled Cymru. Byddwn yn annog y Dirprwy Weinidog i annog ei swyddogion i fwrw ymlaen â'r gwelliant hwnnw.

17:07 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In thanking the Liberal Democrat spokesperson for his general welcome of the report, I must say that he paints a dark picture of agriculture. His final comments on the future of LFA support sit somewhat uneasily with his party's desire to see significant reductions in pillar 1 payments. I must say to the Liberal Democrats and the Conservatives, who have sought significant reductions to CAP payments, direct payments and to the level of support for farm incomes across Wales, if you want to see these things, then you need to vote for them. It is not credible for you to come to the Chamber and demand additional payment systems while at the same time arguing for significant reductions to pillar 1 payments that would imperil the future viability of a significant part of the agriculture industry. You are simply not credible on these matters by trying to adopt both these positions whenever it suits you. I say that to the Liberal Democrats and the Conservatives alike.

Wrth ddiolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei groeso cyffredinol i'r adroddiad, mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn rhoi darlun tywyll o amaethyddiaeth. Mae ei sylwadau olaf ar ddyfodol cymorth ALFf braidd yn anghydnaws ag awydd ei blaid i weld gostyngiadau sylweddol mewn taliadau colofn 1. Rhaid i mi ddweud wrth y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr, sydd wedi ceisio sicrhau gostyngiadau sylweddol i daliadau PAC, taliadau uniongyrchol a lefel y gefnogaeth i incwm ffermydd ar draws Cymru, os ydych am weld y pethau hyn, yna mae'n rhaid i chi bleidleisio drostynt. Nid yw'n gredadwy i chi ddod i'r Siambr a galw am systemau taliadau ychwanegol a dadlau ar yr un pryd dros ostyngiadau sylweddol i daliadau colofn 1 a fyddai'n peryglu hyfywedd rhan helaeth o'r diwydiant amaeth yn y dyfodol. Nid ydych yn gredadwy o gwbl ar y materion hyn drwy geisio mabwysiadu'r ddau safbwynt hyn pryd bynnag y mae'n gyfleus i chi. Dywedaf hynny wrth y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr fel ei gilydd.

When it comes to the technology issues that William Powell has raised, my colleague the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, Edwina Hart, made a significant announcement last week on the funding available for the expansion of broadband provision across Wales. It is our view that this programme will significantly enhance the ability of farming families and businesses across the whole of Wales to access fast broadband. We are piloting how we will use these broadband services to deliver an enhanced administrative role and reduce the administrative burden on individual farm businesses. At the moment, those pilot schemes are going extremely well, and I think that Gareth refers to them in his report. We will continue to monitor how the roll-out of superfast broadband will enable us to meet our target of moving to a paperless system by the end of this Assembly. When we are in a position to make further statements on that, we will do so. However, at the moment, we are very confident that we will meet those targets.

O ran y materion yn ymwneud â thechnoleg y mae William Powell wedi'u codi, gwnaeth fy nghydweithiwr, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, Edwina Hart, gyhoeddiad arwyddocaol yr wythnos diwethaf ar y cyllid sydd ar gael i ehangu'r ddarpariaeth band eang ledled Cymru. Rydym o'r farn y bydd y rhaglen hon yn gwella'n sylweddol allu teuluoedd a busnesau ffermio ledled Cymru i gael mynediad i fand eang cyflym. Rydym yn treialu'r ffordd y byddwn yn defnyddio'r gwasanaethau band eang hyn i ddarparu rôl weinyddol well a lleihau'r baich gweinyddol ar fusnesau fferm unigol. Ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau peilot yn mynd yn dda iawn, a chredaf fod Gareth yn cyfeirio atynt yn ei adroddiad. Byddwn yn parhau i fonitro sut y bydd y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn yn ein galluogi i gyrraedd ein targed o symud i system ddibapur erbyn diwedd y Cynulliad hwn. Pan fyddwn mewn sefyllfa i wneud datganiadau pellach ar hynny, byddwn yn gwneud hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, rydym yn hyderus iawn y byddwn yn cyrraedd y targedau hynny.

On the skills available to the farming community, you will be aware that Farming Connect already provides a significant level of support for individual farm businesses that is subsidised by the taxpayer, and which has proved extremely popular over the last few years. We are currently consulting on how we will take Farming Connect forward in the new CAP period. We will make further announcements on that at the conclusion of the consultation on these matters later in the spring or in early summer.

Ar y sgiliau sydd ar gael i'r gymuned ffermio, byddwch yn gwybod bod Cyswllt Ffermio eisoes yn darparu lefel sylweddol o gefnogaeth i fusnesau fferm unigol sy'n cael ei sybsideiddio gan y trethdalwr, sydd wedi bod yn hynod boblogaidd dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym wrthi'n ymgynghori ar sut y byddwn yn datblygu Cyswllt Ffermio yng nghyfnod y PAC newydd. Byddwn yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar hynny ar ddiwedd yr ymgynghoriad ar y materion hyn yn ddiweddarach yn y gwanwyn neu ddechrau'r haf.

On the analysis of future income levels, we have been analysing for some time how different models of payments will impact on individual farm businesses. We are currently involved in a significant consultation process, and I invite the Member to join that consultation process; the Member of Parliament for Brecon and Radnorshire joined us in a consultation event in Llanelwedd last week. It is important for me to ensure that farmers and the farming community across Wales form a part of the conservation and dialogue about how we will support and sustain agriculture in Wales in the future. Understanding the impact of different financial models on individual farm businesses is an essential part of that, and it is something on which we have been working for some time.

O ran y dadansoddiad o lefelau incwm yn y dyfodol, rydym wedi bod yn dadansoddi ers peth amser sut y bydd gwahanol fodelau o daliadau'n effeithio ar fusnesau fferm unigol. Rydym ar hyn o bryd yn rhan o broses ymgynghori sylweddol, ac rwy'n gwahodd yr Aelod i ymuno â'r broses ymgynghori; ymunodd yr Aelod Seneddol dros Frycheiniog a Sir Faesyfed â ni mewn digwyddiad ymgynghori yn Llanelwedd yr wythnos diwethaf. Mae'n bwysig i mi sicrhau bod ffermwyr a'r gymuned ffermio ar draws Cymru'n rhan o'r trafod a'r ddeialog ynghylch sut y byddwn yn cefnogi ac yn cynnal amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Mae deall effaith y gwahanol fodelau ariannol ar fusnesau fferm unigol yn rhan hanfodol o hynny, ac mae'n rhywbeth yr ydym wedi bod yn gweithio arno ers peth amser.

## Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013

## Official Statistics (Wales) Order 2013

Cynnig NDM5183 Jane Hutt

Motion NDM5183 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror 2013.

Approves that the draft The Official Statistics (Wales) Order 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 18 February 2013.

17:12 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The power for Welsh Ministers to make this Order is contained in section 6(1)(b) of the Statistics and Registration Service Act 2007. Section 65(7) of that Act states that Welsh Ministers may not make the Order unless it has been approved in draft by the National Assembly for Wales. This is the first time that this Order-making power has been exercised by Welsh Ministers.

Mae'r grym i Weinidogion Cymru wneud y Gorchymyn hwn wedi'i gynnwys yn adran 6(1)(b) Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007. Mae Adran 65(7) y Ddeddf yn datgan na chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai ei fod wedi ei gymeradwyo ar ffurf ddrafft gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dyma'r tro cyntaf y mae'r grym hwn i wneud Gorchymyn wedi ei arfer gan Weinidogion Cymru.

The purpose of the Order is to designate the statistics produced by five organisations in Wales as official statistics, for the purposes of the Statistics and Registration Service Act 2007. These organisations are the Arts Council of Wales, the natural resources body for Wales, Public Health Wales National Health Service Trust, Sports Council for Wales and the Welsh Language Commissioner. All five organisations have agreed to be named in the Order.

Diben y Gorchymyn yw dynodi'r ystadegau a gynhyrchir gan bum sefydliad yng Nghymru yn ystadegau swyddogol, at ddibenion Deddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007. Y sefydliadau hyn yw Cyngor Celfyddydau Cymru, corff adnoddau naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r pum sefydliad wedi cytuno i gael eu henwi yn y Gorchymyn.

Designating statistics produced by these organisations as official statistics means that these statistics will become subject to monitoring and reporting by the UK Statistics Authority. The organisations will be expected to comply with the standards set out in the code of practice for official statistics and the relevant rules relating to the granting of pre-release access to official statistics. Each of these organisations produces important statistics. The UK Statistics Authority currently has no control over these statistics, and it has no power to make assessment of these statistics against the code of practice. This is inconsistent with the practices followed by the Welsh Government and other departments and agencies across the United Kingdom.

Mae dynodi ystadegau a gynhyrchir gan y sefydliadau hyn yn ystadegau swyddogol yn golygu y bydd yr ystadegau hyn yn dod yn destun monitro ac adrodd gan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Bydd disgwyl i'r sefydliadau gydymffurfio â'r safonau a nodir yn y cod ymarfer ar gyfer ystadegau swyddogol a'r rheolau perthnasol sy'n ymwneud â chaniatáu mynediad i ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau. Mae pob un o'r sefydliadau hyn yn cynhyrchu ystadegau pwysig. Nid oes gan Awdurdod Ystadegau'r DU reolaeth ar hyn o bryd dros yr ystadegau hyn, ac nid oes ganddo rym i wneud asesiad o'r ystadegau yn erbyn y cod ymarfer. Mae hyn yn anghyson â'r arferion a ddilynir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau ac asiantaethau eraill ar draws y Deyrnas Unedig.

This Order is a significant step forward in building trust in official statistics about Wales, and in developing more consistency and transparency as to how official statistics are reported and presented, which, in turn, will inform better use of statistics and better decision making. I commend the Order to the Assembly.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gam sylweddol tuag at feithrin ymddiriedaeth mewn ystadegau swyddogol am Gymru, a datblygu mwy o gysondeb a thryloywder o ran y ffordd y caiff ystadegau swyddogol eu hadrodd a'u cyflwyno, a fydd, yn ei dro, o gymorth i ddefnyddio ystadegau'n well a gwneud penderfyniadau'n well. Cymeradwyaf y Gorchymyn i'r Cynulliad.

17:14 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n falch o'r cyfle i ymateb i'r Gorchymyn hwn. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r Gweinidog am y briff roddodd hi a'i swyddogion i mi ac Aelodau eraill yr wythnos diwethaf.

I am pleased to have an opportunity to respond to this Order. I am also grateful to the Minister for the brief that she and her officials gave to me and other Members last week.

Er fy mod yn gefnogol yn gyffredinol i egwyddor y Gorchymyn hwn, mae gennyf nifer o sylwadau ar rai agweddau sydd ddim yn ymddangos fel pe baent yn cael sylw yn y dogfennau sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn. Rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn cytuno ei bod yn bwysig bod pob un o'r cyrff a restrir yn yr Atodlen yn cynhyrchu gwybodaeth ystadegol sy'n rheolaidd a safonol. Ar hyn o bryd, nid oes gan y bwrdd ystadegau unrhyw reolaeth neu bŵer i wneud asesiadau ar ystadegau'r pum corff hyn yn erbyn ei god. Felly, er mwyn i'r bwrdd ystadegau allu cyflawni ei ddyletswydd i fagu ymddiriedaeth mewn ystadegau swyddogol, mae angen cynnwys y cyrff hyn yn y Gorchymyn.

Although I am generally supportive of the principle of this Order, I have a number of comments on certain aspect that do not appear to have been covered in the documents related to this motion. I am sure that every Member would agree that it is important that every one of the bodies listed in the Schedule produces statistical evidence regularly and to a standard. At present, the statistics board does not have any control or power to carry out assessments of the statistics of these five bodies against its code. Therefore, I accept that, in order for the statistics board to carry out its duty to develop trust in official statistics, these bodies need to be included in the Order.

O gofio y bydd y Gorchymyn hwn ddim ond yn berthnasol i'r pum sefydliad a restrir, efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym o dan ba ganllawiau y penderfynwyd cynnwys y pum sefydliad hyn yn unig. Pam dewis y rhain yn benodol, yn hytrach nag eraill? Rwy'n cwestiynu, er enghraifft, pam fydd y Gorchymyn hwn yn berthnasol i Gomisiynydd y Gymraeg, ac nid i Gomisiynydd Plant Cymru. Efallai gall y Gweinidog egluro hynny.

Bearing in mind that this will only be relevant to the five organisations listed, perhaps the Minister could tell us what guidelines were used to decide on only these five organisations. Why were these specifically chosen, as opposed to others? I question, for example, why this Order would be relevant to the Welsh Language Commissioner and not to the Children's Commissioner for Wales. Perhaps the Minister could explain that.

Derbyniaf fod y dynodiad o ystadegau swyddogol ar y sefydliadau hyn yn golygu y bydd cynhyrchu a chyhoeddi'r ystadegau yn amodol ar fonitro ac adrodd gan y bwrdd ystadegau. Felly, byddai'n briodol nid yn unig i Gomisiynydd y Gymraeg i gydymffurfio â hyn, ond efallai dylai sefydliadau megis swyddfeydd Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru gael eu cynnwys yn y Gorchymyn hwn hefyd.

I accept that the designation as official statistics for these organisations will mean that producing and publishing these statistics will be dependent on monitoring by the statistics board. Therefore, it would be appropriate not only for the Welsh language Commissioner to conform to this but perhaps other institutions, such as the Children's Commissioner for Wales and the Older People's Commissioner for Wales, to also be included in this Order.

Mae'n bwysig, os yw'r ystadegau o'r pum sefydliad yn cael eu dynodi fel ystadegau swyddogol, ein bod yn gallu gwneud y cymariaethau priodol o'r cyrff hyn gyda gwledydd eraill y Deyrnas Unedig ac, yn wir, gwledydd ymhellach i ffwrdd. Felly, buaswn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi'r sicrwydd hwnnw i ni y prynhawn yma. Gobeithio na fydd y dynodiad hwn yn ei gwneud yn fwy anodd i wneud cymariaethau gyda gwledydd a chenhedloedd eraill; yn sicr, dylem fod yn pasio Gorchmynion fel hyn i wneud ystadegau a gynhyrchwyd yn fwy safonol.

It is important, if statistics from these five organisations are to be designated as official statistics, that we can make appropriate comparisons with the bodies in other UK nations and, indeed, countries further afield. Therefore, I would be grateful if the Minister could give us an assurance on that this afternoon. I hope that this designation will not make it more difficult to make comparisons with other nations; certainly, we should be passing Orders like this to ensure that statistics produced are more standardised.

Gobeithiaf hefyd y bydd y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, yn gallu rhoi sicrwydd y bydd y Gorchymyn hwn wir yn arwain at broses fwy tryloyw ac agored yma yng Nghymru. Mae'n hollbwysig bod pobl Cymru yn gallu craffu'n glir ar ystadegau syml a monitro cynnydd neu ddiffyg cynnydd o'r sefydliadau hyn yn erbyn cyrff tebyg ar draws y byd. Drwy nodi'r pum sefydliad hyn fel cynhyrchwyr o ystadegau swyddogol, gobeithiaf yn fawr y bydd yn arwain at ffordd symlach o adrodd gwybodaeth ac y bydd y data yn fwy atebol.

I also hope that the Minister, in responding to this debate, can give us an assurance that this Order will truly lead to a more transparent and open process here in Wales. It is crucially important that the people of Wales can clearly scrutinise simple statistics and monitor progress or lack of progress within these organisations in comparison with similar organisations across the world. By designating these five bodies, I hope that it will lead to a simplified way of reporting information and that the data will provide greater accountability.

Ddirprwy Lywydd, fel rwy'n ei ddeall, fe ddisgwylir i gyrff sy'n cynhyrchu ystadegau swyddogol sydd heb eu dynodi'n ystadegau cenedlaethol, gydymffurfio â'r safonau a nodir yn y cod ymarfer ar gyfer ystadegau swyddogol, ond nid yw hyn yn ofynnol. A all y Gweinidog egluro a fydd y pum sefydliad hyn yn cael eu dynodi fel ystadegau cenedlaethol ac y bydd yn ofynnol iddynt, felly, i gydymffurfio'n llawn â'r cod? Os felly, beth yw'r canlyniadau ar gyfer y rhai nad ydynt yn cydymffurfio?

Deputy Presiding Officer, as I understand it, it is expected, but not a requirement, that bodies producing official statistics not designated as national statistics comply with the standards noted in the code of practice for official statistics. Can the Minister explain whether these five organisations will be designated as national statistics and will they be required, therefore, to comply fully with the code? If so, what are the outcomes for those who fail to comply with the code?

Wrth gloi, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr o blaid cynyddu tryloywder, atebolrwydd ac argaeledd data ar gyfer y sefydliadau hyn. Felly, os gall y Gweinidog sicrhau y bydd cynnwys y pum corff hyn yn y Gorchymyn hwn yn arwain at system fwy tryloyw a safonol sy'n parhau i ganiatáu cymariaethau syml gyda gwledydd eraill, byddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn hapus i gefnogi'r cynnig y prynhawn yma.

In conclusion, we on this side of the Chamber are in favour of increasing transparency, accountability and the availability of data for these institutions. Therefore, if the Minister can give us an assurance that including these five bodies in the Order will lead to a more transparent system, which will continue to allow simple comparisons to be made with other nations, we on this side of the Chamber will be happy to support the motion before us this afternoon.

17:18 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym ni ym Mhlaid Cymru yn cefnogi'r Gorchymyn heddiw. Rydym yn meddwl ei fod yn arwydd bod democratiaeth yng Nghymru yn aeddfedu a bod cyrff yng Nghymru yn awr yn cael eu dynodi fel rhai sy'n cynhyrchu ystadegau cenedlaethol, sy'n golygu, yn fy marn i, eu bod yn gorfod bod yn ddiduedd yn y ffordd y maent yn mynd rhagddi i gasglu ystadegau. Bydd yn rhaid iddynt ddangos tryloywder yn y ffordd y maent yn casglu ystadegau, a bod yn onest—os gallaf ddefnyddio'r gair hwnnw—yn y ffordd y maent yn cyhoeddi'r ystadegau. Mae hwn yn gam ymlaen ac yn gam sy'n dangos hyder yn y sefydliadau newydd hyn. Mae hefyd yn rhoi mwy o hyder pan fydd y sefydliadau yn gwneud dadleuon polisi cyhoeddus ar gefn yr ystadegau y maent yn eu casglu. Yr hyn yr hoffwn weld mwy ohono yng Nghymru yw mwy o benderfyniadau ar sail tystiolaeth, ystadegau a chasglu gwybodaeth drylwyr yn hytrach nag ar sail rhagdybiaeth neu ragfarn, fel sy'n digwydd ambell waith.

We in Plaid Cymru support the Order today. We think that this is a sign that democracy in Wales is maturing and that bodies in Wales are now designated as ones that produce national statistics, which means, in my view, that they have to be unbiased in how they collect statistics. They will have to demonstrate transparency in how they collect statistics, and be honest—if I can use that word—in how they publish the statistics. This is a step forward and a step that demonstrates confidence in these new organisations. It also provides for more confidence when those organisations make public policy arguments based on the statistics that they collect. What I would like to see more of in Wales is decisions made on the basis of evidence, statistics and a thorough gathering of information rather than on assumptions and prejudice, as sometimes happens.

Felly, mae'n dda o beth ein bod yn dynodi cyrff felly. A dweud y gwir, mae angen dynodi mwy o gyrff yn gyrff cenedlaethol â'r lefel hon o dryloywder a chraffu ar eu hystadegau. Felly, byddwn ni'n cefnogi'r Gorchymyn. Rwyf am ddweud wrth basio fod un ystadegyn yr hoffem ni i gyd ei weld yn cael ei ddynodi, a chael gwybod amdano, yn y cyd-destun Cymreig, sef GVA Cymru; byddai gwybod am hynny lawer yn gynt yn ein helpu i wneud rhai penderfyniadau fan hyn. Yn anffodus, nid yw'n rhan o'r Gorchymyn hwn. Serch hynny, rwy'n mawr obeithio y bydd y cyrff hyn yn cael eu cryfhau gan fod eu statws wedi codi gan eu bod yn cynhyrchu ystadegau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol.

Therefore, it is a good thing that we are designating such bodies. To be honest, more bodies should be designated as national bodies, with the ensuing level of transparency and scrutiny in respect of their statistics. We will, therefore, support the Order. In passing, I will say that there is one statistic that we would all like to hear about, in the Welsh context, namely Welsh GVA; learning about that swiftly would help us here in making decisions. Unfortunately, that is not included in this Order. Nonetheless, I very much hope that these bodies are strengthened as a result of having their status raised by way of producing statistics that are nationally recognised.

17:19 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House*

I thank Members for their contributions. This debate provides an opportunity to clarify points that were raised. I will start by responding to Paul Davies as to why these specific organisations have been included. Each of these organisations produces high-profile statistical work, and it is important that the statistics that they produce should be designated as official statistics so that they are subject to the requirements of the Statistics and Registration Service Act 2007. We worked closely with each of the organisations to help them to understand the benefits in being listed in the Order. Paul Davies asked whether this means that they will be national statistics. The answer is that they will not be immediately, but statistics can be designated as national statistics if the organisation invites the UK Statistics Authority to assess their statistics or if the authority deemed it appropriate to request assessment. To be designated as national statistics, the organisation would need to demonstrate that their statistics fully comply with all aspects of the code.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Mae'r ddadl hon yn rhoi cyfle i egluro pwyntiau a godwyd. Rwyf am ddechrau drwy ymateb i Paul Davies o ran pam y mae'r sefydliadau penodol hyn wedi eu cynnwys. Mae pob un o'r sefydliadau hyn yn cynhyrchu gwaith ystadegol uchel ei broffil, ac mae'n bwysig bod yr ystadegau y maent yn eu cynhyrchu'n cael eu dynodi'n ystadegau swyddogol er mwyn iddynt fod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007. Buom yn gweithio'n agos â phob un o'r sefydliadau i'w helpu i ddeall manteision cael eu rhestru yn y Gorchymyn. Gofynnodd Paul Davies a fydd hyn yn golygu y byddant yn ystadegau gwladol. Yr ateb yw na fyddant ar unwaith, ond gall ystadegau gael eu dynodi'n ystadegau gwladol os yw'r sefydliad yn gwahodd Awdurdod Ystadegau'r DU i asesu ei ystadegau neu os yw'r awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol gofyn am asesiad. I gael eu dynodi'n ystadegau gwladol, byddai angen i'r sefydliad ddangos bod eu hystadegau'n cydymffurfio'n llawn â phob agwedd ar y cod.

I acknowledge the point made by Paul Davies and Simon Thomas that this will enable more transparency and greater consistency, which is crucial in bringing more statistics into the scope of the Act. More transparency and consistency in the publication of statistics across the public sector in Wales will improve public trust and support better decision making, and will lead to the use of statistics more broadly. Similar Orders have been passed in the UK Parliament, the Scottish Parliament and the Northern Ireland Assembly.

Rwy'n cydnabod y pwynt a wnaed gan Paul Davies a Simon Thomas y bydd hyn yn peri bod modd cael mwy o dryloywder a mwy o gysondeb, sy'n hanfodol o ran dod â mwy o ystadegau i mewn i gwmpas y Ddeddf. Bydd mwy o dryloywder a chysondeb wrth gyhoeddi ystadegau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwella ymddiriedaeth y cyhoedd a bydd o gymorth i wneud penderfyniadau'n well, ac yn arwain at ddefnyddio ystadegau'n fwy eang. Mae Gorchmynion tebyg wedi eu pasio yn Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Finally, there was a question about whether other organisations could be brought into the scope in the future. There are other organisations—and we discussed this when we had our briefing session—that we may seek to have named in a future Order, and it is helpful to have that question asked. We will continue discussions with those organisations and, where appropriate, will include compliance with the code of practice for official statistics within their remit letters. However, the naming of these five organisations in the current Order is a significant step forward.

Yn olaf, gofynnwyd cwestiwn ynghylch a fyddai modd dwyn sefydliadau eraill i mewn i'r cwmpas yn y dyfodol. Mae sefydliadau eraill—a thrafodwyd hyn pan gawsom ein sesiwn friffio—y gallem ofyn iddynt gael eu henwi mewn Gorchymyn yn y dyfodol, ac mae'n ddefnyddiol gofyn y cwestiwn hwnnw. Byddwn yn parhau i drafod â'r sefydliadau hynny a, lle bo hynny'n briodol, byddwn yn cynnwys cydymffurfio â'r cod ymarfer ar gyfer ystadegau swyddogol o fewn eu llythyrau cylch gwaith. Fodd bynnag, mae enwi'r pum sefydliad hyn yn y Gorchymyn ar hyn o bryd yn gam sylweddol ymlaen.

17:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

## Ansawdd yn GIG Cymru—Sicrhau Dysgu o Adroddiad Francis

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 4 a 5 yn enw William Graham, a gwelliannau 6 a 7 yn enw Aled Roberts.*

Cynnig NDM5182 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r argymhellion a wnaed yn adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford ac y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio Ymchwiliad Francis i helpu i ddod o hyd i ffordd well eto o ddarparu gofal diogel a thosturiol yng Nghymru.

## Quality in NHS Wales—Ensuring Learning from the Francis Report

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Jocelyn Davies, amendments 4 and 5 in the name of William Graham, and amendments 6 and 7 in the name of Aled Roberts.*

Motion NDM5182 Jane Hutt

To propose the National Assembly for Wales:

Notes the recommendations made within the final report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry and that the Welsh Government will use the Francis Inquiry to help identify how it can further improve the delivery of safe and compassionate care in Wales.

17:22

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I move the motion.

We will all have been shocked by the stories of appalling standards of care in the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust. The Francis report challenges every aspect of a system that should have been there to protect patients and ensure high-quality and safe care. I am sure that each of us reflected on the report and considered what this means for us in our individual roles.

Whatever the system—and we know that our system is different to that of England in many ways—it must ensure that every individual is treated with care and compassion and to the standards that we all have a right to expect. Therefore, I want to begin by making it very clear that poor care is never acceptable. We must not tolerate a culture of anything other than care that is patient-centred, safe, compassionate and dignified. Everyone has a right to be treated as a person and not an illness, with care based on meeting our own individual needs, where our voice is heard and any concerns that we or our families have are acted upon without fear of retribution. This expectation is set out in 'Safe Care, Compassionate Care: A National Governance Framework to enable high quality care in NHS Wales'.

Everybody working in NHS Wales, from cleaner to consultant, from GP to district nurse, has a personal responsibility to ensure that people receive good care. It is the values that staff hold, as well as their skills, knowledge and expertise, which creates a sense of trust. Staff are the eyes and ears of the NHS. They are the first line of defence. When they see poor practice, they must take action and must be supported to do so. Sadly, I know that this is not always easy, but I expect all NHS boards to address this in their organisations. This is essential if we are to root out poor practice and support an open culture. Staff should not have to resort to whistleblowing.

Cynigiaf y cynnig.

Byddwn i gyd wedi ein syfrdanu o glywed y straeon am safonau echrydus o ofal yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford. Mae adroddiad Francis yn herio pob agwedd ar system a ddylai fod wedi diogelu cleifion a sicrhau gofal diogel o ansawdd uchel. Rwy'n siŵr bod pob un ohonom wedi meddwl am yr adroddiad ac wedi ystyried beth mae hyn yn ei olygu i ni yn ein rolau unigol.

Beth bynnag fo'r system—a gwyddom fod ein system yn wahanol i'r un yn Lloegr mewn sawl ffordd—mae'n rhaid iddi sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin gyda gofal a thosturi ac yn unol â'r safonau y mae gennym i gyd yr hawl i'w disgwyl. Felly, rwyf am ddechrau drwy ddweud yn glir iawn nad yw gofal gwael byth yn dderbyniol. Rhaid i ni beidio â goddef diwylliant o unrhyw ofal heblaw gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, sy'n ddiogel, yn dosturiol ac yn urddasol. Mae gan bawb hawl i gael eu trin fel person ac nid fel salwch, gyda gofal yn seiliedig ar ddiwallu ein hanghenion unigol ni ein hunain, lle mae ein llais yn cael ei glywed a lle gweithredir yn sgil unrhyw bryderon sydd gennym ni neu ein teuluoedd heb ofni dial. Mae'r disgwyliad hwn wedi'i nodi yn 'Gofal Diogel, Gofal tosturiol: Fframwaith Llywodraethu Cenedlaethol i sicrhau gofal o ansawdd uchel yn y GIG yng Nghymru'.

Mae gan bawb sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru, o lanhawyr i ymgynghorwyr, o feddygon teulu i nyrsys ardal, gyfrifoldeb personol i sicrhau bod pobl yn cael gofal da. Gwerthoedd y staff, yn ogystal â'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u harbenigedd, sy'n creu ymdeimlad o ymddiriedaeth. Y staff yw llygaid a chlustiau'r GIG. Nhw sydd yn y rheng flaen. Pan fyddant yn gweld arferion gwael, mae'n rhaid iddynt gymryd camau a rhaid eu cefnogi i wneud hynny. Yn anffodus, gwn nad yw hyn bob amser yn hawdd, ond rwy'n disgwyl i holl fyrddau'r GIG ymdrin â hyn yn eu sefydliadau. Mae hyn yn hanfodol os ydym am gael gwared ar arferion gwael a chefnogi diwylliant agored. Ni ddylai staff orfod troi at chwythu'r chwiban.

NHS organisations have a duty to care for their staff. Evidence shows that happy, motivated staff and good team working result in better patient outcomes and experience. I am well aware that many members of staff work in challenging circumstances. The winter pressures tested the capacity of the NHS to deal with demand. This clearly impacts on the ability of staff to do their very best for patients. To their credit, staff manage incredibly well. In these circumstances, the ability to react and respond with care and consideration for the welfare of others is absolutely vital.

Mae gan sefydliadau'r GIG ddyletswydd i ofalu am eu staff. Mae tystiolaeth yn dangos bod staff hapus, brwdfrydig a gwaith tîm da'n arwain at ganlyniadau a phrofiad gwell i gleifion. Rwy'n ymwybodol bod llawer o aelodau staff yn gweithio mewn amgylchiadau heriol. Rhoddodd pwysau'r gaeaf brawf ar allu'r GIG i ymdopi â'r galw. Mae hyn yn amlwg yn effeithio ar allu staff i wneud eu gorau glas i gleifion. Er clod iddynt, mae'r staff yn dod i ben yn eithriadol o dda. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r gallu i ymateb gyda gofal ac ystyriaeth i les pobl eraill yn gwbl hanfodol

The Chief Nursing Officer for Wales is leading work on nursing staffing levels and the testing of acuity tools for use by organisations to determine the right staffing levels and skill mix to match patients' needs. Further testing of tools will continue this year prior to full implementation in 2014. In the interim, the NHS is using a core set of principles to determine staffing levels on all medical and surgical wards.

Mae Prif Swyddog Nyrsio Cymru'n arwain y gwaith ar lefelau staffio nyrsio a phrofi pecynnau craffu i'w defnyddio gan sefydliadau i bennu'r lefelau staffio cywir a'r sgiliau cywir i ddiwallu anghenion cleifion. Bydd profion pellach ar y pecynnau'n parhau eleni cyn eu gweithredu'n llawn yn 2014. Yn y cyfamser, mae'r GIG yn defnyddio set graidd o egwyddorion i bennu lefelau staffio ar bob ward feddygol a llawfeddygol.

It is important that staff have a voice too. The NHS staff survey that I requested will report shortly. Boards must take every opportunity to reflect on and respond to what their staff have to say. Staff must also have the skills to do their jobs to the best of their abilities. This month has seen the launch of the 'Improving Quality Together' framework. This fulfils the commitment in our quality delivery plan to train 25% of the workforce in quality improvement methods, spreading the approach adopted by 1000 Lives Plus to thousands more staff.

Mae'n bwysig bod staff yn cael llais hefyd. Bydd yr arolwg o staff y GIG y gofynnais amdano yn adrodd yn fuan. Rhaid i fyrddau fanteisio ar bob cyfle i fyfyrio ar yr hyn y mae eu staff yn ei ddweud, ac ymateb i hynny. Mae'n rhaid sicrhau hefyd fod gan y staff y sgiliau sydd eu hangen i wneud eu swyddi hyd eithaf eu gallu. Y mis hwn, lansiwyd y fframwaith 'Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd'. Mae'n gwireddu'r ymrwymiad yn ein cynllun sicrhau ansawdd i hyfforddi 25% o'r gweithlu mewn dulliau gwella ansawdd, a lledaenu'r dull a fabwysiadwyd gan 1000 o Fywydau a Mwy i filoedd mwy o staff.

My recent visit to Morriston Hospital to see the achievements in reducing hospital pressure ulcers is but one example of what can be done. Everybody who works in the NHS should be impatient for improvement. I want us to up our pace on preventing avoidable harm. Sometimes, mistakes will happen, but when they do it is vital that lessons are learnt. We have made good progress in reducing infections; however, I want us to do more. I see preventable healthcare-associated infections as the litmus test for how we are improving care. We must never accept or tolerate infections as something that happens. I have asked each health board chair to let me know exactly how and when they propose to eliminate preventable healthcare-associated infections.

Mae fy ymweliad diweddar ag Ysbyty Treforys i weld yr hyn a gyflawnwyd o ran lleihau briwiau pwyso mewn ysbytai yn un enghraifft o'r hyn y gellir ei wneud. Dylai pawb sy'n gweithio yn y GIG fod yn ysu i weld pethau'n gwella. Rwyf am i ni frasgamu'n gynt tuag at atal niwed y gellid ei osgoi. Weithiau, bydd camgymeriadau'n digwydd, ond pan fyddant yn digwydd mae'n hanfodol bod gwersi'n cael eu dysgu. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau heintiau; fodd bynnag, rwyf am i ni wneud mwy. Rwyf o'r farn fod heintiau y gellid eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn brawf litmws ar gyfer sut yr ydym yn gwella gofal. Rhaid i ni beidio â derbyn neu oddef heintiau fel rhywbeth sy'n digwydd. Rwyf wedi gofyn i gadeiryddion yr holl fyrddau iechyd roi gwybod i mi yn union sut a phryd y maent yn bwriadu dileu heintiau y gellid eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

The Francis report also highlights the need for effective and coherent regulation and to ensure that service delivery bodies and the Government take swift and effective action to address regulators' findings. We already have a dedicated healthcare inspectorate in Wales, but we must consider carefully how healthcare inspection works across all parts of the regulatory system. I have agreed with my colleague Carl Sargeant to do this as part of his forthcoming review of audit, inspection and regulation in Wales. We must never stand still. I am pleased that, this week, visits are under way to peer review cancer services in Wales, overseen by Healthcare Inspectorate Wales under its new chief executive, Kate Chamberlain, carrying on the excellent work of her predecessor, Peter Higson.

Mae adroddiad Francis hefyd yn amlygu'r angen i reoleiddio'n effeithiol ac yn gydlynol ac i sicrhau bod cyrff sy'n darparu gwasanaethau a'r Llywodraeth yn cymryd camau effeithiol ar fyrder i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r rheoleiddwyr. Mae gennym eisoes arolygiaeth gofal iechyd bwrpasol yng Nghymru, ond mae'n rhaid i ni ystyried yn ofalus sut mae arolygu gofal iechyd yn gweithio ar draws pob rhan o'r system reoleiddio. Rwyf wedi cytuno â'm cydweithiwr Carl Sargeant i wneud hyn fel rhan o'i adolygiad arfaethedig o archwilio, arolygu a rheoleiddio yng Nghymru. Rhaid i ni beidio â sefyll yn stond. Rwy'n falch, yr wythnos hon, fod ymweliadau wedi dechrau i gynnal adolygiadau gan gymheiriad ar wasanaethau canser yng Nghymru, dan oruchwyliaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o dan ei phrif weithredwr newydd, Kate Chamberlain, sy'n parhau â gwaith ardderchog ei rhagflaenydd, Peter Higson.

We all want to know how well our healthcare services are doing. I want to ensure that we measure what matters, not just what is easy to count. Measures have to be meaningful. Mortality statistics are one example where figures alone can be difficult to understand—we will have all seen from media coverage what a confusing picture this can be. Mortality measures need to complement other methods to identify whether there are concerns about care quality. Health board medical directors ensure that the case notes of those who have died in hospital are routinely reviewed to assess the quality of care. This is especially important when the death may not have been expected.

Rydym i gyd yn awyddus i wybod pa mor dda y mae ein gwasanaethau gofal iechyd yn ei wneud. Rwyf am sicrhau ein bod yn mesur yr hyn sy'n bwysig, nid dim ond yr hyn sy'n hawdd ei gyfrif. Rhaid i fesurau fod yn ystyrlon. Mae ystadegau marwoldeb yn un enghraifft lle y gall ffigurau yn unig fod yn anodd eu deall—byddwn i gyd wedi gweld o sylw yn y cyfryngau pa mor ddryslyd y gall y darlun hwn fod. Mae angen i fesurau marwoldeb ategu dulliau eraill o nodi a oes pryderon ynghylch ansawdd gofal. Mae cyfarwyddwyr meddygol byrddau iechyd yn sicrhau bod nodiadau achos y rhai sydd wedi marw yn yr ysbyty yn cael eu hadolygu fel mater o drefn er mwyn asesu ansawdd y gofal. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer marwolaethau annisgwyl.

Frankly, we need to improve both the transparency and the accuracy of the data that we rely on. I have asked my deputy chief medical officer, Dr Chris Jones, to pull together a taskforce to make this happen quickly. All health boards must improve the visibility of information and ease of access to it. Over the next six months, we are undertaking an engagement exercise with patients and clinicians to obtain a consensus on what is required. This will underpin a review of existing targets and help shape a new delivery framework for NHS Wales, reflecting our integrated system, which assesses the quality of care wherever it is provided. Let us not forget that Francis provides learning for the social care sector too. Francis provides an opportunity and a moral imperative to take stock, both to recognise the many excellent examples of outstanding care that we see each day across NHS Wales, and to take action to make lasting improvements in areas in which we need to do better. I very much welcome the opportunity to have this important debate and look forward to Members' contributions.

A dweud y gwir, mae angen i ni wella tryloywder a chywirdeb y data yr ydym yn dibynnu arno. Rwyf wedi gofyn i'm dirprwy brif swyddog meddygol, Dr Chris Jones, greu tasglu i sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyflym. Rhaid i bob bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth i'w gweld yn fwy amlwg a'i bod yn hawdd cael gafael arni. Dros y chwe mis nesaf, byddwn yn cynnal proses ymgysylltu â chleifion a chlinigwyr i gael consensws ar yr hyn sydd ei angen. Bydd hyn yn sail i adolygiad o dargedau presennol ac yn helpu i lunio fframwaith darparu newydd ar gyfer GIG Cymru, gan adlewyrchu ein system integredig, sy'n asesu ansawdd y gofal lle bynnag y caiff ei ddarparu. Rhaid i ni beidio ag anghofio bod Francis yn darparu cyfleoedd i'r sector gofal cymdeithasol ddysgu hefyd. Mae Francis yn darparu cyfle a rheidrwydd moesol hefyd i bwyso a mesur, i gydnabod yr enghreifftiau ardderchog lu o ofal rhagorol yr ydym yn eu gweld bob dydd ar draws y GIG yng Nghymru, ac i gymryd camau i wneud gwelliannau a fydd yn para mewn meysydd lle mae angen i ni wneud yn well. Rwy'n croesawu'n fawr iawn y cyfle i gael y ddadl bwysig hon ac yn edrych ymlaen at gyfraniadau Aelodau.

17:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the seven amendments to the motion, and I call on Elin Jones to move amendments 1, 2 and 3 tabled in the name of Jocelyn Davies.

Rwyf wedi dethol y saith gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3 a gyflwynir yn enw Jocelyn Davies.

*Gwelliant 1—Jocelyn Davies*

*Dileu popeth ar ôl 'Swydd Stafford'.*

*Amendment 1—Jocelyn Davies*

*Delete all after 'public inquiry'.*

*Gwelliant 2—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi'r pryderon difrifol a gododd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn dilyn yr arolygiadau urddas a gofal hanfodol a gynhaliwyd yn ein hysbytai.*

*Amendment 2—Jocelyn Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes the serious concerns raised by Healthcare Inspectorate Wales following the dignity and essential care inspections undertaken in our hospitals.*

*Gwelliant 3—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*Amendment 3—Jocelyn Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to:*

*(a) gweithredu argymhellion Adroddiad Francis sy'n berthnasol i'n GIG ni;*

*(a) implement the recommendations of the Francis Report that apply to our NHS;*

*(b) ystyried creu gwefan 'fyYsbytylleol' tebyg i wefan 'fyYsgolleol' i sicrhau bod pob ysbyty'n darparu gwybodaeth hygyrch a thryloyw am berfformiad; ac*

*(b) consider creating a 'mylocalhospital' website similar to the 'mylocalschool' website to ensure all hospitals provide accessible and transparent performance information; and*

*(c) cyflwyno deddfwriaeth i wneud methiant i ddarparu adroddiad cywir am yr amgylchiadau a arweiniodd at farwolaeth claf yn drosedd.*

*(c) introduce legislation to make failure to provide a truthful account of the circumstances leading to a patient's death a criminal offence.*

17:30

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw Jocelyn Davies.

I move amendments 1, 2 and 3 in the name of Jocelyn Davies.

Mae'r hyn a ddigwyddodd yn ymddiriedolaeth Mid Staffs yn erchyll—1,200 o bobl yn marw yn ddiangen, a hynny mewn cyfnod, rhwng 2005 a 2009, pan oedd gwariant ar yr NHS ar ei uchaf erioed. Mae'r adroddiadau gan y teuluoedd am yr hyn a oedd yn digwydd ar y wardiau yn yr ysbytai yn ofnadwy.

The events that took place in Mid Staffs are horrific—1,200 needless deaths, in a period, between 2005 and 2009, when spending on the NHS was at a record high. The reports from families of what happened on those hospital wards are truly frightening.

Wrth inni drafod adroddiad Francis heddiw, byddai'n anghyfrifol inni feddwl mai problem dros Glawdd Offa yw hon, ac na fyddai gofal mor erchyll byth i'w weld yn ein hysbytai ni. A all unrhyw un ohonom roi ein llaw ar ein calon a dweud nad oes risg y gallai gofal sy'n ymdebygu i'r hyn a welwyd yn Mid Staffs ddigwydd ar ein wardiau ni? Dim ond yr wythnos diwethaf, er enghraifft, daeth etholwr ataf i sôn am y ddiffyg gofal ac urddas roedd ei mam wedi'i dderbyn ar un o wardiau'r henoed yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda—diffyg cymorth i fwyta, diffyg cymorth i ofalu am lendid personol a diffyg urddas. Heb gefnogaeth ei theulu, yn ôl yr etholwr, byddai cyflwr yr unigolyn dan sylw wedi gwaethygu yn hytrach na gwella yn yr ysbyty. Mae profiad y wraig honno yn adlewyrchu'r hyn a ddywedwyd yn adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar urddas mewn gofal yn 2010, ac roedd yr adroddiad hwnnw yn sôn am ysbytai Cymru lle roedd cleifion yn aros yn hir am gymorth i fynd i'r tŷ bach, cleifion mewn dillad brwnt, ymateb staff i alwadau am help yn gallu bod yn araf, a'r cymorth i fwyta, eto, yn ddiffygiol.

As we discuss the Francis report today, it would be irresponsible of us to think that this is a problem that exists on the other side of Offa's Dyke, and to think that such terrible care could never happen in our own hospitals. Can any of us put our hand on our heart and say that there is no risk that care similar to that provided by Mid Staffs could happen on our wards? Just last week, for example, a constituent came to me about the lack of care and dignity that her mother had experienced on a ward for the elderly in the Hywel Dda Local Health Board area—no assistance in eating or with personal hygiene, and a total lack of dignity. According to the constituent, without her family and the support of her family, this individual's condition would have deteriorated rather than improved in hospital. This woman's experience reflects what was reported by the Commissioner for Older People in Wales in her report on dignity in care in 2010, telling us of Welsh hospitals where there were reports of patients waiting a long time for assistance to use the toilet, patients being left in soiled clothing, slow response from staff to appeals for help, and assistance in eating, again, being deficient.

Yn ogystal â'r adroddiad hwnnw, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd wedi paratoi adroddiadau, ac mae saith o'r 12 adroddiad diweddar wedi codi consýrn am lefelau staffio isel yn arwain at ddirywiad mewn gofal i gleifion. Mae'r adroddiadau ar Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant yn arbennig o wael.

In addition to that report, Healthcare Inspectorate Wales has also prepared reports, and seven of the 12 recent reports have raised concerns about low staffing levels leading to a decline in the levels of care for patients. Reports about the Royal Gwent Hospital in Newport and the Royal Glamorgan Hospital in Llantrisant are particularly poor.

Yn adroddiad Francis, mae beirniadaeth lem o'r diwylliant yn Mid Staffs—diwylliant o gwrso targedau, celu gwirionedd a chwrdd yn breifat, diffyg cyfathrebu a cholli golwg ar yr hyn a oedd yn bwysig, sef gofal a lles y claf. Mae hwnnw'n ddiwylliant, gyda llaw, a gafodd ei ganmol gan Andy Burnham yn 2007, pan gymeradwyodd Mid Staffs ar gyfer statws ymddiriedolaeth sefydledig. Mae hynny'n ein hatgoffa o ba mor bell mae gwleidyddion—fel pob un ohonom ni, gan gynnwys y Gweinidog—yn gallu bod o'r hyn sy'n digwydd ar ein wardiau o ddydd i ddydd. Mae'r pellter hwnnw rhyngom ni fel gwleidyddion a'r hyn sy'n digwydd ar ein wardiau yn rhywbeth inni feddwl amdano.

In the Francis report, there is harsh criticism of the culture in Mid Staffs—a culture of pursuing targets, hiding truths and meeting behind closed doors, the lack of communication and losing sight of what was important, namely the care and wellbeing of patients. It is a culture, by the way, that was praised by Andy Burnham in 2007, when he recommended foundation trust status for the Mid Staffs. That reminds us of how far removed politicians—like us all, including the Minister—can be from what happens on our wards on a daily basis. That distance between us as politicians and what is happening on our wards is something that we should all think about.

Un o brif themâu adroddiad Francis yw'r angen am wybodaeth, tryloywder a chyfathrebu yn yr NHS, ac am ddiwylliant agored yn hytrach na diwylliant cudd. Dyna pam ein bod wedi nodi yn ein gwelliannau y dylai'r Gweinidog iechyd edrych ar greu gwefan 'fyYsbytylleol', gyda microsafleoedd ar gyfer pob ysbyty cyffredinol—yn debyg i 'Fy Ysgol Leol', sydd wedi'i hyrwyddo gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau—i gynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth sydd ar gael yn yr ysbyty, lefelau staffio ar wardiau, cynnwys yr adroddiadau ombwdsmon ac arolygiaeth iechyd perthnasol, ac ystadegau safonol ar allbynnau ar draws ysbytai, gan gynnwys ystadegau ar farwolaethau. Rwy'n deall na fydd y Gweinidog mewn sefyllfa i gymeradwyo'r gwelliant hwnnw heddiw, ond rwy'n gobeithio y bydd yn fodlon ystyried, gan ei bod wedi dweud y bydd yn gofyn i Chris Jones sefydlu tasglu ar wybodaeth a thryloywder, gofyn i'r tasglu edrych ar syniad o'r fath er mwyn cyflwyno gwell tryloywder gwybodaeth i gleifion ac eraill ynglŷn â'r gwasanaeth yr yr ysbyty lleol.

One of the main themes of the Francis report is the need for information, transparency and communication within the NHS, and for an open rather than a closed culture. That is why we have included in our amendments that the Minister should consider creating a 'mylocalhospital' website, with microsites for every general hospital—similar to the 'mylocalschool' website promoted by the Minister for Education and Skills—to include information about the services available in a specific hospital and staffing levels on wards. It could include ombudsman and health inspectorate reports that are relevant to that hospital, and also standard statistics on output across hospitals, including statistics on deaths. I understand that the Minister may not be in a position to support that amendment today, but I do hope, given that she has said that she is now asking Chris Jones to establish a taskforce on information and transparency, that she will be willing to consider asking the taskforce to look at that kind of concept, which would improve transparency in terms of information for patients and the population in general as to the services in general hospitals.

Yn olaf, i droi at y ddeddfwriaeth, mae lle i edrych ar rai o argymhellion Francis mewn perthynas â deddfwriaeth newydd. Gallai hynny edrych ar osod isafswm lefel staffio mewn ysbytai, a hefyd ar gynnwys cymalau a fyddai'n ei gwneud yn anghyfreithlon i newid cofnod claf yn 'retrospective', ac i osod dyletswydd ar staff i fod yn onest wrth gofnodi achosion marwolaeth. Efallai y byddai rhywun yn meddwl—

Finally, turning to legislation, there is scope to look at some of the recommendations that emerged from the Francis report on new legislation. That could make reference to the setting of minimum staffing levels in hospitals, but also look at the inclusion of clauses that would make it illegal to amend patient records retrospectively and to place a duty on staff to be honest in noting causes of death. One would, perhaps, think—

17:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

Finish, please.

17:35

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

—na ddylai fod arnom angen creu deddfwriaeth o'r fath, ond mae'r hyn a ddigwyddodd yn Mid Staffs, a'r hyn a ddigwyddodd i Robbie Powell, yn dangos, ambell waith, fod rhaid creu deddfwriaeth.

—that such legislation was unnecessary, but what happened in Mid Staffs, and what happened to Robbie Powell, shows that legislation is sometimes necessary.

*Gwelliant 4—William Graham*

*Amendment 4—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod y potensial i bwysau ariannol yn y GIG yng Nghymru danseilio'r awydd i ddarparu gofal diogel a thosturiol.*

*Recognises the potential for financial pressures in the Welsh NHS to undermine the delivery of safe and compassionate care.*

*Gwelliant 5—William Graham*

*Amendment 5—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi'r pryderon a fynegwyd yn adroddiad Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Canol Swydd Stafford o ran lefelau staffio, ac*

*Notes the concerns expressed in the report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry in relation to staffing levels, and*

*a) yn gresynu bod pryderon ynghylch cywirdeb a chysondeb data ar lefelau staffio hefyd wedi'u canfod gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei adroddiad diweddar ar Wasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (Chwefror 2013);*

*a) regrets that concerns over the accuracy and consistency of data on staffing levels have also been identified by the Public Accounts Committee in its recent report on Maternity Services in Wales (February 2013);*

*b) yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i fyrddau iechyd lleol i sicrhau nad yw staff sy'n absennol am gyfnod hir, neu wedi eu hatal o'u gwaith, yn cael eu cynnwys mewn rotas staffio yn y dyfodol oni ddisgwylir iddynt ddychwelyd i'w gwaith yn fuan iawn.*

*b) calls upon the Welsh Government to issue guidance to local health boards to ensure that staff who are absent long-term, or suspended, are not included in future staffing rotas unless there is an expectation of an imminent return to work.*

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 4 and 5 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliannau 4 a 5 yn enw William Graham.

The Francis report did indeed reveal a scandal of unprecedented scale, and it exposed the needless suffering of very many patients. The trust board, of course, failed to tackle a negative culture that tolerated poor standards and ignored its responsibilities. It put national targets and balancing the books before patient safety and care. Unfortunately, the regulators failed to intervene adequately until it was too late.

Datgelodd adroddiad Francis sgandal ar raddfa na welwyd ei thebyg o'r blaen, a datgelodd ddioddefaint diangen nifer fawr o gleifion. Methodd bwrdd yr ymddiriedolaeth, wrth gwrs, â mynd i'r afael â diwylliant negyddol a oedd yn goddef safonau isel ac yn anwybyddu ei gyfrifoldebau. Rhoddodd dargedau cenedlaethol a mantoli'r cyfrifon o flaen diogelwch a gofal cleifion. Yn anffodus, methodd y rheoleiddwyr ag ymyrryd yn ddigonol hyd nes ei bod yn rhy hwyr.

Just because our system is different, it does not mean that we are immune to these sorts of failures in care happening on our own doorstep. No, there has not been a tragedy on the same scale as that in Mid Staffs, but there have been many reports on failures in care that are just as devastating to individuals here in Wales. The report of the older people's commissioner, for example, 'Dignified Care?', was an indictment of the quality of care in many of our hospitals, and of course, we have all read individual reports by the Public Service Ombudsman for Wales on individual patient care, which have been just as shocking as the particular case that Elin Jones relayed about an individual in her constituency. So, our first amendment is a simple one. The Welsh Labour Government has decided to bleed the NHS dry in terms of the record-breaking cuts being imposed upon it. Of course, as health boards struggle to balance the books, we know that services are already struggling to cope. We know that a lot of what happened in Mid Staffs came down to culture and attitude, but how long will it be before the cash crisis in our NHS here in Wales begins to undermine the safe delivery of compassionate care?

Nid yw'r ffaith fod ein system yn wahanol yn golygu na allai'r un math o fethiannau o ran gofal ddigwydd ar garreg ein drws. Nac oes, nid oes trasiedi wedi bod ar yr un raddfa ag yng Nghanol Swydd Stafford, ond bu llawer o adroddiadau am fethiannau mewn gofal a fu'r un mor ddinistriol i unigolion yma yng Nghymru. Roedd adroddiad y comisiynydd pobl hŷn, er enghraifft, 'Gofal gydag Urddas?', yn feirniadol o ansawdd y gofal mewn llawer o'n hysbytai, ac wrth gwrs, rydym i gyd wedi darllen adroddiadau unigol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ofal i gleifion unigol, sydd wedi bod yr un mor frawychus â'r achos penodol y clywyd amdano gan Elin Jones am unigolyn yn ei hetholaeth. Felly, mae ein gwelliant cyntaf yn un syml. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi penderfynu gwaedu'r GIG yn sych drwy'r toriadau sy'n cael eu gosod arno—y toriadau mwyaf a welwyd erioed. Wrth gwrs, wrth i fyrddau iechyd ei chael yn anodd mantoli'r cyfrifon, rydym yn gwybod bod gwasanaethau eisoes yn cael trafferth ymdopi. Gwyddom fod llawer o'r hyn a ddigwyddodd yng Nghanol Swydd Stafford yn fater o ddiwylliant ac agwedd, ond pa mor hir fydd hi cyn y bydd yr argyfwng ariannol yn ein GIG yma yng Nghymru yn dechrau tanseilio darparu gofal tosturiol yn ddiogel?

Our second amendment relates to the Francis report finding that staffing levels are insufficient to deliver safe and effective care. We are not immune to this in Wales either. For example, seven out of 10 HIW reports in the last 12 months have highlighted concerns about staffing levels and the impact on patient safety. We know from our debate in the Senedd just a couple of weeks ago on NHS workforce planning that there is a stark shortage of doctors in certain disciplines in our hospitals. More recently, the Public Accounts Committee report on maternity services found serious challenges to adequately staff some of our maternity services. We were told that long-term staff absences are regularly being included on staffing rotas—even staff suspensions—hiding the true extent of the staffing crisis that is often the case on those units. This is clearly not acceptable; it creates potentially dangerous situations for patients and staff, and it could allow the quality of care to begin to slip in our hospitals. We have to have that situation rectified, and I believe that one of the drivers for that is to protect the investment in our NHS over the next few years.

Mae ein hail welliant yn ymwneud a chanfyddiad adroddiad Francis fod y lefelau staffio yn annigonol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Nid ydym yn rhydd rhag hynny yng Nghymru chwaith. Er enghraifft, mae saith allan o 10 adroddiad AGIC yn ystod y 12 mis diwethaf wedi amlygu pryderon am lefelau staffio a'r effaith ar ddiogelwch cleifion. Rydym yn gwybod o'n dadl yn y Senedd ychydig wythnosau'n ôl ar gynllunio gweithlu'r GIG fod prinder mawr iawn o ran meddygon mewn disgyblaethau penodol yn ein hysbytai. Yn fwy diweddar, canfu adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar wasanaethau mamolaeth heriau difrifol o ran staffio rhai o'n gwasanaethau mamolaeth yn ddigonol. Dywedwyd wrthym fod absenoldebau staff tymor hir yn rheolaidd yn cael eu cynnwys ar rotas staffio—a hyd yn oed ataliadau staff dros dro—sy'n cuddio gwir faint yr argyfwng staffio sydd yn aml yn digwydd yn yr unedau hynny. Mae'n amlwg nad yw hyn yn dderbyniol; mae'n creu sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus i gleifion a staff, a gallai beri bod ansawdd y gofal yn dechrau llithro yn ein hysbytai. Mae'n rhaid i ni ofalu bod y sefyllfa honno'n cael ei hunioni, ac rwy'n credu mai un o'r pethau a fydd yn gyrru hynny yw gwarchod y buddsoddiad yn ein GIG dros y blynyddoedd nesaf.

We will be supporting the Plaid amendments today. We recognise that, although the tragedies identified by Francis took place in England, there is no reason that it could not have been a similar report published in respect of Welsh hospitals. Plaid Cymru is quite right to point out that concerns about the delivery of safe and compassionate care have been raised by many respected bodies, including, of course, HIW.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau Plaid Cymru heddiw. Rydym yn cydnabod, er mai yn Lloegr y digwyddodd y trychinebau a nodwyd gan Francis, nad oes rheswm pam na ellid bod wedi cyhoeddi adroddiad tebyg mewn perthynas ag ysbytai Cymru. Mae Plaid Cymru yn hollol iawn i dynnu sylw at y ffaith fod pryderon ynghylch darparu gofal diogel a thosturiol wedi eu codi gan gyrff y mae parch mawr iddynt, gan gynnwys, wrth gwrs, AGIC.

Our NHS could also be improved by taking these Francis recommendations seriously. There are many lessons in the report for our healthcare system. We know that, just in the past week, the UK Government has also announced that it wants to have a look at healthcare support workers and whether there is a need to regulate them. I was pleased, Minister, to hear you make reference to social care lessons that can be learned from this report, because I think that you are absolutely right. Perhaps this is an area that we in Wales need to look at taking forward.

Gellid gwella ein GIG hefyd trwy gymryd argymhellion Francis o ddifrif. Mae llawer o wersi yn yr adroddiad i'n system gofal iechyd. Gwyddom, dim ond yn ystod yr wythnos a aeth heibio, fod Llywodraeth y DU hefyd wedi cyhoeddi ei bod am edrych ar weithwyr cymorth gofal iechyd ac a oes angen eu rheoleiddio. Rwy'n falch, Weinidog, eich clywed yn cyfeirio at wersi gofal cymdeithasol y gellir eu dysgu o'r adroddiad hwn, oherwydd credaf eich bod yn llygad eich lle. Efallai fod hwn yn faes y mae angen i ni yng Nghymru feddwl am ei ddatblygu.

Plaid Cymru has suggested some interesting methods to improve patient care. The 'mylocalhospital' website is an interesting one—we would be prepared to look at anything, frankly, that would help to ensure that we have a transparent system in place, so that people can hold their local health boards to account for the quality of care that is being delivered. However, we have some reservations about making specific recommendations on that at this particular juncture.

Mae Plaid Cymru wedi awgrymu rhai dulliau diddorol o wella gofal i gleifion. Mae'r wefan 'fyYsbytylleol' yn ddiddorol—byddem yn barod i edrych ar unrhyw beth, a dweud y gwir, a fyddai'n helpu i sicrhau bod gennym system dryloyw ar waith, fel y gall pobl ddal eu byrddau iechyd lleol i gyfrif am ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu. Fodd bynnag, mae gennym rai amheuon ynghylch gwneud argymhellion penodol ar hynny ar hyn o bryd

Just looking at the Lib Dem amendments very briefly, despite the commitment of NHS staff there are incidents of poor care and practice across the Welsh NHS, so in light of the Francis report and the action taken to improve care thereafter, it would seem sensible to review the official standards. We will be supporting the Lib Dem amendments too.

O edrych ar welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol yn fyr iawn, er gwaethaf ymrwymiad staff y GIG, mae achosion o ofal ac arfer gwael ar draws y GIG yng Nghymru, felly yng ngoleuni adroddiad Francis a'r camau a gymerwyd i wella gofal yn sgil hynny, mae'n ymddangos yn synhwyrol adolygu'r safonau swyddogol. Byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd.

If there is one lesson from the Francis report, it is that we should never be complacent about the care that is being delivered in our hospitals. We always have to be alert to the fact that it is possible, when staff are under pressure, to let standards slip. I very much welcome the fact that we are having this debate today in order that we do not let that happen in the Welsh NHS.

Os oes un wers o adroddiad Francis, y wers yw na ddylem fyth fod yn hunanfodlon am y gofal sy'n cael ei ddarparu yn ein hysbytai. Rhaid i ni bob amser fod yn effro i'r ffaith ei bod yn bosibl, pan fydd staff o dan bwysau, y bydd safonau'n llithro. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith ein bod yn cael y ddadl hon heddiw er mwyn i ni beidio â gadael i hynny ddigwydd yn y GIG yng Nghymru.

*Gwelliant 6—Aled Roberts*

*Amendment 6—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert as new point at end of the motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llawn o Hanfodion Gofal 2003 i sicrhau bod y safonau'n parhau i adlewyrchu arfer gorau o ran gofal o fewn GIG Cymru fel y'i nodwyd gan y rhai sydd angen gofal, gofalwyr a staff.*

*Calls on the Welsh Government to fully review the Fundamentals of Care 2003 to ensure that the standards continue to reflect best practice in care within NHS Wales as identified by those requiring care, carers and staff.*

*Gwelliant 7—Aled Roberts*

*Amendment 7—Aled Roberts*

*Rhoi pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Insert as new point at end of the motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio Rheoliadau'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion, ac Iawn) (Cymru) 2011 i gynnwys gofyniad i'r hyn a ddysgir o ganlyniad i gwynion gael ei nodi, ei ledaenu a'i roi ar waith yn effeithiol gan roi gwybod i'r achwynydd ac i'r cyhoedd.*

*Calls on the Welsh Government to amend the National Health Service (Concerns, Complaints and Redress Arrangements) (Wales), Regulations 2011 to include a requirement for learning from complaints to be effectively identified, disseminated and implemented and known to the complainant and the public.*

17:40

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf welliannau 6 a 7 yn fy enw i.

I move amendments 6 and 7 in my name.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r gwelliannu hyn ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi rhoi cyfle heddiw inni drafod un o'r adroddiadau mwyaf siomedig a ysgrifennwyd erioed ynghylch corff o fewn y sector cyhoeddus ym Mhrydain. Fel y dywedodd Elin Jones, mae 290 o argymhellion yn yr adroddiad, ond y neges sylfaenol yw bod angen diwylliant o ofal o fewn y gwasanaeth iechyd sy'n rhoi'r flaenoriaeth uchaf i'r claf.

It is a pleasure to move these amendments on behalf of the Liberal Democrats. I welcome the fact that the Government has given us an opportunity today to discuss one of the most disappointing reports ever written about a public sector body in Britain. As Elin Jones said, there are 290 recommendations in the report, but the fundamental message is that a culture of care is needed within the health service that places the highest priority on the patient.

Yr un wers bwysig i ni yng Nghymru, er bod gwahaniaethau yn y gyfundrefn o fewn y gwasanaeth iechyd yma ac yn Lloegr, yw bod perygl inni fod yn hunanfodlon o ran y sefyllfa yma yng Nghymru. Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am gydnabod bod gwersi i'w dysgu wrth inni drafod yr adroddiad hwn heddiw.

The one important lesson for us in Wales, even though there are differences between the health service systems here and in England, is that there is a danger for us to be self-satisfied about the situation in Wales. I am grateful to the Minister for recognising that there are lessons to be learned as we discuss this report today.

Mae'r adroddiad hefyd yn ei gwneud yn glir bod rhaid gwneud mwy i ddiogelu'r rhai hynny sy'n cwyno —'whistleblowers'. Mae nifer o achosion wedi bod gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ddiweddar lle mae'n ymddangos nad yw'r sefyllfa o ran diogelu'r bobl sy'n gwneud y cwynion hynny o fewn y gwasanaeth iechyd ac o fewn cyrff eraill yng Nghymru yn hollol sicr ar hyn o bryd. Mae llawer iawn, fel y dywedodd Elin Jones a Darren Millar, ohonom yn pryderu bod lefelau staffio o fewn rhai unedau ac o fewn rhai byrddau iechyd lleol yn annigonol. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau'r lefelau staffio hynny, gan bod rhaid inni sicrhau bod gofal yn cael ei gyflwyno mewn modd effeithlon a diogel.

The report also makes it clear that more must be done to safeguard whistleblowers. A number of cases have come before the Public Accounts Committee recently in which it appears that the situation with regard to safeguarding whistleblowers within the health service and other organisations in Wales is currently uncertain. Many of us, as Elin Jones and Darren Millar said, are worried that staffing levels within some units and some local health boards are inadequate. It is important that we safeguard those staffing levels, as we must ensure that care is provided efficiently and safely.

Fel y dywedodd Elin Jones, mae adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn parhau i godi rhai pryderon ynghylch ansawdd gofal i gleifion, ac mewn saith o'r 12 adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn arolygiadau annisgwyl y llynedd, mae pryderon ynghylch lefelau staffio yn cael eu codi. Rwy'n cydnabod bod pwysau aruthrol ar y gwasanaeth iechyd ar hyn o bryd, ond mae nifer o adroddiadau diweddar—ar ambiwlansys yn aros gerllaw adrannau argyfwng ein hysbytai, ac achosion eraill—yn creu pryder i nifer fawr ohonom. Ein cred ni yw y dylid sicrhau bod lefelau staffio penodedig ar bob ward. Fel y mae Darren Millar wedi sôn yn ddiweddar, mae cwestiwn yn codi, lle mae canllawiau cenedlaethol ar adnoddau dynol, ynglŷn â'r dehongliad a roddwyd i'r canllawiau hynny ar lefel leol. Roedd y Gweinidog yn cydnabod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yr wythnos diwethaf bod cwestiwn wedi codi ynglŷn ag arfer bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, yn arbennig, fel y dywedodd Darren Millar, i gynnwys nyrsys sydd wedi eu gwahardd o'u gwaith neu sy'n dioddef o afiechyd tymor hir ar y rota ar bob ward. Felly, mae angen i'r Llywodraeth wneud yn siŵr bod y canllawiau'n cael eu dehongli yn gyfartal ar draws y wlad.

As Elin Jones said, Health Inspectorate Wales reports continue to raise concerns about the quality of patient care, and in seven of 12 reports published following unannounced inspections last year, concerns regarding staffing levels were raised. I accept that the health service is under intense pressure at the moment, but a number of recent reports—on ambulances stacking up outside hospital accident and emergency departments, along with other cases—worry many of us. We believe that there should be set staffing levels on each ward. As Darren Millar has said recently, a question arises, where there are national guidelines on human resources, about the interpretation of those guidelines on a local level. The Minister acknowledged in a meeting of the Children and Young People committee last week that a question did arise about the way in which the Betsi Cadwaladr health board, in particular, as Darren Millar said, included suspended nurses and those on long-term sickness absence on the rota for each ward. Therefore, the Government must ensure that the guidelines are interpreted consistently across the country.

Mae'r pwyllgor plant wedi nodi rhai pryderon am wasanaethau newydd-anedig o ran lefelau meddygon a nyrsys yn rhai o'n byrddau iechyd, ac, fel y dywedodd Darren Millar, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi nodi pryderon tebyg am wasanaethau mamolaeth. Byddwn yn pwyso ar y Llywodraeth i ymateb i argymhelliad 5 yr adroddiad a gyhoeddwyd ar gychwyn mis Chwefror, sy'n amlinellu'r pryderon hynny.

The children committee has raised concerns about neonatal services, with regard to staffing levels for doctors and nurses, in some health boards, and, as Darren Millar said, the Public Accounts Committee has raised similar concerns about maternity services. I would urge the Government to respond to recommendation 5 of the report published at the beginning of February, which outlines those concerns.

Mae gwelliant 6 yn galw ar y Llywodraeth i adolygu canllawiau 'Fundamentals of Care' a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 2003. Rydym yn credu, o ran gwelliant 7, y dylem alw ar y Llywodraeth i sicrhau bod y broses gwynion yn hollol agored.

Amendment 6 calls on the Government to review the 'Fundamentals of Care' guidelines, first published in 2003. We also believe, in terms of amendment 7, that we should call on the Government to ensure that the complaints process is completely open.

Mae'r rhan fwyaf ohonom sydd wedi cael triniaeth gan y gwasanaeth iechyd yn cydnabod, fel arfer, bod y safon yn dda iawn. Mae gennyf brofiad personol o hynny, ac fe gafodd fy nhad-yng-nghyfraith brofiad tebyg y llynedd. Ond, yn anffodus, mae gan nifer ohonom hefyd bryderon ynglŷn ag achosion arbennig. Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi dweud bod gwersi hefyd i'r gwasanaethau cymdeithasol yn hyn. Cefais gŵyn gan ddyn 70 oed sydd wedi bod yn gofalu am ei wraig am nifer o flynyddoedd. Aeth ar ei wyliau am bythefnos ac aeth ei wraig i gartref gofal y cyngor. Ond, landiodd hi fyny mewn uned gofal dwys achos ni chafodd fwyd na diod yn ystod y bythefnos.

Most of us who have received NHS treatment acknowledge that, usually, the standard is of a high quality. I have had personal experience of that and my father-in-law had a similar experience last year. However, unfortunately, many of us also have concerns about specific cases. I am pleased that the Minister has said that there are also lessons to be learnt by social services in this regard. I received a complaint by a 70-year-old man who has been caring for his wife for many years. He went on holiday for a fortnight and his wife went into a council care home. However, she ended up in an intensive care unit because she was not given food or drink during that fortnight.

17:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

Finish, please.

17:46

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Anyone who suggests that what happened in Mid Staffs is an isolated example that could not possibly happen here is misguided. I am not suggesting that the systematic failure of care that occurred in Mid Staffs is happening here in Wales, but I merely want to say that the best form of prevention is to stay alert and self-critical, to foster a culture of constant improvement and to learn from our mistakes.

Mae unrhyw un sy'n awgrymu bod yr hyn a ddigwyddodd yng Nghanol Swydd Stafford yn enghraifft ar ei phen ei hun nad oes modd iddi ddigwydd yma yn camsynied. Nid wyf yn awgrymu bod y methiant systematig o ran gofal a ddigwyddodd yng Nghanol Swydd Stafford yn digwydd yma yng Nghymru, ond rwyf am ddweud mai'r ffordd orau o atal hynny yw aros yn effro ac yn hunanfeirniadol, meithrin diwylliant o wella'n gyson a dysgu o'n camgymeriadau.

We all make mistakes in our personal lives as well as our professional lives. That is all part of the learning process. NHS organisations occasionally suffer 'never' events, including cutting off the wrong leg or administering 10 or even 100 times a prescribed dose, which sometimes lead to avoidable deaths. However, what is crucial when that sort of thing occurs is the way in which mistakes are responded to. Do we cover it up and hope that nobody notices—a bit difficult if you have cut off the wrong leg—or do we use it as a cautionary tale to try to prevent the mistake reoccurring? Is the NHS in Wales a learning organisation with a historic memory that encourages that candour that enables people to be upfront about errors or near misses? I hope so. What the Minister said earlier about 1000 Lives Plus and other initiatives gives me reason to think so.

Rydym i gyd yn gwneud camgymeriadau yn ein bywydau personol yn ogystal â'n bywydau proffesiynol. Mae hynny i gyd yn rhan o'r broses ddysgu. Mae sefydliadau'r GIG yn dioddef digwyddiadau 'byth' o bryd i'w gilydd, gan gynnwys torri'r goes anghywir i ffwrdd neu roi 10 neu hyd yn oed 100 gwaith y dogn a ragnodwyd, sydd weithiau'n arwain at farwolaethau y gellid eu hosgoi. Fodd bynnag, yr hyn sy'n hollbwysig pan fydd rhywbeth fel hyn yn digwydd yw'r ffordd yr ymatebir i gamgymeriadau. A ydym yn eu cuddio ac yn gobeithio na fydd neb yn sylwi—braidd yn anodd os ydych wedi torri'r goes anghywir i ffwrdd—neu a ydym yn eu defnyddio fel stori i rybuddio eraill ac i geisio atal y camgymeriad rhag digwydd eto? A yw'r GIG yng Nghymru'n sefydliad sy'n dysgu ac sydd â chof hanesyddol sy'n annog y gonestrwydd hwnnw sy'n galluogi pobl i fod yn onest am gamgymeriadau neu ddamweiniau agos? Rwy'n mawr obeithio hynny. Mae'r hyn a ddywedodd y Gweinidog yn gynharach am 1000 o Fywydau a Mwy a mentrau eraill yn rhoi rheswm i mi feddwl felly.

In a former life, I used to chair NHS independent review panels. They occurred when complaints had not been resolved locally. The patient or their family had been unable to get satisfactory explanations and the NHS organisation was in denial or less than transparent about the extent of the problem that had generated the complaint. We all get complaints in our surgeries in relation to bad care, as well as information about good care. It is really important that we understand that most people complain because they want to prevent what happened to them or their relative from reoccurring with the next person. It is extraordinary how resistant and defensive some organisations can become if things have gone wrong. Sometimes, it requires oversight from independent outsiders to force people to review their practice. What happened in Mid Staffs was not just about the openness and transparency required to resolve complaints; it was a systematic failure to listen to patients and their families and to give weight to their concerns about standards of patient care. All the various regulatory bodies did not follow through on the complaints, from the primary care trust to the strategic health authority to the regulators to the Department of Health, even to where the complaints were being received, whether from the patient, the public involvement committees that replaced the CHCs or the four local MPs.

Mewn bywyd blaenorol, roeddwn yn arfer cadeirio paneli adolygu annibynnol y GIG. Roeddent yn digwydd pan nad oedd cwynion wedi'u datrys yn lleol. Roedd claf neu ei deulu wedi methu â chael esboniadau boddhaol ac roedd sefydliad y GIG yn gwadu neu'n llai na thryloyw ynghylch maint y broblem a oedd wedi ysgogi'r gŵyn. Rydym i gyd yn cael cwynion yn ein cymorthfeydd mewn perthynas â gofal gwael, yn ogystal â chael gwybod am ofal da. Mae'n bwysig iawn ein bod yn deall bod y rhan fwyaf o bobl yn cwyno am eu bod am atal yr hyn a ddigwyddodd iddynt hwy neu eu perthynas rhag digwydd eto i'r person nesaf. Mae'n anhygoel pa mor wrthwynebus ac amddiffynnol y gall rhai sefydliadau fod os yw pethau wedi mynd o'i le. Weithiau, mae angen goruchwyliaeth annibynnol o'r tu allan i orfodi pobl i adolygu eu harferion. Nid oedd yr hyn a ddigwyddodd yng Nghanol Swydd Stafford yn ymwneud dim ond â'r didwylledd a'r tryloywder sydd eu hangen i ddatrys cwynion; roedd yn fethiant systematig i wrando ar gleifion a'u teuluoedd ac i roi pwys ar eu pryderon ynghylch safonau gofal i gleifion. Ni ddilynodd pob un o'r gwahanol gyrff rheoleiddio y cwynion i'r pen, o'r ymddiriedolaeth gofal sylfaenol i'r awdurdod iechyd strategol i'r rheoleiddwyr i'r Adran Iechyd, hyd yn oed i'r man lle'r oedd y cwynion yn cael eu derbyn, boed gan y claf, y pwyllgorau cynnwys y cyhoedd a ddisodlodd y Cynghorau Iechyd Cymuned neu'r pedwar Aelod Seneddol lleol.

There are three recommendations that are fundamental to changing the culture of compliance and rebalancing patients' interest at the heart of the NHS. There must be transparency. Francis proposes the idea of peer review where doctors and nurses submit their own practices to be examined by others for their joint improvement. That is an excellent suggestion. Secondly, there must be candour. Directors of healthcare organisations must give truthful information to regulators. It should be a criminal offence for any registered doctor, nurse or allied health professional, or a director of a health organisation, to obstruct the oversight of a regulator. That is another really important recommendation. The third is something that was touched on only lightly in the Francis report, in recommendation 201 on 'Strengthening the nursing professional voice'. Francis says:

Mae tri argymhelliad sy'n hanfodol i newid y diwylliant o gydymffurfio ac i ailosod budd cleifion wrth wraidd y GIG. Mae'n rhaid wrth dryloywder. Mae Francis yn cynnig y dylid cynnal adolygiadau gan gymheiriaid lle mae meddygon a nyrsys yn cyflwyno eu harferion eu hunain i'w harchwilio gan eraill er mwyn eu gwella ar y cyd. Mae hwnnw'n awgrym rhagorol. Yn ail, mae'n rhaid wrth onestrwydd. Rhaid i gyfarwyddwyr sefydliadau gofal iechyd roi gwybodaeth gywir i reoleiddwyr. Dylai fod yn drosedd i unrhyw feddyg, nyrs, neu unrhyw weithiwr iechyd proffesiynol perthynol cofrestredig, neu gyfarwyddwr sefydliad iechyd, amharu ar oruchwyliaeth rheoleiddiwr. Dyna argymhelliad arall pwysig iawn. Mae'r trydydd yn rhywbeth na chafodd ond ei grybwyll yn fras yn adroddiad Francis, yn argymhelliad 201 ar gryfhau llais nyrsio proffesiynol. Mae Francis yn dweud:

'The Royal College of Nursing should consider whether it should formally divide its "Royal College" functions and its employee representative/trade union functions between two bodies rather than behind internal "Chinese walls".'

Dylai Coleg Brenhinol y Nyrsys ystyried a ddylai rannu'n ffurfiol ei swyddogaethau "Coleg Brenhinol" a'i swyddogaethau cynrychioli gweithwyr / undeb llafur rhwng dau gorff yn hytrach nag y tu ôl i "waliau Tsieineaidd" mewnol.

I suggest that Francis did not look sufficiently closely at the role that trade unions can play in encouraging their members to speak out if they do not think that the service to patients is good enough. I think that it is crucial that the British Medical Association, the Royal College of Nursing, Unison, Unite and so on—everybody representing NHS staff—encourage their members to feel that they can speak out.

Awgrymaf nad edrychodd Francis yn ddigon agos ar y rôl y gall undebau llafur ei chwarae wrth annog eu haelodau i godi llais os nad ydynt yn credu bod y gwasanaeth i gleifion yn ddigon da. Rwyf o'r farn ei bod yn hanfodol fod Cymdeithas Feddygol Prydain, Coleg Brenhinol y Nyrsys, Unsain, Unite ac yn y blaen—pawb sy'n cynrychioli staff y GIG—yn annog eu haelodau i deimlo y gallant godi llais.

A report on whistleblowing in the 'Nursing Times' showed that a large number of staff are prepared to speak out and report colleagues' poor practice. However, in half of the cases reported, there were negative consequences for the staff members personally. I am particularly heartened, therefore, by the response from my own union, Unite, which has a five-point plan called 'prevention is better than cure'. It wants the role of a patient safety officer to be established across the NHS to banish the culture of fear. CHCs have the powers to investigate, but this person would also have the power to order change.

Dangosodd adroddiad ar chwythu'r chwiban yn y 'Nursing Times' fod nifer fawr o staff yn barod i godi llais a rhoi gwybod am arferion gwael cydweithwyr. Fodd bynnag, yn hanner yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt, roedd canlyniadau negyddol i'r aelodau staff yn bersonol. Fe'm calonogwyd yn arbennig, felly, gan yr ymateb gan fy undeb fy hun, Unite, y mae ganddo gynllun pum pwynt o'r enw 'mae atal yn well na gwella'. Mae am i rôl swyddog diogelwch cleifion gael ei sefydlu ar draws y GIG i gael gwared ar y diwylliant o ofn. Mae gan Gynghorau Iechyd Cymuned rymoedd i ymchwilio, ond byddai gan y swyddog hwn hefyd rym i orchymyn newid.

17:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Conclude now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

17:51

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that that is a positive thing. I think that this is a great role for trade unions, which they should embrace and take on enthusiastically.

Rwyf o'r farn fod hynny'n beth cadarnhaol. Credaf fod hon yn rôl wych i'r undebau llafur, y dylent ei chofleidio a'i chroesawu'n frwdfrydig.

17:51

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first report into lack of care in Mid Staffordshire NHS Foundation Trust was sinister, disturbing and less than flattering about the culture of central targets. The indication of failure outside the trust's board also made disturbing reading. The Francis report, despite its narrow geographical remit, has observed that it would be quite wrong to use a belief that it was unique or very rare to justify inaction. We have heard from other Members about serious concerns in Wales that speak directly to dignity and essential care.

Roedd yr adroddiad cyntaf ar ddiffyg gofal yn GIG Ymddiriedolaeth Sefydledig Canol Swydd Stafford yn sinistr, yn peri pryder ac yn llai na chanmoliaethus ynghylch diwylliant y targedau canolog. Roedd yr arwydd o fethiant y tu allan i fwrdd yr ymddiriedolaeth hefyd yn peri pryder. Er gwaethaf ei gylch gwaith daearyddol cul, nododd adroddiad Francis y byddai'n gwbl anghywir defnyddio'r syniad fod hon yn enghraifft unigryw neu brin iawn i gyfiawnhau peidio â gweithredu. Clywsom gan Aelodau eraill am bryderon difrifol yng Nghymru sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag urddas a gofal hanfodol.

None of us expect inaction as a result of this report. However, we should be careful about what action is taken. Francis is adamant that it is,

Nid oes yr un ohonom yn disgwyl diffyg gweithredu o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, dylem fod yn ofalus ynghylch pa gamau a gymerir. Mae Francis yn bendant ei bod,

'unlikely to be structural changes in the system which enhance safety',

yn annhebygol y bydd newidiadau strwythurol yn y system sy'n gwella diogelwch,

and points determinedly to a change of culture as being the way forward. He points to a new fundamental set of standards to bring about this cultural change, driven by the interest of patients and devised by clinicians—

ac mae'n dweud yn bendant mai newid diwylliant yw'r ffordd ymlaen. Mae'n tynnu sylw at set sylfaenol newydd o safonau i sicrhau'r newid diwylliannol hwn, wedi'i ysgogi gan fudd y cleifion a'i ddyfeisio gan glinigwyr—

'a "bottom up" as opposed to a "top down" system'.

system "o'r gwaelod i fyny" yn hytrach nag "o'r brig i lawr".

One of the problems with the standards as they were at the time is that:

Un o'r problemau â'r safonau fel yr oeddent bryd hynny yw:

'Generic standards were formulated not by the regulator but by the Government, thereby inhibiting the engagement with the standards of those working in the system'.

fod safonau generig yn cael eu llunio nid gan y rheoleiddiwr, ond gan y Llywodraeth, a'u bod felly'n atal y rhai sy'n gweithio yn y system rhag ymgysylltu â'r safonau.

Francis says that his recommendations may be useful in sectors other than health, and there may be a message there for some other Ministers in the Welsh Government.

Mae Francis yn dweud y gallai ei argymhellion fod yn ddefnyddiol mewn sectorau eraill ar wahân i iechyd, ac y gallai fod neges yno i rai Gweinidogion eraill yn Llywodraeth Cymru.

When we hear today, rather worryingly, that all but one of the 14 English hospitals that are being investigated over high death rates have been ranked in the country's top 30 hospitals, using the sort of statistics that Elin Jones was talking about with 'fyYsbytylleol', I think that there is still a question about the effectiveness of checks and balances. There is also a question for the Minister to answer in reassuring us about the work that she has done to ensure that she is confident of the integrity of our own checks and balances in Wales.

Pan glywn heddiw, er gofid braidd, fod pob un ond un o'r 14 o ysbytai yn Lloegr sy'n cael eu harchwilio oherwydd cyfraddau marwolaeth uchel ar restr 30 ysbyty uchaf y wlad, gan ddefnyddio'r mathau o ystadegau yr oedd Elin Jones yn siarad amdanynt gyda 'fyYsbytylleol' , rwy'n meddwl bod cwestiwn yn dal i fod ynglŷn ag effeithiolrwydd gwiriadau a balansau. Mae cwestiwn hefyd i'r Gweinidog ei ateb wrth dawelu ein meddyliau am y gwaith y mae wedi ei wneud i sicrhau ei bod yn ffyddiog ynghylch uniondeb ein gwiriadau a'n balansau ni ein hunain yng Nghymru.

Francis said that it was not the number of organisations that were involved in the failure to catch Mid Staffs, but a lack of clarity over their roles and lax communication, all of which were missed by the then-Labour Department of Health. Poor, inconsistent or non-existent evaluation and monitoring by the Welsh Government have been the source of a number of opposition-Member debate contributions over the years in the Assembly. In recent times, we have criticised Ministers for not having a firm grip on the monitoring role, or being too slow in their policing role, on the All Wales Ethnic Minority Association, Communities First and the activities of certain local authorities. We have questioned the Minister's grasp of problems regarding health spending and staffing levels. Andy Burnham, the English Secretary of State for Health at the time of the events noted in the Francis report, accepted that there was a disconnect between policy decisions being made and their practical implementation, hinting at a lack of proactive monitoring, evaluation and enforcement from the centre at that time. We can point to similar examples in Wales, with neonatal services, ambulance services and mental health services being a few that leap to mind.

Dywedodd Francis nad oedd yn fater o nifer y sefydliadau a oedd yn rhan o'r methiant i ddal Canol Swydd Stafford, ond diffyg eglurder ynghylch eu rolau a chyfathrebu llac, pob un ohonynt wedi eu methu gan yr Adran Iechyd Lafur bryd hynny. Mae gwerthuso a monitro gan Lywodraeth Cymru sy'n wael, yn anghyson neu ddim yn bodoli wedi bod yn ffynhonnell nifer o gyfraniadau gan Aelodau'r gwrthbleidiau i ddadleuon dros y blynyddoedd yn y Cynulliad. Yn ddiweddar, rydym wedi beirniadu Gweinidogion am beidio â bod â gafael gadarn ar y rôl fonitro, neu am fod yn rhy araf yn eu rôl blismona, ar Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Cymunedau yn Gyntaf a gweithgareddau rhai awdurdodau lleol. Rydym wedi cwestiynu gafael y Gweinidog ar broblemau o ran gwariant ar iechyd a lefelau staffio. Roedd Andy Burnham, Ysgrifennydd Gwladol Iechyd Lloegr adeg y digwyddiadau a nodwyd yn adroddiad Francis, yn derbyn bod diffyg cysylltiad rhwng gwneud penderfyniadau polisi a'u rhoi ar waith yn ymarferol, gan awgrymu bod diffyg monitro, gwerthuso a gorfodi rhagweithiol o'r canol ar y pryd. Gallwn gyfeirio at enghreifftiau tebyg yng Nghymru, gyda gwasanaethau newyddenedigol, gwasanaethau ambiwlans a gwasanaethau iechyd meddwl yn ddim ond rhai sy'n dod i'r meddwl.

In the Mid Staffs case, for a variety of reasons it seems that the Department of Health was genuinely unaware of the majority of concerns relating to that trust. I do not think, Minister, that you can say that you are unaware of our concerns in Wales. That is why it is not enough to say that 'this matter is for the local health board' when we ask you about health board decisions or inactivity that worry us. When we raise concerns about LHBs, we need to know that you hear them, and that you monitor, evaluate and police the LHB responses to those concerns.

Yn achos Canol Swydd Stafford, am amryw o resymau, mae'n ymddangos nad oedd yr Adran Iechyd yn gwybod mewn gwirionedd am y rhan fwyaf o bryderon yn ymwneud â'r ymddiriedolaeth honno. Nid wyf yn credu, Weinidog, y gallwch ddweud nad ydych yn gwybod am y pryderon yng Nghymru. Dyna pam nad yw'n ddigon dweud mai 'mater i'r bwrdd iechyd lleol yw hwn' pan fyddwn yn gofyn i chi am benderfyniadau byrddau iechyd neu anweithgarwch sy'n ein poeni. Pan fyddwn yn codi pryderon am fyrddau iechyd lleol, mae angen i ni wybod eich bod yn eu clywed, a'ch bod yn monitro, yn gwerthuso ac yn plismona ymatebion y byrddau iechyd lleol i'r pryderon hynny.

What Francis is not recommending is a Government power grab. The deceit at trust level and poor communication at agency level in Mid Staffs are not a green light for more Government power here, just better Government. One of the disconcerting developments in this Assembly has been the drawing back into direct Government control roles that have been carried out by third parties. The functions of the Welsh Language Commissioner and, possibly, the functions of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales are just two live examples. As Jenny Rathbone said, we need to maintain scrutiny by independent outsiders to make sure that matters improve. The report itself recommends that each organisation looks at itself and decides how to apply the recommendations. It says that effective local monitoring—and we can include provision here in Wales—means that,

Yr hyn nad yw Francis yn ei argymell yw y dylai'r Llywodraeth gipio grym. Nid yw'r twyll ar lefel ymddiriedolaeth na'r cyfathrebu gwael ar lefel asiantaeth yng Nghanol Swydd Stafford yn rhoi golau gwyrdd i fwy o rym i'r Llywodraeth yma, dim ond gwell Llywodraeth. Un o'r datblygiadau sy'n peri anesmwythyd yn y Cynulliad hwn yw tynnu rolau sydd wedi bod yn cael eu cyflawni gan drydydd parti yn ôl i reolaeth uniongyrchol y Llywodraeth. Mae swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg ac, o bosibl, swyddogaethau Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn ddwy enghraifft fyw o hynny. Fel y dywedodd Jenny Rathbone, mae angen i ni gynnal gwaith craffu gan bobl annibynnol o'r tu allan i wneud yn siŵr bod pethau'n gwella. Mae'r adroddiad ei hun yn argymell bod pob sefydliad yn edrych arno'i hun ac yn penderfynu sut i gymhwyso'r argymhellion. Mae'n dweud bod monitro effeithiol yn lleol—a gallwn gynnwys darpariaeth yma yng Nghymru—yn golygu,

'cohesion and unity of culture throughout the healthcare system…will not be brought about by yet further "top down" pronouncements but by engagement of every single person serving patients'.

na fydd cydlyniant ac undod diwylliant ar draws y system gofal iechyd ... yn dod yn sgil mwy fyth o ddatganiadau "o'r brig i lawr", ond trwy ymgysylltu â phob unigolyn sy'n gwasanaethu cleifion.

Francis is clear that policing standards,

Mae Francis yn glir nad yw plismona safonau,

'is not confined to one method applied by a single organisation, but is undertaken in as many different ways as possible…all working to a common set of values, standards and priorities.'

wedi ei gyfyngu i un dull a ddefnyddir gan un sefydliad, ond ei fod yn digwydd mewn cynifer o wahanol ffyrdd ag sy'n bosibl ... i gyd yn gweithio'n unol â set gyffredin o werthoedd, safonau a blaenoriaethau.

As Welsh Conservatives, we support localism, but, as Francis also says,

Fel Ceidwadwyr Cymreig, rydym yn cefnogi lleoliaeth, ond, fel y mae Francis hefyd yn ei ddweud,

'It does not prejudice local involvement in the development and maintenance of the local healthcare system for there to be consistency throughout the country'.

Nid yw cysondeb ledled y wlad yn amharu ar gyfranogiad lleol wrth ddatblygu a chynnal y system gofal iechyd yn lleol.

This is where ministerial leadership comes in and where we can up our game, and that is what we will be looking for.

Dyna lle daw arweiniad gweinidogol yn bwysig a lle y gallwn gynyddu'n hymdrechion, a dyna beth y byddwn yn chwilio amdano.

17:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:56

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank Members for their contributions, which I will address first. Several Members, starting with Elin Jones, said that we should not be complacent. I think that Aled Roberts used the word 'self-satisfied'. I can assure Members that I am not complacent or self-satisfied. I know that there are lessons that we can learn.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Byddaf yn ymdrin â'r rheiny yn gyntaf. Dywedodd sawl Aelod, gan ddechrau ag Elin Jones, na ddylem fod yn hunanfoddhaus. Credaf fod Aled Roberts wedi defnyddio'r gair 'hunanfodlon'. Gallaf sicrhau Aelodau nad wyf yn hunanfoddhaus nac yn hunanfodlon. Rwy'n gwybod bod gwersi y gallwn eu dysgu.

For me, Francis reinforced the need for safe, sustainable services. I am determined to modernise the NHS in Wales, but it is also very important for me that we stick to Bevan's principles and we do not go down the privatised, fragmented way of the NHS in England. Elin also referred to information. It is really important that the right information goes to the right person at the right time. That is one of the reasons why I believe that NHS informatics are so important. You referred to the task group, and I will certainly look at the concept of 'mylocalhospital'. I will ask Dr Chris Jones to look at that.

I mi, roedd Francis yn atgyfnerthu'r angen am wasanaethau diogel, cynaliadwy. Rwyf yn benderfynol o foderneiddio'r GIG yng Nghymru, ond mae hefyd yn bwysig iawn i mi ein bod yn cadw at egwyddorion Bevan ac nad ydym yn mynd i lawr llwybr tameidiog darpariaeth breifat y GIG yn Lloegr. Cyfeiriodd Elin hefyd at wybodaeth. Mae'n wirioneddol bwysig fod y wybodaeth iawn yn mynd at y person iawn ar yr adeg iawn. Dyna un o'r rhesymau pam yr wyf yn credu bod hysbyseg y GIG mor bwysig. Soniasoch am y tasglu, a byddaf yn sicr yn edrych ar gysyniad 'fyYsbytylleol'. Byddaf yn gofyn i Dr Chris Jones edrych ar hynny.

Darren, yes, we do have a different system, but again I agree that we are not immune. However, in Wales, we have the building blocks that are not there in England, such as 1000 Lives and 1000 Lives Plus. In my opening remarks, I mentioned my visit to Morriston Hospital and the excellent work done there to more or less eliminate pressure sores. So, we do have the right building blocks in place.

Darren, oes, mae gennym system wahanol, ond eto, rwy'n cytuno nad ydym yn rhydd rhag y peryglon. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae gennym flociau adeiladu nad ydynt yno yn Lloegr, megis 1000 o Fywydau a Mwy. Yn fy sylwadau agoriadol, soniais am fy ymweliad ag Ysbyty Treforys a'r gwaith rhagorol a wneir yno i ddileu briwiau pwyso i bob pwrpas. Felly, mae gennym y blociau adeiladu cywir yn eu lle.

We have to consider the recommendations of Francis carefully, but I was disappointed that there were 290 recommendations; I think, personally, that that is far too many, but we have to look at them. Please be assured that I am taking them very seriously. You referred to healthcare workers. If they are regulated, that would be a matter for the UK Government; it is a non-devolved issue. However, we are looking at social care workers and, within the private sector, there is a great deal of work going on to professionalise social care workers.

Mae'n rhaid i ni ystyried argymhellion Francis yn ofalus, ond roeddwn yn siomedig fod 290 o argymhellion; rwyf o'r farn, yn bersonol, fod hynny'n ormod o lawer, ond mae'n rhaid i ni edrych arnynt. Gallaf eich sicrhau fy mod yn eu hystyried o ddifrif iawn. Soniasoch am weithwyr gofal iechyd. Pe baent yn cael eu rheoleiddio, byddai hynny'n fater i Lywodraeth y DU; mae'n fater sydd heb ei ddatganoli. Fodd bynnag, rydym yn edrych ar weithwyr gofal cymdeithasol ac, o fewn y sector preifat, mae llawer iawn o waith yn mynd rhagddo i broffesiynoli gweithwyr gofal cymdeithasol.

17:58 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I notice, Minister, that one of the recommendations in the report on CHCs is to encourage and promote their advocacy work on behalf of complainants in the NHS. Is that something that you would like to see being enhanced as one of the outcomes from Francis?

Sylwaf, Weinidog, mai un o'r argymhellion yn yr adroddiad ar Gynghorau Iechyd Cymuned yw y dylid annog a hyrwyddo eu gwaith eiriolaeth ar ran yr achwynwyr yn y GIG. A yw hynny'n rhywbeth y byddech yn hoffi ei weld yn cael ei wella fel un o ganlyniadau Francis?

17:58 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are looking at the recommendations. I will come to the CHCs in a moment. To go back to social care workers, there is a great deal of work being done within the private sector; the launch of the Academy of Care Practitioners is something that the Deputy Minister and I both supported.

Rydym yn edrych ar yr argymhellion. Byddaf yn dod at y Cynghorau Iechyd Cymuned yn y man. I fynd yn ôl at weithwyr gofal cymdeithasol, mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud o fewn y sector preifat; roedd lansio Academi'r Ymarferwyr Gofal yn rhywbeth yr oedd y Dirprwy Weinidog a minnau yn ei gefnogi.

Several Members referred to staffing levels. A great deal of work is being undertaken by the chief nursing officer. I mentioned acuity tools. It is about making sure that, for the patient in that bed at that time, the skills are appropriate.

Cyfeiriodd sawl Aelod at lefelau staffio. Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud gan y prif swyddog nyrsio. Soniais am becynnau craffu. Mae'n ymwneud â gwneud yn siŵr, ar gyfer y claf yn y gwely hwnnw ar yr adeg honno, fod y sgiliau'n briodol.

Aled Roberts referred to protecting people who see wrongdoing. Certainly, I want to promote an open and transparent culture in the NHS. I do not want people to have to resort to whistleblowing. I met with the new chief executive of Health Inspectorate Wales, Kate Chamberlain, last week and we talked through some of the issues that you mentioned that are of concern. You also mentioned the guidelines, the practices and their interpretation. That is something that I have asked officials to look at. Many of the points that you raised, Aled, are the reasons why we need to support service reconfiguration. Again, you mentioned social services and the social care sector. Indeed, it is not just in hospitals where we have to ensure that we have a very high-quality service. If you think about it, 90% of healthcare visits take place in the community, so it is really important that we have that oversight of all services.

Cyfeiriodd Aled Roberts at amddiffyn pobl sy'n gweld camwedd. Yn sicr, rwyf am hyrwyddo diwylliant agored a thryloyw yn y GIG. Nid wyf am i bobl orfod troi at chwythu'r chwiban. Cwrddais â phrif weithredwr newydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Kate Chamberlain, yr wythnos diwethaf a buom yn trafod rhai o'r materion a grybwyllwyd gennych sy'n peri pryder. Soniasoch hefyd am y canllawiau, yr arferion a'u dehongliad. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi gofyn i swyddogion edrych arno. Mae nifer o'r pwyntiau a godwyd gennych, Aled, yn rhesymau pam y mae angen i ni gefnogi ad-drefnu gwasanaethau. Unwaith eto, soniasoch am y gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gofal cymdeithasol. Yn wir, nid dim ond mewn ysbytai y mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym wasanaeth o ansawdd uchel iawn. Os meddyliwch am y peth, mae 90% o ymweliadau gofal iechyd yn digwydd yn y gymuned, felly mae'n bwysig iawn ein bod yn sicrhau'r oruchwyliaeth honno ar yr holl wasanaethau.

Jenny Rathbone referred to the fact that, sadly, mistakes sometimes happen. When you have humans treating humans, that happens. However, how those mistakes are responded to, and the lessons we learn, are really important. You mentioned the role of trade unions, which is again very important. I go back to what I said to Aled Roberts: it is really important that it is not just about whistleblowers; we want an open and transparent culture. You also referred to community health councils. Members will be aware that I have just had a review of CHCs. As this debate has been under way, the analysis of the responses has been published. Francis clearly acknowledged in his report the weaknesses with regard to ensuring the effective representation of the patient's voice following the abolition of community health councils in England.

Cyfeiriodd Jenny Rathbone at y ffaith fod camgymeriadau weithiau'n digwydd, yn anffodus. Pan fydd pobl yn trin pobl, mae hynny'n digwydd. Fodd bynnag, mae'r ffordd yr ymatebir i'r camgymeriadau hynny, a'r gwersi a ddysgwn, yn bwysig iawn. Soniasoch am rôl yr undebau llafur, sydd eto'n bwysig iawn. I fynd yn ôl at yr hyn a ddywedais wrth Aled Roberts: mae'n wirioneddol bwysig nad yw'n ymwneud â phobl sy'n chwythu'r chwiban yn unig; rydym am greu diwylliant agored a thryloyw. Soniasoch hefyd am gynghorau iechyd cymuned. Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod newydd gael adolygiad o Gynghorau Iechyd Cymuned. Wrth i'r ddadl hon fynd rhagddi, mae'r dadansoddiad o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi. Mae Francis yn amlwg yn cydnabod yn ei adroddiad wendidau o ran sicrhau cynrychiolaeth effeithiol i lais y claf yn sgil diddymu cynghorau iechyd cymuned yn Lloegr.

Suzy Davies referred to the effectiveness of checks and balances. I recently published 'Safe Care, Compassionate Care', which sets out very clearly the national governance framework to enable high-quality care in Wales. It very clearly describes roles and responsibilities and what needs to take place to ensure good, safe care.

Cyfeiriodd Suzy Davies at effeithiolrwydd gwiriadau a balansau. Cyhoeddais 'Gofal Diogel, Gofal Tosturiol' yn ddiweddar, sy'n nodi'n glir iawn y fframwaith llywodraethu cenedlaethol i alluogi gofal o ansawdd uchel yng Nghymru. Mae'n disgrifio rolau a chyfrifoldebau'n glir iawn, a'r hyn sy'n gorfod digwydd er mwyn sicrhau gofal da, diogel.

You said that you support localism, but then you contradicted yourself. However, a great many of the issues are for the health boards. I provide the strategy and the policies, and they are very closely monitored by officials. The Francis report, ultimately, is about doing the right thing. As we head towards the year-end, I have made it very clear to boards that their duty is not just to balance the books, but to demonstrate that they have used every penny of their budgets to care for their population in the most effective way.

Dywedasoch eich bod yn cefnogi lleoliaeth, ond wedyn aethoch ymlaen i'ch gwrth-ddweud eich hunan. Fodd bynnag, mae llawer iawn o'r materion hyn yn faterion i'r byrddau iechyd. Rwy'n darparu'r strategaeth a'r polisïau, ac maent yn cael eu monitro'n agos iawn gan swyddogion. Mae adroddiad Francis, yn y bôn, yn ymwneud â gwneud y peth iawn. Wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn, rwyf wedi dweud yn glir iawn wrth fyrddau nad mantoli'r cyfrifon yw eu hunig ddyletswydd, ond dangos eu bod wedi defnyddio pob ceiniog o'u cyllidebau i ofalu am eu poblogaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol .

We know that finances are tight, but sometimes it is all too easy to hide behind finance or argue the lack of it. I know that it is tough; it is very tough, and it does mean making difficult decisions, it means knowing your limitations and it means understanding—

Rydym yn gwybod bod cyllid yn dynn, ond weithiau mae'n rhy hawdd cuddio y tu ôl i gyllid neu ddadlau am ei ddiffyg. Rwy'n gwybod ei bod yn anodd; mae'n anodd iawn, ac mae'n golygu gwneud penderfyniadau anodd, mae'n golygu gwybod ymhle y mae eich ffiniau ac mae'n golygu deall—

18:02 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Will you take an intervention, Minister?

A wnewch chi dderbyn ymyriad, Weinidog?

18:02 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, not another one.

Na wnaf, nid un arall.

It means understanding when other organisations are better equipped to provide some services. This is where we all have a part to play. We cannot complain on the one hand about poor standards of care and then, on the other, resist all efforts to make change, to drive forward improvements and ensure safe, sustainable services. As Robert Francis himself has said, change does not have to wait for the Government to tell you what to do. I have made it very clear to my chairs that I expect them to grasp this leadership challenge. You can tell when you walk onto a ward—I am sure that we will all agree—what the leadership is like. Wards have a completely different affect when there is good, strong leadership.

Mae'n golygu deall pan fydd sefydliadau eraill mewn gwell sefyllfa i ddarparu rhai gwasanaethau. Dyma lle mae gennym i gyd ran i'w chwarae. Ni allwn gwyno ar y naill law ynghylch safonau gofal gwael ac yna, ar y llaw arall, wrthsefyll pob ymdrech i sicrhau newid, i yrru gwelliannau ymlaen a sicrhau gwasanaethau diogel, cynaliadwy. Fel y mae Robert Francis ei hun wedi dweud, nid oes raid i newid aros i'r Llywodraeth ddweud wrthych beth i'w wneud. Rwyf wedi dweud yn glir iawn wrth fy nghadeiryddion fy mod yn disgwyl iddynt ddeall yr her hon o ran arwain. Gallwch ddweud pan fyddwch yn cerdded i mewn i ward—rwy'n siŵr y byddwn i gyd yn cytuno—sut arweinyddiaeth sydd yno. Mae wardiau yn cael effaith hollol wahanol pan fydd yno arweinyddiaeth dda, gref.

Everyone at every level can make a real difference. My message to all NHS staff is just that. Every single act of kindness, however small, makes a big difference. I want every member of staff, right across NHS Wales, to feel very proud of their achievements and contribution. Much of what Francis says requires no waiting to be told what to do, no legislation, just a change in attitude and a belief that it is very easy to make a very positive difference. Francis presents all of us with an opportunity to reflect on where we are and what we need to do better. I look forward to presenting a full response to Francis before the summer recess.

Gall pawb ar bob lefel wneud gwahaniaeth go iawn. Dyna'n union yw fy neges i holl staff y GIG. Mae pob un weithred o garedigrwydd, waeth pa mor fach, yn gwneud gwahaniaeth mawr. Rwyf am i bob aelod o staff, ar draws GIG Cymru, deimlo'n falch iawn o'u cyflawniadau a'u cyfraniad. Mae llawer o'r hyn y mae Francis yn ei ddweud yn golygu nad oes raid aros i gael gwybod beth i'w wneud, nad oes angen deddfwriaeth, dim ond newid agwedd a chredu ei bod yn hawdd iawn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iawn. Mae Francis yn rhoi cyfle i ni i gyd i fyfyrio ar ble'r ydym ac ar yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn well. Edrychaf ymlaen at gyflwyno ymateb llawn i Francis cyn toriad yr haf.

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time, which follows this item.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio, sy'n dilyn yr eitem hon.

Before I proceed with the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Cyn i mi fwrw ymlaen â'r bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleiso.*

*Voting deferred until voting time.*

## Cynfod Pleidleisio

## Voting time

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5182.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5182.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 18, Against 29, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5182.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5182.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 22, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 22, Against 25, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5182.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5182.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 22, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 22, Against 25, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5182.

Result of the vote on amendment 4 to motion NNDM5182.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 32, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 32, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5182.

Result of the vote on amendment 5 to motion NNDM5182.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 22, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 22, Against 25, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5182.

Result of the vote on amendment 6 to motion NNDM5182.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnig NDM5182.

Result of the vote on amendment 7 to motion NNDM5182.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 22, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 22, Against 25, Abstain 0.*

Cynnig NDM5182 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5182 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r argymhellion a wnaed yn adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford ac y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio Ymchwiliad Francis i helpu i ddod o hyd i ffordd well eto o ddarparu gofal diogel a thosturiol yng Nghymru.

1. Notes the recommendations made within the final report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry and that the Welsh Government will use the Francis Inquiry to help identify how it can further improve the delivery of safe and compassionate care in Wales.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llawn o Hanfodion Gofal 2003 i sicrhau bod y safonau'n parhau i adlewyrchu arfer gorau o ran gofal o fewn GIG Cymru fel y'i nodwyd gan y rhai sydd angen gofal, gofalwyr a staff.

2. Calls on the Welsh Government to fully review the Fundamentals of Care 2003 to ensure that the standards continue to reflect best practice in care within NHS Wales as identified by those requiring care, carers and staff.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5182 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5182 as amended.

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion as amended agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.*

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.06 p.m.*

*The meeting ended at 6.06 p.m.*

## Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013

*Derbyniwyd y cynnig*

## Official Statistics (Wales) Order 2013

*Motion agreed.*